

RHYBUDD O GYFARFOD



Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Emyr Williams

Prif Weithredwr

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Penrhyndeudraeth

Gwynedd LL48 6LF

Ffôn: (01766) 770274

E.bost: parc@eryri.llyw.cymru

Cyfarfod: Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau

Dyddiad: Dydd Mercher 12 Gorffennaf 2023

Amser: 10.00 y.b.

Man Cyfarfod: Ystafell yr Oakeley, Plas Tan y
Bwlch, Maentwrog a thrwy Zoom

***Gofynnir i'r Aelodau ymuno â'r cyfarfod 15 munud cyn yr amser
cychwyn dynodedig***

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Gwynedd

*Y Cyngorydd: Elwyn Edwards, Annwen Hughes, Louise Hughes, June Jones,
Kim Jones, Edgar Wyn Owen, Elfed Powell Roberts, John Pughe Roberts,
Meryl Roberts;*

Aelodau wedi'u penodi gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Y Cyngorydd: Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Aelodau wedi'u penodi gan Llywodraeth Cymru

*Mr. Brian Angell, Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones,
Ms. Naomi Luhde-Thompson, Ms. Delyth Lloyd.*

R H A G L E N

Rhifau Tudalen

- 1.* **Cadeirydd**
Ethol Cadeirydd y Pwyllgor.
- 2.* **Is-gadeirydd**
Ethol Is Gadeirydd y Pwyllgor.
3. **Ymddiheuriadau**
Derbyn ymddiheuriadau gan yr Aelodau.
4. **Datgan diddordeb**
Derbyn datganiadau diddordeb gan yr Aelodau neu swyddogion mewn perthynas ag unrhyw eitem.
5. **Cofnodion**
Bydd y Cadeirydd yn cynnig fod cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023 yn cael eu harwyddo fel cofnod cywir (copi yma) a derbyn y materion sy'n codi, er gwybodaeth. 4 - 7
6. **Taflen Gweithredu**
Cyflwyno'r Daflen Gweithredu er gwybodaeth a phenderfyniad. (Copi yma) 8
7. **Adroddiad Incwm – Archwilio Cymru**
Cyflwyno adroddiad gan Archwilio Cymru. (Copi yma) 9 - 43
8. **Adroddiad Aildro Refeniw a Chyfalaf 2022/23**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Swyddog Cyllid. (Copi yma) 44 - 62
9. **Prosiectau Cyllid Grant Allanol, Adroddiad Diweddarau**
Cyflwyno adroddiad gan y Prif Weithredwr. (Copi yma) 63 - 74
10. **Proffil Risg yr Awdurdod**
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma) 75 - 85
11. **Rhaglen Waith Corfforaethol 2022/23**
Diweddariad Terfynol ar yr Amcanion Llesiant ar gyfer 2022-23
Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol. (Copi yma) 86 - 130
12. **Adroddiad Monitro Cwynion**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer. (Copi yma) 131 - 133
13. **Datganiad Polisi Tâl 2023-24 ac Adroddiad Blynyddol Polisi Tâl 2022-23**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol. (Copi yma) 134 - 139
14. **Holiadur Staff**
Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Adnoddau Dynol. (Copi yma) 140 - 183

- | | | |
|-----|--|------------------|
| 15. | Strategaeth Hamdden (Drafft)
Cyflwyno adroddiad gan y Rheolwr Mynediad a Llesiant. (Copi yma) | 184 - 242 |
| 16. | Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Llesiant 2022
Cyflwyno adroddiad gan y Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant. (Copi yma) | 243 - 270 |
| 17. | Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch
Cyflwyno cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 22 Mawrth 2023. (Copi yma) | 271 - 273 |

* Tynnir eich sylw at orchymyn sefydlog 5.8 sy'n datgan "Ni fydd unrhyw Aelod yn gwasanaethu fel Cadeirydd neu Is Gadeirydd mwy nac un Pwyllgor".

**PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU
DYDD MERCHER 22^{ain} MAWRTH 2023**

Cynghorydd Elfed Powell Roberts (Gwynedd) (Cadeirydd)

PRESENNOL:

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Gwynedd

Cynghorwyr Elwyn Edwards, Annwen Hughes, June Jones, Kim Jones, Edgar Wyn Owen, John Pughe Roberts, Meryl Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

Cynghorwyr Ifor Glyn Lloyd, Jo Nuttall, Dilwyn Owain Roberts;

Aelodau a benodwyd gan Lywodraeth Cymru

Ms. Tracey Evans, Mrs. Sarah Hattle, Mr. Tim Jones, Ms Delyth Lloyd;

Swyddogion

Mr. E. Williams, Mr. G.I. Jones, Mr. J. Cawley, Mr. D. Edwards, Ms. B. Hughes, Mr. D. Williams, Ms. H. Pye, Mrs. A. Gaffey;

Yn bresennol

Mrs. Sharon Warnes, Vice Chair Standards Committee.

Ymddiheuriadau

Cynghorydd Louise Hughes; Mr. Brian Angell, Ms. Naomi Luhde-Thompson.

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei recordio i helpu i wirio'r cofnodion ac y byddent ar gael ar-lein yn ddiweddarach.

1. **Cyhoeddiadau y Cadeirydd**

Croesawodd y Cadeirydd Mrs. Sharon Warnes, Is-Gadeirydd y Pwyllgor Safonau i'r cyfarfod i arsylwi.

2. **Datganiad o Ddiddordeb**

Ni ddatganwyd unrhyw Ddiddordeb Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.

3. **Cofnodion**

Derbyniwyd cofnodion y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2022 ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel rhai cywir.

4. **Log Gweithredu**

Cyflwynwyd – Log gweithredu strategol yn deillio o benderfyniadau a wnaed yn ystod cyfarfodydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau, er gwybodaeth a gweithredu.

Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau 24.11.21

- Eitem Gweithredu 9 – Strategaeth ar gyfer Hyrwyddo'r Gymraeg 2016-21: Asesu'r Canlyniad

Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Strategaeth Hybu'r Gymraeg yn cael ei hystyried heddiw (Eitem Rhif 7), ac os caiff ei chymeradwyo, gellid dileu'r cam gweithredu o'r Log Gweithredu.

PENDERFYNWYD nodi'r Log Gweithredu a dileu'r cam gweithredu fel yr amlinellwyd.

5. **2022/23 Diweddariad ar y Gyllideb**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Cyllid i hysbysu'r aelodau o drosglwyddiadau sylweddol o fewn cyllideb y flwyddyn ariannol gyfredol a rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar gynnydd yn erbyn y cyllidebau refeniw a chyfalaf.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Cyllid yr adroddiad, a oedd yn crynhoi'r cyllidebau refeniw a chyfalaf diwygiedig ar gyfer unarddeg mis cyntaf 2022/23 ac yn rhoi rhagamcan o sefyllfa'r Awdurdod ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

Yn codi wedi hynny, manteisiodd y Prif Swyddog Cyllid ar y cyfle i ddiolch i David Williams am ei waith ac am ei barodrydd i gamu i mewn i gynorthwyo'r Awdurdod yn ystod absenoldeb mamolaeth y Pennaeth Cyllid. Nododd y Prif Swyddog Cyllid, er y gallai'r ffigurau newid erbyn diwedd y flwyddyn, ei fod yn fodlon gyda'r rhagamcan terfynol ar gyfer 2022/23.

- Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-
 - mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd y Prif Weithredwr fod gan Yr Ysgwrn Gynllun Busnes 3 blynedd ar hyn o bryd. Nododd er bod y dull adrodd presennol yn aneglur, byddai'r llinell sylfaen yn cael ei haddasu i gofnodi'r sefyllfa wirioneddol. Dywedodd fod gan Yr Ysgwrn hefyd gronfeydd wrth gefn a oedd wedi cronni yn dilyn llwyddiant yr ychydig flynyddoedd cyntaf o weithredu a bod gan y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol gynlluniau ar gyfer y dyfodol, a fydd yn cael eu cyflwyno i'r Aelodau fel rhan o Adroddiad Blynyddol Yr Ysgwrn ym mis Mehefin.
 - yn codi wedi hynny, dywedodd y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir fod yr erthygl yn y wasg wedi bod yn gamarweiniol a bod ffigurau incwm diweddar wedi codi'n sylweddol. Hefyd, roedd y Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol wedi rhoi cyfweiliad ardderchog i'r BBC i egluro unrhyw gamsyniadau ynghylch Yr Ysgwrn.
 - gofynnodd y Pennaeth Ymgysylltu i'r Aelodau gyfeirio unrhyw geisiadau gan y cyfryngau at y Tîm Cyfathrebu a oedd, y tro hwn, wedi gallu cywiro'r camddealltwriaeth a'r camddechongliad o Broffil Risg yr Awdurdod.
 - nododd yr Aelodau bryderon nad oedd Plas Tan y Bwlch yn gallu denu mwy o fusnes o'i gymharu â sefydliadau tebyg yn yr ardal. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch yn cyfarfod ar gynnydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau i drafod opsiynau ar gyfer y dyfodol.
 - dywedodd y Prif Weithredwr, er y byddai'r setliad grant gan Lywodraeth Cymru yn aros yn sefydlog dros y tair blynedd nesaf, y gallai gadarnhau, yn ychwanegol at y £200k y cyfeiriwyd ato ym mhara. 1.7 o'r adroddiad, roedd yr Awdurdod newydd dderbyn £300k pellach, heb amodau, a fydd ar gael i fynd i'r afael â heriau ariannol yn 2023/24.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.

6. **Proffil Risg yr Awdurdod**

Cyflwynwyd – Adroddiad gan Gyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol i ddiweddarau'r Aelodau ar Broffil Risg yr Awdurdod.

Adroddwyd – Cyflwynodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad a'r proffil risg ac amlinellodd y prif newidiadau i'r gofrestr.

Yn codi wedi hynny,

Cyfeirnod Risg 2 Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch), a
Cyfeirnod Risg 17 Sicrhau dyfodol hirdymor Plas Tan y Bwlch

Mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Plas Tan y Bwlch wedi'i rannu'n ddau risg o fewn y gofrestr (cyfeirnod risg 2 a

chyfeirnod risg 17). Hefyd, cytunodd y Prif Weithredwr i edrych ar ymestyn Strategaeth Adfer ar ôl Trychineb yr Awdurdod i gynnwys bygythiadau o ddiwyddiadau megis clwy'r traed a'r genau, pandemig fflw ac ati.

PENDERFYNWYD

- 1. nodi'r adroddiad a'r Gofrestr Risg.**
- 2. cymeradwyo dileu Cyfeirnod Risg 13: Effaith y Coronafeirws (Covid-19) ar y Parc Cenedlaethol ac ar waith yr Awdurdod o'r Gofrestr Risg.**

7. Strategaeth Hybu'r Gymraeg

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i gymeradwyo fersiwn terfynol Strategaeth Hyrwyddo'r Gymraeg ar gyfer 2022-27.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad a'r strategaeth a diolchodd i'r Grŵp Llywio am eu gwaith.

Mewn ymateb i gwestiwn, cytunodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i ddiwygio'r defnydd o 'normaleiddio' fel cyfieithiad i'r gair Cymraeg 'sefydlu' ar dudalen 19 o'r Strategaeth.

PENDERFYNWYD

- 1. i nodi'r adroddiad.**
- 2. yn ddarostyngedig i nodi'r newid uchod, cymeradwyo Strategaeth Hybu'r Gymraeg fel y'i cyflwynwyd, ac awdurdodi'r Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer i gyhoeddi'r Strategaeth ar wefan yr Awdurdod.**

8. Rhyddid Gwybodaeth

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer ar geisiadau gwybodaeth a dderbyniwyd gan yr Awdurdod o dan Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gweinyddol a Gofal Cwsmer yr adroddiad, er gwybodaeth.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad.

9. Adroddiad Blynyddol ar gyfer Blwyddyn 2022: Dangosyddion Perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu

Cyflwynwyd – Adroddiad gan y Pennaeth Ymgysylltu, ynghyd ag adroddiad blynyddol ar ddangosyddion perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu a chynnydd ar y cynllun gweithredu.

Adroddwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Ymgysylltu yr adroddiad, y cefndir ac Adroddiad Cynnydd 2022 yn fanwl. Nododd yr Aelodau y byddai'r Awdurdod yn camu'n ôl o ddatblygu'r plattform Tik-Tok y cyfeiriwyd ato yn y strategaeth a argymhellir ar gyfer 2023.

Rhoddodd yr Aelodau ystyriaeth i'r adroddiad a'r strategaeth a gwnaethant y sylwadau a ganlyn:-

- diolchodd y Cadeirydd, ar ran yr Aelodau, i'r Tîm Ymgysylltu am eu gwaith.
- mewn ymateb i gais, nododd y Pennaeth Ymgysylltu y cyfle i ddisgyblion ysgolion uwchradd yng Nghonwy a Gwynedd gymryd rhan mewn gwaith gwirfoddol a hefyd i annog disgyblion 6ed dosbarth i ddod yn aelodau o'r Cynllun Llysgenhadon.

- Trafododd yr Aelodau gyfleoedd marchnata ar gyfer Yr Ysgwrn a Phlas Tan y Bwlch a'r opsiynau ar gyfer denu cynulleidfaoedd mwy yn y dyfodol.
- Bu Aelodau a Swyddogion yn trafod rôl cyfryngau cymdeithasol yn y dyfodol a sut roedd yr Awdurdod wedi elwa yn ystod cyfnod clo Covid. Cytunodd yr Aelodau fod cyfathrebu effeithlon hefyd wedi chwarae rhan fawr wrth sefydlu rhagdaliad maes parcio ym Mhen y Pass.
- croesawodd Aelod lefel yr ymgysylltu a oedd yn deillio o benderfyniad yr Awdurdod i ddefnyddio'r enwau Cymraeg Yr Wyddfa ac Eryri.

**PENDERFYNWYD nodi'r Adroddiad Blynyddol ar gyfer Blwyddyn 2022:
Dangosyddion Perfformiad y Strategaeth Cyfathrebu ac Ymgysylltu.**

10. Cofnodion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch

Cyflwynwyd – Cofnodion cyfarfodydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd 2022 ac 8 Chwefror 2023.

Cyflwynodd Cadeirydd Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch y cofnodion a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y Camau Gweithredu. Dywedodd ymhellach fod Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn cyfarfod ar gynnydd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau heddiw, ac y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau ym mis Ebrill 2023.

PENDERFYNWYD nodi'r cofnodion, er gwybodaeth.

11. Adroddiad Cyfarfod y Grŵp Rheoli Asedau

Cyflwynwyd – Adroddiad cyfarfod y Grŵp Rheoli Asedau a gynhaliwyd ar 30 Tachwedd 2022.

Cyflwynodd Cadeirydd y Grŵp Rheoli Asedau yr adroddiad a rhoddodd y wybodaeth ddiweddaraf i'r Aelodau ar y Cynllun Rheoli Asedau.

Yn codi wedi hynny, ac mewn ymateb i gwestiwn, eglurodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol pam nad oedd Plas Tan y Bwlch yn caniatáu arosiadau un noson, ond cytunodd y gellid ailystyried hyn yn y dyfodol.

PENDERFYNWYD nodi'r adroddiad, er gwybodaeth.

Daeth y cyfarfod i ben am 11.15



TAFLEN WEITHREDU – ACTION SHEET

PWYLLGOR PERFFORMIAD AC ADNODDAU – 14.07.2021

EITEM RHIF. A THEITL	PENDERFYNIADAU / ARSYLWADAU	GWEITHREDIADAU	SWYDDOG CYFRIFOL	DIWEDDARIAD neu DYDDIAD CWBLHAU	DILEU O'R DAFLEN WEITHREDU
9. Panel Craffu – Cyfrif Carbon Eryri	PENDERFYNWYD ailgyflwyno drafft cynnar o Strategaeth Carbon Isel Eryri i'r Panel Craffu yn ddiweddarach yn 2021 / dechrau 2022.	Y Cyfarwyddwr Rheoli Tir i goladu'r materion a drafodwyd i mewn i un Strategaeth Carbon Isel Eryri.	JC	Mae'r dyddiad targed ar gyfer Strategaeth Carbon Isel wedi'i wthio'n ôl. Mae hyn oherwydd pryderon swyddogion am gwmpas y gwaith a capasiti staff i'w gwblhau. Mae'r Awdurdod yn edrych ar gyfraniad cyrff eraill o fewn yr ardal, gan gynnwys Cyngor Conwy / Gwynedd a Chyfoeth Naturiol Cymru - gan gynnwys y potensial i weithio ar y cyd gyda nhw. Mi fydd casgliad yr ymholiadau yma yn cael eu bwydo yn ôl i'r Grŵp Aelodau ar ddiwedd mis Gorffennaf. Mae Cadeirydd y Grwp yn cytuno gyda'r angen i edrych ar opsiynau cyd-weithio ehangach.	NA

Arallgyfeirio Incwm – Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Blwyddyn archwilio: 2022-23

Dyddiad cyhoeddi: Mehefin 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3587A2023

Paratowyd y ddogfen hon at ddefnydd mewnol Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri fel rhan o waith a gyflawnir yn unol ag Adran 17 Deddf Archwilio Cyhoeddus (Cymru) 2004 ac Adran 15 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015.

Ni chymerir unrhyw gyfrifoldeb gan yr Archwilydd Cyffredinol na staff Archwilio Cymru mewn perthynas ag unrhyw aelod, cyfarwyddwr, swyddog na chyflogai arall yn eu cymhwyster unigol, nac mewn perthynas ag unrhyw drydydd parti.

Os derbynir cais am wybodaeth y gallai'r ddogfen hon fod yn berthnasol iddi, tynnir sylw at y Cod Ymarfer a gyhoeddwyd o dan adran 45 o Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth 2000.

Mae Cod adran 45 yn nodi'r arfer a ddisgwylir gan awdurdodau cyhoeddus wrth ymdrin â cheisiadau, gan gynnwys ymgynghori â thrydydd partiön perthnasol. Mewn perthynas â'r ddogfen hon, mae Archwilydd Cyffredinol Cymru ac Archwilio Cymru yn drydydd partiön perthnasol. Dylid anfon unrhyw ymholiadau ynglŷn â datgelu neu ailddefnyddio'r ddogfen hon i Archwilio Cymru yn swyddog.gwybodaeth@archwilio.cymru.

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg. Ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi. We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English. Corresponding in Welsh will not lead to delay.

This document is also available in English.

Cynnwys

Mae gan yr Awdurdod hanes cryf o godi arian a rheoli adnoddau. Mae angen i'r Awdurdod bennu gweledigaeth glir er mwyn mynd i'r afael â diffygion yn y gyllideb yn y dyfodol, i reoli asedau allweddol a sicrhau bod ei ddibenion statudol yn parhau i gael eu cyflawni.

Adroddiad cryno

Crynodeb 4

Adroddiad manwl

Rhan 1 – Arallgyfeirio incwm – y risgiau a'r heriau sy'n wynebu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol 7

Rhan 2 – Arallgyfeirio incwm yn Eryri 10

Rhan 3 – Arferion gorau wrth arallgyfeirio incwm 15

Atodiadau

Atodiad 1 – Rhestr wirio hunanasesu 17

Adroddiad cryno

Crynodeb

Yr hyn a adolygwyd gennym a pham

- 1 Fel rhan o raglen waith yr Archwilydd Cyffredinol ar gyfer 2022-23, adolygwyd sut mae Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri (yr Awdurdod) yn amrywio ei ffrydiau incwm i gefnogi'r gwaith o gyflawni ei gyfrifoldebau statudol.
- 2 Mae gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol ddau ddiben statudol o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995: gwarchod a gwella harddwch naturiol, bywyd gwylt a threftadaeth ddiwylliannol y Parciau Cenedlaethol; a hyrwyddo cyfleoedd i'r cyhoedd ddeall a mwynhau nodweddiad arbennig y Parc. Mae dyletswydd arnynt hefyd i geisio meithrin llesiant cymdeithasol ac economaidd y cymunedau lleol, ac felly chwarae rhan allweddol wrth annog datblygu cynaliadwy gwledig a chefnogi'r economi leol.
- 3 Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Cymru yn cael incwm drwy nifer o wahanol ddulliau. Mae Llywodraeth Cymru yn pennu lefel gymeradwy'r Awdurdod o wariant refeniw net ar gyfer y flwyddyn ac yn talu 75% o hyn mewn Grant Parc Cenedlaethol. Codir y 25% sy'n weddill drwy godi ardoll ar yr awdurdodau lleol cyfansoddol. Gellir cael rhagor o incwm o geisiadau am arian grant ychwanegol, gwerthu asedau, gweithgarwch masnachu, ffioedd, a llog o offerynnau ariannol.
- 4 Mae cyni wedi arwain at ostyngiad mewn termau real yn lefel Grant Parc Cenedlaethol Llywodraeth Cymru dros y blynyddoedd diwethaf, ac wedi hynny, y swm cymharol y gall ei godi drwy'r ardoll. Mae **Arddangosyn 1** yn dangos bod y duedd hon am barhau gyda'r dyraniad dros dro yn aros yn ei unfan am y ddwy flynedd nesaf. O ystyried chwyddiant, mae hyn yn cynrychioli toriad grant mewn termau real.

Arddangosyn 1: Grant Craidd Llywodraeth Cymru 2022-23 i 2024-25

Awdurdod Parc Cenedlaethol	2022-23 – Terfynol	2023-24 – Arfaethedig	2024-25 – Arfaethedig
Bannau Brycheiniog	£3.109 miliwn	£3.109 miliwn	£3.109 miliwn
Eryri	£4.120 miliwn	£4.120 miliwn	£4.120 miliwn
Arfordir Penfro	£3.249 miliwn	£3.249 miliwn	£3.249 miliwn
Cyfanswm	£10.479 miliwn	£10.479 miliwn	£10.479 miliwn

Ffynhonnell: Llywodraeth Cymru

- 5 O ganlyniad, ac o ganlyniad i'r gostyngiadau hyn, bydd Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn fwyfwy dibynnol ar ffynonellau cyllid eraill, gan gynnwys prosiectau a ariennir gan grantiau a ffrydiau incwm newydd. Mae Llywodraeth Cymru wedi annog y cyfeiriad hwn, gan nodi'n flaenorol ei disgwyliad y dylai

Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru gynyddu lefel y refeniw a gynhyrchir drwy weithgareddau masnachol priodol.¹ Fodd bynnag, mae adolygiadau diweddar gan Archwilio Cymru wedi canfod bod risgiau'n gysylltiedig i hyn². Er enghraifft, mae ffrydiau incwm newydd o ffynonellau cynyddol amrywiol yn rhoi pwysau ar swyddogion i'w rheoli, ac mae angen i systemau rheoli ariannol weithio'n effeithiol i fonitro gwariant o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

- 6 Mae'r Cynllun Ariannol Tymor Canolig a fabwysiadwyd ym mis Ebrill 2023 yn amlygu'r pwysau ariannol sy'n wynebu'r Awdurdod. Mae'n dangos dibyniaeth gynyddol ar gronfeydd ariannol wrth gefn i ychwanegu at ei gyllideb sylfaenol, yn rhannol oherwydd effaith chwyddiant. Er enghraifft, roedd y defnydd o gronfeydd ariannol wrth gefn yn cynrychioli 14% o gyllideb sylfaenol yr Awdurdod yn 2022-23. Mae'r gyfran hon wedi cynyddu i 34% yn 2023-24³.
- 7 Yn y pen draw, mae angen mwy o gadernid ariannol ar Awdurdodau Parciau Cenedlaethol i gyflawni'n effeithiol yn erbyn yr agenda uchelgeisiol a bennwyd gan Weinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru.⁴ Er mwyn gwneud hyn mae angen i Aelodau a swyddogion yr Awdurdod feddu ar y weledigaeth, y sgiliau a'r arbenigedd cywir i osod strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm. Ochr yn ochr â hyn, rhaid i drefniadau llywodraethu cadarn graffu'n briodol ac yn effeithiol er mwyn helpu i arfarnu risgiau a gwobrau unrhyw weithgarwch newydd arfaethedig.
- 8 Ceisiodd yr adolygiad hwn asesu a oedd gan yr Awdurdod y weledigaeth a'r systemau cywir ar waith i amrywio ei ffrydiau incwm, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu cynllunio, eu rheoli a'u cyflawni'n effeithiol heb beryglu ei allu i gyflawni ei ddibenion a'i ddyletswydd statudol.
- 9 Gwnaethom gynnal yr adolygiad yn ystod y cyfnod rhwng Tachwedd 2022 a Mawrth 2023.

Yr hyn a nodwyd gennym

- 10 Nod ein hadolygiad oedd ateb y cwestiwn: **A yw'r Awdurdod wedi gosod systemau effeithiol i ystyried a chymeradwyo a ddylai ddilyn cyfleoedd newydd i wneud y gorau o incwm a sut?** Gwnaethom ystyried hyn yng nghydestun y modd y mae'r Awdurdod yn cyflawni ei ddibenion statudol.

¹ Llywodraeth Cymru, Gorffennaf 2018, [Gwerthfawr a chydnerth – Blaenoriaethau ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol](#), Gorffennaf 2018

² Archwilio Cymru, [Gwasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri](#), Ebrill 2021

³ Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, [Cynllun Ariannol Canol Tymor Awdurdod: 2023-24 – 2026-27, Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri](#), Ebrill 2023

⁴ Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru, [Awdurdodau parciau cenedlaethol: llythyr cylch gwaith tymor y llywodraeth, Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru](#), Mai 2022

- 11 Yn Eryri, nodwyd gennym fod **gan yr Awdurdod hanes cryf o godi arian a rheoli adnoddau. Mae angen i'r Awdurdod bennu gweledigaeth glir er mwyn mynd i'r afael â diffygion yn y gyllideb yn y dyfodol, i reoli asedau allweddol a sicrhau bod ei ddibenion statudol yn parhau i gael eu cyflawni.**

Argymhellion

Arddangosyn 2: argymhellion

Mae'r tabl isod yn nodi'r argymhellion rydym wedi'u nodi yn dilyn yr adolygiad hwn.

Argymhellion

Dull strategol o arallgyfeirio incwm

- A1 Mae arallgyfeirio incwm yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael digon o gapasiti, y sgiliau cywir a systemau cadarn ond ystwyth i fod ar waith. Rydym yn argymhell bod yr Awdurdod:
- yn defnyddio ein hoffer hunanarfarnu (**Atodiad 1**) i nodi ei gryfderau a'i wendidau presennol, a datblygu strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm; a
 - fel rhan o'i strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm, yn gosod mesurau perfformiad CAMPUS a systemau llywodraethu priodol er mwyn sicrhau prosesau monitro a chraffu digonol ar gyflawni'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno sy'n deillio o'i hunanwerthusiad.

Plas Tan y Bwlch

- A2 Yn **Rhan 2** o'r adroddiad hwn, rydym yn tynnu sylw at heriau ariannol parhaus ym Mhlas Tan y Bwlch. Rydym yn argymhell bod yr Awdurdod yn adolygu ei fodel gweithredu ym Mhlas Tan y Bwlch i gynnal gwerthusiad cost a budd o'r cyfleuster er mwyn pennu ei strategaeth ar gyfer y safle yn y dyfodol, a hynny o fewn y 12 mis nesaf.

Adroddiad manwl

Rhan 1 – Arallgyfeirio incwm – y risgiau a'r heriau sy'n wynebu Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

- 12 Mae cynhyrchu incwm bob amser wedi bod yn rhan bwysig o weithrediad Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Er bod cyllid craidd ar gael ar gyfer y gweithgareddau o ddydd i ddydd, ynghyd â chyllid ardoll gan brif gynghorau, mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi denu cyllid ychwanegol i gyflawni prosiectau penodol ers tro. Fodd bynnag, mae cyfyngiadau cyllid dros y blynyddoedd diwethaf wedi arwain at newid mewn disgwyliadau, gyda chyrrff cyhoeddus angen cynhyrchu mwy o incwm yn uniongyrchol i barhau i gyflawni yn erbyn eu dibenion. Gall fod yn anodd sicrhau cydbwysedd, ac mae angen dull strategol cadarn ar Awdurdodau i gynhyrchu incwm o fewn fframwaith eu dyletswyddau craidd. Dyma rywbeth y mae llawer o gyrff cyhoeddus yn mynd i'r afael ag ef⁵.
- 13 Wrth benderfynu ar strategaeth arallgyfeirio incwm, mae'n rhaid i'r Awdurdod ystyried y ffordd orau o gydbwysu anghenion rhanddeiliaid lleol a chenedlaethol a'r sensitifrwydd o ymgymryd â mentrau amgen yn amgylchedd unigryw Parc Cenedlaethol. Mae angen ystyried y math o weithgaredd a ddilynir, a'r risgiau cysylltiedig yn ofalus. Mae **Arddangosyn 3** yn nodi'r continwmm risg ar gyfer cynhyrchu incwm.

Arddangosyn 3 – continwmm risg ar gyfer arallgyfeirio incwm gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol

Risg isel	Risg ganolig	Risg uchel
Cynigion am brosiectau a grantiau diffiniedig y mae gan Awdurdod y Parc Cenedlaethol hanes o'u sicrhau a'u cyflawni.	Sicrhau bod asedau a gwasanaethau cyfredol a ddefnyddir fel offeryn cynhyrchu incwm craidd yn adennill costau fel gofyniad sylfaenol a chynhyrchu gwarged lle bynnag y bo modd drwy, er enghraifft, leihau costau, codi taliadau, denu cwsmeriaid newydd a/neu beidio â darparu cymorthdaliadau.	Mynd i mewn i fentrau masnachol cwbl newydd mewn meysydd anhraddodiadol a allai fod yn cystadlu â rhanddeiliaid eraill yn y Parc Cenedlaethol.

Ffynhonnell: Archwilio Cymru

- 14 Yn draddodiadol, mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yng Nghymru wedi tueddu i ganolbwyntio ar eu ffrydiau incwm presennol yn hytrach nag archwilio

⁵ Archwilio Cymru, [Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol, Archwilio Cymru](#), Hydref 2020


cyfleoedd cwbl newydd i arallgyfeirio eu hincwm, gan gynnwys llwybrau masnachol newydd gyda lefelau uwch o risg. Mae parhau â'r dull traddodiadol hwn, yn ddo'i hun, yn mynd yn fwyfwy peryglus, gan ei fod yn dibynnu'n ormodol ar ffynhonnell incwm sy'n lleihau. Y tu hwnt i hyn, mae rhai opsiynau eraill y mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol yn eu dilyn, yn amrywio o ran y risgiau a gyflwynir ganddynt:

- mae dulliau risg isel yn golygu bod Awdurdodau'n buddsoddi adnoddau sylweddol er mwyn sicrhau cynigion sy'n cyfateb i gryfderau'r Awdurdodau, lle mae swyddogion yn meddu ar y sgiliau, y galluoedd a'r profiad i ymdrin â gweithgareddau cyfarwydd. Arweinir y rhain gan brosiectau lle mae'r Awdurdod wedi cyflawni lefel o lwyddiant yn flaenorol. Fel arfer mae cynigion ar gyfer symiau penodol o arian gydag amcanion clir. Mae rhai risgiau sy'n gysylltiedig â'r dull hwn yn cynnwys gorlwytho capasiti corfforaethol yr Awdurdod os na chaiff effaith ganlyniadol cyflawni prosiectau lluosog a ariennir gan grant ei hystyried yn briodol.
- gall dulliau risg ganolig gynnwys ystyried gwahanol weithgareddau, megis gwella perfformiad masnachol asedau presennol. Er enghraifft, gwneud y gorau o leoedd manwerthu mewn canolfannau gwybodaeth, neu gynyddu taliadau parcio ceir. Mae ystyriaethau sylfaenol ynghylch lefel gytunedig y cymhorthdal a fuddsoddir mewn asedau a gwasanaethau, a sut y caiff gwargedion eu hail-fuddsoddi yn allweddol i hyn.
- nodweddir ymagweddau risg uwch gan newid mwy sylfaenol i feysydd o weithgarwch masnachol sydd y tu allan i ffiniau traddodiadol yr Awdurdod. Daw risgiau o Awdurdodau sy'n fwy agored i ddirywiad yn y farchnad allanol, yn enwedig mewn cystadleuaeth â gweithrediadau masnachol preifat eraill yn y Parc. Mae'r llwybrau anhraddodiadol hyn yn debygol o gynnwys agweddau ar weithgarwch nad ydynt o fudd uniongyrchol i amcanion yr Awdurdod, felly maent yn dibynnu ar wneud elw sylweddol ar fuddsoddiad er mwyn helpu i ariannu gwaith ehangach yr Awdurdod.

15 Yr hyn sy'n allweddol i bob agwedd ar arallgyfeirio incwm yw dilyn opsiynau gyda'ch 'llygaid ar agor lled y pen' – gan gymryd risgiau wedi'u rheoli'n dda lle y bo'n briodol; bod yn barod i roi'r gorau iddi os nad yw rhywbeth yn gweithio, a chadw'n driw i'ch amcanion a'ch dibenion craidd. Mae ein hadroddiad ar Fasnacheiddio mewn Llywodraeth Leol⁶ yn nodi'r blociau adeiladu sylfaenol i gyrrff cyhoeddus wrth iddynt fwrw ymlaen â dull mwy amrywiol o gynhyrchu incwm. Mae adran nesaf yr adroddiad hwn wedi'i strwythuro o amgylch y blociau adeiladu hyn a grynhoir yn **Arddangosyn 4**.

⁶ Archwilio Cymru, [Masnacheiddio mewn Llywodraeth Leol, Archwilio Cymru](#), Hydref 2020

Arddangosyn 4 – blociau adeiladu allweddol arallgyfeirio incwm



Ffynhonnell: Archwilio Cymru

Rhan 2 – Arallgyfeirio Incwm yn Eryri

- 16 Adolygwyd y trefniadau yn yr Awdurdod gennym, gan edrych ar berfformiad presennol yn erbyn pob un o'r cwestiynau sylfaenol hyn wrth ystyried rheoli ffrydiau incwm presennol a ffrydiau incwm newydd. Nodir ein canfyddiadau allweddol isod.

Pennu gweledigaeth glir a dull strategol o arallgyfeirio incwm

- 17 Mae arallgyfeirio incwm yn Eryri wedi esblygu'n naturiol dros nifer o flynyddoedd. Mae'r Awdurdod yn canolbwyntio'n bennaf ar dynnu arian grant i lawr er mwyn cyflwyno mwy o weithgareddau i hyrwyddo a chyflawni'r dibenion craidd o fewn y Parc Cenedlaethol. Mae hyn yn rhannol oherwydd yr angen yn wyneb cyni, gyda'r Awdurdod yn cydnabod y gall gyflawni mwy i gefnogi nodweddion arbennig yr ardal drwy weithio mewn partneriaeth â chyrrff ariannu allanol.
- 18 Er ei fod yn rhan sefydledig o fodel gweithredu'r sefydliad erbyn hyn, ni chafodd y dull ariannu hwn erioed ei nodi'n strategol, ac mae'r pwyslais cynyddol ar gyflawni prosiectau a ariennir gan grantiau wedi cyflwyno rhai heriau capasiti nas rhagwelwyd yn y gorffennol⁷. Mewn ymateb i adroddiadau blaenorol Archwilio Cymru, mae'r Awdurdod wedi ceisio mynd i'r afael â hyn – er enghraifft, drwy ddatblygu ac ymgorffori'r defnydd o'i becyn cymorth rheoli prosiect.
- 19 Ychydig o flaenoriaeth sydd i dyfu incwm masnachol yn yr ystyr mwy traddodiadol ac archwilio ffyrdd eraill o gynhyrchu refeniw, er gwaethaf disgwyliadau Llywodraeth Cymru⁸. Er nad oes gan Eryri, fel Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill, yr un pwerau na rhyddid masnachol ag awdurdodau unedol o dan Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021⁹, mae'n dal o fewn ei gallu i wneud llawer mwy nag y mae'n ei wneud ar hyn o bryd. O ystyried y cyfyngiadau ariannol sy'n wynebu refeniw grant traddodiadol yr Awdurdod yn y blynyddoedd i ddod (gweler **Arddangosyn 1**), mae parhau â'i ffyrdd traddodiadol o weithio heb gydnabod bod angen arallgyfeirio ffrydiau incwm ymhellach, yn beryglus a bydd yn gwneud bodloni blaenoriaethau llythyr cylch gwaith¹⁰ Llywodraeth Cymru yn heriol.

⁷ Archwilio Cymru, [Gwasanaethau Cydnerth a Chynaliadwy yn Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri](#), Ebrill 2021

⁸ Llywodraeth Cymru, [Gwerthfawr a chydnerth – Blaenoriaethau ar gyfer Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol a Pharciau Cenedlaethol](#), Gorffennaf 2018

⁹ Llywodraeth Cymru, [Datganiad Ysgrifenedig: Rheoliadau'r Pŵer Cymhwysedd Cyffredinol \(Diben Masnachol\) \(Amodau\) \(Cymru\) \(Diwygio\) 2022 a Gorchymyn Llywodraeth Leol \(Awdurdodau Perthnasol\) \(Pŵer i Fasnachu\) \(Cymru\) 2022](#), 6 Ebrill 2022

¹⁰ Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru, [Awdurdodau parciau cenedlaethol: llythyr cylch gwaith tymor y llywodraeth](#), Gweinidog Newid Hinsawdd Llywodraeth Cymru, Mai 2022

Cytuno ar y paramedrau ar gyfer dilyn ffrydiau incwm newydd

- 20 Fel gydag unrhyw gorff cyhoeddus y gellir ymddiried stiwardiaeth arian trethdalwyr iddo, rhaid i'r Awdurdod ystyried moeseg o ran sut mae'n buddsoddi ac yn defnyddio adnoddau. Mae hon yn ystyriaeth bwysig o ran arallgyfeirio incwm. Mae dibenion statudol yr Awdurdod o dan Ddeddf yr Amgylchedd 1995 yn sail i'w fodolaeth ac yn darparu fframwaith moesegol da ar gyfer mynd ar drywydd ffrydiau incwm newydd.
- 21 Nodwyd gennym fod swyddogion yn hyddysg yn egwyddorion a dibenion y Parc Cenedlaethol, gan fod yn ddefnyddiol pan fyddant wedi dod ar draws ystyriaethau moesegol:
- mae tair canolfan wybodaeth yr Awdurdod i gyd yn cynnwys manau manwerthu ac mae ystyriaethau moesegol o ran yr hyn sy'n cael ei stocio a'i werthu yn y siopau hyn. Mae'r egwyddorion a sefydlwyd gan y Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy yn helpu i sicrhau bod y dull a ddefnyddir yn y manau manwerthu hyn yn unol â dibenion a dyletswydd statudol yr Awdurdod. Er enghraifft, mae blaenoriaethu cynnyrch lleol o ffynonellau moesegol yn helpu i hybu dealltwriaeth o'r ardal, yn lleihau ôl troed carbon, ac yn cefnogi'r economi leol. Mae'r Awdurdod hefyd yn ceisio osgoi cystadlu'n uniongyrchol â busnesau cyfagos o ran yr hyn y maent yn ei werthu yn y manau manwerthu hyn.
 - mae ystyriaethau moesegol perthnasol o ran sut mae'r Awdurdod yn bartner â gwahanol gyrff ariannu. Er enghraifft, drwy bartneriaeth Parciau Cenedlaethol y DU gyfan, mae'r Awdurdod yn elwa ar fuddsoddiadau y mae'r Grŵp BMW yn eu gwneud i wella seilwaith cerbydau trydan¹¹.
 - meysydd parcio'r Awdurdod yw ei ffynhonnell fwyaf o incwm a gynhyrchir yn uniongyrchol. Mae ystyriaethau moesegol wrth benderfynu faint mae'n ei godi ar bobl i ddefnyddio meysydd parcio'r Awdurdod. Er enghraifft, gall codi gormod atal pobl rhag mwynhau nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol a pheryglu gwneud yr ardal yn gyfyngedig i'r rhai sy'n gallu ei fforddio. Mae maes parcio mwyaf poblogaidd yr Awdurdod ym Mhen y Pas yn cynhyrchu incwm sylweddol gan ddefnyddwyr. Yn gadarnhaol, nodwyd gennym fod swyddogion yn dangos dealltwriaeth dda o sut y gellir cyfiawnhau'r gost uchel, gyda'r Awdurdod yn defnyddio'r arian i gyfrannu at welliannau i seilwaith trafnidiaeth lleol, gan gynnwys gwasanaeth bws Sherpa's Wyddfa i hyrwyddo mynediad ehangach i'r Wyddfa.
- 22 Mae'r enghreifftiau hyn yn dangos bod dull yr Awdurdod o osod paramedrau moesegol wedi bod yn gymesur ac yn cyfateb â'i weithgarwch hyd yn hyn.
- 23 Fodd bynnag, os yw am fynd ar drywydd cyfleoedd cynhyrchu incwm mwy amrywiol yn effeithiol yn y dyfodol, bydd angen iddo fyfyr ar y foeseg a chytuno ar

¹¹ [BMW announces partnership with National Parks UK to improve EV access and boost nature restoration \(bmwgroup.com\)](https://www.bmwgroup.com/press-releases/2022/01/13/bmw-announces-partnership-with-national-parks-uk-to-improve-ev-access-and-boost-nature-restoration)

ei bamedrau ar gyfer dilyn ffrydiau incwm newydd, er mwyn sicrhau ei fod yn parhau i fod yn driw i'w ddibenion a'i amcanion statudol. Er mwyn helpu i roi cyfeiriad, mae angen i'r Awdurdod gytuno ar ei bamedrau strategol i'w helpu i benderfynu ar opsiynau ar gyfer y dyfodol.

Sicrhau bod asedau a gwasanaethau presennol yn gweithio mor effeithlon â phosibl

- 24 Nid oes diffiniad y cytunwyd arno o'r hyn sy'n gyfystyr ag arallgyfeirio incwm. Ar un lefel, gall olygu gweithredu asedau a gwasanaethau yn fwy effeithlon drwy, er enghraifft, leihau costau, codi taliadau, neu ddenu cwsmeriaid a defnyddwyr newydd. Yn allweddol i hyn mae cytuno ar lefel y cymhorthdal a ddarperir i wasanaethau ac asedau, ac ystyried gwneud hynny mewn ffordd sy'n adlewyrchu 'gwir' gost rhedeg asedau ac ail-fuddsoddi unrhyw wargedion yn briodol.
- 25 Mae portffolio asedau'r Awdurdod yn uniongyrchol gysylltiedig â'r cyfleoedd sydd ar gael iddo o ran creu incwm. Gellir rhedeg asedau mewn ffordd ddiogel, risg isel sy'n costio arian i'w rhedeg, ond sy'n cyflawni amcanion yr Awdurdod yn uniongyrchol. Ar y pegwn arall, gall asedau weithredu'n fasnachol mewn ffyrdd sy'n cyfrannu ychydig iawn yn uniongyrchol at ddibenion yr Awdurdod, ond sy'n gwneud elw sylweddol sydd wedyn yn cael ei ail-fuddsoddi gan yr Awdurdod i gyflawni camau gweithredu i gefnogi ei ddibenion.
- 26 Yn Eryri, mae gan yr Awdurdod nifer o gynlluniau ar waith sy'n berthnasol i redeg asedau penodol, yn ogystal â pholisi rheoli asedau troswaol. Mae ei Gynllun Rheoli Asedau yn amlygu'r angen i 'geisio potensial cynhyrchu incwm lle bo modd' o'i asedau. Mae ganddo hefyd bolisi gwaredu asedau sy'n canolbwyntio ar y cyfraniad y mae asedau'n ei wneud at ei ddibenion statudol, er bod y sbardun ar gyfer adolygu asedau yn unol â'r polisi hwn yn aneglur. Mae gan yr Awdurdod ddull cymysg o redeg ei asedau:
- mae gan yr Awdurdod ddull da o reoli ei feysydd parcio. Maent yn cynhyrchu incwm sylweddol i'r Awdurdod. O ran defnyddio'r gwaged a gynhyrchir, mae gwaith cynnal a chadw ac uwchraddio yn cymryd blaenoriaeth - e.e. buddsoddi mewn peiriannau talu ac arddangos modern. Yn eu tro, mae'r gwelliannau hyn a'r datblygiadau megis systemau archebu ar-lein ymlaen llaw ar gyfer maes parcio Pen y Pas yn helpu i hybu proffidioldeb. Mae'r Awdurdod hefyd yn buddsoddi gwaged meysydd parcio mewn seilwaith trafndiaeth lleol i annog ymwelwyr i deithio'n fwy cynaliadwy a lleihau effaith ceir mewn ardaloedd prysur.
 - mae'r manau manwerthu yng nghanolfannau gwybodaeth yr Awdurdod wedi bod yn llwyddiannus. Amlygodd adroddiad i [Berfformiad ac Adnoddau'r Awdurdod y Pwyllgor ym mis Tachwedd 2022](#) gynnydd o bron i 120% yn yr incwm a gynhyrchwyd ar draws y tair canolfan wybodaeth rhwng 2015 a 2022. Cyflawnwyd hyn drwy sefydlu targed incwm ar gyfer pob canolfan wybodaeth, gan ysgogi gwelliant flwyddyn ar ôl blwyddyn. Mae mabwysiadu dull mwy cyfunol o brynu stoc hefyd wedi helpu i wella maint yr elw. Mae

asedau eraill megis Yr Ysgwrn a siopau'r Wardeniaid hefyd yn cael budd o'r dull mwy strategol hwn. Mae'r canolfannau gwybodaeth yn darparu gwasanaeth sy'n cyfrannu'n uniongyrchol at ddibenion statudol yr Awdurdod ac felly'n cael eu hariannu o gyllideb graidd yr Awdurdod. Fodd bynnag, roedd dealltwriaeth eglur gan swyddogion o ran y cydbwysedd rhwng canolbwyntio ar gynhyrchu incwm a darparu gwasanaeth, ac mae cyfiawnhad da dros lefel y cymhorthdal a ddarperir i gefnogi'r gwasanaeth.

- mewn cyferbyniad, ar adeg ein harchwiliad nid oedd yn glir sut mae'r model gweithredu ym Mhlas Tan y Bwlch yn cyfrannu at ddibenion statudol yr Awdurdod. Wrth wynebu pwysau ariannu yn y gorffennol, ac yn enwedig yn ystod y pandemig, gwnaeth yr Awdurdod newidiadau a oedd yn mynd â Phlas Tan y Bwlch i ffwrdd o'r ganolfan addysg bwrpasol fel yr oedd ar un adeg. Mae'r cyfleuster bellach yn canolbwyntio ar ddarparu llety gwely a brechwast a digwyddiadau fel priodasau, ond mae'r adeilad rhestredig Gradd 2 yn parhau i gael cymhorthdal sylweddol, ac mae'r Awdurdod wedi'i chael hi'n heriol gwneud y fenter fusnes hon yn broffidiol. Mae **Arddangosyn 2** yn nodi ein hargymhellion yn dilyn yr adolygiad hwn, gan gynnwys ein disgwyliad bod yr Awdurdod yn adolygu ei fodel gweithredu ar gyfer Plas Tan y Bwlch ac yn dangos sut mae ei fuddsoddiad parhaus yn darparu elw yn erbyn ei ddibenion statudol.

Ymgorffori'r diwylliant, y sgiliau a'r capasiti cywir i amrywio incwm

- 27 Hyd yma, mae'r Awdurdod wedi canolbwyntio'n llwyddiannus ar ddenu cyllid grant, a nodwyd gennym fod dealltwriaeth dda ymhlith swyddogion o sut mae'r ffordd hon o weithio yn cefnogi'r gwaith o gyflawni Cynllun Eryri. Fodd bynnag, mae'r Awdurdod wedi wynebu rhai heriau mewn perthynas â sgiliau a chapasiti. Er enghraifft, mae'r ddibyniaeth ar brosiectau a ariennir gan grant a'r nifer cysylltiedig o swyddi cyfnod penodol o fewn yr Awdurdod wedi cyfrannu at drosiant staff uchel dros y blynyddoedd diwethaf. Mae hyn yn peri rhywfaint o risg, yn enwedig o ran cyflwyno prosiectau a dysgu corfforaethol.
- 28 Amlygodd swyddogion y gall y broses o adrodd ar rai grantiau deimlo'n hir ac yn llafurus, yn aml ar ben yr hyn y maent yn ei wneud fel rhan o'r 'brif swydd'. Yn gadarnhaol, mae'r Awdurdod wedi sefydlu swydd o fewn ei adran wardeniaid i fynd i'r afael â hyn. Mae'r rôl yn canolbwyntio ar nodi cyfleoedd grant newydd, datblygu cynigion a chydlynu'r gofynion adrodd. Mae'r rôl hon yn cael effaith gadarnhaol o fewn tîm y wardeniaid, ond nid yw'n cael ei hystyried yn fodel effeithiol i'w ailadrodd ar draws timau eraill a'r ganolfan gorfforaethol o ystyried yr arbenigedd sydd ei angen o ran rhai grantiau.
- 29 Mewn mannau eraill, mae rhai mentrau a phrosiectau wedi ffynnu lle mae'r sgiliau masnachol perthnasol yn bodoli o fewn yr Awdurdod, ond mae'r rhain yn gyfyngedig yn bennaf i'r mannau manwerthu yn ei ganolfannau gwybodaeth.

- 30 Nid yw masnacheiddio yn rhywbeth a gysylltir yn draddodiadol ag Awdurdodau Parciau Cenedlaethol. Er mwyn gwneud hyn yn dda, a lliniaru risg yn effeithiol, mae angen i'r Awdurdod gael rheolaeth a throsolwg gofalus. Gyda phwysau ariannol yn ei gwneud yn ofynnol i'r Awdurdod wneud pethau'n wahanol (a gwneud pethau gwahanol), mae'n bwysig bod diwylliant y sefydliad yn cefnogi swyddogion i roi cynnig ar bethau newydd mewn amgylchedd diogel i fethu.
- 31 Mae'r Awdurdod wedi dangos ei awydd risg yn ystod y blynyddoedd diwethaf, er enghraifft, drwy fuddsoddi mewn asedau proffil uchel megis [Hafod Eryri](#) ac [Yr Ysgwrn](#). Er hyn, heb weledigaeth strategol ar gyfer arallgyfeirio incwm, bydd yn anodd i swyddogion gyd-dynnu i'r cyfeiriad hwnnw. Wrth fynd ar drywydd arallgyfeirio incwm yn strategol, rhaid i'r Awdurdod fod yn ymwybodol o'r angen i gefnogi ac uwchsgilio staff, a sicrhau bod ei ddiwylliant sefydliadol yn sail i'w ddull gweithredu.

Sefydlu proses arfarnu opsiynau gadarn i benderfynu ar gyfleoedd i arallgyfeirio incwm

- 32 Mae'n bwysig bod gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol brosesau cadarn ar waith er mwyn sicrhau bod mentrau newydd yn cyfrannu at eu dibenion statudol a'u hamcanion craidd. O fewn cyfyngiadau gweithgaredd presennol, mae gan yr Awdurdod ddull da o werthuso cyfleoedd i ddenu cyllid grant newydd. Er enghraifft:
- mae ei ddibyniaeth gynyddol ar fynd ar drywydd prosiectau newydd a ariannwyd gan grantiau yn y gorffennol wedi golygu ei fod yn cael ei arwain gan brosiectau. Fodd bynnag, yn gadarnhaol, nodwyd gennym fod y broses o ddatblygu [Cynllun Eryri](#) – Cynllun Rheoli'r Parc – wedi helpu i fireinio cyfeiriad corfforaethol yr Awdurdod, sydd wedi bod yn ddefnyddiol i ymgorffori prosesau gwerthuso opsiynau mwy cadarn.
 - yn ogystal, tynnodd swyddogion sylw at y modd y mae pecyn cymorth rheoli prosiect yr Awdurdod bellach yn ei alluogi i fesur effaith ganlyniadol prosiectau a ariennir gan grantiau ar y capasiti corfforaethol, a bu'n llwyddiannus wrth ymgorffori'r costau ychwanegol hyn mewn rhai ceisiadau am grantiau.
- 33 Yn strategol, nid yw'r Awdurdod wedi sefydlu proses eto i benderfynu ar gyfleoedd ehangach i amrywio ei ffrydiau incwm a gwella gwydnwch ariannol. Mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn cydnabod bod angen amrywio ei incwm ymhellach i fynd i'r afael â diffygion yn y gyllideb yn y dyfodol ac yn cynnwys proses arfarnu opsiynau gadarn fel rhan o'i ddull gweithredu yn y dyfodol.

Trefniadau atebolrwydd effeithiol a chraffu ar weithgarwch cynhyrchu incwm

- 34 Y tu hwnt i gymeradwyo rhai bidiau grant, nodwyd gennym fod trefniadau llywodraethu'r Awdurdod heb eu profi o ran arallgyfeirio incwm. Mae prif bileri strwythur llywodraethu'r Awdurdod yn craffu ar lefel uchel ac yn darparu cyfeiriad

strategol ar gyfer ei waith. Caiff y pwyllgorau allweddol eu hysbysu a'u cefnogi gan is-bwyllgorau a gweithgorau penodol, lle gall Aelodau ac uwch-swyddogion graffu'n fanylach ar berfformiad (er enghraifft byrddau Plas Tan y Bwlch a'r Ysgwrn). Fodd bynnag, yn fwy cyffredinol, mae'n bwysig bod Aelodau'n darparu cyfeiriad strategol i'r Awdurdod sy'n cydnabod y risgiau ariannu hirdymor y mae'n eu hwynebu. Ar hyn o bryd, nid yw fframwaith sicrwydd yr Awdurdod wedi'i sefydlu i graffu a goruchwyllo penderfyniadau arallgyfeirio incwm sy'n peri mwy o risg. Os bydd yr Awdurdod yn dilyn dulliau gwahanol yn y dyfodol, mae angen mynd i'r afael â hyn.

Rhan 3 – Arferion gorau wrth arallgyfeirio incwm

- 35 Er bod pob Awdurdod Parc Cenedlaethol yn gweithredu o fewn eu hamgylchedd a'u sylfaen asedau eu hunain, mae enghreifftiau lle mae Awdurdodau wedi bwrw ymlaen ag arallgyfeirio incwm. Bwriad yr enghreifftiau hyn yw dangos sut y gellir cyflawni hyn, er mwyn ysgogi syniadau posibl yn lleol. Mae'r ddau yn dangos pwysigrwydd gosod gweledigaeth strategol a darparu arweiniad clir ar arallgyfeirio incwm.

Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs

- 36 Yn y blynyddoedd diwethaf, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs wedi datblygu strategaeth aml-faes ar gyfer arallgyfeirio ei incwm gyda'r nod o wneud ei waith yn fwy cynaliadwy. Er enghraifft, trosglwyddwyd perchnogaeth Parc Gwledig Blaendulais i Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs o Gyngor Sir Dwyrain Sussex ym mis Gorffennaf 2021. Er mwyn gwneud y mwyaf o'r cyfle masnachol a gynigir gan y buddsoddiad hwn, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs wedi ymgorffori Cwmni Masnachu, South Downs Commercial Operations Ltd. Mae cam cyntaf y gwaith ar Barc Gwledig Blaendulais yn cynnwys buddsoddiad o ychydig o dan £2 filiwn (gan Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs a'r ymddiriedolaeth elusennol annibynnol, South Downs National Park Trust) ac mae'n canolbwyntio ar sicrhau bod y cyfleusterau yn eu lle i fodloni niferoedd ymwelwyr yn effeithiol ac i ofalu am y dirwedd.
- 37 Mae gan Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs darged i gynyddu cyfran y Parc Cenedlaethol a reolir ar gyfer natur o 25% i 33% gyda'r nod o ail-greu 13,000 hectar o dir erbyn 2030. Ynghyd â'r Awdurdod, lansiodd Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol South Downs Ymgyrch ReNature ym mis Gorffennaf 2021. Mae'n bwriadu adfer 1,000 hectar y flwyddyn drwy brosiectau sy'n cefnogi tîrffeddiannwyr er mwyn sicrhau arian preifat, gan newid arferion rheoli tir presennol o blaid byd natur.
- 38 Yn 2023-24, mae Awdurdod Parc Cenedlaethol South Downs wedi gosod targed uchelgeisiol i godi £2.5 miliwn y flwyddyn mewn incwm hunangynrchedig. Y nod yw cefnogi'r gwaith o gyflawni ei Chynllun Rheoli Partneriaeth (PMP), drwy gynigion i ffynonellau statudol a chefnogaeth i Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol South Downs i barhau i adeiladu ffrwd incwm cynaliadwy o roddion a chymynroddion.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd

39 Yn ei Ddatganiad o Gyfrifon 2021-22, cafodd Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd £5.79 miliwn mewn grantiau a chyfraniadau gan y llywodraeth ond cynhyrchodd hefyd £10.27 miliwn mewn incwm o ffynonellau eraill. Er bod gan Awdurdod Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd bortffolio asedau sylweddol – gwerth £35 miliwn – mae hefyd yn blaenoriaethu gwaith ar optimeiddio incwm, gan weithredu yn unol â set o egwyddorion sy'n helpu i sicrhau'r enillion mwyaf posibl ar ei asedau. Mae'r egwyddorion hyn yn glynu'n agos at flociau adeiladu masnacheiddio ac yn berthnasol i bob Awdurdod Parc Cenedlaethol ac yn cynnwys:

- strategaeth fasnachol, y mae Bwrdd Strategaeth Fasnachol a gweithgor o aelodau a swyddogion yn craffu ar ei chyflawni i oruchwylio gweithgarwch masnachol;
- dadansoddiad trylwyr o'i bortffolio asedau a pholisi digyfaddawd ar waredu asedau nad ydynt yn dod â budd digonol i'r Awdurdod;
- diwylliant sy'n cydnabod pwysigrwydd cynhyrchu incwm i awdurdodau parciau cenedlaethol;
- ymrwymiad cryf gan arweinwyr sy'n helpu i ysbrydoli meddylfryd cadarnhaol ar draws y sefydliad; a
- diwylliant ac amgylchedd cadarnhaol sy'n annog arloesi a chymryd risgiau ond sy'n sicrhau bod staff yn teimlo'n 'ddiogel i fethu'.

Atodiad 1

Rhestr wirio hunanasesu

Yn unol â'n hargymhellion a nodir yn **Arddangosyn 2**, mae'r rhestr wirio isod yn helpu i arwain yr Awdurdod wrth asesu ei gryfderau a'i wendidau presennol, gan helpu i lywio ei strategaeth arallgyfeirio incwm yn y dyfodol.

Arddangosyn 5: Pennu gweledigaeth glir a dull strategol o arallgyfeirio incwm

Materion i ni eu hystyried	Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach	Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn
Mae gennym ddull corfforaethol y cytunwyd arno ar draws yr Awdurdod i arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.		
Mae gennym set glir o egwyddorion a gwerthoedd sy'n nodi'r hyn rydym yn ceisio ei gyflawni drwy arallgyfeirio incwm.		
Rydym yn canolbwyntio ar werth cymdeithasol ac egwyddorion buddsoddi 'moesegol' yn ein gwaith arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.		
Mae ein hymagwedd at arallgyfeirio incwm yn rhan o 'ddarlun ehangach' ac nid yw'n cael ei ystyried yn rywbeth y tu allan i weithgarwch craidd yr Awdurdod.		
Rydym wedi ymgorffori arallgyfeirio incwm o fewn rhaglenni trawsnewid hirdymor.		
Rydym yn glir ynghylch manteision a risgiau arallgyfeirio incwm i gymunedau lleol, ymwelwyr, yr economi leol a busnesau lleol.		

Materion i ni eu hystyried	Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach	Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn
Rydym wedi diffinio'n glir yr hyn sy'n arallgyfeirio incwm ar gyfer yr Awdurdod a'r hyn nad ydyw.		
Mae ein dull arallgyfeirio incwm yn cyd-fynd â'n dibenion a'n dyletswydd statudol.		
Mae ein dull arallgyfeirio incwm wedi'i integreiddio a'i gysylltu ag amcanion llesiant, amcanion Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol, a strategaethau allweddol eraill yr Awdurdod.		
Rydym yn ceisio sicrhau bod gweithgareddau arallgyfeirio a chynhyrchu incwm yn gwneud mwy nag elw yn unig, ac yn gwneud cyfraniad ehangach i'n hardal a'n cymunedau lleol.		
Rydym wedi nodi pwy sy'n atebol am wneud penderfyniadau ar arallgyfeirio a chynhyrchu incwm; mae'n amlwg pwy sy'n gyfrifol.		

Arddangosyn 6: Cytuno ar y paramedrau ar gyfer dilyn ffrydiau incwm newydd

Materion i ni eu hystyried a chytuno arnynt	Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach	Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn
Rydym am ddilyn gweithgarwch arallgyfeirio a chynhyrchu incwm sy'n cyd-fynd â'n dibenion a'n dyletswydd statudol.		

Materion i ni eu hystyried a chytuno arnynt	Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach	Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn
<p>Rydym am ddilyn gweithgarwch arallgyfeirio a chynhyrchu incwm sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni'r amcanion yn ein Cynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol.</p>		
<p>Rydym am ddilyn gweithgarwch arallgyfeirio a chynhyrchu incwm sy'n adeiladu ar ein gwasanaethau presennol.</p>		
<p>Rydym am fynd i feysydd cwbl newydd o weithgarwch arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.</p>		
<p>Dim ond o fewn ein ffiniau daearyddol yr ydym am ddilyn gweithgarwch arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.</p>		
<p>Rydym yn barod i ddilyn cyfleoedd mewn ardaloedd eraill y tu hwnt i ffiniau'r Parc.</p>		
<p>Rydym yn gyfforddus yn cystadlu â busnesau lleol.</p>		
<p>Rydym yn gyfforddus yn cystadlu â'r trydydd sector</p>		
<p>Rydym yn gyfforddus yn cystadlu ag Awdurdodau Lleol.</p>		
<p>Rydym yn awyddus i adennill yr holl gostau sy'n gysylltiedig â'r gweithgarwch.</p>		

Materion i ni eu hystyried a chytuno arnynt	Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach	Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn
Rydym yn ceisio gwneud y defnydd gorau posibl o elw.		
Rydym yn glir ynghylch sut y byddwn yn defnyddio'r elw a grëwn.		
Rydym wedi cytuno ar lefel dderbyniol o risg i fentrau arallgyfeirio a chynhyrchu incwm unigol.		
<p>Wrth ystyried a chymeradwyo menter, gwyddom:</p> <ul style="list-style-type: none"> • faint o risg rydym yn ei hwynebu; • faint o risg y byddwn yn ei chymryd; a • faint o risg y mae ein rhanddeiliad yn gyfforddus i ni ei chymryd. 		
Rydym wedi cynnwys ymwelwyr, cymunedau, busnesau a rhanddeiliaid eraill i'n helpu i ddiffinio beth ddylai arallgyfeirio a chynhyrchu incwm ei olygu ar gyfer ein Hawdurdod Parc Cenedlaethol.		
<p>Rydym yn deall effaith amrywio ffrydiau incwm ar:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ecosystem y Parc • Ymwelwyr • Ein cymunedau • Busnesau • Partneriaid • Rhanddeiliaid 		
Rydym wedi mesur beth sy'n fforddiadwy i'n hymwelwyr a'n cymunedau.		

Materion i ni eu hystyried a chytuno arnynt	Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach	Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn
Rydym yn cyfathrebu'n effeithiol yn fewnol ac yn allanol beth yw arallgyfeirio a chynhyrchu incwm ar gyfer yr Awdurdod Parc Cenedlaethol hwn a beth nad ydynt.		
Rydym wedi sefydlu set o safonau moesegol a chymdeithasol gyfrifol ar gyfer arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.		
Rydym yn mynnu bod cyflenwyr, benthycwyr a phartneriaid yn gweithredu yn unol â'n safonau moesegol a chymdeithasol gyfrifol.		

Arddangosyn 7: Sicrhau bod asedau a gwasanaethau presennol yn gweithio mor effeithlon â phosibl

Materion i ni eu hystyried	Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach	Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn
Mae gennym weledigaeth y cytunwyd arni o'r hyn y mae'n ei olygu i ni i'n hasedau a'n gwasanaethau weithio yn y ffordd orau bosibl.		
Mae'r holl asedau a gwasanaethau presennol yn cyd-fynd â'n dyletswyddau a'n diben statudol.		

Materion i ni eu hystyried	Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach	Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn
Mae'r holl asedau a gwasanaethau presennol yn helpu i gyflawni amcanion ein Cynllun Rheoi'r Parc Cenedlaethol.		
Rydym yn glir bod yn rhaid i'r holl asedau a gwasanaethau naill ai fod yn niwtral o ran cost, darparu elw i'r Awdurdod neu helpu'r Awdurdod i gyflawni ei ddiben, ei ddyletswydd a'i amcanion.		
Mae gennym bolisi rheoli asedau priodol, ac mae hwn wedi'i integreiddio â strategaethau perthnasol eraill gan gynnwys ein strategaeth arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.		
Rydym yn adolygu ein sylfaen asedau presennol yn rheolaidd ac yn cael gwared ar asedau nad ydynt o fudd ariannol neu strategol i'r Awdurdod, neu sy'n annhebygol o wneud hynny yn y dyfodol.		
Mae gennym y capasiti gweithlu a'r sgiliau cywir ar waith i gynhyrchu cymaint o incwm â phosibl o'n hasedau a'n gwasanaethau presennol.		
Rydym wedi cytuno ar lefel y cymhorthdal a ddarperir i wasanaethau ac asedau ac yn gwneud hynny mewn ffordd sy'n adlewyrchu 'gwir' gost rhedeg asedau ac yn ail-fuddsoddi unrhyw wargedion yn briodol.		

Materion i ni eu hystyried	Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach	Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn
Mae gennym bolisi clir ynghylch sut y defnyddir yr elw/gwarged a gynhyrchir, gan gynnwys buddsoddi i wneud gwasanaethau yn fwy proffidiol yn y dyfodol.		
Rydym wedi rhoi targedau incwm ar waith lle y bo'n briodol.		
Mae prosesau yn ymwneud ag asedau a gwasanaethau yn cael eu hadolygu'n rheolaidd er mwyn sicrhau eu bod yn rhoi gwerth am arian e.e. defnyddio darvoudion maint wrth gaffael.		
Ar gyfer pob ased, rydym yn glir ynghylch y cydbwysedd rhwng cynhyrchu incwm a darparu gwasanaeth.		
Mae prosesau llywodraethu yn cynnwys adolygiad rheolaidd o'r gost ariannol a'r budd strategol a ddaw yn sgil asedau a gwasanaethau presennol i'r Awdurdod.		

Arddangosyn 8: Ymgorffori'r diwylliant, y sgiliau a'r capasiti cywir i amrywio a chynhyrchu incwm

<p>Materion i ni eu hystyried</p>	<p>Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach</p>	<p>Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn</p>
<p>Rydym wedi rhoi blaenoriaeth i greu diwylliant masnachol a meddylfryd entrepreneuriaidd o fewn yr Awdurdod.</p>		
<p>Rydym wedi gosod disgwyliadau realistig o ran beth yw arallgyfeirio a chynhyrchu incwm i ni, ac mae pob rhan o'r Awdurdod yn deall hyn yn glir.</p>		
<p>Rydym yn deall bod arallgyfeirio a chynhyrchu incwm yn rhan o'r drefn feunyddiol yma, ac adlewyrchir hyn yn ein gwerthoedd.</p>		
<p>Mae gennym arweinwyr ymroddedig, gweladwy iawn, gyda nodau clir ar gyfer arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.</p>		
<p>Mae gennym dîm rheoli swyddogion cryf sy'n glir ar arallgyfeirio a chynhyrchu incwm sy'n cefnogi'r gwaith o gyflawni ein nodau.</p>		
<p>Rydym wedi gosod disgwyliadau clir y bydd penderfyniadau sy'n ymwneud ag arallgyfeirio a chynhyrchu incwm yn cael eu gwneud yn dryloyw a chyn gynted ag y bo'n briodol i wneud hynny.</p>		
<p>Mae lefelau uchel o ymrwymiad i gydweithio i gyflawni gweledigaeth a strategaethau arallgyfeirio a chynhyrchu incwm yr Awdurdod.</p>		

Materion i ni eu hystyried	Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach	Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn
<p>Mae gennym y profiad, y wybodaeth a'r sgiliau cywir sydd eu hangen i ddilyn gweithgareddau arallgyfeirio a chynhyrchu incwm yn llwyddiannus.</p>		
<p>Mae gennym ddigon o swyddogion i wneud gwaith arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.</p>		
<p>Mae gennym swyddogion yn y gwasanaethau cywir a chyda'r hynafedd gofynnol i wneud gwaith arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.</p>		
<p>Gallwn recriwtio'r bobl gywir gyda'r sgiliau cywir i gyflawni ein gwaith arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.</p>		
<p>Rydym wedi nodi sut y bydd yr Awdurdod yn rhoi'r sgiliau allweddol i aelodau etholedig a swyddogion i gyflawni a chraffu'n llwyddiannus ar arallgyfeirio a chynhyrchu incwm, gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> • Dadansoddi marchnadoedd a galw • Marchnata a gwerthu • Prisio a masnachu 		
<p>Mae gennym raglen hyfforddi sy'n arfogi ein swyddogion a'n haelodau i wneud gwaith arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.</p>		
<p>Rydym wedi diffinio ac egluro rolau, cyfrifoldebau a'r pwerau cyfreithiol ar gyfer dilyn gweithgarwch arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.</p>		

Materion i ni eu hystyried	Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach	Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn
<p>Rydym wedi cymryd barn gyfreithiol i gefnogi pob agwedd ar weithgarwch arallgyfeirio a chynhyrchu incwm, ac yn enwedig sut i drin yr elw a godir, ac mae swyddogion yn glir ynghylch sut i fynd i'r afael â hyn.</p>		
<p>Gallwn ddefnyddio sgiliau a gwybodaeth ein busnesau a'n rhanddeiliaid lleol i'n helpu i ddatblygu ein gweithlu i ddod yn fwy medrus yn fasnachol.</p>		
<p>Mae gennym ddiwylliant dysgu agored a gonest i helpu'r Awdurdod i ddysgu o benderfyniadau buddsoddi o fannau eraill a defnyddio'r wybodaeth hon i lunio ein dulliau gweithredu.</p>		

Arddangosyn 9: sefydlu proses arfarnu opsiynau gadarn i benderfynu ar gyfleoedd i arallgyfeirio a chynhyrchu incwm

Materion i ni eu hystyried	Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach	Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn
<p>Mae gennym broses arfarnu opsiynau glir ar gyfer penderfynu ar bob opsiwn arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.</p>		

Materion i ni eu hystyried	Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach	Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn
<p>O fewn yr arfarniad opsiynau, rydym bob amser yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • diffinio'n glir ein hamcanion, y cyfyngiadau/risgiau, y gwobrau posibl a'r hyn rydym am ei gyflawni; • casglu digon o wybodaeth i ddeall yn llawn yr opsiynau sy'n cael eu hystyried; • ystyried ystod eang o opsiynau ar gyfer y fenter dan sylw; • cynnwys ystyriaeth o'r risg o 'wneud dim'; • asesu a dadansoddi opsiynau gan ddefnyddio matrices graddio/sgorio y cytunwyd arno; a • dewis yr opsiwn priodol yn seiliedig ar ein dadansoddiad. 		
<p>Rydym yn gwneud penderfyniadau tryloyw yn seiliedig ar wybodaeth o ansawdd da wrth benderfynu ar bob opsiwn arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.</p>		
<p>Rydym yn gweithredu'r penderfyniad a wnaed ar ôl cwblhau gwerthusiad opsiynau yn effeithiol ac yn amserol.</p>		
<p>Mae gennym drefniadau rheoli perfformiad cadarn ar waith i fonitro'r broses o gyflawni'r opsiwn a ddewiswyd.</p>		

Materion i ni eu hystyried	Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach	Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn
<p>Rydym wedi sefydlu proses diwydrwydd dyladwy briodol, ac rydym yn defnyddio'r broses hon i'n cefnogi wrth gymeradwyo opsiynau a rheoli risgiau. Mae ein hasesiad diwydrwydd dyladwy yn ein harwain i wneud y canlynol:</p> <ul style="list-style-type: none"> • gosod targedau a nodau cynllun busnes sy'n realistig ac y mae modd eu cyflawni; • ymchwilio i'r farchnad, a'i hasesu, a nodi ein safle ynddi; • asesu i ba gyfeiriad y mae'r farchnad yn symud, a sut bydd hyn yn cael effaith ar werth/llwyddiant ein menter; • nodi a dadansoddi pwy yw ein cystadleuwyr cryfaf a gwannaf, ac asesu sut byddwn yn perfformio yn eu herbyn; • nodi ein sylfaen gwsmeriaid a phennu proffil o ddefnydd tebygol ein menter, a'r galw amdani; • gwerthuso ein rhagolygon ar gyfer cyflawni ein refeniw rhagweledig ac yn ystod pa gyfnod; • nodi amrywiaethau mewn pris ar gyfartaledd yn hanesyddol; • rhagweld prisiau at y dyfodol; a • modelu gwariant refeniw a gwariant cyfalaf. 		
<p>Mae ein proses arfarnu opsiynau yn cynnwys asesiad penodol o sut y bydd unrhyw fentrau a gymeradwyir gennym yn darparu gwerth cymdeithasol i'r Awdurdod.</p>		
<p>Rydym yn adolygu effeithiolrwydd ein penderfyniadau ac yn cynnal gwerthusiad ar ôl gweithredu i sicrhau bod yr amcanion a osodwyd gennym yn cael eu cyflawni.</p>		

Arddangosyn 10: trefniadau atebolrwydd effeithiol a chraffu ar weithgarwch arallgyfeirio a chynhyrchu incwm

Materion i ni eu hystyried	Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach	Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn
Mae gennym raglen hyfforddi sy'n galluogi ein haelodau etholedig i graffu'n effeithiol ar fentrau masnachol a dulliau eraill o arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.		
Mae gennym strwythurau llywodraethu clir a phriodol i werthuso, craffu a chymeradwyo gweithgarwch arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.		
Rydym wedi prif ffrydio ac integreiddio craffu ar arallgyfeirio a chynhyrchu incwm yn ein trefniadau llywodraethu corfforaethol.		
Rydym yn gweithredu mewn ffordd dryloyw, ac mae pawb yn glir o ran sut mae penderfyniadau ar gymeradwyo opsiynau arallgyfeirio a chynhyrchu incwm yn cael eu gwneud a chan bwy.		
Mae gennym ddiwylliant hyderus o ran gwneud penderfyniadau ac nid yw aelodau etholedig yn ofni herio swyddogion a dwyn pobl i gyfrif.		
Mae'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau ar arallgyfeirio a chynhyrchu incwm yn atebol am eu dewisiadau ac yn cael eu dwyn i gyfrif drwy drefniadau llywodraethu clir.		

Materion i ni eu hystyried	Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach	Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn
<p>Rydym yn cael gwybodaeth o ansawdd da er mwyn:</p> <ul style="list-style-type: none"> • barnu a ddylem gymeradwyo opsiwn arallgyfeirio a chynhyrchu incwm; a • monitro a gwerthuso perfformiad ein hopsiynau o ran arallgyfeirio a chynhyrchu incwm yn llawn. 		
<p>Rydym yn defnyddio arbenigwyr i'n helpu i graffu ar opsiynau arallgyfeirio a chynhyrchu incwm.</p>		
<p>Mae ein gwaith craffu yn ychwanegu gwerth ac nid yw'n arafu'r broses o wneud penderfyniadau yn ddiangen.</p>		
<p>Rydym yn gwneud gwaith craffu cyn penderfynu er mwyn helpu i lunio dewisiadau.</p>		
<p>Rydym yn gwneud gwaith craffu ar ôl gwneud penderfyniad er mwyn sicrhau bod yr hyn rydym yn ei gymeradwyo yn gweithio.</p>		
<p>Rydym yn gosod targedau a mesurau llwyddiant i farnu gwelliant dros amser, ac yn monitro'r rhain pan y cytunwyd arnynt.</p>		
<p>Rydym yn asesu risg gweithgareddau ac yn sicrhau bod yr un lefel o drefniadau llywodraethu ac atebolrwydd yn ymestyn i bob gweithgaredd arallgyfeirio a chynhyrchu incwm risg uchel yn gyson.</p>		

Materion i ni eu hystyried	Mae gennym safbwynt clir ynghylch hyn, ac nid oes angen gwneud unrhyw waith pellach	Mae angen i ni wneud mwy o waith i fod yn glir ynghylch hyn
Mae gennym drefniadau dirprwyo effeithiol ar gyfer cymeradwyo gweithgarwch arallgyfeirio a chynhyrchu incwm risg isel.		
Rydym yn craffu ar ein holl fentrau arallgyfeirio a chynhyrchu incwm er mwyn sicrhau eu bod yn darparu ar gyfer yr Awdurdod.		
Mae ein gwaith monitro a gwerthuso o fentrau arallgyfeirio a chynhyrchu incwm yn canolbwyntio'n benodol ar ba werth cymdeithasol a gaiff ei ddarparu.		
Rydym yn rhannu'r hyn a ddysgwyd, ac yn defnyddio'r dystiolaeth gan Awdurdodau Parciau Cenedlaethol eraill yng Nghymru ac mewn mannau eraill i ddysgu beth sy'n gweithio, beth sydd ddim yn gweithio, y risgiau a wynebwn a'r manteision posibl.		



Archwilio Cymru

Ffôn: 029 2032 0500

Ffacs: 029 2032 0600

Ffôn testun: 029 2032 0660

E-bost: post@archwilio.cymru

Gwefan: www.archwilio.cymru

Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg a Saesneg.
We welcome correspondence and telephone calls in Welsh and English.

Ymateb sefydliadol

Teitl yr adroddiad: Arallgyfeirio incwm - Eryri

Dyddiad cwblhau: Mehefin 2023

Cyfeirnod y ddogfen: 3587A2023

Cyf	Argymhelliad	Ymateb sefydliadol Nodwch yma sylwebaeth berthnasol ar y gweithgarwch a gynlluniwyd mewn ymateb i'r argymhellion	Dyddiad cwblhau Nodwch erbyn pryd y bydd y gweithgarwch wedi cwblhau	Swyddog cyfrifol (teitl)
A1	<p>Dull strategol o arallgyfeirio incwm</p> <p>Mae arallgyfeirio incwm yn ei gwneud hi'n ofynnol i Awdurdodau Parciau Cenedlaethol gael digon o gapasiti, y sgiliau cywir a systemau cadarn ond ystwyth i fod ar waith. Rydym yn argymhell bod yr Awdurdod:</p> <ul style="list-style-type: none"> yn defnyddio ein hoffer hunanarfarnu (Atodiad 1) i nodi ei gryfderau a'i wendidau presennol, a datblygu strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm; a fel rhan o'i strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm, yn gosod mesurau perfformiad CAMPUS a systemau llywodraethu priodol er mwyn sicrhau prosesau monitro a chraffu digonol ar gyflawni'r cynllun gweithredu y cytunwyd arno sy'n deillio o'i hunanwerthusiad. 	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r Awdurdod yn cytuno i ddefnyddio'r offeryn hunanarfarnu er mwyn datblygu strategaeth ar gyfer arallgyfeirio incwm. Gyda chyfleoedd prin, gall arallgyfeirio incwm dynnu ar adnoddau, a bydd angen i unrhyw strategaeth sicrhau bod ein hadnoddau prin yn cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol posib. Gyda hyn mewn golwg, fel nodir uchod rydym yn cytuno a bydd y strategaeth yn mesur perfformiad ac yn asesu a oes angen newidiadau i'n model llywodraethu. 	<p>Adolygiad cychwynnol gan ddefnyddio'r offeryn hunanarfarnu i'w gynnal erbyn Mawrth 2024.</p> <p>Pob gweithgarwch canlynol yn ddibynnol ar yr adolygiad hwnnw.</p>	Prif Weithredwr
A2	<p>Plas Tan y Bwlch</p> <p>Yn Rhan 2 o'r adroddiad hwn, rydym yn tynnu sylw at heriau ariannol parhaus ym Mhlas Tan y Bwlch. Rydym yn argymhell bod yr Awdurdod yn adolygu ei fodel</p>	<ul style="list-style-type: none"> Mae'r adolygiad hwn eisoes wedi cychwyn ac rydym yn y broses o gasglu'r wybodaeth. 	<p>Adroddiad cychwynnol i'r Awdurdod erbyn diwedd 2023, gyda disgwyliad y bydd penderfyniad ar fodel</p>	Prif Weithredwr a'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol.

gweithredu ym Mhlas Tan y Bwlch i gynnal gwerthusiad cost a budd o'r cyfleuster er mwyn pennu ei strategaeth ar gyfer y safle yn y dyfodol, a hynny o fewn y 12 mis nesaf.

gweithredu'r dyfodol yn dilyn.

EITEM RHIF 8

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	12^{fed} o Orffennaf 2023
TEITL	ADRODDIAD ALLDRO REFENIW A CHYFALAF 2022/23
ADRODDIAD GAN	Prif Swyddog Cyllid
PWRPAS	<ul style="list-style-type: none"> i. Cymeradwyo'r trosglwyddiadau cyllideb, trosglwyddiadau arian, a'r arian a gariwyd ymlaen o'r cyllidebau refeniw a chyfalaf yn unol â'r hyn a amlinellwyd yn yr adroddiad. ii. Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf. iii. Rhoi ystyriaeth i'r perfformiad adrannol gyda golwg ar reolaeth gyllidebol. iv. Cymeradwyo'r newidiadau a argymhellir i'r cronfeydd wrth gefn.

1. CYD-DESTUN

- 1.1 Mae sefyllfa ariannol derfynol y gwasanaethau am 2022/23 yn cadarnhau fod yr Awdurdod wedi llwyddo i gadw o fewn y cyfyngiadau ariannol gyda than-wariant net o £486,655, (gweler Atodiad 2). Mae'r gwarged yma yn deillio yn bennaf o log banc ychwanegol o ganlyniad i'r cynnydd mewn cyfraddau llog yn ogystal â grantiau ychwanegol a dderbyniwyd gan Lywodraeth Cymru.
- 1.2 Mae'r Awdurdod yn anelu i gwblhau ac awdurdodi'r datganiad cyfrifon o fewn yr amserlen estynedig a awgrymir gan Lywodraeth Cymru. Fodd bynnag, gan fod sefyllfa cyfrifon 2021/22 yn parhau heb ei ddatrys mae'r Awdurdod mewn cyswllt cyson ag Archwilio Cymru. Mae yna hyblygrwydd o fewn yr amserlen gan fod Archwilio Cymru wedi nodi na fydd yr adnoddau ganddynt i gychwyn yr archwiliad tan ddiwedd y flwyddyn galendr. Gofynnir i'r Awdurdod gymeradwyo sefyllfa ariannol derfynol 2022/23 (a throsglwyddiadau ariannol perthnasol), fel rhan o'r drefn cynhyrchu'r datganiadau ariannol statudol (sydd i'w hardystio gan y Prif Swyddog Cyllid, a'u cymeradwyo gan yr Awdurdod).
- 1.3 Dylid nodi y gall rhai ffigyrau yn yr adroddiad hwn gael eu haddasu yn ystod y drefn o gau'r cyfrifon a bod yr holl ffigyrau yn ddarostyngedig i archwiliad. Nid oes terfyn amser penodol wedi ei osod ond bydd yr Awdurdod yn anelu i lunio cyfrifon drafft erbyn Gorffennaf 31. Adroddir ymhellach i'r Awdurdod ar unrhyw addasiadau sylweddol a wneir yn y datganiad o gyfrifon ac yn dilyn cwblhau'r archwiliad arnynt.

2 GRANTIAU A DDERBYNIWYD YN 2022/23

- 2.1 Ym mis Mawrth 2023, derbyniwyd cadarnhad gan Lywodraeth Cymru o ddarpariaeth grant ychwanegol i'r Awdurdod am gyfanswm o £200,570 yn cynnwys £156,000 o gyfalaf a £44,570 o refeniw. Roedd telerau'r grant ychwanegol yn caniatáu gwariant ar brosiectau yn cynnwys rhai o gynlluniau presennol yr Awdurdod. Golygai hyn fod modd nodi arbediad o fewn y gwasanaethau perthnasol sydd wedi cyfrannu at y tanwariant cyffredinol. Yn ddiweddarach yn y mis derbyniwyd hysbysiad pellach o daliad o £27,128 o arian refeniw ychwanegol di-amod.
- 2.2 Yn ogystal â'r grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru bu'r hawliad cyntaf am arian T.C.LI.C 2022/23 - 2024/25 yn llwyddiannus, a hynny am gyfanswm o £800,000. Mae'r arian yma yn cynnwys elfennau cyfalaf yn o gystal â refeniw ar ffurf gyfradd o arian ar gyfer gweinyddu'r grantiau a chyfraniad tuag at amser staff i gyflawni'r gwaith. Yn ychwanegol derbyniwyd arian pellach T.C.LI.C ar gyfer prosiect grant ar y cyd â phartneriaid eraill gan arwain at incwm o £150,000 i'r Awdurdod yn 2022/23.
- 2.3 Yn ystod y flwyddyn cytunwyd ar gynllun tair mlynedd ar y cyd rhwng Parciau Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cymru. Mae'r cynllun werth £200,000 i'r Awdurdod gyda hawliad llwyddiannus yn ystod 2022/23 er mwyn ariannu Swyddog Adfer Natur a Dal a Storio Carbon o fewn yr Awdurdod.
- 2.4 Bu cais llwyddiannus hefyd am grant o £65,000 ar gyfer prosiect bioamrywiaeth BMW. Ni dderbyniwyd y grant tan Chwefror ac mae'r gwaith wedi ei raglennu ar gyfer 2023/24. O ganlyniad mae'r arian wedi ei gyfrifo fel grant a dderbyniwyd o flaen llaw ar gyfer 2023/24.
- 2.5 Yn ystod y flwyddyn derbyniwyd y taliad grant olaf ond un ar gyfer cynllun Coedwigoedd Celtaidd LIFE. Yn ogystal â'r taliadau arferol gan y cyd gyllidwyr eraill roedd y taliad yma am £991,859. Gan fod y prosiect nawr yn parhau tan yr hydref 2027, mae cyfran o'r taliad yma eisoes wedi ei neilltuo tuag at ariannu'r cynllun tan y diwedd ynghyd â grantiau blaenorol sydd hefyd wedi eu trosglwyddo i gronfeydd. Adroddwyd i'r Awdurdod eisoes bod risg y bydd angen i'r Awdurdod fenthycu arian dros dro hyd nes daw'r taliad grant terfynol.

3. AMLINELLIAD O SEFYLLFA DERFYNOL Y CYFRIFON

- 3.1 Mae'r adroddiad hwn yn cyflwyno cymhariaeth, ar lefel maes gwasanaeth, rhwng y cynlluniau gwariant refeniw a chyfalaf yr oedd yr Awdurdod wedi cyllidebu ar eu cyfer, a'r gwariant terfynol gwirioneddol ar gyfer 2022/23
- 3.2 Cyfanswm gwariant net y flwyddyn oedd £5,130,603 sef £1,686,973 o dan y gyllideb net ddiwygiedig o £6,817,576. Mae'r trosglwyddiadau i'r gyllideb Cyfalaf a awgrymwyd yn niwedariad cyllideb Mawrth wedi eu diystyru er mwyn rhoi adlewyrchiad cywir o'r cyfraniad ychwanegol sydd angen o'r cronfeydd wrth gefn wrth gymharu â'r gyllideb wreiddiol. Roedd y trosglwyddiadau a awgrymwyd yn Mawrth yn cynrychioli trosglwyddiadau a fuasai eu hangen ar gyfer y rhagamcan gwariant. Mae atodiad 3 yn nodi y trosglwyddiadau angenrheidiol yn seiliedig ar y sefyllfa alldro presennol. Cyfanswm y gwariant cyfalaf gros ar gyfer y flwyddyn oedd £1,652,579 (Atodiad 5).

- 3.3 Roedd £1,686,973 o arian yn weddill cyn trosglwyddiadau net gwerth £738,799 i gronfeydd penodol wrth gefn, a llithriadau ac ymrwymïadau (i 2023/24) o rai o ddyraniadau cyllideb 2022/23 gwerth £461,519. Mae hyn yn dod â'r balans sy'n weddill ar gael i'w ail-glustnodi i **£486,655**.

4. CRYNODEB REFENIW TERFYNOL 2022/23

Maes Gwasanaeth	Cyllideb Net Wreiddiol	Trosogl	Cyllideb Net Ddiwygiedid	Gwir Wariant	Dan/(Dros)
	£	£	£	£	£
Cynllunio a Rheoli Tir	1,595,967	182,842	1,778,809	1,255,155	523,654
Corfforaethol	4,738,275	354,296	5,092,571	4,459,953	632,618
Balansau	259,467	- 259,467	-		-
Llog a Ennillwyd	- 8,000	-	- 8,000	- 135,654	127,654
Ariannu Cyfalaf o refeniw	398,620	146,626	545,246	142,199	403,047
Addasiad taliadau cyfalaf	- 591,050		- 591,050	- 591,050	
CYFANSWM	6,393,279	424,297	6,817,576	5,130,603	1,686,973

4.1 Cyllideb Net ar gyfer 2022/23

Mae'r awdurdod eisoes wedi ei hysbysu o'r cynnydd yn y gyllideb refeniw sylfaenol net.

Yn Atodiad 1, ceir manylion pellach ynghylch y trosglwyddiadau adroddwyd amdanynt i'r Awdurdod ym Mawrth a'r rhai sydd wedi'u gweithredu ers hynny.

4.2 Trosglwyddiadau o ac i Gronfeydd Wrth Gefn a Chostau penodol Eraill

Mae balans o £1,686,973 cyn trosglwyddiadau o ac i'r cronfeydd wrth gefn. Dangosir crynodeb o'r dadansoddiad o'r trosglwyddiadau yn y tabl isod, ynghyd â chostau penodol eraill, gyda'r manylion yn Atodiad 3.

	(£)	(£)	(£)
Cyfanswm balansau ar gael ar gyfer 2022/23			1,686,973
Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn			
Cynllunio a Rheolaeth Tir	336,295		
Corfforaethol	307,790	644,085	
Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn			
Cynllunio a Rheolaeth Tir	-742,860		
Corfforaethol	-640,024	-1,382,884	-738,799
Llithriant a Chostau Eraill (gweler Atodiad 4)	-461,519		-461,519
Balans ar gael i'w ailddyrannu			486,655

4.3 Aildro Adrannol

Pennwyd trosglwyddiadau hanfodol o ac i gronfeydd wrth gefn o fewn rhaglenni penodol neu wedi'u neilltuo ym mhwynt 4.2 eisoes.

Mae'r tabl isod yn dangos sefyllfa pob lefel cyfarwyddiaeth ar ôl cymryd yr eitemau wedi'u neilltuo a'r rhai penodol a ddygwyd ymlaen o fewn cyllideb 2021/22 i ystyriaeth:

Maes Gwasanaeth	Cyllideb Net Ddiwygiedig	Gwir Wariant	Dan/ (Dros)	Ymrwymiad	Dan/(Dros)
	£	£	£	£	£
Cynllunio a Rheoli Tir	1,778,809	1,255,155	523,654	390,531	133,123
Corfforaethol	5,092,571	4,459,953	632,618	406,741	225,878
Balansau	-		-		
	6,871,380	5,715,108	1,156,272	797,272	359,001
Llog a Ennillwyd	- 8,000	- 135,654	127,654		127,654
Cyllido Cyfalaf o Refeniw	545,246	142,199	403,047	403,047	-
Addasiad taliadau cyfalaf	- 591,050	- 591,050	-		
CYFANSWM	6,817,576	5,130,603	1,686,973	1,200,319	486,655

Cyfanswm yr incwm ychwanegol a'r tanwariant, ar ôl cymryd i ystyriaeth y trosglwyddiadau i ac o gronfeydd wrth gefn, oedd **£486,655**.

4.4 Dadansoddiad Manwl

Mae dadansoddiad manylach fesul gwasanaeth o'r gwariant a'r ymrwymadau ar gyfer 2022/23 yn Atodiad 2.

4.5 Amrywiadau Sylweddol

Mae nifer o amrywiadau yn cael eu ariannu o warged gwasanaethau eraill sydd o dan reolaeth y penaethiaid gan gynnwys y defnydd o warged parcio ar gyfer gorwariant ar wasanaethau megis Cyfleusterau Ymwelwyr, Casglu Sbwriel a'r gwasanaeth Eiddo Corfforaethol. Yn dilyn neilltuo arian at y ddiben yma ymhelaethir ar yr amrywiadau dros £10,000 o fewn y gwasanaethau isod sy'n cyfrannu at y cyfanswm o £486,655.

Cadwraeth Coed ac Amaeth – £133,962 o danwariant. Bu gwariant ar nifer o brosiectau grant lle roedd angen symud y gwariant yn erbyn gwasanaethau/grantiau penodol gan adael gwaged o fewn y gwasanaeth. Mae'r arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru hefyd wedi cyfrannu at bron i £90,000 o danwariant ar gyfer creu gwaged i lithro i 2023/24 a chyfrannu at yr her ariannol. Mae natur rhai o'r prosiectau o fewn y gwasanaethau yma yn golygu bod ansicrwydd o ran argaeledd grantiau ac hawliadau grant. Mae'n bosib fydd gwaged un flwyddyn yn dueddol o fod ei angen ar gyfer cyfarch sefyllfaoedd o'r fath mewn blynyddoedd canlynol lle mae diffyg yn cael ei adnabod.

Canolfannau Gwybodaeth – Gorwariant o £11,286 o ganlyniad i ddryswch o ran anfonebau trethi gan Gyngor Conwy sydd wedi golygu gwariant ychwanegol o dros £8k. Roedd swm cyffelyb yn dangos fel tanwariant yng nghyfrifon 2021/22. Mae costau ynni ychwanegol hefyd wedi cyfrannu at y diffyg.

Cyfieithu - £16,258 o dan-wariant yn deillio o ddefnydd cyfieithwyr allanol.

Plas Tan y Bwlch – £13,230 o or-wariant. Mae'r prif or-wariannau ar gyflogaeth, costau ynni ac archebu nwyddau/bwydydd. Fodd bynnag mae'r sefyllfa bresennol yn llawer fwy calonogol na'r sefyllfa adroddwyd arno fel rhagamcan ym mis Mawrth. Mae hyn yn bennaf oherwydd cynnydd sylweddol yn yr incwm o ganlyniad i anfonebau nad oedd wedi eu codi ar y pryd. O ganlyniad mae'r incwm ychwanegol wedi cwrdd a rhan helaeth o'r gorwariant.

Meysydd Parcio a Chyfleusterau Ymwelwyr – Roedd yr incwm meysydd parcio a Llyn Tegid yn £185,955 yn fwy na gyllidebwyd ar ei gyfer ond fel sydd wedi ei grybwyll eisoes, mae'r arian yma wedi ei neilltuo at ddiffyg o fewn gwasanaethau eraill o dan gyfarwyddyd y Pennaeth Eiddo. Mae hyn yn cynnwys £124,628 y bwriedir ei gario drosodd i 23/24 ar gyfer gwaith a raglennwyd ym Mhlas Tan y Bwlch a gwaith cynnal a chadw ar eiddo yr awdurdod megis meysydd parcio.

Wardeniaid, Mynediad Cyhoeddus a Thîm yr Wyddfa - Mae tanwariant sylweddol o £166,790 ar draws y gwasanaethau yma. Mae tua £90,000 o wariant wedi ei ariannu gan y grant arian ychwanegol gan Lywodraeth Cymru sydd wedi golygu lleihau'r lefel gwariant yn erbyn y gwasanaethau a chyfrannu at yr arbediad.

Cyfreithiol – Mae tanwariant o £26,421 sydd o ganlyniad i adennill £40,000 mewn costau cyfreithiol yn achos Hillside. Mae cyfran o'r arian dros ben wedi ei neilltuo ar gyfer costau ar system gyfrifiadurol y gwasanaeth am y ddwy flynedd nesaf.

Personél a Hyfforddiant – Deillir tanwariant o £15,473 yn bennaf o ganlyniad i swyddi gwag a thanwariant ar gyllideb hyfforddi staff.

Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau – Mae tanwariant oherwydd swyddi yn wag am gyfnod tra bod staff ar famolaeth. Yn ogystal â hyn, bu tanwariant sylweddol ar gyllideb y gronfa gomisiynu sydd wedi cyfrannu at dros £61,550. Nid yw hyn yn annisgwyl gan fod y gyllideb yma eisoes wedi ei adnabod fel arian gall gyfrannu at yr her ariannol dros y blynyddoedd nesaf.

Cyllid – Gorwariant o £23,907 yn deillio yn bennaf o'r sefyllfa staffio a'r gwaith angenrheidiol o ganlyniad, yn ogystal â phrynu gwasanaeth i mewn ar gyfer cau cyfrifon 2021-22 ar ddechrau'r flwyddyn. Roedd costau ychwanegol hefyd gan fod y pennaeth ar gyfnod mamolaeth ac angen ariannu pennaeth dros dro.

Llog Banc – Mae'r gwir incwm a dderbyniwyd yn llawer uwch na'r gyllideb o £8,000 a'r rhagolygon blaenorol. Mae hyn yn bennaf gan fod y cyfraddau llog yn parhau yn uchel a chwyddiant ddim yn gostwng ar y gyfradd a ragwelwyd, gan arwain at incwm llog ychwanegol o £127,323.

4.6 Newidiadau ers yr adroddwyd yn flaenorol

Yn yr adroddiad blaenorol ar y gyllideb a roddwyd gerbron yr Awdurdod ym mis Mawrth 2023, nodwyd alldro tebygol o warged o £19,345. Mae hyn yn wahanol iawn i'r sefyllfa bresennol, lle gwelir gwarged o £486,655.

Mae nifer o resymau a adroddwyd arnynt yn rhan 4.5 wedi cyfrannu at y gwarged, gyda'r gwahaniaethau sylweddol yn deillio o'r tanwariant yng ngwasanaethau Cadwraeth, Coed ac Amaeth, Mynediad Cyhoeddus a Wardeiniaid, y gronfa gomisiynu, y llog banc ychwanegol a'r incwm ychwanegol ym Mhlas Tan y Bwlch.

Mae'r grantiau ychwanegol a dderbyniwyd o £227,698 bellach wedi eu defnyddio i ariannu gwariant o fewn y gwasanaethau gan gynyddu y swm gwarged o fewn gwasanaethau Cadwraeth Coed ac Amaeth a Mynediad Cyhoeddus a Wardeiniaid. Nid oedd y bwriad yma yn glir pan adroddwyd ar y gyllideb ym mis Mawrth. O ganlyniad mae hyn wedi cyfrannu at warged sydd ar gael i'w neilltuo at yr her ariannol o gyllidebu ar gyfer 2023/24 a 2024/25 gan ystyried setliad grant ac ardoll stond/fflat er gwaetha'r cynnydd mewn costau a chyflogau i'r Awdurdod.

5. ALLDRO CYFALAF 2022/23

5.1 Mae manylion y gyllideb Gyfalaf, alldro a ffynonellau ariannu yn ymddangos yn y crynodeb isod ac Atodiad 5:

	Cyllideb Net	Gwariant	Incwm	Gweddill	Wedi'i Neilltuo	Tan / (Tros)
	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)	(£)
Cynllunio a Rheolaeth Tir	425,950	1,030,559	-942,419	337,810	337,815	-5
Corfforaethol	119,296	622,019	-567,960	65,237	65,232	5
Cyfanswm	545,246	1,652,578	-1,510,379	403,047	403,047	0

5.2 Adroddwyd eisoes yn rhan 3.2 fod y trosglwyddiadau Cyfalaf a awgrymwyd yn niweddariad cyllideb Mawrth wedi eu diystyru er mwyn cyflwyno gwybodaeth ar sail y sefyllfa bresennol.

Mae'r gyllideb net ddiwygiedig o £545,246 a'r gwariant net o £142,200 yn gadael £403,047 cyn trosglwyddiadau a llithriant. Fodd bynnag mae'r ffigyrau yma yn cynnwys grantiau T.C.LI.C yn ogystal â'r cynllun T.C.LI.C ar y cyd lle mae £950,000 o incwm wedi ei dderbyn a gwariant o £447,512 yn unig. Mae'r cynlluniau grant hyn yn cynrychioli £502,489 o'r £607,703 sydd wedi eu neilltuo i fynd i'r cronfeydd ar gyfer defnydd yn 2023/24 a thu hwnt. Mae nifer o gynlluniau grant hanesyddol lle na gyllidebwyd ar eu cyfer yn wreiddiol hefyd wedi gweithredu arnynt yn ystod y flwyddyn gyda £369,909 o arian o gronfeydd wrth gefn penodol angen ei drosglwyddo. O'r cynlluniau a gyllidebwyd ar eu cyfer mae £165,253 yn weddill wedi ei glustnodi fel arian i gario drosodd i 23/24.

Mae'r trosglwyddiadau arfaethedig yma i mewn ac o'r cronfeydd ynghyd a'r swm i gario drosodd yn dod i gyfanswm o £403,047.

5.3 Gweler atodiad 5 am fwy o fanylder ynglŷn a'r ffigwr ymrwymedig £403,047.

6. CRONFEYDD WRTH GEFN

- 6.1 Gweler isod grynodedb o'r cronfeydd defnyddiadwy gyda'u balansau cyfredol cyn trosglwyddo'r gwarged o £486,655. Dylid nodi fod cyfran sylweddol o'r isod yn cynrychioli symiau sydd eisoes wedi eu hymrwymo at ddibenion penodol.

Enw'r Gronfa	Balans 31/03/2022	Symudiad	Balans 31/03/2023
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	163,791	-	163,791
Cronfa Adran 106	484,505	112,529	597,034
Cronfa Grantiau Refeniw	1,752,371	(176,947)	1,575,424
Grantiau Cyfalaf dderbyniwyd ymlaen llaw	2,094,437	94,267	2,188,704
Cronfa Rheoli Asedau	918,594	(28,030)	890,564
Cronfa Ymchwiliad Cyhoeddus	225,000	-	225,000
Cronfa Arian Cyfatebol	986,397	(114,141)	872,256
Cronfa Arian Gariwyd Drododd	775,133	51,619	826,752
Cronfa Prosiectau	941,671	16,068	957,739
Cronfa Is-adeiledd yr Wyddfa	56,303	-	56,303
Cronfa Risgiau Penodol	424,160	(40,617)	383,543
Cronfa Gwytnwch Staff	120,000	(5,238)	114,762
Cronfa Risgiau Masnachol	100,000	-	100,000
Cronfa Gyffredinol	719,708	(70,321)	649,387
	9,762,071	(160,811)	9,601,260

6.2 Clustnodi Balans a Tanwariant ac Incwm Ychwanegol

Mae balans o £486,655 o danwariant ac incwm ychwanegol o 2022/23 ar gael i'w ail-glustnodi ar sail un-tro. Argymhellir bod yr incwm ychwanegol sydd yn deillio o'r grantiau ychwanegol gan Lywodraeth Cymru (£227,698) yn cael ei drosglwyddo i gronfeydd er mwyn cyfrannu tuag at y diffyg yng nghyllideb 2023/24. Roedd y diffyg a nodwyd yn y gyllideb wreiddiol ar gyfer 2023/24 yn £778,953 gan gynnwys £459,310 o gyfraniad i'w adnabod. Ar y pryd nid oedd sicrwydd ynglŷn â rhai grantiau nac os fyddai cronfeydd penodol ar gael ar gyfer rhai o'r cynlluniau. Mae disgwyl fydd y diweddariad cyllideb cyntaf ym mis Medi yn darparu gwell darlun o'r sefyllfa a'r diffyg i'w ariannu. Argymhellir bod gweddill yr arian dros ben o 2022/23 yn cael ei neilltuo mewn cronfeydd at y diben yma am y tro gyda'r swm angenrheidiol i'w drosglwyddo i gyllideb 2023/24 a'r gweddill i'w gadw wrth gefn at y diffyg yn 2024/25. Yr argymhelliad yw rhannu y gwarged yma rhwng Cronfeydd Risgiau Penodol - £160,000, Gwytnwch Staff - £160,000 a'r Gronfa Gyffredinol (balansau) - £166,655.

6.3 Dadansoddiad o'r Cronfeydd

Isod mae dadansoddiad o'r prif symudiadau o fewn y cronfeydd. Gweler Atodiad 6 am ddisgrifiad a phwrpas pob cronfa.

Cronfa Adran 106

Bu cynnydd o £112,529 yn y gronfa yn ystod y flwyddyn. Derbyniwyd £74,594 mewn symiau cymudo a dyfarnwyd un grant 'Prynu Tŷ Cyntaf' drwy Gyngor Conwy am £14,024. Yn ychwanegol derbyniwyd £52,320 gan y Grid Cenedlaethol ar gyfer cynlluniau penodol i'w rheoli dros y pum mlynedd nesaf gan y gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth.

Cronfa Grantiau Refeniw

Mae'r gronfa hon yn dal balans grantiau refeniw sydd heb eu defnyddio, derbyniwyd yn y flwyddyn ariannol ac yn cael eu hadnabod fel incwm yn y flwyddyn ariannol honno, ond eu trosglwyddo i gronfa ar gyfer defnydd yn y dyfodol. Bu gostyngiad net o £176,947 yn ystod y flwyddyn.

Cronfa Grantiau Cyfalaf

Mae'r gronfa hon wedi ei chreu ar yr un cyswllt a'r Gronfa Grantiau Refeniw. Yn ystod 2022/23 defnyddiwyd a derbyniwyd grantiau yn golygu cynnydd net o £94,267 yn y gronfa.

Cronfa Rheoli Asedau

Bu gostyngiad o £28,030 yn y Gronfa yn ystod 2022/23.

Cronfa Arian Gyfatebol

Yn ystod y flwyddyn bu defnydd ac ychwanegu yn golygu gostyngiad net o £114,141.

Cronfa Gwynwch Staff

Defnyddiwyd £5,328 o'r gronfa yma yn ystod 2022/23. Byddai'r trosglwyddiad a argymhellir uchod yn ychwanegu £160,000 i'r gronfa yma.

Cronfa Risgiau Penodol

Mae gostyngiad net o £40,617 yn y gronfa yma yn dilyn gwariant 2022/23. Byddai'r trosglwyddiad a argymhellir uchod yn ychwanegu £160,000 i'r gronfa yma.

Cronfa Arian Gariwyd Drosodd

Trosglwyddwyd £409,900 o'r gronfa yma ar gyfer ei ddefnyddio yn 2022/23. Mae cynnydd o £461,519 yn seiliedig ar yr argymhelliad uchod a fyddai'n gadael cynnydd net o £51,619 ar gyfer 2022/23. Gweler Atodiad 4 am fwy o fanylion.

Balansau Cyffredinol

Trosglwyddwyd £70,321 o'r gronfa yma ar gyfer ei ddefnyddio yn 2022/23. Byddai'r trosglwyddiad o £166,655 a argymhellir uchod ar gyfer y gwarged yn golygu cynnydd net o £96,334 yn y Gronfa yma.

7. TROSGLWYDDIADAU RHWNG CYLLIDEBAU GWERTH DROS £30,000 I SYLW'R AWDURDOD

- 7.1 Mae Rhan 3 o Reoliadau Ariannol yr Awdurdod yn datgan yr angen i adrodd i'r Awdurdod neu'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar drosglwyddiadau gwerth dros £30,000 rhwng cyllidebau, fel a ganlyn :

Swm	Cymeradwyaeth y Trosglwyddiad
£30,000 - £100,000	Prif Weithredwr, Prif Swyddog Cyllid a'r Cadeirydd. Trosglwyddiad i'w adrodd i'r Awdurdod nesaf er gwybodaeth yn unig.
£100,000 neu fwy	Penderfyniad Awdurdod

- 7.2 Bu un trosglwyddiad ers yr adroddiad diwethaf ar gyfer ariannu gwariant Cyfalaf ar gerbydau i'r gwasanaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth. Trosglwyddwyd £35,409 o gyllideb referniw y gwasanaeth gan fod tanwariant sylweddol.

8. ARGYMHELLION

- 8.1 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau yn y cyllidebau refeniw a chyfalaf fel sydd wedi ei amlinellu yn rhan 4 (manylion yn Atodiad 1) .**
- 8.2 Cymeradwyo'r trosglwyddiadau i'r cronfeydd wrth gefn a glustnodwyd ac ohonynt fel yr amlinellwyd yn y tabl o dan baragraff 4.2 ac Atodiad 3.**
- 8.3 Nodi sefyllfa derfynol y cyfarwyddiaethau a gwasanaethau o safbwynt rheolaeth gyllidebol (paragraff 4.3 i 4.6 ac Atodiad 2)**
- 8.4 Cymeradwyo'r llithriadau ac ymrwymadau (£461,519) sy'n Atodiad 4.**
- 8.5 Nodi bydd tanwariant y flwyddyn ariannol 2022/23 yn cynyddu'r Balansau Cyffredinol, y Gronfa Gwytnwch Staff a'r Gronfa Risgiau Penodol.**
- 8.6 Cymeradwyo'r Datganiad Ariannu Cyfalaf (rhan 5 ac Atodiad 5).**

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyllideb Ddiwygiedig 2022/23 ar 31 Mawrth 2023

	Cyllideb Sylfaenol £	Trosgl. cynt £	Trosgl . newydd £	Cyllideb Net Ddiwygiedig £
CYNLLUNIO A RHEOLI TIR				
Cadwraeth, Coed ac Amaeth	407,680	41,245 -	35,410	413,515
Awyr Dywyll		-		-
Mawndir Cymru		-		-
Grid Cenedl. - Maentwrog (Dwyrain)	110,000	-		110,000
LIFE - Coedwigoedd Glaw Celtaidd	93,677	3,650		97,327
Partneriaeth Tirwedd y Carneddau	32,200 -	4,300		27,900
Archeoleg	62,710	19,417		82,127
Treftadaeth Diwylliannol	73,560	10,525		84,085
Treftadaeth Treflun Dolgellau	22,930	630	11,740	35,300
Cynllun Harlech ac Ardudwy	51,560	710		52,270
Ysgwrn	90,280	18,732		109,012
Cynllunio	651,370	115,903		767,273
Is-gyfanswm wedi'i gario ymlaen	1,595,967	206,512 -	23,670	1,778,809
CORFFORAETHOL				
Costau Aelodau	112,510	-		112,510
Cefnogaeth yr Awdurdod	87,710	4,803		92,513
Rheolaeth Gorfforaethol	607,280	5,871		613,151
Eiddo	238,731	8,423		247,154
Cyfreithiol	54,510	2,861		57,371
Gweinyddol a Gofal Cwsmer	207,010	12,761		219,771
Cyfieithu	103,740	3,422		107,162
Personel a Hyfforddiant	110,200	5,482		115,682
Pencadlys	221,310	1,465		222,775
Systemau Gwybodaeth	342,280	16,373	11,765	370,418
Cyllid	209,780	14,773		224,553
Canolfan Astudio Plas Tan y Bwlch	382,230	17,644		399,874
Ymgysylltu	464,890	85,674		550,564
Safle Gwe Newydd	46,880	860		47,740
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	3,189,061	180,412	11,765	3,381,238

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Cyllideb Ddiwygiedig 2022/23 ar 31 Mawrth 2023

	Cyllideb Sylfaenol £	Trosgl. cynt £	Trosgl . newydd £	Cyllideb Net Ddiwygiedig £
Is-gyfansymiau a Ddygwyd Ymlaen				
CYNLLUNIO A RHEOLI TIR	1,595,967	206,512 -	23,670	1,778,809
CORFFORAETHOL	3,189,061	180,412	11,765	3,381,238
Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (grant LI.C.)	21,520	400		21,920
Llwybrau Llesiant (grant LI.C.)	40,000	-		40,000
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau	258,020	56,647		314,667
Canolfannau Gwybodaeth	120,140	29,535		149,675
Llyn Tegid -	28,280	480	-	27,800
Meysydd Parcio -	460,510	7,733 -	2,210 -	454,987
Clirio Ysbwriel	19,510	-		19,510
Traffig a Chludiant	5,000	-		5,000
Cyfleusterau Ymwelwyr	292,720	-		292,720
Mynediad Cyhoeddus	160,410	11,791		172,201
Wardeniaid, Gweithwyr Stad a Gwirfoddok	1,120,684	57,743		1,178,427
	4,738,275	344,741	9,555	5,092,571
BALANSAU				
Darpariaeth chwyddiant cyffredinno	15,000 -	15,000		
Darpariaeth chwyddiant cyflogau	244,467 -	244,467		
	259,467 -	259,467	-	-
	6,593,709	291,786 -	14,115	6,871,380
CYFANSWM				
Llog a Enillwyd -	8,000		-	8,000
Refeniw yn Ariannu Gwariant Cyfalaf	398,620	132,511	14,115	545,246
Addasiad Taliadau Cyfalaf -	591,050		-	591,050
	6,393,279	424,297	-	6,817,576
WEDI EI ARIANNU O				
Grant Parc Cenedlaethol	4,119,789			4,119,789
Lefi Awdurdodau Cyfansoddol	1,373,262			1,373,262
Tros. o'r cronfeydd wrth gefn	900,228	424,297		1,324,525
Cyllideb Net	6,393,279	424,297	-	6,817,576

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Sefyllfa Refeniw Derfynol 2022-23 ar 31 Mawrth 2023

	Cyllideb Net ddiwygiedig	Gwir Wariant	Wedi'i Neilltuo	Gwariant O dan/ (Trosodd)
	£	£	£	£
CYNLLUNIO A RHEOLAETH TIR				
Cadwraeth Coed & Amaeth	413,515	216,532	63,021	133,962
LIFE - Corsydd Crynedig	-	593	-	593
SMS - Dinas Mawddwy	-	10,177	10,177	-
RMMAMG*	-	66,175	66,175	-
Ysgwrn	109,012	162,709	53,697	-
Awyr Dywyll	-	-	-	-
CGANaLI*	-	-	-	-
Mawndir Cymru	-	19,327	4,270	15,057
Mawndiroedd (Grant CNC)	-	15,840	783	15,057
Ymylon Eryri	-	246	-	246
Grid Cenedlaethol Maentwrog (Dwyrain)	110,000	-	110,000	-
Grid Cenedlaethol Maentwrog (Gorllewin)	-	2,320	2,320	-
LIFE-CoedwigCeltaidd	97,327	184,069	86,742	-
Treftadaeth Diwylliannol	84,085	66,497	17,588	-
Treftadaeth Dolgellau	35,300	41,726	6,426	-
Harlech ac Arudwy	52,270	36,342	15,928	-
Archeoleg	82,127	52,908	29,219	-
Cynllunio	767,273	558,311	208,962	-
Carneddau	27,900	5,767	22,133	-
Is-gyfanswm wedi ei gario ymlaen	1,778,809	1,255,155	390,531	133,123
CORFFORAETHOL				
Costau Aelodau	112,510	119,882	-	7,372
Cefnogaeth yr Awdurdod	92,513	95,100	-	2,587
Rheolaeth Corfforaethol	613,151	572,685	38,870	1,596
Eiddo	247,154	272,654	5,582	31,082
Cyfreithiol	57,371	18,950	12,000	26,421
Gweinyddol a Gofal Cwsmer	219,771	210,309	93	9,369
Cyfieithu	107,162	90,904	-	16,258
Personel a Hyfforddiant	115,682	100,209	-	15,473
Pencadlys	222,775	223,306	456	987
Systemau Gwybodaeth	370,418	392,219	21,801	-
Cyllid	224,553	254,370	5,910	23,907
Plas Tan y Bwlch	399,874	413,104	-	13,230
Ymgysylltu	550,564	538,267	29,508	17,211
Safle Gwe Newydd	47,740	63,566	15,826	-
Ymgysylltu Â Phobl Ifanc (Grant L.I.C.)	21,920	35,816	13,896	-
Llwybrau Llesiant (Grant L.I.C.)	40,000	8,188	31,812	-
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau	314,667	136,172	116,944	61,551
Canolfannau Gwybodaeth	149,675	160,962	-	11,287
Llyn Tegid	27,800	108,145	4,866	75,479
Meysydd Parcio	454,987	560,598	103,582	2,029

Partneriaeth Yr Wyddfa	-	7,263	-	7,263	-
Casglu Sbwriel	19,510	47,577	-	-	28,067
Traffig a Chludiant	5,000	-	-	-	5,000
Cyfleusterau Ymwelwyr	292,720	299,308	11,770	-	18,358
Mynediad Cyhoeddus	172,201	84,574	-	-	87,627
Tim Y Wyddfa	338,214	269,400	-	-	68,814
Wardeniaid - Cyffredinol	273,456	249,385	100,904	-	76,833
Wardeniaid - Gogledd	293,035	210,033	15,050	-	67,952
Wardeniaid - De	273,722	254,493	-	-	19,229
	5,092,571	4,459,953	406,741		225,878

BALANSAU

	-	-	-	-
	6,871,380	5,715,108	797,272	359,001

CYFANSWM

Llog a Enillwyd	-	8,000	-	135,654	127,654
Cyllido Cyfalaf o Refeniw		545,246		142,199	403,047
Addasiad Taliadau Cyfalaf	-	591,050	-	591,050	-
		6,817,576		5,130,603	1,200,319
					486,655

WEDI'I ARIANNU O

Grant y Parc Cenedlaethol	4,119,789
Lefi Awdurdod Cyfansoddol	1,373,262
Defnydd o gronfeydd wrth gefn	1,324,525
Cyllideb Net Ddiwygiedig	6,817,576

RMMAMG - Rhaglen Monitro a Modelu'r Amgylchedd a Materion Gwledig
CGANaLI - Cynllun Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant

Atodiad 3

	(£)	(£)	(£)
Cyfanswm balansau ar gael ar gyfer 2022/23			1,686,973
Trosglwyddiadau o Gronfeydd Wrth Gefn			
Cynllunio a Rheolaeth Tir			
Yr Ysgwrn	56,854		
Mawndiroedd Cymru	4,270		
Maentwrog (Gorllewin) Grid Cenedlaethol	2,320		
LIFE - Coedwigoedd Celtaidd	139,610		
Cynllun Treftadaeth Dolgellau	6,426		
	<hr/>	209,480	
Adfywio Harlech (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	12,526		
Bioamrywiaeth (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	3,418		
Ardaloedd Cadwraeth (Grant Cyfalaf T.C.LI.C)	14,968		
Coetir Hynafol (Grant Cyfalaf T.C.LI.C)	350		
Awyr Dywyll (Grant Cyfalaf T.C.LI.C)	83,661		
Prosiect Ty Natur	811		
	<hr/>	115,734	
Corfforaethol			
Safle Gwe Newydd	15,826		
Ymgysylltu Pobl Ifanc (Grant Refeniw LI.C)	13,896		
Partneriaeth Yr Wyddfa (Grant Refeniw LI.C)	7,263		
Systemau Gwybodaeth	21,801		
Cyllid (Ariannu Staff Ychwanegol)	5,910		
	<hr/>	64,696	
Uwchraddio Toiledau	23,000		
Toiledau Morfa Mawddach	22,000		
Prosiectau Mynediad	809		
Cynllun Dehongli'r Wyddfa (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	1,707		
Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	176		
Pwyntiau Gwefru Ceir Trydan (Grant Cyfalaf LI. Cymru a Grant T.C.LI.C)	6,408		
Safle Gwe (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	17,390		
Hafod Eryri (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	6,000		
Betws y Coed (Grant Cyfalaf LI.Cymru)	10,469		
Bwch Brithdir (Grant Cyfalaf LI.Cymru)	651		
Dathlu 70 (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	3,200		
Crafnant/Capel Curig (Grant Cyfalaf T.C.LI.C)	11,081		
Nant Gwynant (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	4,725		
Cader Idris (Grantiau Cyfalaf Amrywiol - BMC, CNC a LI. Cymru)	75,701		
TG (Grantiau Cyfalaf T.C.LI.C)	30,166		
Dadcarboneiddio (Grant Cyfalaf T.C.LI.C)	20,666		
Brithdir - Cylchdaith (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	16,789		
Canolfan Wybodaeth Betws y Coed (Grant Cyfalaf LI. Cymru)	3,237		
	<hr/>	254,175	
			644,085
Trosglwyddiadau i Gronfeydd Wrth Gefn			
Cynllunio a Rheolaeth Tir			
Treftadaeth Diwylliannol			
LiDAR (Grant Cyfalaf LI.C)	15,630		
Llwybrau Carneddau (Grant LI.C)	31,865		

Atodiad 4**Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri
Llithriant a Chostau Eraill 2022-23**

	(£)	(£)
Cadwraeth Coed ac Amaeth		
Llithriant wedi ei glustnodi ar gyfer gwariant penodol	<u>10,701</u>	10,701
Ysgwrn		
Llithriant wedi ei glustnodi ar gyfer gwariant penodol	<u>3,157</u>	3,157
Archeoleg		
Llithriant wedi ei glustnodi ar gyfer gwariant penodol	<u>11,500</u>	11,500
Treftadaeth Diwylliannol		
Amgylchedd Adeiledig - Cynllun Harlech ac Ardudwy	17,588	
Harlech ac Ardudwy	<u>15,928</u>	33,516
Ymgysylltu		
Tanwariant ymgysylltu oherwydd oedi ar waith Hafod Eryri	10,000	
Grantiau i'w dyrannu	<u>1,950</u>	11,950
Eiddo		
Llithriant wedi ei glustnodi ar gyfer gwariant penodol		
Eiddo	4,410	
Cyfleusterau Ymwelwyr	11,770	
Llyn Tegid	4,866	
Meysydd Parcio	<u>103,582</u>	124,628
Pencadlys a Gweinyddiaeth		
Llithriant wedi ei glustnodi ar gyfer gwariant penodol	<u>549</u>	549
Cyfreithiol		
Llithriant wedi ei glustnodi ar gyfer gwariant penodol	<u>12,000</u>	12,000
Wardeiniaid		
Llithriant wedi ei glustnodi ar gyfer Wardeiniaid Tymhorol	<u>15,050</u>	15,050
Cynllun Rheolaeth a Phartneriaethau		
Grantiau Partneriaeth Eryri a Stondin Eisteddfod	<u>43,002</u>	43,002
Rheolaeth Corfforaethol		
Cronfa Tim Rheoli a Grant ychwanegol di-amod	<u>30,213</u>	30,213
CYFALAF		
Amgylchedd Adeiledig	61,560	
System TG Cynllunio	47,314	
Cerbydau Wardeinio a Prosiectau Mynediad	<u>56,379</u>	165,253
Cyfanswm Llithriant a Chostau Eraill 2022-23		461,519

ALLDRO CYFALAF 2022/23

	Cyllideb Net (£)	Gwariant (£)	Incwm (£)	Gweddill (£)	Wedi'i Neilltuo (£)	Tan / (Tros) (£)
Amgylchedd Adeiliedig	65,730	4,170	-	61,560	61,560	- 0
Treftadaeth Dolgellau	170,093	322,860	- 152,763	- 4	- -	4
Cerbydau'r Gwasanaeth Amaeth	35,410	35,410	-	0	-	0
Data LiDAR (Grant .LI.Cymru)	15,630	-	-	15,630	15,630	-
Llwybrau'r Carneddau (Grant .LI.Cymru)	65,073	33,208	-	31,865	31,865	-
System TG - Cynllunio (Grant .LI.Cymru)	50,000	2,687	-	47,314	47,314	-
Adfywio Harlech (Grant .LI.Cymru)	24,014	156,540	- 120,000	- 12,526	- 12,526	-
Bioamrywiaeth (Grant .LI.Cymru)	-	3,418	- -	3,418	- 3,418	- 0
Ardaloedd Cadwraeth (Grant T.C.LI.C)	-	14,968	- -	14,968	- 14,968	- 0
Coetir Hynafol (Grant T.C.LI.C)	-	350	- -	350	- 350	-
Awyr Dywyll (Grant T.C.LI.C)	-	83,661	- -	83,661	- 83,661	-
Prosiect Ty Natur	-	56,467	- 55,656	- 811	- 811	0
Twristiaethath (Grant T.C.LI.C)	-	111,048	- 254,000	142,952	142,952	- 0
Natur Eryri (Grant T.C.LI.C)	-	102,210	- 210,000	107,790	107,790	- 0
Terfynnau Traddodiadol (Grant T.C.LI.C)	-	103,563	- 150,000	46,438	46,438	- 1
Is-gyfanswm Cynllunio a Rheolaeth Tir	425,950	1,030,559	- 942,419	337,810	337,815	- 5
Corfforaethol						
Offer TG	10,575	10,575	-	0		0
Cerbydau Wardeiniaid	55,719	-	-	55,719	55,719	-
Prosiectau Mynediad	10,000	10,150	- -	150	- 150	0
MorfaMaw.Toiledau	-	95,813	- 72,000	- 23,813	- 23,813	- 0
Uwchraddio Toiledau	-	21,187	- -	21,187	- 21,187	- 0
Cronfa Cymunedol Eryri	20,000	20,000	-	-	-	-
Cader Idris (Arian BMC, CNC, Llyw.Cymru)	-	75,701	- -	75,701	- 75,701	0
Nant Gwynant (Grant .LI.Cymru)	-	4,725	- -	4,725	- 4,725	0
Cynllun Partneriaeth Yr Wyddfa (Grant .LI.Cymru)	-	5,667	- 3,960	- 1,707	- 1,707	-
Cynllun Dehongli'r Wyddfa (Grant .LI.Cymru)	-	176	- -	176	- 176	- 0
Pwyntiau Gwefru Ceir Trydan (Grant .LI.Cymru)	-	399	- -	399	- 399	-
Safle Gwe Newydd (Grant .LI.Cymru)	-	17,390	- -	17,390	- 17,390	-
Betws y Coed (Grant .LI.Cymru)	-	10,469	- -	10,469	- 10,469	-
Canolfan Wybodaeth Betws y Coed (Grant .LI.Cymru)	2,210	5,451	- -	3,241	- 3,238	- 4
Hafod Eryri (Grant .LI.Cymru)	-	6,000	- -	6,000	- 6,000	-
Bwlch Maesgwn i Brithdir (Grant .LI.Cymru)	-	651	- -	651	- 651	- 0
Brithdir i Pen Ceunant (Grant .LI.Cymru)	-	16,789	- -	16,789	- 16,789	0
Dathlu 70 (Grant .LI.Cymru)	-	3,200	- -	3,200	- 3,200	-
Morfa Dyffryn (Grant T.C.LI.C)	20,792	-	-	20,792	20,792	-
Crafnant i Capel Curig (Grant T.C.LI.C)	-	11,081	- -	11,081	- 11,081	0
Technoleg Gwybodaeth (Grant T.C.LI.C)	-	30,166	- -	30,166	- 30,166	- 0
Dadcarboneiddio (Grant T.C.LI.C)	-	20,666	- -	20,666	- 20,666	-
Pwyntiau Gwefru Ceir Trydan (Grant T.C.LI.C)	-	6,009	- -	6,009	- 6,009	- 0
Eryri Cymunedol (Grant T.C.LI.C)	-	1,198	- 55,000	53,802	53,802	0
Eryri - Carbon a Ni (Grant T.C.LI.C)	-	129,493	- 281,000	151,507	151,507	- 0
Grant Ychwanegol 22/23 (Llyw.Cymru)	-	119,064	- 156,000	36,936	36,928	8
Is-gyfanswm Corfforaethol	119,296	622,019	- 567,960	65,237	65,232	5
CYFANSWM	545,246	1,652,578	- 1,510,379	403,047	403,047	- 0

Enw	Balans Arfaethedig 31/03/2023	Pwrpas
Cronfa Derbyniadau Cyfalaf	163,791	Cronfa o incwm gwerthiannau cyfalaf, lle medrir ond defnyddio arian ar gyfer gwariant cyfalaf.
Cronfa Adran 106	597,034	Arian a glustnodwyd ar gyfer tai fforddiadwy.
Cronfa Grantiau Refeniw	1,575,424	Grantiau refeniw a dderbyniwyd ymlaen llaw ac a glustnodwyd at ddefnydd penodol.
Grantiau Cyfalaf	2,188,704	Grantiau cyfalaf a dderbyniwyd ymlaen llaw ac a glustnodwyd at ddefnydd penodol.
Cronfa Gyffredinol	816,042	Mae disgwyliad i'r Awdurdod gadw arian wrth gefn rhag unrhyw gostau byrfyfyr ac o sylwedd na ragwelwyd.
Cronfa Rheoli Asedau	890,564	Cronfa ar gyfer delio gyda chostau eiddo sydd tu hwnt i gyllideb arferol blynyddol y Gwasanaeth Eiddo.
Cronfa Ymchwiliad Cyhoeddus (Cynllunio)	225,000	Ar gyfer delio gydag unrhyw archwiliad cyhoeddus, achos llys neu adolygiad barnwrol ar faterion Cynllunio ynghyd â delio gyda chostau ychwanegol ar adolygiad (disgwylir i fod yn sylweddol) yn 2023 a chreu Cynllun Datblygu Lleol newydd yn 2025.
Cronfa Arian Cyfatebol	872,257	Yn galluogi'r Awdurdod i geisio am gyllid allannol a gweithredu ar sail cyllid uwch na'r gwaelodlin blynyddol. Mae'n cynnwys darpariaeth ar gyfer costau terfynu rhai cynlluniau.
Cronfa Prosiectau	957,739	Cronfa ar gyfer prosiectau penodol gan yr Awdurdod.
Cronfa Is-adeiledd y Wyddfa	56,303	Arian ar gyfer cynnal isadeiledd ar y Wyddfa
Cronfa Risgiau Penodol	543,543	Gan fod ansicrwydd am setliadau grant y dyfodol, cadw cronfa fel mesur i ddelio gydag unrhyw doriadau posibl.
Cronfa Gwytnwch Staff	274,762	Yn sgîl lleihau niferoedd staff, sefydlu cronfa ar gyfer prynu gwasanaeth i mewn fel bo'r angen lle mae absenoldeb tymor hir, neu ar gyfer cyflawni elfennau penodol o waith.
Cronfa Risgiau Masnachol	100,000	Gan fod yr Awdurdod yn cynnwys ffynonellau incwm yn ei waelodlin, gall amgylchiadau godi yn arwain at ddiffyg yn yr incwm hwnnw e.e. tywydd anffafriol yn effeithio ar incwm meysydd parcio, Plas Tan y Bwlch a/neu yr Ysgwrn yn methu cyrraedd targedau. Buasai'r gronfa hon yn gymorth i wneud unrhyw ddiffyg yn iawn yn y flwyddyn unigol honno.
Cronfa Cario Arian Drosodd	826,752	
	<u>10,087,915</u>	

CYFARFOD:	Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD:	12 Gorffennaf, 2023
TEITL:	ADRODDIAD DIWEDDARU AR GRANT ARIANNU ALLANOL
AWDUR:	Prif Weithredwr
PWRPAS:	Darparu diweddariad ar y prosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod a chadarnhau blaenoriaethau ar gyfer cymorth grant allanol yn y dyfodol

1. CEFNDIR:

- 1.1 Yn y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Tachwedd 2020 cyflwynwyd adroddiad cynhwysfawr yn amlinellu sut mae'r Awdurdod wedi defnyddio cyllid grant allanol yn y blynyddoedd diwethaf. Mae diweddariad wedi'i ddarparu bob 6 mis ac mae'r adroddiad hwn yn rhoi diweddariad ar y prosiectau a gefnogir gan yr Awdurdod.
- 1.2 Yn dilyn gohebiaeth â Swyddfa'r Gweinidog ar gymhlethdodau darparu grantiau tymor byr a'r angen i sicrhau bod aelodau'n cymryd rhan yn y broses o gymeradwyo prosiectau/rhaglenni, bu'r Aelodau'n trafod ac yn mabwysiadu'r broses fel y'i hatodwyd yn Atodiad 3. (Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau Mawrth 2022).
- 1.3 Amlygodd Archwilio Cymru y pwysau y mae cefnogi darpariaeth trwy ffynonellau grant yn ei roi ar sefydliad. Mae mesurau wedi'u rhoi ar waith i fynd i'r afael â rhai o'r materion a nodwyd. Mae'r pecyn cymorth prosiect mabwysiedig (a gymeradwywyd gan Weithgor aelodau 22.05.19 ac a ddiwygiwyd ers 28.01.22 i gynnwys y Polisi Iaith Gymraeg ar Ddyfarnu Grantiau) yn cael ei ddefnyddio gan swyddogion i asesu effaith unrhyw brosiect ar yr Awdurdod.
- 1.3 Ers yr adroddiad diwethaf mae rhai o'r prosiectau a restrwyd wedi'u cwblhau ac fe ystyriwyd prosiectau newydd. (Gweler Atodiad 1 am ddiweddariad)

2. TIRWEDDAU CYNALIADWY LLEOEDD CYNALIADWY (TCLIC) CYLLID CYFALAF LLYWODRAETH CYMRU:

- 2.1 Cymeradwyodd Llywodraeth Cymru raglen cyllid cyfalaf tair blynedd ar gyfer y cyfnod 01 Ebrill 2022 i 31 Mawrth 2025 - £800,000 yn 2022-23, £850,000 yn 2023-24 a 2024-25, sef cyfanswm y cyllid o hyd at £2,500,000 dros y cyfnod o dair blynedd.
- 2.2 Y themâu strategol a'r dyraniad grant ar gyfer cyllid TCLIC 2022-25 yw:
- Twristiaeth Gynaliadwy £897,000
 - Cefnogi Cymunedau £480,000
 - Datgarboneiddio £553,000
 - Adfer Natur £570,000

2.3 Prosiectau a Gymeradwywyd gan TCLIC Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-25:

Swyddog Arweiniol APCE Pennaeth:	Thema LLC a Phrosiectau Strategol APCE y cytunwyd arnynt	Ariannu 2022/25 £
Cadwraeth, Coedydd ac Amaethyddiaeth (RhO)	ADFER NATUR: Arolygon coed a choetiroedd hynafol Argymhellion yr arolwg cyflawni a chynlluniau gweithredu y cytunwyd arnynt Gwaith rhywogaethau a dargedir Rheoli Llifogydd yn Naturiol	£570k
Eiddo (ETJ)	CYFLYMU DATGARBONEIDDIO: Llyn Tegid – paneli solar Effeithlonrwydd ynni'r ystâd Pwyntiau gwefru trydan	£553k
Partneriaethau (AJ) Tref. Ddiwylliannol (NJ)	CEFNOGI CYMUNEDAU CADARN A GWYRDD: Cronfa Gymunedol Eryri Ardaloedd Cadwraeth – Effeithlonrwydd Ynni	£480k
Wardeiniaid a Mynediad (AD) Tref. Ddiwylliannol (NJ) Partneriaethau (AJ)	DARPARU TWRISTIAETH GYNALIADWY: Twristiaeth Gynaliadwy: Cynlluniau Lleol Llwybr Cynwch Astudiaeth Dichonoldeb: Porthmadog – Rhyd Ddu Cylchdaith Cylchdaith Yr Wyddfa : Cwm Dyli Taith Gerdded Gylchol Cylchdaith yr Wyddfa: Nant Peris Llwybr y Mwynwyr System Rheoli Mynediad/Llwybrau Llyn Tegid/Cwm Rhwyddfor Prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Ardudwy Mentrau Twristiaeth a Thrafnidiaeth Gynaliadwy	£897k
CYFANSWM		£2,500,000

3. CRYNODEB O BROSIECTAU/ RHAGLENNI GWEITHREDOL PRESENNOL:

3.1 Er budd aelodau newydd i'r Awdurdod mae'r tabl isod yn rhestru'r prosiectau/ rhaglenni gweithredol cyfredol, mae rhagor o fanylion i'w gweld yn Atodiad 1.

PROSIECT	AMCAN O'R DYDDIAD DARFOD	AMCAN WERTH (£)
Carneddau (CTLC)	Rhagfyr 2025	4,170,776
Coedwigoedd Glaw Celtaidd (LIFE)	Gorffennaf 2025	7,604,648
Treftadaeth Treflun Dolgellau (CTLC)	Rhagfyr 2023	1,498,718
Partneriaeth Awyr Dywyll Gogledd Cymru.	Mawrth 2024	227,000

PROSIECT	AMCAN O'R DYDDIAD DARFOD	AMCAN WERTH (£)
* Galluogi Adnoddau Naturiol a Lles (GANLI) LIC, (prosiect 3 blynedd) Blynnyddoedd 1+2 *Partneriaeth Natur Leol Eryri (PNLIE) (prosiect 3 blynedd) £21k + £2 x £30k o grantiau ym Mlwyddyn 2 * Mae'r prosiectau wedi'u cyfuno a'u hariannu hyd at ddiwedd mis Mawrth 2023 Sicrhawyd £50k pellach o gyllid cyfalaf Cyfanswm Newydd 124,000		
CRhC Dinas Mawddwy	Mawrth 2023	550,000
National Grid MGT Cysylltedd y Carneddau (prosiect newydd yn rhan o raglen dreigl)	2025	200,000
CYFANSWM ARIAN GRANT PROSIECTAU		£14,375,142

Mae'r Prosiectau wedi'u hail-broffilio a chytunwyd ar ddyddiadau gorffen newydd gyda'r partneriaid ariannu er mwyn ystyried llithriad yn ystod pandemig.

3.2 National Park Partnership and National Park Foundation:

Further smaller scale funding opportunities are being provide through the efforts of either National Park Partnership or the National Park Foundation. These will be reported to members as they are offered to the Authority.

4. PROSIECTAU'R DYFODOL:

4.1 Mae Aelodau ers 2020 wedi darparu cyfeiriad strategol i Swyddogion o ran blaenoriaethau'r Awdurdod wrth wneud cais am arian grant. Yn dilyn yr adroddiad diwethaf gofynnodd yr aelodau am i flaenoriaethau o'r fath gael eu grwpio fel penawdau thematig yn hytrach na rhestr o brosiectau a ffafrir. Mae hwn wedi'i ddiweddarau a gellir ei weld yn Atodiad 2.

4.2 Mae'r Aelodau'n ymwybodol o'r amserlenni sy'n ymwneud â rhai ceisiadau grant a dyna pam mae'r Awdurdod yn adolygu ei flaenoriaethau yn flynyddol. Mae Atodiad 3 yn amlinellu'r siart llif sy'n dangos sut mae'r Awdurdod yn ystyried/cymeradwyo cynigion grant. Yn dilyn cyngor Archwilio Cymru, mae Aelodau wedi cadarnhau bod angen cymeradwyaeth yr Aelodau ar gyfer cynigion grant yn y sefyllfaoedd a ganlyn:

- Unrhyw brosiectau aml-flwyddyn.
- Unrhyw gynnig nad yw'n cyd-fynd â blaenoriaethau strategol cytûn.
- Unrhyw gynnig a gyfeirir at aelodau gan y Cadeirydd neu'r Prif Weithredwr
- Unrhyw gynnig yn ystod y flwyddyn uwchlaw terfyn ariannol y cytunwyd arno (£150,000)

Cynigion y dylid eu nodi yw:

- Rhandaliadau blyneddol mewn rhaglen aml-flwyddyn gymeradwy
- Unrhyw brosiect yn ystod y flwyddyn islaw trothwy y cytunwyd arno.

5. ARGYMHELLION:

5.1 Nodi'r prosiectau arian cyfalaf 2022-2025

5.2 Nodi cynnydd ar brosiectau byw (Atodiad 1).

5.3 Cadarnhau meysydd blaenoriaeth ar gyfer bidiau yn y dyfodol (Atodiad 2).

5.4 Nodi'r Siart Llif Cymeradwyo Aelodau (Atodiad 3).

TROSOLWG O BROSIECTAU APCE Ebrill : DIWEDDARIAD 6 MISOL

ATODIAD 1.

1. PROSIECTAU CYFREDOL

PROSIECT A Manylion	Dyddiad Dechrau / Diwedd Cyfanswm Cyllid	(PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod	CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU	CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLBYNNAU CYNNYDD IONAWR – MEHEFIN 2023
PARTNERIAETH TIRWEDD Y CARNEDDAU Helpu i warchod treftadaeth o dan fygythiad y Carneddau	Ionawr 2020 ↓ 30.09.2024 31.12.2025 ↓ Mae cyfnod estyngedig 15 mis wedi ei ganiatau gan Gronfa Treftadaeth hyd at Rhagfyr 2025 £4,170,776 APCE yn arwain gyda phartneriaid	Amserlen: Mae'r Gronfa Dreftadaeth wedi cymeradwyo yn ffurfiol ein cynnig ar gyfer estyniad digost i'n dyddiad cwblhau ymarferol rhwng 30/09/2024 a 31/12/2025. Mae'r estyniad hefyd yn cynnwys lwfans ar gyfer gweithgaredd cau prosiect 3 mis (e.e. gweithgaredd etifeddiaeth, cais am daliad terfynol ac adroddiad gwerthuso) gan y Rheolwr Cynllun a'r Swyddog Cymorth Cynllun tan 31/03/2026. Mae cynnydd da wedi ei wneud er gwaethaf Cofid-19. Mae ymarfer ail-broffilio o holl amserlenni gweithgaredd a phroffiliau gwariant prosiectau ar y gweill, a fydd yn ein galluogi i fonitro cynnydd yn erbyn targedau realistig a chynlluniau cyfoes. Tynnu arian cyfatebol yn ôl â'r bwch cyllido o ganlyniad i hynny Bydd y Pennaeth Gwasanaeth a'r Rheolwr Prosiect yn parhau i weithio'n agos gyda chyllidwyr i sicrhau bod yr holl ofynion cyllido a dibenion cymeradwy yn cael eu bodloni. Diwddariad: Mae'r risg o gyllid cyfatebol heb ei sicrhau bellach wedi'i leihau'n sylweddol, yn dilyn dau gais grant llwyddiannus i'r Fenter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol gwerth £400k, gyda chytundebau sy'n rhwymo'r gyfraith ar waith gyda phartneriaid craidd i sicrhau bod mwyafrif y cyfraniadau partner yn cael eu cynnal. Mae hawliadau grant y Gronfa Dreftadaeth Chwarterol yn barhaus a derbynnir taliadau yn ddi-oed.	Cylchdaith y Carneddau: Creu llwybr cerdded lefel isel 63km + arwyddion, gatiâu ac ati Rhaglen Weithgaredd Ysgolion / Gwirfoddolwyr. Eiriolaeth dros yr Ucheldiroedd: Ymgysylltu: Treftadaeth Ddiwylliannol â'r Amgylchedd Hanesyddol Cadwraeth Adnoddau Naturiol: Lleisiau'r Carneddau:	Mae'r rhaglen a'r gyllideb yn dal i gael eu hadolygu'n barhaus ac mae gwaith y prosiect wedi cynyddu a chyflymu eleni. <ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae Swyddogion Ymgysylltu Cymunedol y Carneddau wedi dechrau ar eu gwaith ym mis Mai 2023. Mae'r swyddogion yn cydweithio gyda phartneriaid allweddol o'r sectorau cyhoeddus a gwirfoddol drwy'r ardal yn ogystal a gyda'r cymunedau eu hunain. ➤ Mae gwaith ymgysylltu manwl yn digwydd gyda Chyngor Cymuned Llanllechid er mwyn gwella'r dreftadaeth naturiol. Mae Partneriaeth y Carneddau yn hwyluso'r berthynas rhwng y Cyngor Cymuned a chyrrff statudol er mwyn datblygu cytundebau a fframweithiau ar gyfer rheoli'r mynydd. Mae gwaith cofnodi a dehongli digidol yn digwydd gyda'r cynhyrchydd artistig, Siwan Llynor a byddwn yn gweld ffrwyth y gwaith hwn yn ddiweddarach yn yr haf. ➤ Mae lansiad y wefan wedi'i ohirio ond mae'r gwaith yn parhau. ➤ Prosiect Bwyell Neolithig hynod lwyddiannus wedi'i gynnal eto eleni ar ddau safle yn ardal Llanfairfechan. Rydym yn hynod falch bydd y prosiect yn digwydd eto eleni, ym mis Gorffennaf a Medi/Hydref 2023. <p>Bydd ffilm ymchwil merlod y Carneddau yn cael ei lansio dros yr haf.</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae'r rhaglen clirio eithin gyda gwirfoddolwyr yn parhau, drwy glirio safleoedd er lles henebion archaeolegol a natur (gan gynnwys cynefin y frân goesgoch), gyda Chymdeithas Eryri, Ymddiriedolaeth Genedlaethol, APCE ac RSPB Cymru. ➤ Mae prosiect Lleisiau'r Carneddau yn mynd o nerth i nerth a thrwy wibdaith cymunedol, llwyddwyd i gofnodi tua 30 o sgysiau hanes llafar. Bydd rhain yn sylfaen ar gyfer gweithdai cymunedol i ddehongli a golygu'r cyfweiliadau ac ar gyfer hyfforddiant hanes llafar yn y gymuned. Y nod ydi cynhyrchu ffilm i gofnodi hanes llafar mesul cymuned erbyn diwedd y cynllun.

PROSIECT A Manylion	Dyddiad Dechrau / Diwedd Cyfanswm Cyllid	(PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod	CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU	CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLBYNNAU CYNNYDD IONAWR – MEHEFIN 2023
<p>PROSIECT COEDWIGOEDD GLAW CELTAIDD CYMRU LIFE</p> <p>Cynnyrch degawd o ymdrech i gaffael cyllid trwy raglen Natur a Bioamrywiaeth LIFE y Comisiwn Ewropeaidd i fynd i'r afael â bygythiad <i>Rhododendron ponticum</i> (Rp) ar goetiroedd derw brodorol ffin môr yr Iwerydd yng Nghymru.</p>	<p>Awst 2018 ↓ Gorffennaf 2025</p> <p>£7,604,648</p> <p>Gwariant hyd yma: £1.6m</p> <p>APCE yn arwain gyda phartneriaid</p>	<ul style="list-style-type: none"> ❖ Methu â llofnodi cytundebau 20 mlynedd ❖ Lefelau staffio a throsiant ❖ Y targedau yn fwy uchelgeisiol a heriol na'r hyn a ragwelwyd yn wreiddiol. Targedau ddim yn cael eu cyflawni <p>Mae'r prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau a'r cerrig milltir a nodwyd ac eithrio 100% yn arwyddo confensiynau 20 mlynedd (ac effeithiau canlyniadol ar gyflawni gwarediad o 100%), fel y trafodwyd yn adran 5 o'r adroddiad diweddar llawn.</p>	<p>1. Gwaredu <i>Rhododendron ponticum</i> o 5 ACA a'r ardal glustogi DPA = 7,961ha</p> <p>2. Ymgymryd â rheolaeth coetiroel arall gan gynnwys adfer 180ha o goetir PAWS a chyflwyno pori cadwraeth ar safleoedd coetiroel.</p> <p>3. Creu Pecyn Cymorth Rheoli Rp sy'n cymeradwyo'r dull 3 cham o ddileu Rp, ac yn cynnal lleiafswm o 20 o ddigwyddiadau arddangos a rhwydweithio a 12 astudiaeth achos sy'n gysylltiedig ag amcanion y prosiect.</p> <p>4. Ymgysylltu ag o leiaf 2,000 aelod o'r cyhoedd wedi'u lleoli mewn cymunedau targed yng Nghymru, gan gynnwys o leiaf 800 o ddisgyblion ysgol. (80 sesiwn ysgol)</p>	<p>Erbyn hyn mae mae 8,740.69ha o dir o dan gytundebau rheoli</p> <p>168.19 ha o waith adfer coetir PAWS wedi ei gwblhau neu ar waith Wedi cyflwyno pori cadwraethol i 277.2ha o goetir (yn erbyn DPA o 227 ha). 193.1 ha o waith rheoli coetir "arall" wedi'i gwblhau (yn erbyn targed DPA o 130ha)</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Pecyn cymorth Rp wedi ei gyhoeddi ➤ 14 x achlysur arddangos wedi'u cynnal yn cyrraedd cynulleidfa 256 person ➤ 5 x astudiaeth achos wedi'u cynhyrchu ➤ Mae'r nifer o bobl wedi'u ymgysylltu â hwy wedi rhagori ar y targed o 2,000 – 6,322 ➤ 48 sesiwn ysgol wedi'u cwblhau yn cyrraedd 1,109 disgybl a 115 athro. ➤ 4 sesiwn "hyfforddi'r hyfforddwyr" wedi eu cynnal gyda 23 unigolyn

PROSIECT A Manylion	Dyddiad Dechrau / Diwedd Cyfanswm Cyllid	(PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod	CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU	CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLBYNNAU CYNNYDD IONAWR – MEHEFIN 2023
<p>PROSIECT CTLC TREFTADAETH TREFWEDD DOLGELLAU</p> <p><i>Yn cyfuno amddiffyn a gwella trefwedd unigryw'r dref â gwneud defnydd llawn ohoni i ailgysylltu trigolion ac ymwelwyr heddiw â hanes y gymuned</i></p>	<p>2016 ↓ 31.12.2022 31.12.2023</p> <p>£1,498,718</p> <p>Tynnu cyllid CTL i lawr bob chwarter. Sicrhawyd yr holl arian allanol</p> <p>APCE yn arwain gyda phartneriaid</p>	<ul style="list-style-type: none"> ❖ Effaith Covid-19 ❖ Colli Rheolwr Prosiect neu staff cymorth cyn diwedd y prosiect ❖ Cost prosiectau yn uwch na'r disgwyl 	<p>Gwella cyflwr adeiladau hanesyddol yn ardal fasnachol ganolog Ardal Gadwraeth Dolgellau, trwy atgyweirio adeiladau hanesyddol, adfer nodweddion pensaernïol, aildefnyddio arwynebedd llawr diangen a gwaith tir cyhoeddus yn ardal fasnachol ganolog Ardal Gadwraeth Dolgellau gan roi blaenoriaeth i adeiladau masnachol rhestredig. Mae'r prosiect yn dilyn yr egwyddorion a'r arfer gorau wrth warchod adeiladau hanesyddol a gwella eu heffeithlonrwydd ynni.</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae gwaith ar adeilad Ty Newyddion (yr hen Wilkins) yn mynd rhagddo a hyn yn destun balchder gan fod hwn yn adeilad blaenoriaeth uchel. ➤ Dyddiad cwblhau'r prosiect newydd yw 31 Rhagfyr 2023. ➤ Mae gwaith ar 4 Eldon Row bellach yn symud ymlaen ac mae swyddogion yn gweithio ar ddau brosiect arall cyn diwedd cyfnod y cynllun. ➤ Cwblhawyd gwaith dehongli newydd, gan gynnwys panel gwybodaeth a chroglun ffelt gwlan. ➤ Mae nifer o brosiectau treftadaeth cymunedol arweiniol yn mynd rhagddynt gyda Grŵp yr Aran. Mae'r rhain yn cynnwys: <ul style="list-style-type: none"> ❖ Llyfr ar ddiwydiannau gwlan a thrin lledr Dolgellau wrthi'n cael ei baratoi gan Merfyn Tomos. ❖ Fe fydd phamffled o deithiau tywys i lefydd pwysig i'r diwydiant gwlan yn cael ei argraffu.

PROSIECT A Manylion	Dechrau / Diwedd Cyfanswm Cyllid	(PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod	CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU	CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLBYNNAU CYNNYDD IONAWR – MEHEFIN 2023
<p>PROSIECT NOS PARTNERIAETH NOS AWYR DYWYLL GOGLEDD CYMRU</p> <p>Nod y prosiect yw lleihau effeithiau niweidiol llygredd golau ar iechyd pobl, bioamrywiaeth a'r noswedd trwy addysg, allgymorth cymunedol a thrwy weithredu ôl-ffitiadau goleuo.</p>	<p>Ionawr 2019 ↓ 2022 2024</p> <p><u>Partneriaid:</u> 3 x AoDdGA : Pen Llŷn, Ynys Môn, Bryniau Clwyd a Dyffryn Dyfrdwy</p> <p>£227,000+</p> <p>APCE: £40mil Partneriaid: £87mil Cyllid ychwanegol gan LIC: £100mil</p>	<ul style="list-style-type: none"> ➤ Swyddog yn gadael y swydd: mae angen rhaglen fonitro flynyddol i gynnal statws yr Awyr Dywyll. ➤ Mae angen monitro llygredd golau yn barhaus gyda thystiolaeth am ddigwyddiadau ac adroddiadau blynyddol yn cael eu cyflwyno i'r IDA. Gellir diddymu'r dynodiad os na chyflawnir hyn. ➤ Wrth i'r prosiect barhau i dyfu fe allai fynd yn rhy fawr i un swyddog prosiect ei reoli. ➤ Gallai'r SP fynd i ffwrdd yn sâl dros y tymor hir ➤ Wedi addasu swydd ddsigrifiad Swyddog Prosiect Nos gan olygu fod costau wedi codi ar gyfer y rol. ➤ Costau staffio uwch ar y swyddog craidd a arianir gan partneriaeth 4 tirwedd dynodedig a pryderon am chwyddiant ar effeithiau ar y partneriaid. 	<p>Hyfforddi grŵp craidd o wirfoddolwyr i fonitro'r awyr dywyll o amgylch y Parc.</p> <p>Cynnal ôl-ffitio ar safleoedd allweddol y Parc Cenedlaethol fel CC Betws Y Coed.</p> <p>Cwblhau 3 cais awyd dywyll ar gyfer AOHNE</p> <p>Cynnal 1 digwyddiad y mis ar-lein</p>	<p>Sicrhawyd cyllid i gadw swydd Swyddog Prosiect tan fis Mawrth 2024. 25% wedi'i ariannu gan bartneriaid y prosiect.</p> <p>Lluniwyd rhaglen a chynhelir digwyddiadau misol.</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Sicrhawyd cyllid i greu swydd newydd i weithio gyda'r 8 tirwedd ddynodedig yng Nghymru. Mae'r prosiect wedi ennill £522,500 i wario ar brosiect cyfalaf ail osod golau dros 22-25. ➤ Mae'r dyddiad cau am swyddog newydd y ar 21/11/22, gobeithio cael yr Aelod o staff newydd mewn lle erbyn Ionawr 2023. Bydd yr Aelod yn cael ei westeio gan Gyngor Ddinbych yn ei Swyddfa yn Loggerheads, ond yn gweithredu dros yr 8 ardal. Bydd y swydd yma yn cael ei reoli gan Swyddog Awyr Dywyll Eryri. ➤ Mae yna alw uchel am ddigwyddiadau awyr dywyll, a diddordeb yn y prosiect yn tyfu. Mae 34 digwyddiad (mewn person neu ar lein) ers Ionawr 2022, efo presenoldeb gan 1,680 pobl (9,976 dros oes y prosiect). ➤ Mae'r prosiect yn hanner ford drwy waith ail osod golau yn Eryri, drwy brosiectau yn Bala, Ogwen, Ysbyty Ifan a Penrhyndeudraeth. Mae oedi gyda chyflenwad o oleuadau oherwydd amgylchiadau allanol amrywiol. ➤ Mae gan y prosiect dau 'Pop up' planetarium, sydd yn gallu cael ei defnyddio gan brosiectau arall yn y Parc. <p>Mae'r prosiect wedi derbyn nifer o wobrau yn ddiweddar gan y sector dylunio a thechnoleg a'r swyddog wedi derbyn llwyddiant statws Llysgenad Ewropeaidd.</p> <p>Mae Tirweddau Dynodedig Cymru dan arweiniad y Grwp Gogleddol wedi derbyn grant TCLIC (SLSP) gan Llywodraeth Cymru i wneud arolygon manwl o ansawdd tywyllwch, problemau llygredd goleuni (Dearyddol) ac i greu rhaglen o ail osod goleuadau i liniaru'r effeith. Bydd swyddog yn cael ei recriwtio gan AHNE Bryniau Clwyd i arwain ar hyn. Mae'r broses recriwtio wedi dechrau</p> <p>Diweddariad:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae swyddog wedi ei apwyntio ac yn cael ei gynnal gan AHNE Bryniau Clwyd Dyffryn Dyfrdwy ➤ Contractwyr wedi'u penodi ar gyfer gwaith arian grant TCLLC ac mae cam 1 ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn diwedd Gorffennaf 2023 ➤ Bydd cam 2 yn creu cynlluniau goleuo ar gyfer lleoliadau dethol ac arolygon ecolegol yn cael eu cynnal ➤ Mae pob un o'r 8 ardal wedi derbyn eu rhestr offer fel rhan o arian grant TCLIC ➤ Roedd wythnos Awyr Dywyll Cymru 2023 yn hynod o brysur a llwyddiannus gyda dros 20 o ddigwyddiadau'n cael eu cynnal ledled Cymru. Mae'r prosiect wedi ymgysylltu â bron i 600 o bobl ers mis Ionawr 2023. Dros cyfnod y prosiect mae'r prosiect wedi ymgysylltu gyda mwy nag 11,000 o bobl.

PROSIECT A Manylion	Dechrau / Diwedd Cyfanswm Cyllid	(PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod	CRYNODEB O'R TARGEDAU / ALLBYNNAU	CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLBYNNAU CYNNYDD IONAWR – MEHEFIN 2023
<p>GALLUOGI ADNODDAU NATURIOL A LLES LLYWODRAETH CYMRU (GANLI / ENRaW)</p> <p>PARTNERIAETH NATUR LEOL ERYRI (PNLE)</p> <p>Diweddariad: Mae'r ddau brosiect wedi'u cyfuno</p> <p>Mae £50k arian cyfalaf ychwanegol wedi' sicrhau Cyfanswm Newydd £124,000</p>	<p>2023-2025</p> <p>Cydweithrediad rhwng APCE ac amryw o gyrff anllywodraethol amgylcheddol</p>	<ul style="list-style-type: none"> ❖ Newid staff: Mae cydlynnydd y prosiect wedi gadael y swydd yn ddiweddar. Yn y broses o recriwtio ar hyn o bryd ❖ Capasiti partneriaid cyflawni <p>Daeth nifer o risgiau i'r amlwg o achos argyfwng Covid-19:</p> <ul style="list-style-type: none"> ❖ Cyllid ddim yn cael ei wario ❖ Prosiectau y tu ôl i'r proffil ❖ Methu â chynhyrchu incwm o 20% erbyn diwedd y tair blynedd. Mae PNC Cymru yn bwriadu adolygu'r targed hwn gan mai'r consensws yn ei gyfanrwydd ar draws y rhwydwaith yw bod hyn yn amhosibl i'w gyflawni ac na all y prosiect barhau heb gyllid Llywodraeth Cymru. <p>Mae'r prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau cronus unigol a ddynodwyd erbyn diwedd y tair blynedd.</p> <p>Roedd targedau ar gyfer yr ail flwyddyn yn brin, yn enwedig targedau fel gweithgareddau allgymorth cymunedol oherwydd y cyfyngiadau a gyflwynir gan Covid-19. Y gobaith yw y bydd y targedau hyn yn cael eu cyflawni erbyn diwedd y prosiect trwy gynyddu nifer y gweithgareddau a'r digwyddiadau allgymorth a gynhelir yn y drydedd flwyddyn.</p>	<p>Mae'r PNLE wedi'i sefydlu fel rhan o brosiect ledled Cymru i greu dull cydweithredol o ddiogelu, gwella ac adfer bioamrywiaeth yn sgil yr argyfwng bioamrywiaeth.</p>	<p>Mae PNLI Eryri eisoes wedi cydweithredu ar sawl prosiect hyd yma:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➢ Gwella mynediad i Goed Felin-rhyd a Llennyrch gyda Coed Cadw; ➢ Prosiect gwella bioamrywiaeth canolfan hamdden Harlech gyda grŵp cymunedol Harlech ac Arduwy; ➢ Prosiect mynwentydd Byw Eryri gyda YBGGC; ➢ Gwelliannau i gynefinoedd ystlumod gwarchodfa natur Gwaith Powdwr hefyd gyda YBGGC. <p>Mae prosiect newydd Lleoedd Lleol ar Gyfer Natur sydd wedi olynnyd cyllid GANLI / ENRaW yn brosiect blwyddyn werth £50k sydd yn canolbwyntio ar adfer a gwella asedau cyfalaf naturiol drwy greu natur ar garreg ein drws.</p> <p>Mae PNLL Eryri yn gweithredu prosiect Tŷ Natur, gyda'r nod o wella bioamrywiaeth mewn lleoliadau ble mae pobl yn byw, gan weithio gyda darparwyr tai cymdeithasol (Adra, Grŵp Cynefin a Cartrefi Conwy) a landlordiaid allweddol (Ymddiriedolaeth Genedlaethol) eraill ym Mharc Cenedlaethol Eryri</p> <p>Mae'r gwelliannau aml-fuddiol yn cynnwys creu dolydd blodau gwyllt, plannu coed/perllannau, gosod blychau nythu Gwenoliaid a gwneud newidiadau i oleuadau amhriodol.</p> <p>Mae'r prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i gyflawni'r targedau ar ôl 6 mis prysur o gydweithio gyda'r cymdeithasau tai ac ymgysylltu gyda'u tenantiaid i greu cynlluniau ar gyfer ardaloedd gwyrdd eu stadau. Byddwn rwan yn paratoi a threfnu ar gyfer cyflawni'r gwaith dros y gaeaf.</p> <p>Diweddariad: Mae teitl y prosiect a'r ffrydiau ariannu wedi esblygu dros amser ac yn gliriach i brosiect fel cyllid Bioamrywiaeth LIC.</p> <p>Cwblhawyd y broses recriwtio ar gyfer aelod newydd o staff yn dilyn ymadawiad y swyddog blaenorol sydd wedi helpu i ddatblygu'r Cynllun Adfer Natur, a'r gobaith yw y gall y swyddog newydd ddod i wybod am y mater yn gyflym.</p> <p>Rheolwyd a darparwyd cyllid cyfalaf gan staff yr Adran yn ystod yr absenoldeb a defnyddiwyd yr holl gyllid blaenorol a ddyrannwyd, mae cyllid newydd wedi'i gymeradwyo ar gyfer rhaglen dwy flynedd ac mae rhaglenni cyllid cyfalaf newydd ar fin agor ar gyfer ceisiadau newydd.</p> <p>Mae gweithredu yn y PC yn anoddach oherwydd y paramedrau ariannu sy'n dymuno gweithio "ar garreg drws cymunedau trefol a dod â natur i garreg y drws" sy'n heriol mewn ardaloedd anghysbell.</p>

PROSIECT	DYDDIAD DECHRAU / DIWEDD CYFANSWM CYLLID	(PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod	CYFLAWNI'R PRIF DARGEDAU STRATEGOL Gweler yr adroddiadau llawn	CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ ALLBYNNAU CYNNYDD IONAWR – MEHEFIN 2023
<p>Cynefinoedd Cynaliadwy Amaethwyr Mawddwy</p> <p>Bydd grŵp o ffermwyr o amgylch Dinas Mawddwy yn gweithio gydag Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri, i wneud y mwyaf o adnoddau naturiol, gwella profiadau ymwelwyr a buddion cymunedol.</p> <p>Nod y prosiect yw adfer ucheldiroedd a'u rheoli ar gyfer bioamrywiaeth, gwytnwch newid hinsawdd, rheoleiddio dŵr a buddion hamdden.</p>	<p>01 Ebrill 2021 ↓ 31 Mawrth 2023 Gorff. 2023</p> <p>100% wedi'i ariannu trwy Rhaglen Datblygu Gwledig LIC fel y Cynllun Rheoli Cynaliadwy</p> <p>£499,641.00</p>	<p>Mae Cyfyngiadau Covid bellach wedi'u llacio, ac mae ymgysylltu â'r cyhoedd wedi aildechrau. Mae digwyddiadau wedi eu cynnal mewn lleoliadau lleol. Mae llacio'r rheolau wedi galluogi'r prosiect i weithio ochr yn ochr â Chymdeithas Eryri i gael pobl frwdfrydig i ymuno â'r prosiect.</p> <p>Gall effeithiau Brexit rwystro cadwyni cyflenwi deunyddiau: gan gynnwys pyst ffensio a phibellau cylfat. Gallai materion cyflenwi arafu adeiladu'r nodweddion hyn neu achosi costau ychwanegol.</p> <p>Diweddariad: Ni ddaethpwyd ar draws unrhyw broblemau cyflenwad eto, ond mae prisiau wedi codi. Mae deunydd fel pyst ffensio, pibellau cwlfert, agregau a chludiant wedi cynyddu'n sylweddol.</p> <p>Dim cael caniatâd cynllunio ar gyfer llwybrau mynediad i gwblhau gwaith mawndir. Diweddariad: Caniatad wedi ei dderbyn i greu mynediad i wneud y gwaith adfer mawn. Yn anffodus yn y cyfamser, mae'r broses tendro wedi bod yn anodd iawn ac mae'r unig wasanaeth hofrenydd a geisiod wedi cael problemau oherwydd gwaeledd y peilot. Mae yn aneglur beth yn union ellir ei wneud ar y sefyllfa ar hyn o bryd.</p> <p>Staffio: Swyddog Prosiect yn gadael y swydd cyn cwblhau'r prosiect. Pe bai hyn yn digwydd, yr opsiwn mwyaf ymarferol fyddai bod y sefydliadau sy'n eistedd ar Fwrdd Llywio'r Prosiect yn defnyddio staffio mewnol, arbenigedd ac amser er mwyn cwblhau'r prosiect a'i Allbynnau arfaethedig.</p> <p>Diweddariad: Mae'r swyddog prosiect wedi symud i swydd arall ac rydym y y broses o ail drefnu gwaith adrannol i gael rhywun i gymeryd y cyfrifoldebau ymlaen. Oherwydd rhewi mewn recriwtio mae hyn yn broblemus ar hyn o bryd</p> <p>Tanwariant – Yn dilyn y broses dendro ar gyfer gwaith adfer mawndir ar Fynydd Hengwm, Esgair Adda a Mynydd Bwlch, roedd y dyfynbrisiau yn is na'r disgwyl. Yn dilyn dyfynbrisiau eleni disgwylir y bydd y flwyddyn nesaf yn is hefyd. I wrthweithio unrhyw danwariant, bydd rhagor o waith cyfalaf fferm yn cael ei gytuno.</p> <p>Diweddariad: Mae potensial cryf o danwariant os na fydd y gwaith llwybrau yn gallu cael ei gwblhau a potensial symud gwariant yn gyfyng iawn mor hwr yn y cynllun. Mae estyniad amser cwblhau'r gwaith wedi ei wneud ond dim sicrwydd ar hyn o bryd y gellir cyflawni.</p>	<p>Nifer y swyddi a grëwyd: Targed terfynol = 1 Cyflawnwyd.</p> <p>Nifer y diwrnodau hyfforddi: Targed terfynol = 2</p> <p>Nifer y rhanddeiliaid a gyflogwyd: Targed terfynol = 10 Cyflawnwyd.</p> <p>Mynediad wedi'i reoli i gefn gwlad neu'r arfordir: Targed terfynol = 1000m Cyflawnwyd.</p> <p>Nifer y camau i ddefnyddio adnoddau naturiol er budd iechyd: Targed terfynol = 4 Cyflawnwyd.</p> <p>Ardal o gynefin mawndir wedi'i ail-wlychu: Targed terfynol = 69ha Cyflawnwyd.</p> <p>0.17 Nifer y gweithrediadau cydweithredu a gefnogwyd: Targed terfynol = 1 Cyflawnwyd.</p>	<p>Cyflawnwyd.</p> <p>Dim sesiynau hyfforddiant wedi'u trefnu hyd yn hyn. Yn trafod gyda Cymdeithas Eryri ar gyfer sesiwn gosod gwrychoedd.</p> <p>Mae'r targed hwn wedi'i gwblhau. Cydweithio gyda'r ffermwyr, gweithio gyda Cwmni Nod Glas, Coleg Meirion Dwyfor, Tilhill, Cymdeithas Eryri a'r cyngor cymuned.</p> <p>Cyflawnwyd y targed hwn trwy greu llwybr troed caniataol Bryn Uchaf.</p> <p>Mae'r targed hwn wedi'i gwblhau. Trefnwyd amserlen o ddiwrnodau gwirfoddol trwy gydol y tymor plannu hwn. Roedd diwrnodau gwirfoddolwyr yn cynnwys plannu coetir a gwrychoedd. Yn ogystal, mae digwyddiadau wedi'u cynnal gyda'r Awyr Dywyll.</p> <p>Cyflawnwyd y targed hwn. Mae Mynydd Hengwm (58.9ha), Esgair Adda (57ha) a Mynydd Bwlch (70ha) wedi'u hadfer.</p> <p>Cyflawnwyd y targed hwn. Mae'r prosiect yn gweithio'n agos gyda Cwmni Nod Glas i wella llwybrau troed yn yr ardal a gwella eu hyrwyddiad trwy ddatblygu gwefan gymunedol</p> <p>Mae'r holl waith wedi dechrau neu wedi'i gwblhau a disgwylir i'r prosiect gael ei gwblhau ym mis Gorffennaf 2023</p>

PROSIECT	DYDDIAD DECHRAU / DIWEDD CYFANSWM CYLLID	(PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod	CYFLAWNI'R PRIF DARGEDAU STRATEGOL	CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLBYNNAU CYNNYDD IONAWR – MEHEFIN 2023
(Rhan o Raglen dreigl) Menter Gwella Tirwedd y Grid Genedlaethol Prosiect Rhif 4 CYSYLLTEDD Y CARNEDDAU	2021 – 2025 £200k	Risg: Coed Gorddinog, Llanfairfechan – Tirfeiddianwr wedi datgan fod dim diddordeb ganddo i reoli'r Rhododendron sydd ganddo yn Gorddinog hall. Hwn yn rhan pwysig iawn i gyrraedd y targed yma felly risg o ddim llwyddo – trafodaethau yn parhau gyda'r tirfeiddianwr ac archwilion i ddarganfod safleoedd newydd i gymeryd lle. Risg: Y gwaith yn costio mwy na chafodd i rhagweld yn y cais felly potensial o or-wario yma.	Adferiad Gwrychoedd 9,000m 5,927 Plannu Coed (Coridorau Ffridd a Glan y Môr) Creu Coetir 2ha Tynnu Rhododendron 26ha Creu Dolydd 3.5ha	49% or targed wedi cytundebu neu wedi'w ymrwymo. 2000 wedi plannu llynedd yn drwy ddull 'sabre planting' yn anafon. 2000 arall i fynd i fewn i anafon flwyddyn yma. 1885 o goed ar wasgar ychwanegol wedi cytundebu neu ymrwymo at flwyddyn yma. 2.5ha o goedlan wedi gytuno gyda tirfeiddianwr ond yn disgwyl ymgynghoriad archeolegol cyn cytundebu. 3.4ha o waith Rhododendron wedi cwblhau yn Llys y Gwynt. 1.67ha o ddolydd newydd wedi gytundebu ac wedi cwblhau / ar ganol. Gweddill y safleoedd i'w cwblhau flwyddyn nesa. Mae'r prosiect yn mynd rhagddo'n dda.

2. PROSIECT NEWYDD: (Ddim yn cynnwys prosiectau Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy/SLSP LIC)

PROSIECT	DYDDIAD DECHRAU / DIWEDD CYFANSWM CYLLID	(PRIF) RISGIAU POSIBL (gyda'r CAMAU GWEITHREDU WEDI'U NODI ac yn eu lle) Oni nodir yn wahanol isod	CYFLAWNI'R PRIF DARGEDAU STRATEGOL	CYFLAWNI YN ERBYN Y TARGEDAU/ALLBYNNAU
Menter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol MIND THE GAP	2023 – 2026 £200k o gyfraniad gan MGT y Grid Cenedlaethol, mae'r holl gostau eraill (lleiafswm 25%) mewn nwyddau neu arian parod gan bartneriaid.	Dyddiad cychwyn wedi ei oedi: Covid 19 – gweler prosiectau MGT uchod Colli Swyddog Prosiect: gwaith wedi'i wasgaru ymhlith partneriaid. Hyblygrwydd o fewn yr Adran CCA i gwmpasu SP Oedi gyda chymeradwyaeth OFGEM sy'n golygu y gall rhanddeiliaid eraill geisio ffynonellau ariannu eraill – cynhelir cyfarfodydd rheolaidd gyda rhanddeiliaid i gadw'r rhai sydd â diddordeb yn frwdfrydig	19.62 ha o reoli Rhododendron 310m o adfer llwyni 1,068m ² o waith adfer waliau sych 1 adfer / ail adeilad 2,090 m o waith ffensio i reoli cynefinoedd 6,800 o goed llydandail wedi'u plannu 160 o goed o fath parcdir wedi'u plannu	Ar ôl oedi sylweddol gan y Grid Cenedlaethol, mae cymeradwyaeth derfynol wedi'i rhoi ynghyd â chodiad cyllid i adlewyrchu cynnydd mewn costau chwyddiant, mae'r holl waith bellach wedi'i gontractio a disgwylir iddo fod ar y gweill.

BLAENORIAETHAU APCE AR GYFER CYNIGION CYFALAF A REFENIW:

Mae'r Aelodau'n ystyried blaenoriaethau ceisiadau grant yr Awdurdod yn flynyddol. Mewn blynyddoedd blaenorol, nodwyd y rhain fel prosiectau penodol. Yn unol â chais yr aelodau, mae'r rhain bellach o dan benawdau thematig strategol y gellir eu cysylltu â'n dogfennau strategol a statudol.

1. Adferiad Natur,
2. Addasu a lliniaru newid yn yr hinsawdd,
3. Rheoli ein treftadaeth ddiwylliannol,
4. Mynd i'r afael â heriau pwysau pobl ar ein hamgylchedd a'n cymunedau,
5. Datblygu cyfleoedd hamdden newydd/gwell (cerdded/beicio/marchogaeth),
6. Datblygu cyfleoedd lles,
7. Cynigion datgarboneiddio – mewnol ac allanol i'r Awdurdod,
8. Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg gyda'n defnyddwyr/cwsmeriaid,
9. Datblygu economi twristiaeth gynaliadwy,
10. Cefnogi pobl ifanc,
11. Rheolaeth a dealltwriaeth o'n Rhinweddau Arbennig.

CYLLID ALLANOL : DATBLYGU A CHYMERADWYO RHAGLENNI / PROSIECTAU



- ❖ CYNLLUN RHEOLAETH Y PARC CENEDLAETHOL
- ❖ DATGANIAD LLESIANT
- ❖ CYNLLUN DATBLYGU ERYRI
- ❖ BLAENORIAETHAU LLYWDORAETH CYMRU A GWEINIDOGAETHOL



BLAENORIAETHAU AELODAU/AWDURDOD ar gyfer PROSIECTAU A RHAGLENNI (CYLLID ALLANOL)



AELODAU’N ADOLYGU BLAENORIAETHAU A MONITRO CYNNYDD



DATBLYGU PROSIECT / RHAGLEN (Swyddog)

- Cyfleoedd Ariannu
- Partneriaethau
- Cydweddu â Dibenion y Parc Cenedlaethol
- Cydweddu â Blaenoriaethau’r Awdurdod
- Pecyn Cymorth Rheoli Prosiectau
(Amserlenni, Costau, Gallu i Gyflawni, Cynhwysedd, Strategaeth Ymadael, Risgiau i Enw Da ac ati)



Y BWRIAD: Tim Rheoli / Cadeirydd



Y CYNNIG: Derbynn / Gwrthod (PW / Cadeirydd)



HYSBYSU AELODAU (Awdurdod / PaA)



EITEM RHIF 10

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	12 Gorffennaf 2023
TEITL	PROFFIL RISG YR AWDURDOD
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Rhoi gwybod am y sefyllfa ddiweddaraf parthed Proffil Risg yr Awdurdod

1. CEFNDIR

- 1.1 Mae gan yr Awdurdod Broffil Risg ac ynddo mae'r risgiau sy'n wynebu'r Awdurdod wedi'u rhannu yn dri chategori, sef Blaenoriaethau Uchel, Blaenoriaethau Canolig a Blaenoriaethau Isel. Mae'r adroddiad hwn yn dangos sefyllfa gyfredol y Proffil Risg hwnnw a gyflwynwyd yn flaenorol i'r Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ar 22 Chwefror 2023.
- 1.2 Caiff y risgiau eu pennu'n bennaf drwy gyfrwng y Penaethiaid Gwasanaeth perthnasol a'r Tîm Rheoli. Mae'r Gofrestr Risg yn cael ei hadolygu fel eitem sefydlog yng nghyfarfodydd y Tîm Rheoli yn chwarterol ar y cyd gyda'r swyddogion perthnasol. Mae'r risgiau sydd wedi'u pennu yn y Gofrestr Risg yn cael eu neilltuo i'r swyddogion cyfrifol, a gosodir dyddiadau targed ar gyfer cymryd camau lliniaru. Nodir isod grynodedeb o sefyllfa'r risgiau ynghyd â nodi os bu newid ers yr adroddiad ym mis Mawrth 2023 (manylder yn Atodiad 1).
- 1.3 Nodwch fod Risg 14: Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Gwybodaeth) wedi'i aralleirio gan nad yw Covid-19 bellach yn cael ei ystyried yn ffactor risg tuag at fethu â chyrraedd y targed incwm. Yn unol â hynny, mae sgôr y risg gyffredinol ar ôl rhoi mesurau lliniaru ar waith hefyd wedi gostwng o ran sgôr, er bod y risg gyffredinol yn dal i gael ei dosbarthu fel Canolig.
- 1.4 Nodir crynodeb o'r risgiau:

Rhif y Risg	Risg Uchel	Newid
1	Diffyg arian cyllido digonol.	Dim
2	Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch).	Dim

Rhif y Risg	Risg Canolig	Newid
4	Risg i enw da par. Rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn	Y risg wedi gostwng
5	Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri.	Dim
6	Methu a chyflawni gofynion y ddeddf "Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol".	Dim
7	Risgiau i'r prosiect CTL Partneriaeth Tirwedd ar gyfer y Carneddau trwy fethu a sicrhau cyllid "heb ei gadarnhau" (un ai cyfraniadau cyfalaf neu "heb fod yn arian") yng nghyfnod oes y prosiect.	Dim
8	Methu cydymffurfio gyda Rheoliad Diogelu Data 2018.	Dim
9	Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect Coedwigoedd Glaw Celtaidd LIFE gan gynnwys diffyg cydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys sy'n arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / punt.	Dim
10	Risg i enw da'r Awdurdod sy'n gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE - Coedwigoedd Glaw yn anfoddhaol.	Dim
11	Yr Awdurdod yn rheoli prosiectau yn wael ac aneffeithiol.	Dim
12	Cadernid staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i doriadau ariannol.	Dim
13	Yr Ysgwrn methu cynhyrchu incwm digonol.	Lleihau o Risg Uchel
14	Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Croeso).	Y risg wedi gostwng
15	Cynhyrchu Incwm (Cynllunio).	Dim
16	Sicrhau dyfodol tymor hir ar gyfer Plas Tan y Bwlch.	Dim
17	Risg o ymosodiad Seibr	Dim

Rhif y Risg	Risg Isel	Newid
3	Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio).	Dim

2. GOBLYGIADAU O RAN ADNODDAU


2.1 Dim yn codi o'r Adroddiad hwn.



3. ARGYMHELLIAD




3.1 Nodi cynnwys yr adroddiad hwn.


4. PAPURAU CEFNDIR



4.1 Cofrestr Risg: Diweddariad Gorffennaf 2023.




COFRESTR RISG AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI										Gorffennaf 2023		
Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Gweddill Risg			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg	Canlyniad			
1	Diffyg arian cyllido craidd digonol.	Torri Gwasanaethau.	5	5	25	<p>Ni fu unrhyw gynnydd yn lefel cyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer Grant y Parc Cenedlaethol ar gyfer 2023/24, er gwaethaf codiadau chwyddiant tua 10%, lefel na welwyd ers yr 1980au.</p> <p>Mae rhagamcanion Llywodraeth Cymru yn awgrymu dim newid i'r Grant erbyn 2024/25, er gallai hynny newid yn sgil pwysau gwleidyddol. Bydd swyddogion ac Aelodau'r Awdurdod yn ceisio dylanwadu ar y Llywodraeth i ariannu ein costau chwyddiant anorfod, drwy gyfraniad o rai grantiau penodol, os nad yn y grant craidd.</p> <p>Hefyd, mae APCE wedi cadw hyblygrwydd wrth gefn a lefel ddarbodus o gronfeydd i fedru mantoli cyllideb 2023/24 heb weithredu toriadau brys. Felly, er bod yr her ariannol a rhagwelwyd yn amlwg erbyn hyn, rydym yn gallu cyfyngu'r effaith ar wasanaethau'r Awdurdod eleni, ond mi fydd angen arbedion sylweddol erbyn 2024/25, gydag effaith niweidiol, heblaw bod y Llywodraeth yn cynyddu'r grant.</p>	4	4	16		A (Adolygwyd 22.02.23)	Prif Swyddog Cyllid



Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Risg Cynhenid	Gweddill Risg			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg.	Canlyniad			
2	Targed Cynhyrchu Incwm (Plas Tan y Bwlch).	Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.	4	5	20	<p>Yn dilyn y pandemig a'r nifer o gyfnodau clo mae Plas Tan y Bwlch wedi bod yn gweithredu model busnes hybrid sy'n cynnwys ceisio gwneud y gorau o'r farchnad dwristiaid trwy gynnig pecyn Gwely a Brechwast i ymwelwyr, cynnal digwyddiadau arbennig fel cynadleddau a phriodasau, a chroesawu rhywfaint yn ôl o'r hyn y gellid ei ddisgrifio fel defnyddwyr craidd blaenorol Plas Tan y Bwlch.</p> <p>At ei gilydd, mae hyn wedi cwrdd â chanlyniadau cymysg. Er bod incwm wedi cynyddu o flwyddyn i flwyddyn, yn anffodus mae'r costau cyffredinol wedi cynyddu hefyd, yn enwedig pan fydd rhywun yn ystyried y pwysau chwyddiant sy'n wynebu Plas Tan y Bwlch. Gyda'r pwysau ariannol yn wynebu'r Awdurdod yn gyffredinol mae angen cynyddol i fynd i'r afael â'r diffyg. Mae Bwrdd Plas Tan y Bwlch yn cynnal cyfarfodydd rheolaidd i drafod y diffyg ac ystyried opsiynau tuag at y dyfodol.</p>	4	5	20		A (Adolygwyd 22.02.23)	Cyf. Gwas. Corfforaethol
3	Targed Cynhyrchu Incwm (Meysydd Parcio).	Methu â chadw o fewn cyllideb yr Awdurdod.	4	5	20	<p>Mae'r incwm ym mis Ebrill a Mai yn rhagori ychydig ar y flwyddyn flaenorol lle llwyddwyd i wireddu'r targed yn llawn, felly ar hyn o bryd ni ragwelir cynnydd yn y risg. Pwysig i nodi bydd effaith tywydd yn gallu effeithio perfformiad yn ystod y flwyddyn a bydd monitro cyson yn parhau. Noder hefyd bydd angen rhagori ar y targed unwaith eto eleni i ariannu costau system rhag-archebu a diogelwch Pen y Pass.</p>	4	1	4		A (Adolygwyd 22.02.23)	Pennaeth Eiddo



Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
4	Risg i enw da parthed rheolaeth yr Awdurdod o'r Ysgwrn.	Camreoli yn arwain at ddiffyg hygredd yng ngallu'r Awdurdod i gyflawni ei ddyletswyddau.	5	3	15	<p>Mae'r Ysgwrn wedi ennill enw da iawn fel amgueddfa achrededig a chanolfan ddiwylliannol gyda rhaglen o weithgareddau treftadaeth ddiwylliannol o ansawdd rhagorol. Mae'r statws achrededig yn dangos bod trefniant llywodraethu cadarn ac effeithiol mewn lle.</p> <p>Mae gan Yr Ysgwrn dystiolaeth o batrwm llwyddiannus o ymgeisio am gyllid allanol i ariannu gweithgareddau a phrosiectau, ac mae swyddogion yn gweithio'n rhagweithiol ar y ceisiadau hyn ac yn chwilio am gyfleoedd nawdd pellach yn rheolaidd.</p> <p>Mae cywaith Geiriau Diflanedig ar waith er mwyn dod a'r arddangosfa hynod hon i'r Ysgwrn ym mis Mehefin 2023. Mae'r gwaith yn bartneriaeth gydag Amgueddfa Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro. Bydd gweithgareddau eraill yn cynnwys arddangosfa wllan a phrosiect treftadaeth gymunedol yn seiliedig ar ganmlwyddiant cofeb Hedd Wyn.</p>	3	3	9		A (Adolygwyd 22.02.23)	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir / Pen. Gwas. Treftadaeth Ddiwylliannol
5	Risg (cyhoeddusrwydd) o ganlyniad i'r Cynllun Traffig / Polisi Goriad Gwyrdd Eryri.	Camreoli yn arwain at ddiffyg hygredd yn yr Awdurdod a'i bartneriaid.	4	3	12	<p>Mae datblygu Cynllun Yr Wyddfa wedi sefydlu perthynas well rhwng yr elfennau unigol sy'n ymwneud â rheolaeth ar Yr Wyddfa, gan gynnwys y gwasanaeth Sherpa.</p> <p>Mae is-grŵp i Gynllun yr Wyddfa wedi ei ffurfio i adolygu'r gwasanaeth Sherpa a materion trafndiaeth / parcio yn yr ardal. Mae disgwyl niferoedd digynsail o ymwelwyr dydd o'r DU eto yr haf hwn, a fydd yn achosi problemau i gymunedau lleol. Rhoddwyd nifer o fesurau lliniaru ar waith gyda phartneriaid ar gyfer tymhorau 2021 a 2022. Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn gweithio gyda'i bartneriaid i fynd i'r afael â'r heriau ar gyfer tymor 2023. Mae mesurau yn cynnwys mesurau rheoli traffig pellach a gwell gwasanaeth bws Sherpa.</p> <p>Cytunwyd ar Grŵp Trafndiaeth Eryri ac mae'n cyfarfod yn aml. Mae cytundeb y Gwasanaeth Sherpa am y 5 mlynedd nesaf wedi ei gytuno. Gall Cyd-bwyllgorau Corfforaethol sydd â chyfrifoldeb penodol am drafndiaeth ddarparu cyfleoedd pellach.</p>	3	3	9		A (Adolygwyd 22.02.23)	Prif Weithredwr / Rheolwr Partneriaethau
6	Methiant o ran cyflawni gofynion Deddf Lles Cenedlaethau'r Dyfodol.	Adroddiad archwilio beirniadol / cyhoeddusrwydd negyddol.	3	3	9	<p>Mae'r Awdurdod yn parhau i gydweithio ag Archwilio Cymru i weithredu gofynion y Ddeddf Llesiant.</p> <p>Rydym yn parhau i ddisgwyl astudiaeth Archwilio Cymru ar gyfer 2022/23 (incwm masnachol ac arallgyfeirio incwm). Nid yw archwiliad perfformiad ar gyfer 2023/24 wedi'i gytuno eto.</p>	3	3	9		C (Adolygwyd 22.02.23)	Prif Weithredwr


Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
7	Risgiau i brosiect Partneriaeth Tirwedd CTL ar y Carneddau trwy fethu a chyflawni'r prosiect. Gall hyn ddigwydd trwy fethu a chadw at y pwrpasau a gymeradwywyd ar gyfer y grant Cronfa Dreftadaeth Lotri Genedlaethol, oediad gyda phenodi staff i'r cynllun ac felly oediad gyda chychwyn y cynllun, oediad gyda thalu hawliadau grant, y bartneriaeth yn chwalu, methu â derbyn yr arian "heb ei sicrhau" a ddisgwyllir trwy geisiadau grant pellach a chyfraniadau "mewn nwyddau" yn ystod oes y prosiect.	Bydd y canlyniadau'n amrywio'n helaeth yn dibynnu ar raddfa'r cyllid na ellir ei sicrhau. Gallai fod rhai elfennau o'r prosiect yn methu, hyd at risgiau sylweddol i'r prosiect cyfan, sy'n amlwg yn dod â chyhoeddusrwydd andwyol a niwed i enw da.	3	4	12	<p>Amserlen: Estyniad digost wedi ei gymeradwyo i'n dyddiad cwblhau ymarferol rhwng 30/09/2024 a 31/12/2025. Estyniad yn cynnwys lwfans ar gyfer gweithgaredd cau prosiect 3 mis (e.e. gweithgaredd etifeddiaeth, cais am daliad terfynol ac adroddiad gwerthuso) gan y Rheolwr Cynllun a'r Swyddog Cymorth Cynllun tan 31/03/2026. Ymarfer ail-broffilio'r cynllun ar y gweill, i fonitro cynnydd cywir yn erbyn targedau realistig a chynlluniau cyfoes.</p> <p>Pwrpasau Cymeradwy: Cyfradd gwario a chyrraedd targedau'r cynllun wedi cynyddu gydag adferiad o'r pandemig Covid-19. Mae'r Cynllun yn cyflwyno rhaglen lwyddiannus o ddigwyddiadau, gweithgareddau, gwaith ymarferol, a chynnal grantiau ers ei lansio ym mis Hydref 2020. Gweithgorau mynediad, cadwraeth a threftadaeth wedi'i sefydlu, Grŵp Craidd yn cyfarfod yn chwarterol, ac e-fwletin misol cyhoeddus wedi'i sefydlu. Mae'r wefan ar fin cael ei lansio yn allanol. Mae gwerthusiad y cynllun yn digwydd drwy gyswllt rheolaidd rhwng y gwerthuswr penodedig, y tîm craidd, partneriaid a chyfranogwyr i nodi'r llwyddiannau/heriau wrth ymateb yn briodol.</p> <p>Cyllid: Mae'r risg o gyllid cyfatebol heb ei sicrhau bellach wedi'i leihau'n sylweddol, yn dilyn dau gais grant llwyddiannus i'r Fenter Gwella Tirwedd y Grid Cenedlaethol gwerth £400k, gyda chytundebau cyfreithiol rhwymol ar waith gyda phartneriaid craidd i sicrhau bod mwyafrif y cyfraniadau partner yn cael eu cynnal. Mae rhai cyfraniadau cyllid cyfatebol yn parhau heb eu cadarnhau ac mae trafodaethau parhaus yn digwydd gydag arianwyr er mwyn lleihau'r risg ariannol. Mae hawliadau grant y Gronfa Dreftadaeth Chwarterol yn barhaus a derbynnir taliadau yn ddi-oed. Mae effaith cyfradd chwyddiant ar ein prosiectau cyfalaf yn sylweddol, ac mae cyllideb chwyddiant mewn lle ar gyfer hyn. Mae'r gyllideb hon yn cael ei hadolygu'n rheolaidd drwy drafodaeth gyda'r Monitor Cronfa Dreftadaeth.</p> <p>Staff: Ers Mai 2022, rydym wedi gweld newidiadau staff mewn 6 rôl o fewn y bartneriaeth, gyda 3 o'r rolau yma o fewn tîm craidd Y Carneddau. Cododd dau o'r newidiadau oherwydd amgylchiadau eithriadol nad ellir eu rhagweld a digwyddodd y llall oherwydd cyfle ar gyfer datblygiad proffesiynol i'r swyddog mewn corff partner. Mae cefnogaeth gan bartneriaid y Cynllun wedi bod yn hanfodol er mwyn goroesi'r cyfnod heriol hwn a sicrhau dilyniant. Penodwyd dau swyddog newydd i'r olaf o'r swyddi gwag yng ngwanwyn 2023.</p>	3	2	6		A (Adolygwyd 22.02.23)	Rheolwr Prosiect

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
8	Diffyg cydymffurfio â "Rheoliad Cyffredinol Diogelu Data 2018" (GDPR).	Diffyg rheoli data a chyhoeddi data na ddylem ei gyhoeddi.	4	3	12	<p>Mwyafrif o staff wedi cwblhau'r cyrsiau angenrheidiol erbyn hyn.</p> <p>Mae'r cwrs wedi ei gyfieithu i'r Gymraeg erbyn hyn. Datblygwyd y system fel ei fod yn atgoffa pawb pan mae hi yn amser ail eistedd y prawf. Gobeithio y bydd mwy o Aelodau a staff yn cwblhau'r cwrs eleni.</p> <p>Parhau i adolygu'r hyfforddiant a sicrhau fod staff ac aelodau yn ei gymryd fel bo'r angen.</p> <p>Mae cyrsiau newydd yn cael eu hychwanegu at y system ELMS a byddant yn mynd yn fyw ym mis Mawrth 2023. Bydd disgwyl i bawb sefyll y rhain cyn gynted â phosibl a bydd mynediad i rwydwaith neu e-bost yn cael ei ddileu os na fydd staff / aelodau yn cwblhau'r cyrsiau gorfodol newydd.</p> <p>Mae oediad wedi bod yn natblygiad y system ELMS - ar ochr y cwmni sydd yn ei baratoi. Rydym yn gobeithio byddent yn mynd yn fyw cyn diwedd haf. Mae'r cyrsiau gyda chynnwys newydd i staff.</p>	3	2	6		A (Adolygwyd 22.02.23)	Pennaeth TG / Cyf. Gwas. Corfforaethol
9	Agweddau o risg ariannol sy'n gysylltiedig â phrosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd gan gynnwys methu â chydymffurfio â rheolau caffael neu wariant ar gostau anghymwys gan arwain at beidio â dyfarnu'r grant, neu amrywiad yn y gyfradd gyfnewid Ewro / bunt.	Mae angen i APCE a phartneriaid eraill hunan ariannu gwariant ar agweddau o'r prosiect hyd yn hyn.	5	4	20	<p>Derbyniwyd a chymeradwywyd ail adroddiad canol tymor i'r CE (a hawliad grant cysylltiedig), gan arwain at dynnu i lawr y 3ydd taliad LIFE gan y CE ym mis Rhagfyr 2022. Mae cais am estyniad prosiect 2 flynedd wedi'i gymeradwyo'n swyddogol gan y Comisiwn Ewropeaidd, gan roi dyddiad gorffen prosiect newydd o 31 Gorffennaf 2027. Ni fydd hyn yn effeithio ar gost gyffredinol y prosiect.</p> <p>Mae adborth swyddogol gan y Comisiwn, gan gynnwys y Genhadaeth Fonitro diweddar (Tachwedd 2022) a'r 2il Adroddiad Canol Tymor (Hydref 2022), hyd yn hyn yn gadarnhaol, gyda dim ond mân bryderon a diwygiadau sydd angen sylw. Dim adroddiadau pellach nawr tan 2024.</p> <p>Pob taliad cyd-ariannwr arall yn gyfredol, gan gynnwys y cyfraniad o £2m gan Lywodraeth Cymru. Mae'r arian sydd dros ben yn y prosiect hyd yn hyn (tua £301k) oherwydd cyfradd gyfnewid ffafriol, a fydd angen cyfatebiaeth o 40% gan bartneriaid (tua £200k - £300k os bydd cyfanswm y cyllid yn cael ei dynnu i lawr o'r UE).</p>	4	3	12		A (Adolygwyd 22.02.23)	Rheolwr Prosiect

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlyniad		Effaith	Tebyg	Canlyniad			
10	Risg i enw da'r Awdurdod yn gysylltiedig â chyflawni'r prosiect LIFE Coedwigoedd Glaw Celtaidd yn anfoddfaol.	Bod yr Awdurdod yn dioddef niwed difrifol i'w enw da ymhlith y sefydliadau hynny sy'n bartneriaid a enwir yn y prosiect, partneriaid prosiect eraill gan gynnwys perchnogion tir preifat, contractwyr a sefydliadau eraill, a'r cyhoedd ehangach.	4	3	12	<p>Wedi colli staff pellach ym mis Rhagfyr 2022 gyda'r Swyddog Cymorth Ymgysylltu o RSPB Cymru (0.4WTE) wedi gadael. Mae'r golled yn cael ei gwrthbwysu rhywfaint gan ddychweliad Swyddog Ymgysylltu cynradd y prosiect (0.6WTE) o absenoldeb mamolaeth ym mis Rhagfyr 2022. Arweiniodd costau staff uwch (chwyddiant, angen cyflogi staff ychwanegol) at yr angen i symud arian o gwmpas o fewn y prosiect i gyflenwi y costau.</p> <p>Serch hynny, yr aflonyddwch a achoswyd gan drosiant staff (colli momentwm, peidio â gweithredu i'w gapasiti llawn am gyfnodau sylweddol), ochr yn ochr ag effeithiau pandemig Covid-19, oedd y prif yrrwr y tu ôl i ofyn am estyniad o 2 flynedd.</p>	4	3	12		C (Adolygwyd 22.02.23)	Rheolwr Prosiect
11	Rheoli gwael ac aneffeithiol o brosiectau gan yr Awdurdod.	Risg o beidio â chyflawni prosiectau ac amcanion yr Awdurdod. Risg i enw da'r Awdurdod. Cyfleoedd ariannol yn cael eu colli.	3	3	9	<p>Mae swyddogion yn dilyn canllawiau safonol a fabwysiadwyd ar gyfer rheoli prosiectau - gan gynnwys creu "Dogfen Ysgogi Prosiect" a chael cymeradwyaeth y tîm rheoli ar gyfer y ddogfen hon. Mae hyn yn creu sail ar gyfer rheoli ac ar gyfer cyfathrebu (mewnol ac allanol) ar brosiectau yn gyson ar draws yr Awdurdod.</p> <p>Rhodddwyd ystyriaeth i baratoi cefnogaeth fwy canolog i brosiectau i sicrhau bod cysondeb a chydymffurfiaeth yn cael eu rheoli. Mae Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau ymagwedd aml-flwyddyn at brosiectau/rhaglenni. Ym mis Mawrth 2022, ystyriodd a chymeradwyodd y Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau y protocolau ar ddatblygu a derbyn cynigion grant. Efallai y bydd adroddiad Archwilio Cymru sydd ar ddod ar gynhyrchu incwm yn rhoi cyngor pellach ar faterion o'r fath yn hyn o beth.</p>	2	4	8		A (Adolygwyd 22.02.23)	Tîm Rheoli
12	Gwytnwch staff yr Awdurdod yn lleihau (oherwydd mwy o ofynion) o ganlyniad i doriadau ariannol.	Effaith ar gadw staff a recriwtio a hefyd perfformiad yr Awdurdod.	3	3	9	<p>Mae cyfres o fesurau i ddelio gyda gwytnwch yn cynnwys:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Gwerthusiad blynyddol ar gyfer staff unigol, 2. Datblygiad cynllun llesiant staff yn y gweithle, 3. Sefydlu cronfa wrth gefn ar gyfer gwytnwch staff, 4. Cyfraddau cadw staff a salwch. <p>Ers yr adolygiad o delerau ac amodau staff bydd angen i'r Awdurdod fonitro effaith chwyddiant a chostau byw ar wytnwch staff a'u gallu i gadw a recriwtio. Mae'r Awdurdod ar hyn o bryd yn ystyried y ffordd orau o gyflwyno modelau gweithio hybrid ar gyfer staff swyddfa yn bennaf.</p>	3	3	9		A (Adolygwyd 22.02.23)	Tîm Rheoli

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfe-iriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
13	Yr Ysgwrn yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb.	Yr Ysgwrn yn dibynnu ar fudd- dal uwch gan yr Awdurdod a/neu yn defnyddio arian wrth gefn sydd wedi'i gynilo yn dilyn blynyddoedd blaenorol llewyrchus. Yn y pendraw, bydd hyn yn golygu nad ydi'r Ysgwrn yn gynaliadwy.	4	4	16	<p>Mae cynnal Yr Ysgwrn o fewn y gyllideb yn her barhaus yng ngoleuni'r argyfwng costau byw sy'n amharu ar wariant ymwelwyr a chostau rhedeg cynyddol. Mae'r rhagolygon ar gyfer 2023/24 yn addawol, gyda nifer o grwpiau ac ysgolion eisoes wedi archebu ymweliadau.</p> <p>Mae costau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd. Mae'r rhan fwyaf o gostau, megis gwres, ffôn a thrydan yn sefydlog ac yn angenrheidiol ar gyfer safonau achredu.</p> <p>Mae'r Ysgwrn wedi llwyddo i ddenu cefnogaeth ariannol allanol ar gyfer prosiectau a gweithgareddau ac mae swyddogion yn gweithio i ddatblygu cyfleoedd pellach ar gyfer uchafu'r incwm yma, e.e. drwy sefydlu Ymddiriedolaeth Ddatblygu ar gyfer Yr Ysgwrn.</p>	3	3	9		A (Adolygwyd 22.02.23)	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir / Pen. Gwas. Treftadaeth Ddiwyllia-nnol
14	Targed Cynhyrchu Incwm (Canolfannau Gwybodaeth).	<p>Canolfannau Gwybodaeth yn methu a gweithredu oddi fewn i gyllideb oherwydd cyfyngiadau Covid-19.</p> <p>Y Canolfannau Gwybodaeth yn methu cynhyrchu incwm digonol i gyflawni'r gyllideb.</p> <p>Y Canolfannau Gwybodaeth yn methu â chyrraedd nodau cynhyrchu incwm oherwydd prinder staff sy'n arwain at gau.</p>	4	4	16	<p>Mae cyfyngiadau Covid-19 bellach wedi dod i ben. Does dim cyfyngiadau o gwbl mewn 2 o'n canolfannau bellach, mae'r sgriniau Covid dal i fyny mewn 1 yn dilyn cais gan y staff.</p> <p>Ers dechrau fis Mai 2023 mae'r canolfannau yn rhedeg ar rota llawn wedi llwyddiant ymgyrch recriwtio dechrau'r flwyddyn. Oni bai salwch neu ymadawiad annisgwyl gobeithiwn bydd y canolfannau yn rhedeg ar rota llawn am dymor 2023.</p>	4	2	8		A (Adolygwyd 22.02.23)	Rheolwr Canolfannau Gwybodaeth

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
15	Cynhyrchu Incwm (Cynllunio).	Y brif risg fyddai incwm annigonol ar gyfer rhedeg y gwasanaeth cynllunio yn effeithiol.	3	3	9	<p>Ar ôl Covid, mae'r incwm o ffioedd cynllunio wedi parhau'n rhyfeddol o uchel. Fodd bynnag, gyda heriau pellach i'r economi yn ogystal â phwysau chwyddiant, mae risg fydd y targed incwm yma dan bwysau am gyfnod. Rhagorwyd ar y targed incwm ar gyfer 2022/23 gydag incwm o £216K.</p> <p>Mae'r gallu i liniaru unrhyw risgiau yn weddol gyfyngedig ond bydd yr Awdurdod yn:</p> <ul style="list-style-type: none"> - Parhau i lobio am gynnydd mewn ffioedd cynllunio gydag Awdurdodau eraill (trwy Grŵp Cymdeithas Swyddogion Cynllunio Cymru, POSW), fel y bo'n briodol; - Bod yn ddarbodus o rhan gwariant - er mwyn ceisio gweithredu o fewn y gyllideb; - Ceisio Cytundebau Perfformiad Cynllunio (CPAs) gyda datblygwyr mwy lle bo'n briodol - a fydd yn helpu i dalu am amser swyddogion. 	3	3	9		A (Adolygwyd 22.02.23)	Cyf. Cynllunio a Rheoli Tir
16	Sicrhau dyfodol tymor hir i Blas Tan y Bwlch.	Y Plas yn gorfod cau gyda staff yn colli eu bywoliaeth. Effaith andwyol ar yr economi lleol ac enw da'r Awdurdod yn dioddef.	3	4	12	<p>Gweler Risg 2 uchod. Er mwyn sicrhau dyfodol y Plas rhaid yn gyntaf llwyddo gyda'r model busnes newydd. Fel yr adroddwyd yn flaenorol er bod incwm yn cynyddu flwyddyn ar ôl blwyddyn mae diffyg sylweddol y mae angen mynd i'r afael ag ef.</p> <p>Mae hefyd wedi dod yn amlwg bod nifer o broblemau gyda'r adeilad ei hun gan arwain at dreiddiad llaith gormodol a cholli ystafelloedd gosod. Rydym yn ymchwilio i'r sefyllfa ar hyn o bryd ac mae gennym nawr Arolwg Cyflwr o'r adeilad. Mae'r adroddiad hwn wedi cael ei drafod yng nghyfarfod o'r Bwrdd ac rydym wedi gofyn am fanylion o beth sydd angen gwaith ar frys, gan ymchwilio os oes modd gwneud cais am grant ar gyfer gweddill y gwaith. Gellir penderfynu wedyn os a sut i fuddsoddi ymhellach yn y Plas gyda'r arian eisoes i law.</p>	3	4	12		A (Adolygwyd 22.02.23)	Cyf. Gwas. Corfforae - thol

Cyf	Disgrifiad Risg	Canlyniad	Risg Cynhenid			Mesurau Rheoli / Gweithredoedd	Risg Cynhenid			Cyfeiriad risg	Agosrwydd (A,C,P)	Perchennog
			Effaith	Tebyg	Canlynia		Effaith	Tebyg	Canlynia			
17	Risg o gael ymosodiad Seibr	Colli data a mynediad i'r rhwydwaith	4	3	12	<p>Camau yn eu lle i ddiogelu data. Angen gwneud profion treiddiad a gwe-rwydo i weld lle mae ein gwendidau.</p> <p>Serfwyr wedi ei uwchraddio yn ddiweddar ac rydym yn aros i uwchraddio'r cysylltiadau cyfathrebu cyn trefnu profion treiddiad a gwe-rwydo.</p> <p>Cyswllt cyfathrebu newydd yn ei le ac oherwydd cyfyngiadau cyllidebol bydd y profion yn cael eu cynnal yn y flwyddyn ariannol newydd.</p> <p>Dim newid ar hyn o bryd – parhau i gadw safon diogelwch fel oedd gennym.</p>	3	2	6		A (Adolygwyd 22.02.23)	Pennaeth TG / Cyf. Gwas. Corfforaethol

Sgorio'r Risg					
Tebygolrwydd	Isel lawn = 1	Isel = 2	Canolig = 3	Uchel = 4	Uchel lawn = 5
Effaith	Isel lawn = 1	Isel = 2	Canolig = 3	Uchel = 4	Uchel lawn = 5
Sgôr Cyfunol			Risg Cyffredinol		
1 – 4			Isel		
6 – 14			Canolig		
15 – 25			Uchel		

EITEM RHIF 11

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	12 Gorffennaf 2023
TEITL	RHAGLEN WAITH CORFFORAETHOL 2022-23 DIWEDDARIAD AR YR AMCANION LLESIANT
ADRODDIAD GAN	Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol
PWRPAS	Adroddiad cynnydd y Pedwerydd Chwarter (a'r Terfynol) (Ionawr – Mawrth 2023)

1. CEFNDIR

- 1.1 Ynglwm adroddiad ar y Rhaglen Waith Corfforaethol sy'n cynnwys manylion y cynnydd a wnaed yn y Pedwerydd Chwarter o 2022-23 i gyflawni'r wahanol brosiectau a'r mentrau y cytunwyd arnynt ar gyfer cyflawni Amcanion Llesiant yr Awdurdod.
- 1.2 Bydd Swyddogion yn bresennol yn y cyfarfod i gyflwyno gwybodaeth bellach os bydd angen.

2. ARGYMHELLIAD

- 2.1 Archwilio a thrafod y Rhaglen Waith Corfforaethol ynglwm.

3. PAPURAU CEFNDIROL

- 3.1 Rhaglen Waith Corfforaethol 2022-23: Adroddiad Cynnydd ar y Pedwerydd Chwarter (a'r Terfynol) ar gyfer 2022-23.





AMCANION LLESIANT 2022-23 : RHAGLEN WAITH GORFFORAETHOL


Yr Amcanion Llesiant, Prosiectau a Mentrau Cyfatebol a Chanlyniadau Llwyddiant
Diweddariad y Pedwerydd Chwarter : Ionawr – Mawrth, 2023


Mae'r Amcanion Llesiant wedi'u croesgyfeirio â thargedau a osodwyd ar gyfer APCE yn Llythyr Cylch Gwaith cyfredol Llywodraeth Cymru - wedi'u dynodi (Atodiad 1 : Targedau'r Llythyr Cylch Gwaith)

1. AMGYLCHEDDAU CYDNERTH







Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	AC 1	GWELLA RHEOLAETH HAMDDEN AC UNRHYW EFFEITHIAU NEGyddOL HAMDDEN		
Rhif	Statws Cynnydd Chwarter	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 1.1	 Diweddariad Ch. 1+2	<p>Monitro nifer yr ymwelwyr trwy gyfrifwyr pobl i sefydlu effaith defnyddwyr ar draws y Parc Cenedlaethol</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Rhaglen fawr o atgyweirio, adnewyddu ac uwchraddio cownteri ar draws y Parc Cenedlaethol ar fin cael ei chwblhau. ➤ Adroddiad 2021: <ul style="list-style-type: none"> ❖ Cyhoeddir adroddiad unwaith y bydd data gan Ogwen wedi'i ychwanegu (materion gyda chownter Ogwen) ❖ Adroddiad drafft yn dangos nifer tebyg i 2019 ond gyda chrynodiaidau o ffigurau ym mis Awst o gymharu â cyn-covid, yn ogystal â chynnydd yn nifer yr ymwelwyr yn ne'r Parc Cenedlaethol. <p>Carneddau – trafodaethau ar y gweill gyda thîm y Carneddau a bydd gwaith yn dechrau ar osod yn gynnar y flwyddyn nesaf.</p>	Mawrth 2023	Pen. Ymgysylltu Rheolwr Mynediad a Llesiant
	Ch. 3+4	Adroddiad 2021 wedi'i gwblhau a'i gyhoeddi. Mae gwaith casglu data o gownteri ar draws y Parc wedi dechrau ar gyfer adroddiad 2022. Cafwyd ambell broblem gyda gwneuthurwr batris ar gyfer y cownteri a ddefnyddiwn ac oedi wrth eu hatgyweirio a'u dychwelyd. Yr ydym yn monitro'r sefyllfa.		


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Tud. 1





Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 1.2 		Ymgyrch Negeseuon Tymor 2022 i godi ymwybyddiaeth o Rinweddau Arbennig, dylanwadu ar ymddygiad cadarnhaol a mynd i'r afael â gwersylla anghyfreithlon - ei weithredu ac adrodd ar y canlyniadau/ cyrhaeddiad.	Rhagfyr 2022 + Parhaus	Pen. Ymg. Swyddog Twristiaeth Cynaliadwy
1.2.1		<u>Mae tri Pharc Cenedlaethol Cymru wedi cynnal ymgyrch ymwelwyr ar y cyd i fynd i'r afael â heriau rheoli ymwelwyr</u>		
	Diweddariad Ch. 1 + 2	Cyllid wedi ei dderbyn gan Croeso Cymru i redeg yr ymgyrch ar y cyd. Ymgyrch yn dirwyn i ben erbyn hyn. Bydd metrigau'r ymgyrch yn cael eu rhannu yn Ch.3.		
	Ch. 3+4	Metrics ymgyrch Parciau Cenedlaethol Cymru ar y cyd 2022: <ul style="list-style-type: none"> ➤ Argraffiadau (y nifer o weithiau y dangoswyd postïadau i ddefnyddiwr): 3.1 miliwn ➤ Ymgysylltu (y nifer o weithiau y gwnaeth defnyddwyr ymgysylltu â phost trwy eu hoffterau, atebion, ymatebion, sylwadau ac ati): 56,000 ➤ Postio cliciau/camau gweithredu dolen (y nifer o weithiau y gwnaeth defnyddiwr glicio ar ddolen yn y post/proffil): 4,860 (talodd 1,338 am hysbysebion cyfryngau cymdeithasol 3,537 partneriaeth cyfryngau cyflogedig North Wales Live) ➤ Ymweliadau â thudalen parcio Yr Wyddfa ar wefan y Parc Cenedlaethol, a oedd yn cynnwys gwybodaeth fanwl am archebu ymlaen llaw: 110k ➤ Sylw yn y cyfryngau: 13 – rhoi'r gorau i'r barbeciw; 14 – tipio anghyfreithlon damweiniol ➤ Partneriaethau dylanwadwyr: Laura Kate Lucas – 10k; Andrew Burton – 3k 		


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023




Tud. 2


Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyrifol
1.2.2	 Diweddariad Ch. 1 + 2	<u>Rydym yn gweithio'n agos gyda Chyngor Gwynedd i fynd i'r afael â materion gwersylla anghyfreithlon a chartrefi modur.</u> Cynhaliwyd trafodaeth strategol gydag Aelodau yn y Gweithgor. Fel canlyniad:+ <ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae cynllun 12 mis wedi ei ddatblygu. ➤ Anfonwyd diweddariad i gynghorau cymuned. ➤ Datblygwyd taflen fan wersylla (a thudalen we) i annog defnydd cyrifol o'r Parc Cenedlaethol. Gan gynnwys arfer gorau ac anogaeth i ddefnyddio meysydd gwersylla lleol. Adborth da ar y daflen. ➤ Gosod peiriant dosbarthu taflenni yn Llyn Tegid. ➤ Mesurau penodol yn cael eu trafod i fynd i'r afael ymhellach â materion yn Llyn Tegid. ➤ Parhau i gysylltu â Gwynedd a Chonwy am eu gwaith. ➤ Bydd adolygiad o'r CDLI yn cynnwys adolygu'r data sydd ar gael ar faterion galw/cyflenwad yn y Parc Cenedlaethol o ran cartrefi modur. 	"	"
	Ch. 3+4	Mae gwaith yn parhau yn 2023 i fynd i'r afael â'r mater ac mae wedi'i integreiddio i Gynllun Tymor 2023, gan gynnwys y camau gweithredu canlynol: <ul style="list-style-type: none"> ➤ Adnewyddu ac ail-argraffu taflen faniau gwersylla erbyn Mawrth 2023. Sicrhau bod y tirlfeddianwyr a ofynnodd eu cynnwys yn y daflen yn cael eu cynnwys, a bod gan unrhyw feysydd gwersylla sydd wedi'u cynnwys y caniatâd cynllunio priodol yn ei le. Sicrhau bod copïau yn cael eu dosbarthu i fusnesau lleol, canolfannau gwybodaeth ac ati. ➤ Diweddarau'r map meysydd gwersylla ar y wefan i adlewyrchu'r daflen wybodaeth ar faniau gwersylla erbyn mis Mawrth 2023 a sicrhau bod safleoedd llai yn cael eu cynnwys (yn ystyried cais am y manlyion drwy'r Fforymau Mynediad Lleol). ➤ Cyflwyno arwyddion a dalwyr taflenni Llyn Tegid i ardaloedd problemus eraill erbyn Gorffennaf 2023. Adnabod a chytuno'r safleoedd gyda wardeniaid ardal. ➤ Yn dilyn ymgynghoriad cymunedol, treialu gorfodaeth ANPR yn Llyn Tegid (os cytunir mai dyna'r ffordd orau ymlaen), erbyn Awst 2023 (dyddiad i'w gadarnhau). ➤ Trafod a chytuno strategaeth i fynd i'r afael â gwersylla/tanau dros nos yng nghilfannau Dyffryn Mymbyr erbyn Ebrill 2023. Ychwanegu camau gweithredu i'r strategaeth hon. Yn ystyried cysylltu â ChBS Conwy ynglŷn ag opsiynau gosod rheoliadau ffyrdd dim aros dros nos. 		


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023











 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


		➤ Fel rhan o broses adolygu'r CDLI, defnyddio data/ymchwil presennol i lywio datblygu polisiâu mewn perthynas â'r mater hwn gan ystyried ffyrdd y gall cymunedau a busnesau elwa ac a oes angen gwell rheolaeth dros leiniau tymhorol. Parhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am fesurau a gymerwyd gan Gyngor Gwynedd a Chonwy re Aires ac os y gall capasiti y tu allan i ffiniau'r Parc helpu i leddfu pwysau.		
Rhif	Statws Cynnydd Chwarter	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
1.2.3	 Diweddariad Ch. 1 + 2	<u>Archwiliwyd cyfleoedd i ddatblygu Profiadau Parc Cenedlaethol Cymru sy'n canolbwyntio ar Rinweddau Arbennig a thwristiaeth gynaliadwy</u> ➤ Mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda grŵp y PC ar brofiadau'r PC ac mae'r canlyniadau hyd yma wedi bod yn weddol gyfyngedig o ran canlyniadau. Trafodaethau cychwynnol felly i'w cynnal gyda Dolan – cynllun a arweinir gan y gymuned yn lleol – i weld sut y gallwn gefnogi eu gwaith, gyda phwyslais arbennig ar Gynllun Llysgenhadon y PC. ➤ Bydd Swyddog cynllun di-blastig Yr Wyddfa hefyd yn gweithio ar gynllun achredu peilot ar leihau defnydd plastig gan fusnesau.	“	“
	Ch. 3+4	Mae Cynllun di-blastig Yr Wyddfa wedi ei lansio a gwaith codi ymwybyddiaeth yn symud ymlaen yn gynhyrchiol.		
AC 1.3	 Diweddariad Ch. 1+2 	Gwell darpariaeth ar gyfer ymgysylltu â'r cyhoedd yng Nghanolfan Gwybodaeth Betws y Coed trwy uwchraddio'r cyfleusterau i ymwelwyr ➤ Mae Profiad Rhithwir o'r Wyddfa bellach ar agor. ➤ Paneli ar gyfer 'blwch tywod' yn cael eu datblygu. ➤ Bydd Technegydd mewnol yn adeiladu meinciau a phlanwyr dros y gaeaf gan ddefnyddio pren o'n safleoedd. ➤ Arwyddion allanol hefyd yn cael eu datblygu.	Disgwylir gorffen erbyn Awst 2022	Rheolwr Twristiaeth Gynaliadwy
	Ch. 3+4	Bydd y blwch tywod yn cael ei gwblhau erbyn diwedd Mawrth ac mae'r meinciau a phlanwyr yn cael eu hadeiladu'n fewnol ar hyn o bryd. Mae problem weledol wedi codi gyda'r arwyddion allanol sydd wedi gorfodi ni i ail feddwl. Mae trafodaethau wedi eu cynnal gyda'r pensaer a chynllunwyr parthed oblygiadau ar yr hawl cynllunio.		


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023










Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 1.4 	 Diweddariad Ch. 1+2	Nodi a meintioli gwaith mynediad i liniaru effeithiau pwysau pobl Mae gwaith mynediad ar raddfa fach yn cael ei nodi a'i reoli gan y Wardeniaid Ardal. Mae gwaith bach i ganolig yn cael ei arwain gan Wardeniaid Ardal gyda chefnogaeth Uwch Wardeniaid. Mae gwaith yn cael ei drafod a'i gadarnhau yn eu cynllun gwaith a/neu gynlluniau lleoedd ardal. Mae gwaith mynediad mwy yn cael ei asesu a'i drafod mewn 'Cyfarfodydd Blaenoriaethu Prosiectau Mynediad' sy'n cynnwys y Pennaeth Gwasanaeth Wardeiniaid, Uwch Wardeniaid, y Rheolwr Lles a Mynediad a'r Swyddog Prosiect Mynediad.	Parhaus	Pen. Wardeinio a Mynediad (WaM)
	Ch. 3+4	Mae'r gwaith yn parhau fel y nodir uchod.		
AC 1.5	 Diweddariad Ch. 1+2	Cynhyrchu Strategaeth Ymgysylltu ar gyfer gwaith llwybrau yn Eryri Ymchwil wedi'i wneud – cais am wybodaeth wedi'i wneud i Barciau Cenedlaethol y DU. Bydd gwaith yn mynd rhagddo dros y misoedd nesaf.	Medi 2022	Pen. WaM
	Ch. 3+4 	Gwaith heb ei gwblhau yn 2022-23 ond bydd yn symud ymlaen yn 2023-24		
AC 1.6 	 Diweddariad Ch. 1+2	Cynhyrchu canllawiau ar gyfer cyflawni gwaith mynediad yn Eryri Cynhyrchwyd y drafft – angen adolygu a chyflwyno drafft i'r tîm rheoli ar gyfer sylwadau cychwynnol ddechrau 2023.	Medi 2022	Pen. WaM
	Ch. 3+4 	Gwaith heb ei gwblhau yn 2022-23 ond bydd yn symud ymlaen yn 2023-24		


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Tud. 5








Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 1.7	 Diweddariad Ch. 1+2	Sicrhau fod llwybrau a hyrwyddir yn cael eu harolygu, eu cynnal a'u gwella'n rheolaidd pan fo angen Gwaith yn parhau. Mae asedau ychwanegol ar ffurf Wardeniaid Tymhorol wedi gwella capasiti.	Parhaus	Pen. WaM
	Ch. 3+4	Mae'r gwaith yn parhau. Mae'r broses i uwchraddio rhaglen cyfrifiadurol ar gyfer rheoli ac adolygu llwybrau wedi dechrau.		
AC 1.8	 Diweddariad Ch. 1+2	Wardeniaid Ardal i weithio gyda'r Cymunedau a phartneriaid i nodi a manteisio ar gyfleodd i ddarparu ystod o lwybrau a hyrwyddir ar gyfer galluoedd amrywiol Gwaith yn parhau. Bydd cyllid ychwanegol yn cefnogi'r gwaith.	Parhaus	Pen. WaM
	Ch. 3+4	Gwaith yn parhau. Mae arian cynllun Tirweddau Cynaliadwy Llefydd Cynaliadwy (TCLC) LIC, wedi caniatáu mwy o waith llwybrau gael ei gynnwys yng ngylluniau ardal wardeniaid.		
AC 1.9	  Diweddariad Ch. 1+2	Gweithio ar draws yr Awdurdod i integreiddio rhaglenni gwaith a datblygu Cynlluniau Ardal Gwaith yn parhau. Mae angen mwy o gymorth ac arweiniad ar rai meysydd. Bydd ffynhonnell ariannu ddiweddar newydd, TCLIC yn gwella gwaith partneriaeth rhwng gwasanaeth yr Amgylchedd, Amaethyddiaeth a Chadwraeth.	Parhaus	Pen. WaM
	Ch. 3+4	Gwaith yn parhau. Yn ychwanegol i'r gwaith TCLC uchod, mae aelodau staff Gwasanaeth Wardenio a Mynediad wedi cynorthwyo prosiectau Cynlluniau Rheoli Cynaliadwy. Fydd angen parhau a datblygu cydweithio rhwng adrannau.		
AC 1.10	  Diweddariad Ch. 1+2	Sicrhau cyllid a recriwtio swyddog i ddatblygu prosiect Yr Wyddfa Di-blastig Cyllid wedi'i sicrhau a swyddog wedi'i recriwtio. CWBLHAWYD	Hydref 2022	Rheolwr Partneriaethau


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023








Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	AC 2	YMATEB I HERIAU NEWID YN YR HINSAWDD
--	------	---


Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 2.1 		Sicrhau gweithrediad y polisiâu CDLI cyfredol sy'n cyfrannu at liniaru newid yn yr hinsawdd. Mae llawer o fesurau lliniaru newid yn yr hinsawdd wedi'u gwreiddio yn y CDLI, trwy bolisiâu sy'n ceisio lleihau dibyniaeth ar geir preifat, trwy ganolbwyntio datblygiad yn yr aneddiadau mwy (a thrwy hynny leihau dibyniaeth ar geir preifat), a chaniatáu datblygiadau ynni adnewyddadwy ar raddfa fach. Yn yr ystyr hwnnw mae'r CDLI yn cael ei weithredu'n fras fel y bwriadwyd. Er bod polisi 'newid hinsawdd' penodol yn y CDLI nid yw'n cael ei ddefnyddio rhyw lawer wrth wneud penderfyniadau datblygu. Ystyrir felly bod angen adolygu'r polisi Newid yn yr Hinsawdd a bod angen canllawiau manwl pellach i roi cyfeiriad clir i fynd ati i leihau carbon a bod yn fwy rhagweithiol wrth liniaru ac addasu i effeithiau newid annymunol yn ogystal â chymryd camau gweithredol i gynyddu systemau naturiol dal a storio carbon gan gynnwys coetiroedd, mawndiroedd a phriddoedd carbon (er y dylid nodi nad yw adfer mawndiroedd ac adfer pridd, a phlannu coetiroedd fel arfer yn faterion y mae angen unrhyw ganiatâd cynllunio arnynt).	Adroddiad blynyddol	Rheolwr Cynllunio
AC 2.2 	 Diweddariad Ch. 1+2	Effeithlonrwydd ynni a lleihau ôl-troed carbon adeiladau APCE i fod yn rhan annatod o'r Cynllun Rheoli Asedau newydd (i'w fabwysiadu o Ebrill 2022) ymochrol gyda Ffyniant i Bawb – Targedau Carbon Isel yr Ystâd Gyhoeddus Gwaith yn mynd rhagddo, wedi'i ohirio oherwydd cyflwyno ceisiadau am brosiectau datgarboneiddio pellach i gyllid TCLIC 2022-2025 a cheisiadau am grantiau pellach i wella cyfleusterau sy'n cynnwys cynhyrchu ynni solar ar y safle.	Rheolwr Eiddo Mabwysiadu Cynllun Rheoli Asedau o Ebrill 2022 + ymlaen	
	Ch. 3+4	Cyfarfu'r Is-grŵp Asedau yn ystod hydref 2022 ac ystyriodd ddata ar gyfer y safleoedd defnydd mwyaf o ynni i flaenoriaethu effeithlonrwydd ynni a chynhyrchu ynni adnewyddadwy posibl ar y safle. Camau i'w cymryd i baratoi cynllun cynnal a chadw cylchol i hysbysu'r grŵp yn well ar rwymedigaethau hirdymor yn sgil pwysau ariannol pellach i alluogi trafodaeth ar adolygu'r portffolio. Gwaith yn mynd rhagddo i baratoi cynllun cynnal a chadw ar gyfer trafodaeth Is-grŵp yn y dyfodol.		


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023



Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(i) cyfrifol
AC 2.3 	 Diweddariad Ch. 1+2	Datblygu Cynllun Gweithredu yn seiliedig ar argymhellion yr astudiaeth carbon i APCE fod yn niwtral o ran carbon erbyn 2030 Disgwylir adroddiad terfynol gan Aquatera ym mis Hydref. Adroddiad i'w ystyried gan Grŵp Tasg a Gorffen y Cyfrif Carbon gydag argymhellion ar gyfer gweithredu wedi'u hymgorffori mewn dogfennau perthnasol e.e. Strategaeth Rheoli Asedau	Parhaus 2030	Prif Weithredwr (PW) Pen. Eiddo
	Ch. 3+4	Cyfarfu'r Grŵp Gorchwyl a Gorffen Llwybr Carbon i drafod canlyniadau'r adroddiad a Chynllun Gweithredu dilynol. Cytunodd y Grŵp ar newidiadau i'r Cynllun Gweithredu i swyddogion eu datblygu fel sail ar gyfer datblygu'r themâu a nodwyd yn Strategaeth Garbon Gorfforaethol (Drafft) a gyflwynir i'r Grŵp Tasg a Gorffen ym mis Mai. Mae'r gwaith yn mynd rhagddo'n dda.		
AC 2.4 	 Diweddariad Ch. 1+2	Comisiynu adroddiad i nodi sut y gall yr Awdurdod gynorthwyo i sicrhau bod ardal y Parc Cenedlaethol yn garbon niwtral erbyn 2050 i gynnwys cyfeirnod penodol i reoli tir a gweithio tu hwnt i eiddo'r Awdurdod Derbyniwyd yr adroddiad terfynol gan Small World Consultancy. Grŵp Tasg a Gorffen Cyfrif Carbon i ystyried y camau strategol a nodwyd. Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Eithriadol Cymru i ystyried datganiad ar y cyd ar fynd i'r afael â'r heriau cyffredin a nodwyd.	Rhagfyr 2022	Prif Weithredwr (PW)
	Ch. 3+4	Cyfarfu Grŵp Tasg a Gorffen Llwybr Carbon i drafod yr adroddiad a lluniwyd fersiwn gryno gan swyddogion. Mae'r crynodeb wedi'i drafod a'i gytuno gan y Grŵp Tasg a Gorffen. Mae Gweinidog Llywodraeth Cymru wedi gofyn i adroddiad canlyniadau gael ei gomisiynu fel dogfen strategol ar draws yr 8 Tirwedd Dynodedig er mwyn cael yr effaith fwyaf posibl.		










 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


Tud. 8



AC 2.5 		Cefnogi partneriaeth strategol gyda Llywodraeth Cymru, Awdurdodau Parciau Cenedlaethol Bannau Brycheiniog ac Arfordir Penfro ar Adfer Natur ac Atafaeliad Carbon yn Nhirweddau Dynodedig Cymru a cynnal swydd arweinydd strategol	Parhaus	PW
	Ch. 1+2	Swyddog wedi'i benodi, gan ddechrau yn ei swydd fis Hydref.		
	Ch. 3+4	Mae'r Swyddog Arweiniol Strategol yn ei swydd ac yn arwain ar Adfer Natur a Dal Carbon. Bydd ei gwaith yn canolbwyntio ar yr holl gynefinoedd a choetir sydd heb eu gwella a'r fioamrywiaeth sydd ynddynt gan gynnwys ymledwyr, a chyfleoedd i leihau carbon.		
Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:		AC 3	GWELLA RHEOLAETH A DEALLTWRIAETH O'N TREFTADAETH DDIWYLLIANNOL	

Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 3.1 	 Diweddariad Ch. 1+2 	Datblygu a mabwysiadu Strategaeth Treftadaeth Ddiwylliannol APCE	Hydref 2022	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol
	Ch. 3 	Cynhaliwyd dau weithdy gyda staff y gwasanaeth. Mae gwaith ymchwil desg cychwynnol ac ymgynghori â phartneriaid allweddol yn parhau. Ymgynghori â phartneriaid allweddol yn parhau ac mae datblygiad yn mynd rhagddo		
	Ch. 4	Drafft cyntaf wedi'i gwblhau. Adroddiad i'w gyflwyno i'r Tîm Rheoli yn Haf 2023 a Gweithgor Aelodau yn Hydref 2023.		
AC 3.2 		Sicrhau fod Rhaglen Waith Cynllun Partneriaeth Tirwedd y Carneddau ar gyfer 2021/22 wedi'i chwblhau mewn pryd i sicrhau bod y Prosiect yn parhau i fod ar y trywydd iawn i'w gwblhau erbyn 2025	Erbyn diwedd y Cynllun	Rheolwr Prosiect y Carneddau

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

	Diweddariad Ch. 1+2	Mae Covid wedi cael effaith ar yr amserlen ar gyfer cwblhau ac mae ail-broffilio rheolaidd yn digwydd er mwyn rheoli risgiau i'r amserlen. Mae estyniad amser wedi'i ganiatáu ac mae trafodaethau'n parhau gyda chyllidwyr ynghylch sicrhau estyniad pellach i'r amser oherwydd effaith barhaus y pandemig. Serch hynny, mae cynnydd da yn cael ei wneud ac mae gweithgarwch wedi cynyddu ers Gwanwyn 2022 wrth i arferion gwaith ddychwelyd i'w cyflwr cyn-bandemig.		
	Ch. 3+4	Mae prosiectau'n mynd rhagddynt yn dda, yn unol â'r amserlen ddiwygiedig. Mae nifer fach o brosiectau yn profi oedi ac mae trafodaethau'n cael eu cynnal gyda phartneriaid allweddol ac arweinwyr prosiectau i ddatrys problemau sy'n achosi oedi.		
AC 3.3	 Diweddariad Ch. 1+2	Adolygu cynnydd wrth gyflawni Cynllun Treftadaeth Treflun Dolgellau yn barod ar gyfer cwblhau'r cynllun erbyn mis Rhagfyr 2023	Erbyn diwedd y Cynllun	Rheolwr Prosiect TT Dolgellau
	Ch. 3+4	Mae'r Cynllun wedi cael estyniad o 12 mis tan 31 Rhagfyr 2023, oherwydd effaith pandemig Covid 19 ar y Cynllun. Mae costau uwch (deunyddiau a chwyddiant) yn gosod her i brosiectau o fewn y Cynllun. Mae cynnydd da yn cael ei wneud mewn manau eraill ac mae'r rhan fwyaf o brosiectau'r Cynllun bellach wedi'u cwblhau. Mae cyfathrebu rheolaidd yn digwydd gyda chyllidwyr ac mae'r prosiect ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau erbyn Rhagfyr 2023.		
	Ch. 3+4	Mae gwaith ar adeilad blaenoriaeth uchel Wilkins wedi dechrau ac yn mynd rhagddo'n dda a chafwyd adborth cadarnhaol gan y gymuned hyd yma. Mae'r Rheolwr Prosiect yn gweithio gyda pherchnogion adeiladau amlwg eraill i ystyried dichonoldeb ariannu prosiectau eraill ar raddfa lai cyn i'r cynllun ddod i ben.		
AC 3.4	 Diweddariad Ch.1+2	Datblygu prosiect Treftadaeth Ddiwylliannol Harlech ac Ardudwy a fydd yn galluogi'r Awdurdod i wneud cais am arian allanol maes o law	Mawrth 2023	Swyddog Prosiect Tref. Ddiwylliannol
	Ch. 3+4	Mae'r prosiect ar y trywydd iawn i gael ei gwblhau erbyn hydref 2022. Rhagwelir y bydd ceisiadau am gyllid yn cael eu cyflwyno yng Ngwanwyn 2023.		
	Ch. 3+4	Mae bylchau wedi'u nodi mewn ymgysylltu â'r gymuned, sy'n hanfodol cyn cyflwyno ceisiadau am gyllid. Mae prosiect celf treftadaeth yr ysgol gydag Ysgol Dyffryn Ardudwy wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno'n llwyddiannus mewn cydweithrediad ag artistiaid gweledol, ffilm a pherfformio, bardd a swyddogion gwasanaeth Treftadaeth Ddiwylliannol. Mae ymgynghori cymunedol yn parhau. Mae'r amserlen ar gyfer cyflwyno ceisiadau am arian wedi'i gohirio ond rhagwelir y bydd yn digwydd yn 2023/24.		














Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen





Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023






Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


AC 3.5 	 Diweddariad Ch. 1+2	Cyfrannu'n weithredol at raglen waith Cynllun Gweithredu Safle Treftadaeth y Byd Tirweddau Llechi Gogledd Orllewin Cymru Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda phartneriaid o wahanol rannau o'r Cynllun Gweithredu, gan gynnwys dehongli, cadwraeth, cynllunio a'r grŵp llywio. Mae dehongliad o Ynysypanyd a Phlas Tan y Bwlch ar y gweill a gofynnir am gyngor cynllunio cyn cyflwyno cais.	Mawrth 2023	Archeolegydd
Ch. 3+4		Deunydd dehongli yn cael ei ddrafftio a bydd yn cael ei osod yng ngwanwyn 2023.		
Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 3.6 	 Diweddariad Ch. 1+2	Wardeiniaid i arwain teithiau cerdded misol gydag arbenigwr gwadd i hyrwyddo natur, diwylliant a threftadaeth Mae pob un o lwybrau yr awdurdod a hyrwyddir ar-lein erbyn hyn. Mae taith gerdded y mis wedi aildechrau ar y wefan newydd mae cynllunio ar gyfer y teithiau tywys wedi dechrau.	Mawrth 2022 Parhaus	Pen. Gwas. WaM
Ch. 3+4		Teithiau tywys yn cael eu harwain gan wardeiniaid wedi eu trefnu gyda nifer dda o'r cyhoedd yn cymryd rhan. Byddwn yn datblygu'r teithiau i gydweithio gyda adrannau eraill ac arbenigwyr allanol yn 2023-24.		
AC 3.7 	 Diweddariad Ch. 1- 4	Cyfrannu'n weithredol at raglen waith barhaus y Grŵp Amgylchedd Hanesyddol (GAH) dan arweiniad Cadw a'i weithgorau cysylltiedig, gan gynnwys Llesiant, Lliniaru Newid Hinsawdd, mawndiroedd a Threftadaeth Leol Mae swyddogion yn parhau i weithio gyda phartneriaid ar bob elfen o'r GAH.	Parhaus	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol
AC 3.8 	 Diweddariad Ch. 1+2	Cynnal a datblygu Yr Ysgwrn fel amgueddfa a chanolfan ddiwylliannol o fri cenedlaethol gan gynnwys cyflwyno'r prosiect arddangosfa 'Geiriau Diflanedig' ar y safle yn 2022-23 yn y byd ôl-cofid Mae cyllid Haf o Hwyl a ddarperir gan Lywodraeth Cymru wedi'i sicrhau er mwyn ariannu rhaglen lawn o weithgareddau i'r teulu ar gyfer Gorffennaf-Medi, 2022. Bydd prosiect Geiriau Diflanedig yn cael ei gyflwyno yn ystod Haf 2023. Mae swyddogion ar hyn o bryd yn gweithio gyda chydweithwyr yn Amgueddfa Genedlaethol Cymru ac Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro i gyflawni'r prosiect. Mae cyllid Haf o Hwyl a ddarperir gan Lywodraeth Cymru wedi'i sicrhau er mwyn ariannu rhaglen lawn o weithgareddau i'r teulu ar gyfer Gorffennaf-Medi, 2022.	Medi 2023	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023







	Ch. 3+4	Mae Geiriau Diflanedig yn dod yn ei flaen yn dda. Mae cydweithwyr Amgueddfa Cymru wedi ymweld i asesu addasrwydd ar gyfer arddangos gwrthrychau o'u casgliad. Mae'r rhaglen weithgareddau a digwyddiadau yn cael ei datblygu. Arian Artfund wedi'i sicrhau ar gyfer preswylid celf ysgol, gweithdy barddoniaeth ac adnodd addysg i gyd-fynd â'r arddangosfa. Lansio tudalen we a chyhoeddi datganiad i'r wasg. Bwriedir agor Geiriau Diflanedig ym mis Mehefin 2023.		
Rhif	Statws Cynnydd Chwarter	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 3.9 	 Diweddariad Ch. 1+2	Datblygu Cynllun Gwerthuso Ardaloedd Cadwraeth a Chynllun Rheoli/Cynllun Cyflenwi fel llinell sylfaen o wybodaeth ar gyfer datblygu prosiectau cyfalaf posibl yn y blynyddoedd dilynol Mae drafftiau o'r ddogfennaeth wedi eu cwblhau. Cynhelir ymgynghoriad cyhoeddus yn ystod hydref 2022. Ym mis Mehefin 2022 cyflwynwyd yr Ardaloedd Cadwraeth sy'n addas ar gyfer Prosiect yr Unfed Ganrif ar Hugain i'r Aelodau yn ystod Gweithgor Aelodau i'w trafod ynghylch cynnydd y prosiect. Mewn Pwyllgor Cynllunio a Mynediad dilynol a gynhaliwyd ym mis Medi 2022, cymeradwyodd yr Aelodau'r dogfennau i fod yn destun Ymgynghoriad Cyhoeddus 6 wythnos.	Mawrth 2023	Pen. Treftadaeth Ddiwylliannol Swyddog Cynllunio yr Amg. Hanesyddol
	Ch. 3+4	Roedd y dogfennau Gwerthusiadau Ardal Gadwraeth a Chynllun Rheoli unigol yn destun ymgynghoriad cyhoeddus rhwng 30 Hydref a 11 Tachwedd 2022. Derbyniwyd nifer o sylwadau gan nifer o ymatebwyr. Y bwriad yw gwirio'r newidiadau gyda'r Cynghorau Cymuned perthnasol cyn cyflwyno'r dogfennau i'r Aelodau i'w mabwysiadu'n derfynol o fewn y Pwyllgor Cynllunio a Mynediad. Gwaith arall sydd wedi digwydd o ganlyniad i'r gwaith hwn yn ystod Gwanwyn 2023 yw pedwar digwyddiad galw i mewn ar draws y Parc Cenedlaethol gydag arbenigwyr ym maes Cadwraeth Adeiladau yn hyrwyddo'r prosiect ac yn hyrwyddo gwybodaeth am wahanol ddulliau addas a chynaliadwy o wella effeithlonrwydd ynni. adeiladau traddodiadol o fewn Ardaloedd Cadwraeth. Yn ogystal, roedd cynllun grant ar gael i gynorthwyo gyda gwelliannau effeithlonrwydd ynni a / neu uwchraddio thermol eiddo cyhoeddus, cymunedol a masnachol o fewn Ardaloedd Cadwraeth dynodedig y Parc Cenedlaethol, megis Eglwysi / Capeli, Neuaddau Cymunedol, Llyfrgelloedd, Tafarndai Cymunedol, a Siopau Pentref. Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno tendrau oedd 3 Mawrth 2023 a phenderfynwyd ar y cais llwyddiannus.		

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	AC 4	MYND I'R AFAEL Â HERIAU A CHYFLEOEDD SENARIOS RHEOLI TIR AR ÔL BREXIT
--	------	--

Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 4.1 	 Diweddariad Ch. 1+2	Cynorthwyo i ddatblygu a dylunio cynigion rheoli tir yn y dyfodol gyda Llywodraeth Cymru a Chyfoeth Naturiol Cymru, i sicrhau bod Eryri yn elwa o gynigion yn y dyfodol a bod nodau strategol Cynllun Eryri yn cael eu hadlewyrchu yng nghynigion y dyfodol Mae ymgysylltu ar y gweill cymaint ag y mae LIC yn ei ganiatáu, proses gyd-gynllunio braidd yn gyfyngedig.	Parhaus	Pen. CCA, PW Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir
	Ch. 3+4	Fel yr uchod. Mae Tirweddau Dynodedig wedi cysylltu â LIC i hyrwyddo trafodaethau pellach a chynnig cymorth i ddatblygu a dylunio cynigion rheoli tir.		
AC 4.2	 Diweddariad Chr. 1+2	Cynnal perthynas waith agos gyda'r sector tir i sicrhau bod gan yr Awdurdod ddealltwriaeth o oblygiadau parhaus Brexit ar reoli tir Cynhelir perthynas waith agos, barhaus.	Mawrth 2023 + Parhaus	Pen. CCA *
	Ch. 3+4	Mae'r ffocws bellach wedi symud ymlaen o Brexit i'r pecynnau cymorth amaethyddol newydd. Mae'r gwaith yn parhau		

*Pennaeth Cadwraeth, Coed ac Amaeth (CCA)








 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


Tud. 13











Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	AC 5	MYND I'R AFAEL Â'R DIRYWIAD MEWN NATUR
--	------	---


Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 5.1 	 Ch. 1+ 2	Datblygu cynllun gweithredu yn seiliedig ar ddealltwriaeth a chynnwys e.e. SoNaRR (a droddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol), Adroddiad Cyflwr y Parc Cenedlaethol ayb. i hysbysu'r blaenoriaethau ar gyfer adfer natur yn Eryri Mae colli swyddog allweddol wedi gohirio'r cynnydd, mae mecanweithiau cyflawni amgen yn cael eu hystyried ac yn aros am gadarnhad o gyllid parhaus gan Lywodraeth Cymru am y tair blynedd nesaf	Mawrth 2023	Pen. CCA
	Ch. 3	Parhau i aros am gadarnhad o gyllid gan LIC i benderfynu os y gallir recriwtio. Edrych hefyd i gontractio allan gwaith Cynllun Adfer Natur. Mae swydd strategol LIC bellach yn ei lle i gyflawni strategaeth ar adfer natur a dal a storio carbon		
	Ch. 4	Mae cyllid wedi'i gadarnhau gan LIC ar waith bioamrywiaeth am gyfnod o ddwy flynedd, mae recriwtio wedi'i wneud a phenodiad wedi'i wneud gyda swyddog yn dod i'w swydd ym mis Gorffennaf 2023. Gobeithio y bydd datblygu'r capasiti hwn yn caniatáu i gynnydd gael ei wneud		
AC 5.2 	 Adroddiad blynyddol	Parhau i ddarparu gwelliant bioamrywiaeth trwy'r broses rheoli datblygu a sicrhau cydymffurfiaid ag unrhyw ganllawiau sydd ar ddod a gyhoeddir gan Lywodraeth Cymru Mae gwella bioamrywiaeth drwy'r broses rheoli datblygu yn parhau i gael ei gyflawni. Dal i aros am ganllawiau cyhoeddedig Llywodraeth Cymru a newidiadau posibl i Bolisi Cynllunio Cymru sy'n ymwneud â budd net i fioamrywiaeth a chadernid ecosystemau sy'n destun ymgynghoriad ar hyn o bryd.	Adroddiad Blynyddol	Rheolwr Cynllunio


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
AC 5.3 	 Ch.1 - 4 	Unwaith bydd canllawiau wedi'u cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru, sicrhau bod CCA ar fioamrywiaeth yn cael ei gynhyrchu erbyn 2023 i gefnogi'r broses Rheoli Datblygu Bydd hyn yn cael ei ddatblygu unwaith y bydd canllawiau Llywodraeth Cymru ar wella bioamrywiaeth wedi'i gyhoeddi.	Mawrth 2023 Parhaus	Rheolwr Cynllunio
AC 5.4 	 Diweddariad Ch. 1+2	Parhau i ddarparu prosiectau cymeradwy sy'n mynd i'r afael â nodau Safle Eryri (e.e. HLF Carneddau, LIFE (Coedwig Law Geltaidd, Cyforgorsydd, Corsydd Crynedig, prosiect y Gylfinir) SMS Dinas Mawddwy, Rhaglen Genedlaethol Mawn, ENRAW, prosiectau Awyr Dywyll) a datblygu rhaglenni pellach Mae'r Bartneriaeth Parciau Cenedlaethol yn disgwyl cyllid prosiect ychwanegol wedi'i sicrhau drwy raglen 3 Lleoedd Cynaliadwy Tirweddau Cynaliadwy Llywodraeth Cymru, Prosiectau'r Grid Cenedlaethol a Rheoli Llifogydd Naturiol.	Dau adroddiad y flwyddyn yn diweddaru ar brosiectau unigol	Pen CCA Rheolwyr Prosiectau
	Ch. 3+4	Mae prosiectau'r Grid Cenedlaethol wedi'u rhyddhau i ddechrau o'r diwedd. Mae prosiect Partneriaeth y Parciau Cenedlaethol wedi dechrau ym mis Ionawr. Mae'r holl brosiectau eraill yn rhedeg ac ar darged. Cyflwynwyd adroddiad diweddaru chwe misol ar yr holl brosiectau i Bwyllgor Perfformiad ac Adnoddau ym mis Tachwedd.		
AC 5.5 	 Diweddariad Ch. 1+2	Symud ymlaen ag arolwg ledled y Parc Cenedlaethol o safleoedd Coed a Choetiroedd Hynafol (PAWS) Gwaith yn mynd rhagddo a chyllid wedi'i sicrhau ar gyfer 3 blynedd arall o arolygu ac adfer	Mawrth 2023	Pen CCA
	Ch. 3+4	Mae'r gwaith yn mynd rhagddo ac arian blwyddyn 1 i gyd wedi'i ymrywmo.		

 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen

 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

CANLYNIADAU:

AMGYLCHEDDAU CYDNERTH: Byddwn yn gwybod ein bod yn llwyddo i gyflawni'r amcan llesiant pan:

AC1: Fyddwn wedi datblygu a gweithredu egwyddorion a throthwyon arweiniol mewn perthynas ag effeithiau ymwelwyr ar yr amgylchedd a'r dirwedd (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.1*)

AC1: Rydym wedi sicrhau bod llwybrau'r ucheldir yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda i reoli effeithiau erydiad a blaenoriaethu gwaith yn seiliedig ar nifer y defnyddwyr llwybrau troed (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.2*)

AC1, 2: Rydym wedi lleihau effeithiau parcio a thrafnidiaeth ar yr amgylchedd a'r dirwedd (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.4*)

AC1: Rydym wedi lleihau unrhyw effeithiau negyddol gweithgareddau hamdden (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A1.5*)

AC1: Gan ddefnyddio'r strategaeth marchnata brand fel sylfaen, byddwn wedi datblygu cynllun a rennir gyda phartneriaid ar y wybodaeth a ddarparwn i ymwelwyr, gyda phwyslais ar y Rhinweddau Arbennig a newid ymddygiad (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri B3.3*)

AC2, 4: Mae allyriadau carbon Parc Cenedlaethol Eryri yn cael eu lleihau (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.1*)

AC2, 4: Rydym wedi diogelu a chynyddu faint o garbon sy'n cael ei storio yn Eryri (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A3.2*)

AC3, 4, 5: Rydym wedi cydlynu a gweithredu cynllun nwyddau cyhoeddus uchelgeisiol sy'n canolbwyntio ar gynnal, adfer ac ehangu cynefinoedd, rhywogaethau, nodweddion amgylcheddol hanesyddol a nwyddau cyhoeddus ehangach (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.1*)

AC5: Mae dirywiad bioamrywiaeth yn cael sylw trwy weithgareddau cynnal a chadw, adfer, ehangu a chysylltedd (*yn unol ag Allbwn Cynllun Eryri A2.2*)

AC2, 4, 5: Rydym wedi parhau i ehangu gweithredoedd cyfredol y Bartneriaeth i reoli a lleihau maint y rhywogaethau goresgynnol (*yn unol â Chynllun Eryri A4.2*)

AC3: Rydym wedi cefnogi atgyweirio ac adfer adeiladau rhestredig, wedi cefnogi diogelu Henebion Rhestredig ac wedi datblygu a gweithredu prosiectau ar raddfa tirwedd sydd o fudd i'r amgylchedd hanesyddol. (*yn unol â Chynllun Eryri A6.1. A6.2. A6.3*).



Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen



Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023



Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

2. CYMUNEDAU CYDNERTH

Cyflawni'r yr allbwn hwn fel a ganlyn:	CC 1	CYNNAL A GWELLA ANSAWDD BYWYD PRESWYLWYR
--	-------------	---






Rhif	Statws Cynnydd Chwarter	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 1.1	 Diweddariad Ch. 1+2	<p style="color: red;">Datblygu adnodd ar-lein fel rhan o'r wefan newydd sy'n ymwneud â gweithgareddau a llwybrau yn y Parc Cenedlaethol wedi'i dargedu a'i deilwra'n briodol</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Mae holl lwybrau yr Awdurdod a hyrwyddir ar y wefan newydd. Y cam nesaf yw codi ymwybyddiaeth o'r "adnodd" i bartneriaid a'r Bwrdd Iechyd ➤ Adnoddau a fideos ychwanegol yn cael eu datblygu ar gyfer defnyddwyr anabl <p style="text-align: right;">GWAITH WEDI'I GWBLHAU a gellir ei archwilio ar y wefan</p>	I ddechrau unwaith bydd y safle We wedi ei lansio	Pen. Ymgysylltu, Pen. Gwas. Wardeinio + Rheolwr Brand a Cynnwys y We
CC 1.2	 Diweddariad Ch. 1+2	<p style="color: red;">Fel rhan o'r Strategaeth Gwirfoddolwyr APCE ac mewn cydweithrediad â phartneriaid, parhau i ehangu cyfleoedd gwirfoddoli o fewn y Parc Cenedlaethol sy'n cynnwys gweithgareddau corfforol a diwylliannol</p> <p>Swm sylweddol o gyfleoedd newydd a pharhaus yn cael eu datblygu/cefnogi gan Swyddog Gwirfoddoli a Llesiant gan gynnwys:</p> <ul style="list-style-type: none"> ➤ Caru Eryri – cynllun gwirfoddol partneriaeth gyda Chymdeithas Eryri, yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol a Phartneriaeth Awyr Agored. Clirio 2 dunnell o sbwriel o'r llwybrau a'r meysydd parcio prysuraf dros dymor 2021/2022. Eleni cyfrannodd 113 o wirfoddolwyr 2304 o oriau gwirfoddol, a threuliyd 121 diwrnod yn gofalu am Eryri. ➤ Wardeniaid Gwirfoddolwyr Yr Wyddfa. Cwblhaodd 36 o Wardeniaid Gwirfoddol yr Wyddfa a 10 warden Gwirfoddol Cader Idris 1602 o oriau gwirfoddol yn 2022. Casglwyd tua 250 o fagiau o sbwriel. ➤ Gwirfoddoli Partneriaeth Tirwedd Carneddau gan gynnwys clirio eithin a chloddio bwyell neolithig 359 o wirfoddolwyr gan gynnwys grwpiau ysgol, 1654 o oriau gwirfoddol. 	Parhaus	Pen. Ymgysylltu + Swyddog Gwirfoddoli a Lles


Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


		<ul style="list-style-type: none"> ➤ Digwyddiadau gwirfoddoli gyda grwpiau ieuencid lleol, grwpiau ffoaduriaid, grwpiau corfforaethol a grwpiau Dug Caeredin. Ymhlith y gweithgareddau mae rheoli rhywogaethau ymledol a rheoli coetir, gwaith adfer mawndir yn Ninas Mawddwy, a llawer o ddiwrnodau plannu coed a gwrychoedd o fis Tachwedd hyd at fis Ebrill. ➤ Gwerth amcangyfrifedig gwirfoddoli i'r Awdurdod hyd yma yn 2022 yw £52,800 (cyfrif gwerth economaidd gwirfoddolwyr gan ddefnyddio cyflog byw y DU o £9.50).
	Ch. 3-4	Bydd adroddiad blynyddol yn cael ei gyflwyno i'r Aelodau yn fuan yn amlinellu cynnydd dros y flwyddyn olaf.


Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
CC 1.3 	 Diweddariad Ch. 1+2	Datblygu cyfleoedd gwirfoddoli i gymunedau heb gynrychiolaeth ddigonol, rhai agored i niwed a grwpiau difreintiedig Prosiect newydd yn dechrau ym mis Tachwedd 2022 yn gweithio gyda "Pobl i Bobl" i ddod â gwesteion o Syria, Afghanistan ac Wcrain i mewn i'r Parc Cenedlaethol ar gyfer teithiau cerdded tywys a gweithgareddau cadwraeth hwyliog.	Parhaus	Pen. Ymgysylltu + Swyddog Gwirfoddoli a Lles
	Ch. 3+4	Canlyniadau ystadegau gwirfoddoli 2022: (darparu cyfleoedd gwirfoddoli) <ul style="list-style-type: none"> ➤ Plant (grwpiau ysgol): 132 ➤ Pobl ifanc (14-24): 87 ➤ 25-50: 74 ➤ 50+: 115 		


 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023





 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023

CC 1.4	 Adroddiad blynyddol	<p>Sicrhau bod cynllunio yn cymryd rôl ragweithiol wrth annog tai fforddiadwy trwy weithio gydag asiantaethau eraill yn y sector hwn, er mwyn ceisio cyflawni'r targed blynyddol a nodir yn y CDLI</p> <p>Trafodaethau rheolaidd gyda'r ddau Awdurdod Tai a Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i sicrhau bod tai fforddiadwy'n cael eu darparu lle bo angen.</p> <p>Mae trafodaethau'n parhau gyda phartneriaid i ariannu swydd Swyddog Tai a Arweinir gan y Gymuned newydd.</p> <p>Gweithio'n agos gyda'r Hwyluswyr Tai Gwledig i nodi a chyflwyno safleoedd tai fforddiadwy. Mae swyddogion wedi mynychu sawl cyfarfod gyda phartneriaid eraill a chynrychiolwyr cymunedol i drafod polisiau tai fforddiadwy a'r gallu i'w cyflawni.</p> <p>Ymchwil yn cael ei wneud i asesu effaith prisiau tai cynyddol ac ail gartrefi/llety gwyliau. Bydd ymchwil yn llywio'r defnydd o gyfeiriad Erthygl 4 a llunio polisi ar gyfer adolygiad nesaf CDLIE.</p> <p>Mae'r Gwasanaeth Cynllunio yn bartneriaid i Beilot Dwyfor, sy'n cwmpasu rhan o Ardal y Parc Cenedlaethol. Mae Llywodraeth Cymru wedi sefydlu cynllun peilot yn ardal Dwyfor i dreialu a monitro mentrau newydd i fynd i'r afael â mater ail gartrefi a fforddiadwyedd.</p> <p>Mynychu cyfarfodydd strategol a gweithredol Tai Teg. Mae APC Eryri yn defnyddio data Tai Teg yn ôl yr angen wrth ystyried ceisiadau cynllunio/hunan-adeiladu ac ati.</p> <p>Lansiodd Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy gynllun prynwyr tro cyntaf i ddod ag eiddo gwag hirdymor yn ôl i ddefnydd. Defnyddiodd y fenter hon arian 106 APC Eryri.</p>	Adroddiad blynyddol	Rheolwr Cynllunio
--------	---	--	------------------------	-------------------




 Yn mynd rhagddo ac o fewn yr amserlen


 Gohiriwyd ac/neu bydd yn cael ei weithredu yn y chwarter nesaf ar gyfer ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


 Dim cynnydd ac/neu ni fydd wedi ei gwblhau erbyn Mawrth 2023


Rhif	Statws Cynnydd Chwarter   	Disgrifiad o'r Prosiect / Fenter gan gynnwys gweithgareddau penodol (Cyfeiriwch hefyd i'r canlyniadau ar ddiwedd Rhan 1.)	Amserlen	Swyddog(ion) cyfrifol
- 1.2. O'r 7 cwyn a dderbyniwyd, roedd 4 yn ymwneud â'r gwasanaeth cynllunio, derbyniwyd 2 gŵyn am staff, a chafwyd 1 gŵyn am bolisi'r Ysgwrn o ganiatáu cwn tywys yn unig ar y safle.
- 1.3. Ymchwiliwyd i bob cwyn yn drylwyr; ac mae'n dda nodi bod bob un cwyn wedi derbyn ymateb o fewn y cyfnod targed o 15 diwrnod gwaith.
- 1.4. O'r cwynion a ymchwiliwyd, cafodd 3 eu cadarnhau neu eu cadarnhau'n rhannol. Cyfeiriwyd un gŵyn na chadarnhawyd yn ddiweddarach at yr Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus a wrthododd ymchwilio ymhellach.
- 1.5. Yn yr achosion hynny pan na lwyddodd gwasanaeth yr Awdurdod i gyrraedd y safon ddisgwyliedig, 'rydym wedi ymddiheuro'n brydlon a chymryd camau i fynd i'r afael â'r problemau ar unwaith.

2.0 ARGYMHELLIAD

2.1 Bod y Pwyllgor yn nodi cynnwys yr adroddiad

Crynodeb o'r Cwynion a Gadarnhawyd neu a Gadarnhawyd yn rhannolSTAFF YR AWDURDOD**Derbyniwyd cwyn am aelod o staff yn goryrru drwy'r parth 30 mya yn Nant Peris. (Awst 2022)**

Cyflwynodd un o drigolion Nant Peris gŵyn am aelod o staff a welwyd yn gyrru'n beryglus drwy oryrru drwy'r parth 30 mya yn Nant Peris.

Dechreuwyd ymchwiliad disgyblu i'r digwyddiad.

Rhodddwyd llythyr o ymddiheuriad i'r achwynydd.

CYNLLUNIO**Derbyniwyd cwyn ynghylch cyfathrebu gwael, cyngor anghyson ac oedi annerbyniol ynghylch y gwasanaeth cynllunio (Ionawr 2023)**

Derbyniwyd cwyn gan berchennog adeilad rhestredig yn Nolgellau. Dywedodd yr achwynydd ei fod wedi cysylltu â'r Awdurdod ym mis Hydref 2021 am gyngor a chafodd wybod y gellid gwneud atgyweiriadau i'r to gan ddefnyddio llechi Cymreig ac y gellid gwneud y gwaith atgyweirio mewnol ar sail 'tebyg am debyg'.

Ym mis Ionawr 2022, derbyniwyd pryder gan aelod o'r cyhoedd ynglŷn â'r gwaith oedd yn cael ei wneud ar yr eiddo. Canfuwyd bod y perchennog wedi gosod to newydd ar yr eiddo ac wedi gwneud gwaith adnewyddu helaeth y tu mewn gan dynnu nodweddion traddodiadol yn eu cyfanrwydd a gosod rhai modern cyfatebol yn eu lle. Dywedodd y perchennog ei fod wedi profi cyfathrebu gwael, cyngor anghyson ac oedi annerbyniol dros y 10 mis dilynol yn ystod yr ymchwiliad cydymffurfio.

Roedd rôl Swyddog Cynllunio'r Amgylchedd Hanesyddol wedi bod yn wag rhwng Medi 2021 a Hydref 2022 a oedd wedi achosi llwyth gwaith ychwanegol i swyddogion eraill. Bu'n rhaid i'r Swyddog Cydymffurfiaeth sy'n delio â'r achos hwn ofyn am gyngor gan ymgynghorydd cadwraeth allanol gan fod math a maint y gwaith a wnaed i'r eiddo yn golygu ei fod yn achos cymhleth a difrifol a oedd angen ystyriaeth ofalus.

Ni chadarnhaodd ymchwiliad yr Awdurdod honiad yr achwynydd ei fod wedi derbyn cyngor anghyson. Fodd bynnag, canfu'r ymchwiliad y bu oedi sylweddol yn yr ymchwiliad cydymffurfio rhwng Ebrill a Hydref 2022, ac nad oedd yr achwynydd wedi gallu cysylltu â Swyddogion dros y ffôn ac nad oedd wedi derbyn ymateb i negeseuon a adawyd dros gyfnod o 5 wythnos ym mis Ebrill ac ym mis Mai 2022. Mae hyn ymhell islaw'r safon ddisgwyliedig ar gyfer y gwasanaeth, ac ymddiheurwyd am hynny.

CYNLLUNIO

Cwyn am ddiffyg ymateb i ohebiaeth a diffyg gweithredu gan Swyddogion wrth leoli perchennog eiddo Plas Rhiwaedog, Y Bala (Mawrth 2023)

Roedd yr achwynydd wedi bod yn gohebu o bryd i'w gilydd gyda'r Awdurdod am nifer o flynyddoedd yn mynegi pryder ynghylch cyflwr dirywiol Plas Rhiwaedog. Fodd bynnag, ar ôl ymddeoliad Pennaeth Treftadaeth Ddiwylliannol yn 2019 a hyd at fis Mawrth 2022, ni dderbyniodd yr achwynydd ymateb i unrhyw un o'i ohebiaeth. Er efallai nad oedd unrhyw gynnydd i adrodd yn ei gylch, nid oes esgus dros beidio ag ateb gohebiaeth o fewn amserlen resymol, ac ymddiheurwyd am hyn.

Y tu allan i hyn, prif ffocws y gŵyn oedd y diffyg gweithredu gan swyddogion wrth ddod o hyd i berchennog yr eiddo; a thrwy beidio â gwneud hyn, nid oedd modd rhoi pwysau parhaus ar y perchennog i wneud gwaith atgyweirio a chynnal a chadw'r eiddo.

Canfu'r ymchwiliad fod y Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir wedi gohebu â'r achwynydd sawl gwaith ac wedi egluro'n helaeth yr opsiynau cyfyngedig sydd ar gael i'r Awdurdod i geisio datrys materion, yr anawsterau ymarferol a'r adnoddau sydd eu hangen ar gyfer pob un o'r opsiynau hynny, a pham nad ydynt wedi cael eu dilyn.

Er gwaethaf yr uchod, cydnabuwyd pwysigrwydd hanesyddol Plas Rhiwaedog yn Eryri, a'i statws fel Adeilad Rhestredig Gradd II sydd ar y Gofrestr 'Mewn Perygl'. Ar adeg ymateb i'r gŵyn roedd Plas Rhiwaedog wedi'i werthu mewn arwerthiant, gan roi gobaith o'r newydd y bydd swyddogion yn gallu dechrau deialog cadarnhaol gyda'r perchennog a chanfod be' ydi eu cynlluniau ar gyfer yr adeilad. Rhoddwyd ymrwymiad felly i'r achwynydd y bydd swyddogion yn awr yn monitro'r sefyllfa a chyn gynted ag y bydd manylion perchnogaeth y Gofrestrfa Tir yn cael eu diweddarau, fe gysylltir â'r perchennog.

EITEM RHIF 13

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	12 Gorffennaf 2023
TEITL	DATGANIAD POLISI TÂL 2023/24 AC ADRODDIAD BLYNYDDOL POLISI TÂL AR GYFER 2022/23
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Adnoddau Dynol
PWRPAS	Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2023/24 a derbyn yr Adroddiad Polisi Tâl ar gyfer 2022/23

1.0 CEFNDIR

- 1.1 Roedd Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn gosod gofyniad ar Awdurdodau Lleol i baratoi datganiadau polisi tâl. Er bod Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn, ystyriwyd ei bod yn arfer da mabwysiadu datganiad o'r fath.
- 1.2 Mae datganiad ysgrifenedig wedi'i gyhoeddi gan Lywodraeth Cymru o'r enw 'Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Swyddogion yn y Sector Gyhoeddus Ddatganoledig yng Nghymru'.
- 1.3 Mae Datganiad Polisi Tâl yr Awdurdod ar gyfer 20 23/24 i'w weld yn Atodiad 1.
- 1.4 Mae Atodiad 2 yn dangos cyflogau'r Prif Swyddogion. Cytunwyd yn ddiweddar ar y Dyfarniad Cyflog ar gyfer 2022/23.
- 1.5 Mae Atodiad 3 yn dangos cyflogau'r holl staff eraill. Mae'r Dyfarniad Cyflog ar gyfer 2022/23 hefyd wedi'i gytuno'n ddiweddar.
- 1.6 Atodiad 4 yw'r Adroddiad Blynyddol sy'n ofynnol yn unol â'r nodiadau canllaw y cyfeirir atynt yn y datganiad ysgrifenedig ym mharagraff 1.2 uchod.

2.0 ARGYMHELLIAD

- 2.1 Cymeradwyo'r Datganiad Polisi Tâl ar gyfer 2023/24.
- 2.2 Cymeradwyo Adroddiad Blynyddol y Polisi Tâl ar gyfer 2022/23.

Awdurdod Parc Cenedlaethol Eryri

Datganiad Polisi Tâl 2023/24

1. Rhagymadrodd

Roedd Adran 38(1) o Ddeddf Lleoliaeth 2011 yn gosod gofyniad ar Awdurdodau Lleol i baratoi datganiadau polisi tâl. Mae Awdurdodau Parciau Cenedlaethol wedi'u heithrio o'r gofyniad hwn.

Rhaid i'r datganiadau hyn fynegi polisiâu'r Awdurdod ei hun tuag at amrywiaeth o faterion sy'n ymwneud â chyflogau ei weithlu, yn enwedig ei uwch staff neu ('brif swyddogion') a'i weithwyr ar y cyflogau isaf. Rhaid paratoi datganiadau polisi tâl ar gyfer pob blwyddyn ariannol (cychwynnodd hyn yn 2012/13). Rhaid iddynt gael eu cymeradwyo gan y Cyngor (a'u cyhoeddi ar y wefan berthnasol).

Dilynwyd hyn gan Ddatganiad Ysgrifenedig a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru ar 7 Rhagfyr 2015 ar 'Dryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Swyddogion yn y Sector Gyhoeddus Ddatganoledig yng Nghymru'. Mae'r canllawiau cysylltiedig yn nodi'r cynnwys a argymhellir yn y Datganiad Polisi Tâl Blynyddol a'r Adroddiadau Blynyddol.

2. Polisi Tâl ar gyfer Prif Swyddogion

Mae'r Awdurdod yn diffinio ei Brif Swyddogion fel y Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) a'r Cyfarwyddwyr. Mae'r Awdurdod yn cyflogi Prif Swyddogion o dan delerau ac amodau'r JNC. Mae'r JNC ar gyfer Prif Swyddogion yn negodi codiadau cyflog costau byw blynyddol cenedlaethol (DU) ar gyfer y grŵp hwn. Mae gan Brif Swyddogion a gyflogir o dan delerau ac amodau'r JNC hawl cytundebol i unrhyw godiadau cyflog cenedlaethol a bennir gan y JNC a bydd yr Awdurdod felly'n talu'r rhain yn ôl yr angen.

O ganlyniad i'r cytundeb y daethpwyd iddo ar 1 Tachwedd, 2022 mewn perthynas â'r Dyfarniadau Tâl Cenedlaethol ar gyfer gweithwyr Gwasanaethau Llywodraeth Leol ('Llyfr Gwyrdd'), cynyddwyd cyflog yr holl staff gan 2 hicyn. Cafodd y dyfarniad cyflog ei ôl-ddyddio i 1 Ebrill, 2022.

Ar 8 Chwefror, 2023, cytunodd yr Awdurdod y dylid cymhwyso'r un 2 gynyddran ar gyfer cyflogau'r ddau gyfarwyddwr a oedd hefyd wedi'i ôl-ddyddio i 1 Ebrill, 2022.

Mae tâl y Prif Weithredwr yn y broses o gael ei adolygu.

Nid yw'r Awdurdod yn talu unrhyw daliadau bonws i'w Brif Swyddogion. Fodd bynnag, mae dilyniant cynyddrannol drwy'r strwythur cyflog yn amodol ar werthusiad perfformiad blynyddol a gadarnheir gan Gadeirydd ac Is-Gadeirydd yr Awdurdod a Chadeiryddion y Pwyllgorau Cynllunio a Mynediad a Pherfformiad ac Adnoddau.

Bydd pecyn tâl Prif Swyddogion yn cael ei gymeradwyo gan yr Awdurdod cyn recriwtio i unrhyw swydd o'r fath.

Mae cyflogau'r Prif Swyddogion i'w gweld yn Atodiad 2 yr adroddiad atodol i'r Datganiad hwn.

Y berthynas rhwng y pwynt cyflog uchaf (£93,881) a'r pwynt cyflog isaf (£20,441) yw 1:4.59 (adroddwyd diwethaf y gymhareb hon ar 1:5.01).

Nid oes unrhyw uwch swyddi o fewn yr Awdurdod yn denu pecyn tâl o fwy na £100,000.

3. Staff eraill

Mae rolau staff eraill yn cael eu gwerthuso'n fewnol yn erbyn y Cyd-gyngor Cenedlaethol ar gyfer Gwasanaethau Llywodraeth Leol - Cytundeb Cenedlaethol ar Gyflogau ac Amodau Gwasanaeth (y Llyfr Gwyrdd). Mae'r cysylltiad rhwng y sgoriau gwerthuso swyddi a'r golofn gyflog genedlaethol i'w weld yn Atodiad 4 yr adroddiad sy'n cyd-fynd â'r Datganiad hwn.

4. Rheoli Doniau Mewnol

Yn gyffredinol, mae swyddi gwag yn cael eu hysbysebu'n fewnol ac yn allanol ar yr un pryd.

Mae'r Awdurdod ar fin cychwyn ar Gynllun Hyfforddai Graddedig i feithrin doniau 'a dyfwyd gartref' a gwella cadernid o fewn y tîm cynllunio.

5. Tâl ar sail Perfformiad

Mae hyn yn ei le ar gyfer ein Prif Swyddogion – mae dilyniant o fewn eu graddfeydd cyflog yn dibynnu ar gyflawniadau penodol yn eu hadolygiadau perfformiad a datblygiad. Dylid nodi bod y swyddogion hyn ar bwynt uchaf eu gradd erbyn hyn.

Nid oes unrhyw elfen o dâl ar sail perfformiad i staff eraill.

6. Cefnogaeth a ddarperir ar gyfer Staff Tâl Is

Y Cyflog Byw Cenedlaethol o fis Ebrill 2023 ar gyfer 23 oed a hŷn yw £10.42 yr awr.

Mae canlyniad y Dyfarniad Cyflog ar gyfer 2022/23 yn rhoi cyflog o £10.60 yr awr ar y pwynt cyflog isaf.

7. Diswyddo ac Ymddeoliad

Mae cynlluniau diswyddo ac ymddeol yr Awdurdod yn cael eu cymhwyso'n gyfartal ac yn deg i'r holl staff waeth beth fo'u gradd, oedran neu ryw ac yn cael eu gweithredu yn unol â rheoliadau'r cynlluniau pensiwn perthnasol.

Datganiad Polisi Tâl APCE 2023/24

Cyflogau Prif Swyddogion 2021/22

Prif Weithredwr £82,825 - £91,881

Cyfarwyddwyr £57,580 - £64,353

Cyflogau Prif swyddogion

Cyflogau Prif Swyddogion 2022/23

Prif Weithredwr £82,825 - £91,881

Cyfarwyddwyr £57,580 - £64,353

Cyflogau Prif Swyddogion 2023/24

Prif Weithredwr £84,750 - £93,881

Cyfarwyddwyr £59,505 - £69,666

Cyflogau Swyddogion 2022/23 Officer Salaries

Graddfa / Grade	Pwyntiau Arfarnu / Gwerthuso Swyddi / Job Evaluation Points	Pwyntiau Cyflog / Salary Points	Cyflog / Salary o'r 01.04.23	Misol / Monthly w.e.f. 01.04.23
1	Hyd at 250	2 - 3	£20,441-£20,812	£1703.42 - £1734.33
2	251-280	2 - 4	£20,441-£21,189	£1703.42 - £1765.75
3	281-310	3 - 6	£20,812 - £21,968	£1734.33 - £1830.67
4	311-340	5 - 8	£21,575 - £22,777	£1797.92 - £1898.08
5	341-370	7 - 13	£22,369 - £24,948	£1864.08 - £2079.00
6	371-400	13 - 19	£24,948 - £27, 852	£2079.00 - £2321.00
7	401-430	19 - 25	£27,852 - £32,020	£2321.00 - £2668.33
8	431-460	23 - 29	£30,151- £35,411	£2512.58 - £2950.92
9	461-495	28 - 32	£34,723 - £38,296	£2893.58 - £3191.33
10	496-530	30 - 34	£36,298 - £40,478	£3024.83 - £3373.17
11	531-565	32 - 36	£38,296 - £42,503	£3191.33 - £3541.92
12	566-600	34 - 38	£40,478 - £44,539	£3373.17 - £3711.58
13	601-635	36 - 40	£42,503 - £46,549	£3541.92 - £3879.08
14	636-670	38 - 42	£44,539 - £48,587	£3711.58 - £4048.92
15	671 ac uwch /and above	40 - 43	£46,549 - £49,590	£3879.08 - £4132.50

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI

ADRODDIAD POLISI TÂL 2022/23

1. Rhagymadrodd

Mae'r adroddiad hwn yn dilyn canllawiau a osodwyd gan Lywodraeth Cymru yn ei datganiad ysgrifenedig 'Tryloywder Cydnabyddiaeth Ariannol Uwch Reolwyr yn y Sector Gyhoeddus Ddatganoledig yng Nghymru'.

2. Polisi Tâl ar gyfer Prif Swyddogion

Mae'r Awdurdod yn diffinio ei Brif Swyddogion fel y Prif Weithredwr (Swyddog y Parc Cenedlaethol) a'r ddau Gyfarwyddwr (Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol a'r Cyfarwyddwr Cynllunio a Rheoli Tir).

3. Graddfeydd Tâl

Mae'r swyddogion hyn wedi derbyn cyflogau yn unol â Datganiad Polisi Tâl 2022/23 ac Atodiad 3 o'r adroddiad atodol.

Prif Weithredwr £84,750 - £93,881

Cyfarwyddwyr £59,505 - £69,666

4. Pensiwn

Mae'r holl swyddi hyn wedi bod yn destun taliad o gyfraniadau pensiwn gweithwyr ar y gyfradd y cytunwyd arni'n genedlaethol o 8.5% i 9.9%.

5. Buddiannau mewn Nwyddau a Buddiannau Anhrethadwy

Ni ddyfarnwyd unrhyw fuddion mewn nwyddau na buddion di -dreth.

6. Cyfansoddiad rhyw'r Uwch Dîm

Mae'r Uwch Dîm yn cynnwys tri dyn

7. Manylion pecynnau diswyddo, gan gynnwys achosion busnes cadarn sy'n cyfiawnhau'r trefniadau ymadael ac sy'n cynrychioli gwerth gwirioneddol am arian

Yn 202 2/23, ni dderbyniodd unrhyw ddeiliad swydd uwch becyn diswyddo.

EITEM RHIF 14

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	12fed o Orffnaf, 2023
TEITL	HOLIADUR STAFF – ARCHWILIO PATRYMAU GWEITHIO AMRYWIOL A HYBLYG AR GYFER YR AWDURDOD
ADRODDIAD GAN	Pennaeth Adnoddau Dynol
PWRPAS	Gosod cefndir a rhannu canlyniadau'r holiadur yn y cyfarfod er lles cyfleu adroddiad ar lafar o'r camau nesaf gan y Pennaeth Adnoddau Dynol yn ystod y cyfarfod, cyn cychwyn ar y broses ymgynghori swyddogol gyda'r Undebau Llafur a Gweithwyr yr Awdurdod. Yr adroddiad eisoes wedi ei gyflwyno yn cyfarfod y Cyd Weithgor Lleol ar 30ain o Fehefin, 2023.

1.0 CEFNDIR

- 1.1 Pan darodd y pandemig a gorfodi'r cyfyngiadau ym mis Mawrth 2020, bu'n rhaid i'r Awdurdod addasu ei ffyrdd o weithio a oedd yn golygu addasu i lywio gweithlu a oedd yn gweithio gartref yn bennaf.
- 1.2 Roedd addasiadau a wnaed ar y pryd yn cynnwys cyfarfodydd ar-lein trwy Teams a Zoom, llacio cofnodi oriau gwaith gwirioneddol i recordio diwrnod 7.24 a chael gwared ar oriau craidd am fwy o hyblygrwydd. Consensws yr addasiadau hyn yw eu bod yn gweithio'n dda ac, mewn llawer o achosion, yn parhau i wneud hynny er gwaethaf yr holl gyfyngiadau yn cael eu codi a bod gweithwyr yn cael dychwelyd i'r swyddfa. Fodd bynnag, mae angen sefydlu ac ymgynghori ar ffordd gytûn o weithio gyda'r undebau a'r gweithwyr er mwyn i'r Awdurdod adennill rheolaeth arferion gwaith cymeradwy, wedi'u gyrru gan brosesau, trwy bolisiau a gweithdrefnau diwygiedig y cytunwyd arnynt, sy'n glir i bawb.
- 1.3 Er bod llawer o weithleoedd wedi dychwelyd erbyn hyn i ffyrdd cyn y pandemig o weithio, mae'r model gweithio hybrid yn parhau i fod yn ffordd dderbyniol a rhesymol o weithio sy'n gweddu i'r rhan fwyaf o gyflogwyr/gweithwyr.

- 1.4 Wedi dweud hyn, ers i'r cyfyngiadau gael eu codi a dechreuodd gweithwyr ddychwelyd i'r swyddfa, cododd rhai materion negyddol ynghylch y model gweithio hybrid megis:
- Ffurfiwyd diwylliant 'nhw a ni' rhwng gweithwyr swyddfa a gweithwyr cartref.
 - Cafodd ymdeimlad o amheuaeth ei fwrw gan weithwyr swyddfa ynghylch a oedd gweithiwr cartref yn gweithio eu horiau contract gan nad oeddent yn weladwy i'w cyfoedion a rhagdybiaethau negyddol yn ymwneud â'u cynhyrchiant. Mae'r diwylliant hwn wedi dod yn fath o wahaniaethu yn erbyn gweithwyr cartref ac fe'i gelwir yn 'officism'.
 - Byddai gweithwyr sy'n dymuno dychwelyd i'r swyddfa yn aml yn teimlo'n unig ac yn ddigalon nad oedd pethau wedi dychwelyd i arferion cyn y pandemig gan fod llawer o weithwyr yn parhau i weithio'n bennaf gartref. Gall hyn gael effaith negyddol ar allbwn gweithwyr swyddfa.
 - Roedd ymholiadau mewn perthynas â chost rhedeg swyddfeydd i rai gweithwyr eu defnyddio ar brydiau yn gorfodi cyflogwyr i gau swyddfeydd ac addasu polisi gweithio unffurf o gartref i arbed ar gostau sy'n rhoi gweithwyr sy'n dymuno bod yn y swyddfa ar gyfer gwahanol agweddau cymdeithasol a materion iechyd meddwl o dan anfantais.
- 1.5 Dechreuodd yr Awdurdod, sy'n awyddus i sefydlu ffordd ymlaen yn dilyn y pandemig, edrych ar wahanol ffyrdd o weithio a fyddai'n caniatáu hyblygrwydd wrth adennill rheolaeth ar ffordd o weithio y cytunwyd arni, wedi'i gyrru gan broses, i'r dyfodol. Cytunwyd y dylid mabwysiadu dull ymgynghorol, mesuredig, gyda ystyriaeth yn cael ei roi i bethau cadarnhaol a negyddol gweithio mewn swyddfa a gweithio gartref ac yn ei dro yr effaith ar eu gweithwyr.
- 1.6 Er y dylid archwilio a chydbwysu adolygiad o arferion gwaith yn erbyn y cynhyrchiant sy'n ofynnol gan yr Awdurdod i gyflawni ei amcanion yn llawn, y ffocws oedd sicrhau bod yr Awdurdod yn parhau i fod yn gyflogwr o ddewis i'w weithwyr presennol a chael ei ystyried yn 'le da i weithio' ar gyfer gweithwyr y dyfodol.
- 1.7 Cynhaliwyd adolygiad cychwynnol o arferion gwaith yn dilyn y pandemig gan Bennaeth Adnoddau Dynol yn ystod chwarter olaf 2022 a oedd yn cynnwys ymgynghori â chyfoedion mewn amrywiol sefydliadau eraill ac ymchwil i gysylltiadau gweithwyr a amlygwyd o ganlyniad i orfod i weithwyr ddychwelyd i'r swyddfa.

Canfyddiadau'r adolygiad oedd, er bod rhai sefydliadau wedi cynnal eu trefniadau pandemig fel gweithio hybrid, cyfarfodydd ar-lein a mwy o hyblygrwydd i weithwyr, roedd eraill wedi penderfynu dychwelyd eu gweithwyr yn llawn i'w trefniadau cytundebol cyn y pandemig a chawsant sawl ymddiswyddiad. Roedd hyn yn bennaf oherwydd bod bywydau gweithwyr wedi cael eu newid cymaint yn ystod y pandemig fel nad oeddent bellach yn gallu cwrdd â holl amodau ei cytundebau a chael eu gorfodi i chwilio mewn man arall am gyflogaeth oedd yn cynnig mwy o hyblygrwydd.

Roedd y rhesymau dros ymddiswyddo yn cynnwys:

- Roedd ffyrlo a cholli swyddi yn gorfodi teulu dau gar i leihau i un car ac nid oeddent yn gallu dychwelyd i deithio i'r gwaith yn llawn amser gan ei bod yn rhannu car.
- Nid oedd babanod a phlant bach cyn oed ysgol a brofodd y cyfnod clo yn gallu sefydlu sgiliau cymdeithasol cychwynnol oherwydd eu bod yn cael gofal cyson, dyddiol gan grŵp bach o bobl, yn aml yn rhieni ac yn frawd neu chwaer arall. Cafodd rhai o'r plant hyn drawma emosiynol difrifol pan ddychwelodd eu rhieni i'r gwaith gan fod angen trosglwyddo eu gofal i berson arall nad oedd y plentyn yn gallu addasu iddo oherwydd eu diffyg sgiliau cymdeithasol cychwynnol. Roedd hyn yn golygu bod anallu cyflogwr i gynnig ateb gweithio hyblyg i'w riant yn golygu bod yn rhaid iddynt chwilio am gyflogaeth arall er mwyn iddynt dreulio mwy o amser gartref, yn weladwy i'w plentyn, wrth iddynt eu cyflwyno i roddwyr gofal eraill a sefydlodd y plentyn sgiliau cymdeithasol cychwynnol. Yn yr un modd, fe wnaeth plant a oedd wedi'u 'hyfforddi poti' yn llwyddianus ddychwelyd i angen defnyddio cewynnau lle nad oedd eu rhieni'n gallu gweithio'n hyblyg a achosodd bryder i'r plentyn, rhwystredigaeth i'r rhiant a chynyddu'r gwariant ar yr aelwyd, a olygai fod yn rhaid i'r rhiant chwilio am gyflogaeth amgen i'w galluogi i weithio'n hyblyg.
- Cyflwynodd llawer o deuluoedd anifail anwes i'w cartref yn ystod y cyfnod clo lle roedd yr anifail anwes wedi sefydlu cyswllt dynol beunyddiol, parhaus a gofal cyffredinol yr anifail yn cael ei rannu'n hawdd rhwng aelodau'r teulu gartref. Roedd dychwelyd i'r swyddfa yn golygu bod angen gofalwr ar gyfer yr anifail yn ystod y dydd mewn rhai achosion yn achosi cost ac roedd llawer o anifeiliaid yn dioddef pryder gwahanu.

Gyda'r uchod mewn golwg, roedd yr Awdurdod yn awyddus i fwrw ymlaen yn ofalus a chael adborth gan eu gweithwyr ar y ffordd orau o symud ymlaen, a'r consensws cyffredinol o'r hyn sy'n gwneud yr Awdurdod yn gyflogwr o ddewis?

Byddai penderfyniadau a wneir mewn perthynas â mwy o hyblygrwydd a gweithio ystwyth hefyd yn agor cronfa fwy o gyfleoedd adnoddau i'r Awdurdod.

- 1.8 Ar y 12fed o Ragfyr 2022 cynhaliodd Pennaeth Adnoddau Dynol gyfarfod gyda'r Tîm Rheoli a Phenathiaid Gwasanaeth i archwilio gwahanol ddulliau o weithio, defnyddio'r swyddfa ac i ofyn am adborth cyffredinol gan bob adran am eu timau mewn perthynas ag arferion gwaith a chynigion cyfredol ar gyfer y dyfodol.

2.0 PWYNTIAU A SEFYDLWYD O GYFARFOD ADOLYGU CYCHWYNNOL 12.12.22

2.1.1 Mae angen eglurder arnom a bod yn gyson ac yn deg â phawb.

2.1.2 Mae angen diogelu'r rhan fwyaf o staff agored i niwed a pharchu dewisiadau unigol o ran eu patrwm gwaith dewisol.

2.1.3 Rheolwyr i arwain drwy osod ffiniau gwaith clir e.e., peidio â gweithio'n hwyr yn gyson ac anfon negeseuon e-bost y tu allan i'r hyn y gellid ei ystyried yn amser gwaith derbyniol.

- 2.1.4 Mae angen arweiniad a chymorth ar aelodau newydd o staff ac felly byddai'n hanfodol bod eu rheolwr neu berson dynodedig yn cwrdd â gweithiwr newydd i'w cyfarfod ar eu diwrnod cyntaf a'u cefnogi trwy eu hwythnos gyntaf.
- 2.1.5 Ystyried cynnig "Super Flexi" (trefniant anffurfiol sydd eisoes yn cael ei ddefnyddio gan yr adran I.T. sy'n caniatáu i weithwyr ofyn am amser achlysurol i ffwrdd o fewn oriau craidd trwy gymeradwyaeth rheolwr llinell gan ddefnyddio system y Goron) i'r holl weithwyr cymwys, byddai hyn yn rhoi mwy o hyblygrwydd i staff gymryd amser i ffwrdd y tu allan i'r broses gwyliau blynyddol a TOIL, o fewn oriau craidd gyda chytundeb y byddent yn gweithio yn ôl yr amser o fewn oriau lled band oriau 07:30-19:00.
- 2.1.6 Adolygu'r system amser Flexi bresennol i gynnwys tynnu oriau craidd yn ôl i gynnig mwy o hyblygrwydd i weithwyr heb yr angen i geisio cymeradwyaeth trwy Goron. Byddai'r opsiwn hwn yn ei gwneud yn ofynnol bod cynrychiolydd adran bob amser ar gael i ymateb i faterion a bod rheolwyr yn monitro unrhyw batrymau di-fudd a allai ddod i'r amlwg gallai achosi aflonyddwch posibl i'w hadran. Mae cyflogwyr sydd wedi ymgymryd â'r camau hyn yn dilyn y pandemig wedi adrodd fod cael gwared o oriau craidd yn creu mwy o bethau cadarnhaol na negatiffau ac wedi cynorthwyo i feithrin diwylliant o ymddiriedaeth rhwng cyflogwr a gweithiwr. Mae adborth gan Gyngor Gwynedd, Ynys Môn ac Adra yn adrodd am y pethau cadarnhaol a negyddol cyffredin canlynol (**pethau cadarnhaol** – mwy o hyblygrwydd i staff, yn cynyddu lles, yn caniatáu gwell cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, gwella morâl, gwell cynhyrchiant, lleihau absenoldebau salwch tymor byr ac agor mwy o'r diwrnod gwaith h.y., mae'r rhan fwyaf o gyfarfodydd fel arfer yn cael eu trefnu o fewn oriau craidd gan fod tuedd i osgoi trefnu cyfarfodydd y tu allan i oriau craidd sy'n cyfyngu ar gynhyrchiant ac yn prysuro argaeledd unigolyn gan eu bod yn fwy tebygol o fod ar gael i gysylltu oherwydd mynychu cyfarfodydd a drefnir o fewn cyfnod cyfyngol o argaeledd. Mae cael gwared ar yr oriau craidd wedi cymryd y duedd hon i ffwrdd ac mae cyfarfodydd yn cael eu trefnu unrhyw bryd rhwng 09:00-16:00 yn hytrach na rhwng 10:00-12:00 a 14:00-16:00 gan gynnig mwy o gynhyrchiant mewn diwrnod gwaith. **negatiffau** – byddai rhai gweithwyr yn ffurfio patrwm o absenoldeb o weithgarwch gwaith yn rheolaidd a fyddai'n rhwystro argaeledd ac oedi wrth ymateb - mae hyn yn gofyn am lefel uwch o reoli gweithwyr gan eu rheolwr a pholisi cadarn a roddwyd ar waith i gynghori gweithwyr o ffiniau cwmipas yr hyblygrwydd o fewn y polisi a bod cynhyrchiant yr Awdurdod yn parhau i fod yn flaenoriaeth.
- 2.1.7 Angen ystyried defnydd gwell o ofod swyddfa. Gallai desgio poeth roi hwb i adrannau gymysgu mwy, llai o feddylfryd seilo, ond mae angen cynllun arnynt fel y gall adrannau archebu desg ymlaen llaw, cynllunio/caniatáu i adran benodol fod gyda'i gilydd ac ati.
- 2.1.8 Hanfodol ar gyfer recriwtio a chadw cyflogaion er mwyn gallu cynnig mwy o hyblygrwydd a chynnig telerau tebyg neu well i gyflogwyr eraill i sicrhau ein bod yn gystadleuol yn y farchnad agored.

- 2.1.9 Angen adolygu swydd ddisgrifiadau/anghenion adrannol ac hefyd ystyried anghenion yr unigolyn. Asesu swydd ddisgrifiadau o ran gwaith swyddfa hanfodol/hybrid/gweithio gartref yn bennaf gyda phob pennaeth adran ac i ystyried gofynion unigolion o fewn eu hadrannau.
- 2.1.10 Mae'r hawl i ofyn i weithio'n hyblyg yn parhau i fod yn broses ar wahân i unigolion ag anghenion penodol a fyddai'n cael eu hystyried gan yr Awdurdod yn unol â'r polisi gweithio'n hyblyg.
- 2.1.11 Ni ddylem fynnu bod angen i staff sy'n gallu gweithio'n llawn amser gartref ddod i mewn i'r swyddfa ar ddiwrnodau penodol ond dylent eu hannog i fynychu fel gofyniad gofynnol rhesymol y mis/chwarter neu yn ystod cyfarfodydd tîm, hyfforddiant neu ddigwyddiadau cymdeithasol ac ati.
- 2.1.12 Bydd lles staff yn parhau i fod yn elfen bwysig o unrhyw gynllun.
- 2.1.13 Cynnig sesiwn ymwybyddiaeth i staff.
- 2.1.14 Angen cydnabod gwahanol ymarferion gwaith ar draws yr Awdurdod – staff maes, ymweliadau/gwaith maes ac ati.
- 2.1.15 Ymgymryd â dull graddol o newid a mabwysiadu cynllun peilot i unrhyw newid arfaethedig.
- 2.1.16 Bod â pholisïau a gweithdrefnau cadarn ar waith i ategu'r arferion gwaith newydd cymeradwy.
- 2.1.17 Cyfathrebu clir a rennir â gweithwyr i gynghori y gallai unrhyw gam-drin peilot ymarfer gwaith a fabwysiadwyd a mwy o hyblygrwydd arwain at dynnu'r arfer gwaith yn ôl a gellir mabwysiadu dychwelyd i arferion cyn y pandemig yn unol â chontract cyflogaeth y gweithwyr sy'n parhau i fod heb ei newid.
- 2.1.18 Angen trafodaeth bellach mewn perthynas â staff nad ydynt yn gallu gweithio'n hyblyg fel gweithwyr derbyn, PTYB a wardeniaid. Gofyn am syniadau gan weithwyr i'r Tîm Rheoli eu hystyried.
- 2.1.19 Pennaeth Adnoddau Dynol i baratoi Holiadur drafft i'w gymeradwyo gan y Tîm Rheoli yn seiliedig ar egwyddorion cryno o'r cyfarfod ac i ofyn am adborth gan weithwyr ar wahanol ffyrdd o weithio.

3.0 PARATOI'R HOLIADUR

- 3.1.1 Creodd Pennaeth Adnoddau Dynol Holiadur drafft i'r Tîm Rheoli i'w gymeradwyo i gael ymateb dienw gan holl weithwyr yr Awdurdod i arferion gwaith amrywiol a archwiliwyd yn ystod y Cyfarfod Adolygu Cychwynnol gyda'r Tîm Rheoli a'r Penaethiaid Adrannau.

3.1.2 Cymeradwyodd y Tîm Rheoli yr Holiadur ar 2 Chwefror, 2023 a pharatowyd yr holiadur yn ddwyieithog a'i anfon at yr holl staff ar 17 Chwefror, 2023 gyda dyddiad cau ar gyfer ymatebion wedi'i bennu ar 10 Mawrth, 2023.

4.0 CANFYDDIADAU HOLIADUR A CHYFATHREBU

4.1.1 Derbyniodd yr adran AD ymatebion gan 48% o weithwyr yr Awdurdod.

4.1.2 Rhannwyd canlyniadau'r holiadur gyda'r Tîm Rheoli a'r Penaethiaid Adran ar ffurf graff (atodiad 1) ar yr 20fed o Ebrill, 2023.

4.1.3 Rhannwyd canlyniadau'r holiadur fel y gwelir yn (atodiad 1) â Gweithwyr yr Awdurdod ar 3 Mai 2023.

5.0 ARGYMHELLIAD


5.1 Rhannu canfyddiadau'r holiadur yn y cyfarfod hwn a chaniatáu i'r Pennaeth Adnoddau Dynol gyfathrebu adroddiad llafar o'r camau nesaf yn ystod y cyfarfod cyn dechrau proses ymgynghori swyddogol gyda'r Undebau Llafur a Gweithwyr yr Awdurdod.

Canlyniadau'r Holiadur Staff Staff Questionnaire Results 2023


Canlyniadau'r Holiadur mewn ffurf graffiau
Questionnaire results in graph form

Q2./ Oeddech chi o'r farn bod eich patrwm gwaith gwreiddiol, cyn y pandemig, yn rhoi cydbwysedd digonol rhwng Bywyd a Gwaith i chi?


Q2./ Did you think your original work pattern, pre-pandemic, gave you an adequate Work-Life balance?




Q3./ Ydych chi'n teimlo bod diwylliant cydbwysedd rhwng Bywyd a Gwaith o fewn yr Awdurdod?
Q3./ Do you feel there is a Work-Life balance culture within the Authority?



Q4./ A gafodd yr hyblygrwydd a gynigwyd yn ystod y pandemig fel yr opsiwn o weithio gartref a gweithio'n hybrid wella eich cydbwysedd Bywyd Gwaith?
Q4./ Did the flexibility offered during the pandemic such as the option of working from home and working hybrid improve your Work-Life balance?




Q5./ A yw gweithio o gartref yn effeithio eich iechyd a'ch lles yn gyffredinol yn gadarnhaol neu'n negyddol?
Q5./ Does working from home affect your overall health and well-being positively or negatively?




Q6./A oes gennych le ddigonol, safon da o gysylltedd â'r rhyngwyd ac offer priodol i weithio'n ddiogel ac yn effeithlon o gartref?


Q6./Do you have adequate space, a good standard of internet connectivity and proper equipment to work safely and efficiently from home?




Q7./ A ydych chi'n credu bod gweithwyr yn y swyddfa ac yn y cartref yn darparu'r un lefel o allbwn gwaith? Os nacydi yw eich ateb, rhowch sylw i gefnogi
Q7./ Do you think workers in the office and at home provide the same level of work output? If your answer is no, please comment to support this answer




Q8./ Fyddech chi'n ystyried eich hun yn fwy cynhyrchiol ar adegau penodol o'r dydd? (e.e. bore/prynhawn /gyda'r nos)
Q8./ Would you consider yourself more productive at certain times of the day? (e.g. morning/afternoon/evening)



Q9./ Pa mor aml ydych chi'n gweithio ar y penwythnosau?
Q9./ How often do you work on the weekends?




Q10./ Ydych chi'n teimlo dan bwysau i ymateb i e-byst y tu allan i'r hyn y byddech chi'n ystyried amseroedd gwaith rhesymol fel cyn 7yb neu ar ôl 7yh neu dros y penwythnos?
Q10./ Do you feel pressured to respond to emails outside of what you would consider reasonable work times such as before 7am or after 7pm or over the weekend?




Q11./ Pa mor hir yw eich cymudo dyddiol pan fyddwch chi'n mynychu'r swyddfa?

Q11./ How long is your daily commute when you attend the office?




Q12./ Nawr bod holl gyfyngiadau'r pandemig wedi'u codi ydych chi'n teimlo y dylai pob gweithiwr ddychwelyd i'w trefniadau cytundebol cyn y pandemig?


Q12./ Now that all pandemic restrictions have been lifted do you feel all employees should return to their pre-pandemic conditions?




Q13./ A oedd angen i chi neu'ch teulu wneud newidiadau yn ystod y pandemig a fyddai nawr yn achosi anawsterau i chi pe bai'n ofynnol i chi ddychwelyd i'ch trefniadau cytundebol, gweithio cyn y pandemig?
Q13./ Did you or your family need to make changes during the pandemic that would now cause you difficulties if you were required to return to your contractual arrangements, working pre-pandemic?



Q14./ Ydych chi'n meddwl y dylai timau neu adrannau cyfan neilltuo diwrnod penodol o'r wythnos i fynychu'r swyddfa?
Q14./ Do you think entire teams or departments should devote a certain day of the week to attending the office?




Q15./ Ydych chi'n teimlo a ddylai aelodau o dimau gwahanol fod ar gael yn y swyddfa ar yr un pryd?
Q15./ Do you feel if members of different teams should be available in the office at the same time?




Q16./ Os yw eich rôl yn barhaol neu'n bennaf yn y swyddfa, a ydych chi'n meddwl y gallai aelodau eraill o staff sy'n gweithio gartref neu staff hybrid effeithio ar eich gallu i gyflawni'ch rôl yn ddigonol?

Q16./ your role is permanent or primarily in the office, do you think other members of staff working from home or hybrid staff may affect your ability to adequately fulfil your role?




Q17./ Os yw eich rôl yn barhaol neu'n bennaf yn y swyddfa, a ydych chi'n meddwl y gallai aelodau eraill o staff sy'n gweithio gartref neu staff hybrid gynyddu eich llwyth gwaith?

Q17./ your role is permanent or primarily in the office, do you think other members of staff working from home or hybrid staff could increase your workload?




Q18./ A ydych chi'n credu bod angen mwy o bresenoldeb rheolwyr llinell yn y swyddfa i ddiwallu'ch anghenion chi ac anghenion yr Awdurdod yn ddigonol?

Q18./ Do you think there needs to be an increased presence of line managers in the office to adequately meet your needs and the needs of the Authority?




Q19./ Beth fydddech chi'n ei ystyried yw'r gymhareb ddelfrydol o weithio gartref i weithio yn y swyddfa ar gyfer gweithwyr hybrid?

Q19./ What would you consider the ideal ratio of working from home to working in the office for hybrid employees?




Q20./ Pa un o'r opsiynau safle gwaith canlynol fyddai'n cefnogi eich Cydbwysedd Gwaith-Bywyd orau? (Byddwch yn ymwybodol efallai na fydd rhai o'r rhain yn ymarferol neu'n addas ar gyfer eich rôl bresennol).

Q20./ Which of the following worksite options would best support your Work-Life Balance? (Please be aware that some of these may not be practical or suitable for your current role).




Q21./ Pe bai gweithio hybrid yn dod yn ffordd hirdymor o weithio, bydd llai o ddesgiau'n cael eu defnyddio bob dydd, a allai fod yn gyfle i'r Awdurdod ystyried Model 'Gofod Swyddfa Graffach'. Pa un o'r canlynol ydych chi'n meddwl y dylai'r Awdurdod ystyried?

Q21./ Should hybrid working become a long-term way of working, fewer desks would / will be used every day, which could be an opportunity for the Authority to consider a 'Smarter Office Space' Model. Which of the following do you think the Authority should consider?



Q22./ Pa un o'r arddulliau gwaith canlynol fyddai'n cefnogi eich Cydbwysedd Gwaith-Bywyd orau?(Byddwch yn ymwybodol efallai na fydd rhai o'r rhain yn ymarferol neu'n addas ar gyfer eich rôl bresennol).

Q22./ Which of the following work styles would best support your Work-Life Balance? (Please be aware that some of these may not be practical or suitable for your current role).



Q23./ Mae'r Awdurdod yn bwriadu asesu pa unigolion ddylai fod wedi eu lleoli'n bennaf yn y swyddfa, gartref neu weithiwr hybrid yn ôl gofynion eu swydd. Ydych chi'n rhagweld unrhyw bryderon gyda hyn neu allwch awgrymu dull asesu amgen?

Rhai o'r sylwadau dderbyniwyd:

- **Ddim yn rhagweld pryderon. Mae'n ddibynol ar math o waith a gofynion y swydd.**
- **Gwneud y broses yn dryloyw, drwy ddangos cyfiawnhad ar sail tystiolaeth am ba elfennau o'r swydd sy'n golygu ei fod yn wirioneddol angenrheidiol i fod yn y swyddfa, i sicrhau tegwch/bodlondeb staff.**
- **A fydd proses o drafod gyda deilydd y swydd yn rhan annatod o gyrraedd penderfyniad er mwyn lleihau y siawns o benderfyniad 'annheg' neu 'anghywir'?**
- **A fydd hawl apelio penderfyniad?**
- **A fydd modd adolygu ac ail ystyried penderfyniad gydag amser os yw natur y swydd neu amodau personol a.y.y.b yn newid?**
- **Rhaid ystyried amodau a gallu unigolion i weithio gartref hefyd, nid yn ôl anghenion y swydd yn unig.**
- **Gwneud yn siwr fod aelodau staff yn rhan o'r penderfyniad.**
- **Fe all achosi pryder i rai, ond os caiff y rhesymeg ei egluro a bod rôl yr unigolion yn glir, byddai'r canlyniad yn haws ei dderbyn.**
- **Os mae staff eisiau bod yn y swyddfa 5 diwrnod yr wythnos, dylwch ganiatau hyn, a gadael iddynt gadw ei desg er mwyn sefydlogrwydd.**
- **Bod yn deg efo pawb.....yr un rheolau i bob aelod staff.**
- **Cyn belled a bod y broses yn glir ac yn deg, ni ddylai greu problemau.**
- **Mewnbwn rheolwyr llinell i'r broses yma yn holl bwysig.**


Q23./ The Authority intends to assess which individuals should be primarily based in the office, at home or hybrid workers according to their job requirements. Do you anticipate any concerns with this or can you suggest an alternative assessment method?

Some comments received:


- **Do not anticipate concerns. It is dependent on the type of work and the requirements of the job.**
- **Make the process transparent, by showing evidence-based justification for what elements of the job make it really necessary to be in the office, to ensure staff fairness/satisfaction.**
- **Will a process of negotiation with the post holder be integral to reaching a decision to reduce the chances of an 'unfair' or 'wrong' decision?**
- **Will there be a right to appeal a decision?**
- **Will it be possible to review and re-consider a decision with time if the nature of the job or personal conditions etc change?**
- **Individuals' conditions and ability to work from home must also be considered, not just according to the needs of the job.**
- **Make sure staff members are involved in the decision.**
- **It may concern some, but if the rationale is explained and the role of the individuals is clear, the result would be easier to accept.**
- **If staff want to be in the office 5 days a week, please allow this, and let them keep their desk for continuity.**
- **Be fair to everyone..... Same rules for all staff.**
- **As long as the process is clear and fair, it shouldn't create problems.**
- **Line managers' input into this process is critical.**

Q24./ Pa fuddion ychwanegol fydddech chi'n eu mwynhau drwy dderbyn mwy o hyblygrwydd o amgylch eich patrymau gwaith dewisol?


Q24. / What additional benefits would you enjoy by accepting more flexibility around your preferred work patterns?




Q25./ Pa fuddion ychwanegol y byddai'r Awdurdod yn disgwyl eu hennill drwy gynnig fwy o hyblygrwydd i'w gweithwyr?
Q25. / What additional benefits would the Authority expect to gain by offering greater flexibility to its employees? `




Q26./ Ydych chi'n teimlo y gallai symud i fodel hybrid o weithio effeithio ar eich perthynas â'ch chydweithwyr?
Q26./ Do you feel that moving to a hybrid model of working could affect your relationships with your colleagues?



Q27./ A yw'r Awdurdod yn darparu llwyfannau digonol ar gyfer cyfarfodydd (fideo, sain, neu yn bersonol)?
Q27./ Does the Authority provide adequate platforms for meetings (video, audio, or in person) ?



Q28./ Pa un fyddai'n well gennych fel llwyfan cyfarfod?
Q28./ Which would you prefer as a meeting platform?



Beth allwn ni ei wneud i wella cysylltedd cymdeithasol a chynhwysiant?

Rhai o'r sylwadau dderbyniwyd:


- Mwy o weithgareddau lles 'team-building' – croesi rhwng adrannau fel ein bod yn cael cymysgu'n amlach i greu mwy o weithio fel tîm.
- Teithiau cerdded byr ar draws y Parc amser cinio neu ar ôl gwaith.
- Bydd mwy o hyblygrwydd yn annog pobl i gyfarfod ei gilydd am goffi yn ystod y dydd.
- Mwy o gydnabyddiaeth i weithwyr e.e. gwobrau am hyd gwasanaeth, 'dydd ym mywyd' mewn cylchlythyr/cyfyngau cymdeithasol.
- Digwyddiadau blynyddol i ddathlu e.e. BBQ , dim agenda, dim ond cyfle i ddal fyny, fel diolch gan yr Awdurdod am waith caled pawb dros y flwyddyn.
- Fel dysgwr Cymraeg, byddwn yn gwerthfawrogi lle/amser diogel, anffurfiol i ymarfer siarad mwy.
- Mwy o ddigwyddiadau cymdeithasol. Cyfle i staff fynd allan i wneud gwaith maes.
- Digwyddiadau lechyd a Lles yn yr awyr agored i staff gael dod at ei gilydd.
- Annog adrannau i drefnu mwy o ddyddiau gwirfoddoli neu arddangos ble mae staff yn gallu cael blas o waith/prosiectau cydweithwyr.
- Trwy weithio yn hybrid, efallai bod mwy o sgôp i ddenu pobl anabl i geisio am swyddi lle efallai fod teithio i'r gwaith yn gallu bod yn rhwystr.
- Prynawn ar un o'r eiddo i gynnal 'hog-roast' fel diwrnod i gymdeithasu.
- Ail gychwyn y grŵp lechyd a Llesiant, a fod hwnnw'n cael y cefnogaeth a'r chydabyddiaeth mae ei angen.
- Sesiynau yoga a darparu cinio i bawb ar ddiwrnod swyddfa.
- Mwy o ddiwrnodau/digwyddiadau staff wedi'u trefnu i hybu morâl a chryfhau pherthnasau
- O ystyried bod araian yn dynn i'r rhan fwyaf – cynnig teithio gostyngol ar gyfer nosweithiau cymdeithasol, archebion grŵp gostyngol ar gyfer achlysuron chwaraeon/cyngherddau. Ffair Nadolig sy'n darparu ar gyfer teuluoedd yn lle cynnal sawl parti Nadolig, a gellid ei agor i'r cyhoedd i godi arian at elusen.

What can we do to improve social connectivity and inclusion?


Some comments received:

- **More 'team building' wellbeing activities – crossing between departments so we get to mix more often to create a greater sense of working as a team.**
- **Short walks across the Park at lunchtime or after work.**
- **More flexibility will encourage people to meet each other for coffee during the day.**
- **Increased employee recognition e.g. awards for length of service, 'a day in life of xxx' in a newsletter/social media.**
- **Annual events to celebrate e.g. BBQ, no agenda, just a chance to catch up, as a thank you from the Authority for everyone's hard work over the year.**
- **As a Welsh learner, I would appreciate a safe, informal place/time to practice speaking more.**
- **More social events. An opportunity for staff to go out and do outreach.**
- **Health and Wellbeing events outdoors for staff to get together.**
- **Encourage departments to organise more volunteering or demonstration days where staff can get a taste of colleagues' work/projects.**
- **By working in hybrid, there may be a greater scope to attract disabled people to seek jobs when travelling to work may be a barrier.**
- **An afternoon in one of the properties to host a hog-roast as a social day.**
- **Re-start the Health and Wellbeing group, and give it the support and recognition required.**
- **Yoga sessions and providing lunch for everyone on an office day.**
- **More staff days/events scheduled to boost morale and strengthen relationships**
- **Given that money is tight for most people – offering discounted travel for social evenings, discounted group bookings for sporting occasions/concerts. A Christmas Fair catering for families instead of hosting several Christmas parties and it could be open to the public to raise money for charity.**


Q30./ Ydych chi'n teimlo y gallai gweithio mwy o gartref nag yn y swyddfa lesteirio eich datblygiad a'ch dilyniant?
Q30./ Do you feel that working more from home than in the office could hinder your development and progression?




Q31./ Pa mor aml ydych chi'n meddwl y dylai'r Awdurdod gyfarfod ar y cyd ar gyfer digwyddiad pob aelod o staff?
Q31./ How often do you think the Authority should meet jointly for an all-staff event?




Q32./ A fyddai unrhyw un o'r syniadau digwyddiadau staff canlynol o ddiddordeb i chi o gwbl?
 Q32./ Would any of the following staff event ideas interest you at all?



Q33./ Os wnaethoch chi gychwyn gweithio yn yr Awdurdod yn ystod y 12- mis diwethaf, ydych chi'n teimlo eich bod wedi cael digon o gefnogaeth gan yr adran ac/neu reolwr?
Q33./ If you started working at the Authority in the last 12-months, do you feel you have received enough support from the department and/or manager?



Q34./ Ydych chi'n meddwl bod yr Awdurdod yn le da i weithio?
Q34./ Do you think the Authority is a good place to work?



Q35./ Hoffwn glywed am unrhyw sylwadau pellach ac/neu awgrymiadau yr hoffech eu gwneud ynghylch unrhyw agweddau ar yr arolwg hwn neu waith yr Awdurdod.

Rhai o'r sylwadau dderbyniwyd:

- Ystyried effaith cyfunol newidiadau ar unigolion a'r Awdurdod.
- Angen cysidro polisi wedi ei addasu ar gyfer staff sy'n gweithio allan yn y maes.
- Nid oes un esgid yn ffitio pawb.
- Mae gweithio o adref wedi galluogi i'r Awdurdod symud tuag at swyddfa ddi-bapur a chynaliadwy.
- Mae gweithio o gartref yn fantais i nifer ohonom. Rwy'n credu y dylai newidiadau sicrhau bod modd monitro'r system i atal ei cham-ddefnyddio.
- Mae angen cyflwyno unrhyw newidiadau ddaw yn ofalus fel nad ydyn nhw'n effeithio ar y balans o fewn y gweithle ac ymrwymiad pobl i weithio.
- Bysa'n braf gweithio i gyflogwr sy'n teimlo'n fwy 'forward thinking' ac yn arwain y ffordd i'r byd gwaith newydd.
- Gweithredu tegwch i pawb.
- Angen amlygu agweddau mwy positif o weithio i Barc Cenedlaethol.
- Diolch am y gefnogaeth i staff weithio mewn ffordd sy'n eu galluogi i wneud eu gorau dros eu swydd a'r Awdurdod a hefyd drostynt ei hunain.
- Mae'n rhaid cofio mae yma i wasanaethu'r cyhoedd yda ni, ac felly mae yna ddisgwyliad i ni fod ar gael yn ystod oriau gwaith arferol i wasanaethu'r cyhoedd.
- Rwyf yn falch iawn o gael y cyfle i weithio'n hybrid gan yr Awdurdod. Mae'n sicr yn gwneud bywyd teulu yn llawer haws.
- Angen cysondeb ar draws yr Awdurdod.

Q35./ I would like to hear about any further comments and/or suggestions that you would like to make regarding any aspects of this survey or the work of the Authority.

Some of the comments received:

- **Consider the combined impact of changes on individuals and the Authority.**
- **Customized policy required for staff working out in the field.**
- **One shoe does not fit all.**
- **Working from home has enabled the Authority to move towards becoming a paperless and sustainable office.**
- **Working from home is an advantage for many of us. I think changes should ensure that the system can be monitored to prevent its mis-use.**
- **Any changes that come need to be introduced carefully so that they don't affect the balance within the workplace and people's work commitment.**
- **It would be nice to work for an employer who is more 'forward thinking' and leading the way into the new world of work.**
- **Implement fairness for all.**
- **Need to highlight the more positive aspects of working for a National Park.**
- **Thank you for supporting staff so that they are enabled to work at their best in their job and for the Authority and also for themselves.**
- **We have to remember that we are here to serve the public, and so there's an expectation for us to be available during normal business hours to serve the public.**
- **I am delighted to have the opportunity to work hybridly by the Authority. It certainly makes family life a lot easier.**
- **There needs to be consistency across the Authority.**

EITEM RHIF 15

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	12 Gorffennaf 2023
TEITL	STRATEGAETH HAMDDEN (DRAFFT)
ADRODDIAD GAN	Rheolwr Mynediad a Lles
PWRPAS	Cyflwyno'r ddogfen ddrafft gyda golwg ar awdurdodi a chyhoeddi hon am gyfnod ymgynghori o 4 wythnos.

1. CEFNDIR

- 1.1 Lluniwyd y Strategaeth Hamdden wreiddiol (2012 – 2017) gan yr adran Blaengynllunio o fewn Awdurdod y Parc Cenedlaethol. Roedd yn ofynnol diweddarau'r ddogfen destun flaenorol hon i sicrhau ei bod yn berthnasol a'i bod yn addas i'r diben.
- 1.2 O ystyried y niferoedd cynyddol sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau yng nghefn gwlad, mae'n bwysig bod yr Awdurdod yn rhagweithiol yn y sector hwn.

2. PWYNTIAU ALLWEDDOL

- 2.1 Mae'r ddogfen newydd yn **Atodiad 1**, yn cyd-fynd yn agos â'r Cynllun Rheoli statudol (Cynllun Eryri) a'i amcanion a rhinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.
- 2.2 Mae'r ddogfen hon yn cwmpasu, cymaint â phosibl, y tueddiadau diweddaraf yn y sector hamdden awyr agored ac yn sicrhau bod gweithgareddau'n gynaliadwy.
- 2.3 Mae'r strategaeth yn ystyried anghenion ymwelwyr, cymunedau lleol, a'r sectorau anabl a llai abl fel ei gilydd.
- 2.4 Mae'r strategaeth yn rhagweithiol o ran ei dull gweithredu tuag at welliannau seilwaith a phrosiectau mynediad-cyfeiriedig, a gyflawnir fel rhan o'n gwaith neu mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill, lle bydd y PC yn mynd ati i hyrwyddo'r egwyddorion opsiwn lleiaf cyfyngol lle bynnag y bo modd.

- 2.5 Mae'r strategaeth yn ddigon hyblyg i sicrhau ein bod yn barod i weithio gydag eraill lle gall newidiadau deddfwriaethol ddigwydd yn y dyfodol, gan gynnwys mynediad at ddŵr neu unrhyw newidiadau i ddarpariaethau mynediad ar gyfer Hawliau Tramwy Cyhoeddus neu dir mynediad.

3. ARLOESIADAU

- 3.1 Mae ail hanner y ddogfen yn cynnwys dull gweithredu newydd tuag at y sector hamdden. Mae hyn yn seiliedig ar "ddatganiadau gweithgaredd" sy'n berthnasol i bob math (o weithgaredd hysbys) sy'n digwydd o fewn y Parc Cenedlaethol sydd erbyn heddiw, yn amrywiol iawn.
- 3.2 Mae'r datganiadau hyn yn amlinellu safiad yr Awdurdod ar y gweithgareddau amrywiol yn y sector hwn a sut y bydd yr Awdurdod yn ymateb i'r gweithgareddau hyn ac yn gweithio gyda'r holl randdeiliaid (fel grwpiau defnyddwyr, tiffeddianwyr a rheolwyr tir, awdurdodau lleol eraill, a'r Fforymau Mynediad Lleol) i annog a hyrwyddo arfer da, a bod yn barod i helpu i ddatrys materion pan fyddant yn codi.
- 3.3 O ran rheolaeth hamdden mae'n bwysig bod Awdurdod y Parc Cenedlaethol yn cael ei weld fel dylanwad cadarnhaol a rhagweithiol, a'i fod yn barod i ymateb i, a gweithio gydag, eraill o fewn y sector.

4. GOBLYGIADAU ADNODDAU

- 4.1 Ni ragwelir y bydd unrhyw straen ychwanegol o fewn y cyllidebau gweithredol presennol o ran cyflawni amcanion y Strategaeth Hamdden.

5. ARGYMHELLION

1. Bod yr Aelodau'n cymeradwyo cynnwys y Strategaeth Hamdden ddrafft (**Atodiad 1**) fel y'i cyflwynwyd.
2. Bod yr Aelodau'n cymeradwyo cyfnod ymgynghori allanol o 4 wythnos gyda chyfnod pellach o 4 wythnos wedi hynny i ystyried ymatebion ac ymgorffori unrhyw newidiadau perthnasol i'r ddogfen cyn y'i dychwelir gerbron yr Awdurdod i gymeradwyo'r ddogfen derfynol.

Atodiad 1: Copi drafft o'r Strategaeth Hamdden

STRATEGAETH HAMDDEN PARC CENEDLAETHOL ERYRI

2023 - 2028



■ Parc Cenedlaethol Eryri
■ Eryri National Park



Cofnod o'r Mewnbwn a'r Adolygiad

Enw	Dyddiad cynllunio / cwblhau
Mewnbwn cychwynnol gan staff mewnol perthnasol: Rheolwr Partneriaeth, Pennaeth Ymgysylltu, Penaethiaid Wardeiniaid a Phennaeth Cadwraeth ac Amaethyddiaeth	Mehefin 2022
Mewnbwn Cychwynnol gan y Prif Weithredwr	
Tîm Rheoli	Ionawr 2023
Ymgynghori â Fforymau Mynediad Lleol	Drafft Cychwynnol Mehefin 2022
Cyflwyniad i Fforwm Eryri	I'w drefnu
Pwyllgor Mynediad	Chwefror / Ebrill 2023

Cynnwys

Cyflwyniad	6
Pwrpas y Strategaeth Hamdden.....	6
Rhinweddau Arbennig	7
Cwmpas.....	8
Cyd-destun Strategol	9
- Byddwn yn ymdrechu i ddarparu cymaint o wybodaeth ar gyfer y gweithgareddau a amlinellir isod trwy gyfrwng ein gwefan, Apiau a llwyfannau cyfryngau cymdeithasol a'i lledaenu trwy gysylltiadau trydydd parti.
- Ar wahân i wybodaeth gyffredinol bydd hyn hefyd yn cynnwys gwybodaeth yn ymwneud â diogelwch a dolenni i'r canllawiau arfer da perthnasol, codau ymddygiad a chynghor gan gyrrff arweiniol lle mae'r rhain yn hysbys.
- Mae rôl Fforymau Mynediad Lleol y PC (gogledd a deheuol) yn bwysig i waith yr Awdurdod wrth gefnogi rheolaeth hamdden gynaliadwy a bydd yn gweithio'n agos gyda'i Fforymau Mynediad Lleol wrth ystyried mentrau newydd a bydd yn ceisio eu harweiniad a'u cynghor pan fo angen. Mae eu rôl hefyd yn hollbwysig wrth ymateb i a chynghori'r Awdurdod ar wahanol ymgynghoriadau cenedlaethol Llywodraeth Cymru ac ymgynghoriadau eraill mewn perthynas â mynediad a hamdden.



Cerdded

Yn ddiamau, cerdded ar lefel isel, bryniau a mynyddoedd yw'r gweithgaredd hamdden mwyaf poblogaidd yn Eryri. Mae atyniad y dirwedd yn cynnig cyfleoedd cerdded o wahanol raddau ar draws y Parc Cenedlaethol i gannoedd o filoedd o bobl – yn amrywio o'r her o ddringo i gopa'r Wyddfa i rwyddineb Llwybr Mawddach. Yn ychwanegol, mae 2470km o Lwybrau Cyhoeddus o fewn y PC ar gael i'r cyhoedd.

Er bod cerdded yn boblogaidd ledled y Parc Cenedlaethol *ac mae ffigurau monitro yn dangos yn glir bod niferoedd yn cynyddu'n flynyddol*, mae rhai ardaloedd yn cael eu defnyddio'n fwy nag eraill yn fwyaf nodedig Masif Yr Wyddfa, Cader Idris a Dyffryn Ogwen (y Glyderau a'r Carneddau) ac mae rheoli'r pwysau hwn trwy gyfrwng dull cynaliadwy yn hanfodol i sicrhau y caiff yr amgylchedd ei warchod. Yn 2019 dringodd bron i 550,000 o bobl Yr Wyddfa gan ddefnyddio ei chwe phrif lwybr, tra cofnodwyd dros 115,000 yn Nyffryn Ogwen gan gynnwys Cwm Idwal ac fe ddringodd 58,000 Gader Idris.

Bydd yr APC a'r Awdurdodau Priffyrdd yn gweithio'n adeiladol gyda thirfeddianwyr i wella seilwaith llwybrau a dilyn athroniaeth 'Milltir heb Gamfeydd' lle bynnag y bo modd. *Er bod yn rhaid sylweddoli efallai na fydd hyn bob amser yn ymarferol mewn rhai lleoliadau ucheldirol yn arbennig, ond dylid asesu pob achos ar y meini prawf sydd a wnelo'r opsiwn lleiaf cyfyngol.* Bydd hyn yn gwneud y rhwydwaith a'r cyfleusterau yn fwy hygyrch i gynifer o ddefnyddwyr â phosibl.

Mae'r PC hefyd yn gartref i nifer o rannau adnabyddus o lwybrau pellter hir megis Ffordd Cambria, Taith Mary Jones, Llwybr Arfordir Cymru Gyfan, Llwybr Gogledd Cymru, Llwybr y Pererinion, Ffordd Eryri, Taith Ardudwy, Cylchdaith y Carneddau, y Llwybr Llechi. Mae Llwybr Traws Prydain McMillan a Llwybr Dyfrdwy hefyd yn cychwyn (neu'n gorffen) eu llwybrau yn Eryri. Mae pob un ohonynt yn dod â chyfleoedd gwych i archwilio a mwynhau'r PC. Bydd y Parc Cenedlaethol hefyd yn parhau i ddatblygu Cylchdaith Eryri - mae hwn yn llwybr amrywiol o amgylch ymylon Yr Wyddfa gan ddefnyddio rhai rhannau o lwybr cyhoeddus, tir mynediad a llwybrau march / ceffylau presennol (ar gael i feiciau). Cefnogir y fenter hon gan Lywodraeth Cymru.

Yn ogystal, mae dros 60% o'r PC yn dir mynediad CGHT sydd ar gael am ddim ar droed i aelodau'r cyhoedd. Mae'r ardaloedd hyn yn darparu cyfleoedd gwych ar gyfer hamdden, iechyd a lles ac i'r rhai sy'n chwilio am gyfleoedd hamdden tawelach a ganiateir o dan ddarpariaethau'r Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy.

Ar hyn o bryd mae nifer y 'llwybrau trwy' dir mynediad CGHT yn gyfyngedig a lle nodir cyfleoedd ac adnoddau, bydd y PC yn gweithio gyda thirfeddianwyr i geisio cynyddu nifer y llwybrau hyn a gwella eu cysylltedd.

Bydd cyfleoedd hefyd yn cael eu harchwilio ar gyfer creu llwybrau defnyddwyr pellter hwy gan ddefnyddio hen welyau trac rheilffordd segur. Bydd hyn yn golygu gweithio'n agos gyda'n partneriaid awdurdod lleol a rhanddeiliaid eraill i alluogi datblygiad y llwybrau hyn pan fydd adnoddau ar gael.



Cerdded Cŵn

Cerdded Cŵn yw un o'r ffyrdd pwysicaf y mae llawer o bobl leol ac ymwelwyr yn cael mynediad ac ymarfer corff yng nghefn gwlad ac i ymgysylltu â'u hamgylchedd lleol. Mae'n dda i iechyd meddwl a lles corfforol pobl; fodd bynnag, mae gan y gweithgaredd hwn y gallu i ddod â chanlyniadau digroeso ac mae'r PC yn awyddus i sicrhau bod perchnogion cŵn yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri tra yng nghefn gwlad. Mae hyn yn cynnwys materion 'baw cŵn', tarfu ar dda byw, gweithgareddau rheoli tir a bywyd gwyllt - yn enwedig adar sy'n nythu ar y ddaear yn y gwanwyn.

I hyrwyddo hyn bydd y PC yn gweithio i ymgysylltu'n gadarnhaol â rhanddeiliaid a'r cyhoedd ar bob cyfle posibl ynghylch y materion hyn i hyrwyddo ac annog arfer da a thrwy ddarparu gwybodaeth gyhoeddus berthnasol ar ein platfformau cyfryngau cymdeithasol ac ar ein safleoedd a reolir.

Byddwn hefyd yn cefnogi ac yn hyrwyddo cyfres CNC o Godau Cefn Gwlad gan gynnwys y cod mynd â chŵn am dro ac unrhyw wybodaeth gyhoeddus ddefnyddiol arall sy'n ymwneud â cherdded cŵn yn gyfrifol yng nghefn gwlad. *Bydd y PC bob amser yn annog perchnogion cŵn i roi eu ci ar dennyn yng nghyffiniau da byw, boed ar dir mynediad neu ar Hawl Tramwy Cyhoeddus.



Dringo Creigiau, Sgramblo a Dringo Clogfeini

Mae Eryri yn un o ganolfannau'r byd ar gyfer dringo creigiau, sgramblo a dringo clogfeini. Mae nodweddion naturiol a natur greigiog y tir yn denu dringwyr o bob rhan o'r DU ac yn wir y byd i brofi eu hunain ar wyneb creigiau'r Parc Cenedlaethol. Mae yna ddringfeydd creigiau a lleoliadau sgramblo o bob safon, o lwybrau haws ar gyfer dechreuwyr i rai o'r llwybrau dringo creigiau mwyaf heriol yn dechnegol yn y byd.

Mae rhwyddineb mynediad i rai o'r lleoliadau dringo gorau, yn rhoi Eryri ymhlith un o'r lleoliadau gorau yn y DU ar gyfer y gweithgareddau hyn. Mae'r cyfle i ddringo yn Eryri wedi golygu bod yr ardal wedi'i chysylltu'n agos â hanes y gamp ac wedi bod ar flaen y gad yn ei datblygiad yn fyd-eang.

Mae yna sawl ardal sy'n gyrchfannau dringo poblogaidd, gyda'r ffocws yn bennaf ar yr Wyddfa, Bwlch Llanberis, y Glyderau ac Ogwen, a chopau mwy anghysbell y Carneddau. Yn ne'r parc, mae wyneb creigiau Cader Idris a Chraig yr Aderyn hefyd yn boblogaidd, tra bod y clogwyni isel yn Nhremadog hefyd yn boblogaidd iawn pan fo'r tywydd yn llai ffafriol yn y mynyddoedd uwch. Yn gyffredinol, mae dringo yn weithgaredd sydd wedi'i drefnu a'i ddogfennu'n dda, a wneir yn aml gan glybiau dringo neu drwy ddarparwyr dynodedig megis canolfannau awyr agored ac unigolion preifat, er bod yr ardal hefyd yn boblogaidd gyda dringwyr unigol. Mae dringo clogfeini (sef dringo heb raff ar glogfeini isel, gan ddefnyddio matiau neu badiu mawr i amddiffyn rhag cwmpo) fel camp hefyd wedi gweld cynnydd sylweddol yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r rhan fwyaf o weithgareddau dringo yn cydfodoli â'r amgylchedd naturiol ac mae cytundebau gwirfoddol y cytunwyd arnynt ar waith rhwng y cyrff cadwraeth, rheolwyr tir, perchnogion a Chyngor Mynydd Prydain (y corff cenedlaethol ar gyfer mynydd, dringo creigiau a cherdded bryniau) i warchod fflora neu ffawna unigryw ac arbennig y Parc. Bydd APCE yn parhau i gefnogi'r mentrau hynny lle maent yn berthnasol. Gellir dod o hyd i'r cytundebau penodol ar gyfer safleoedd unigol drwy chwilio Cronfa Ddata Mynediad Rhanbarthol Cyngor Mynydd Prydain <https://www.thebmc.co.uk/modules/RAD/>

Bydd y PC yn parhau i gydgyssylltu'n agos â Chyngor Mynydd Prydain a rhanddeiliaid eraill ynghylch materion o bryder i'r ddwy ochr ac wrth hyrwyddo arfer da.



Beicio

Mae Eryri yn boblogaidd ar gyfer pob math o brofiadau beicio gan gynnwys cyfleoedd beicio ffordd ardderchog, a defnyddir yr ardal drwy gydol y flwyddyn ar gyfer beicio ffordd a theithiau beicio gan glybiau beicio lleol yn ogystal â rhai o ymhellach i ffwrdd.

O ystyried pwyslais Llywodraeth Cymru ar iechyd a lles ynghyd â'r angen i leihau ein defnydd o geir, bydd y PC yn cefnogi mentrau beicio yn enwedig y llwybrau hynny sy'n canolbwyntio ar deuluoedd a chysylltiadau rhwng cymunedau lleol.

Mae effaith cyfyngiadau clo yn ystod y pandemig Coronafeirws (2020) wedi arwain at nifer sylweddol o bobl yn beicio fel ffordd ddefnyddiol o ymarfer corff iach ac i gael mynediad i gefn gwlad. Felly, rhaid peidio â cholli'r cyfle i annog y duedd hon ar ôl y pandemig a dylai'r PC fod yn barod i chwarae rhan hanfodol mewn cynllunio hamdden strategol a darpariaeth ar gyfer mentrau beicio yn y dyfodol.

Gwasanaethir Eryri gan 6 llwybr Rhwydwaith Beicio Cenedlaethol ac mae cylchdaith boblogaidd Brailsford oddi mewn iddo².

Mae hefyd yn cynnig llwybrau beicio oddi ar y ffordd gradd isel fel Llwybr Mawddach a Lôn Gwyrfa. Bydd PCE hefyd yn ceisio annog a datblygu llwybrau eraill, yn enwedig y rhai sy'n cysylltu cymunedau lleol pan a lle mae cyfleoedd yn codi ac os oes adnoddau digonol ar gael.

² <https://www.visitsnowdonia.info/cy/ffordd-brailsford-way-0>



Beicio mynydd

Yn ystod y ddau ddegawd diwethaf, mae beicio mynydd wedi tyfu'n gyflym mewn poblogrwydd ac mae Eryri wedi dod yn un o brif gyrchfannau Prydain. Mae'r twf hwn wedi'i gynnwys mewn safleoedd penodol sy'n eiddo i Cyfoeth Naturiol Cymru ac sy'n cael eu rheoli ganddynt, a'r rhai mwyaf adnabyddus yw Coed y Brenin ger Dolgellau, Penmachno (Dolen Machno a Dolen Eryri) a Betws y Coed – Gwydir Mawr/ Fach a Llwybr Marin. Mae llwybrau eraill o amgylch Beddgelert a choedwigoedd Dyffryn Dyfi hefyd yn boblogaidd ac yn cael eu hategu bellach gan lwybrau mwy diweddar a noddir yn breifat megis llwybrau lawr allt pwrpasol Antur Stiniog ym Mlaenau Ffestiniog a Pharc Beiciau Dyfi.

Mae datblygu cyfleusterau pwrpasol wedi lleihau'r potensial ar gyfer gwrthdaro rhwng beicwyr mynydd a grwpiau defnyddwyr eraill yng nghefn gwlad yn enwedig ar Hawliau Tramwy Cyhoeddus (llwybrau ceffylau), gan ddarparu cyfleoedd i ddechreuwyr ac arbenigwyr tra ar yr un pryd yn creu cyfleoedd busnes lleol. Er bod gan rywfaint o weithgaredd beicio mynydd i ffwrdd o'r canolfannau hyn y potensial i achosi erydiad llwybrau troed a gwrthdaro â defnyddwyr eraill, mae llawer o lwybrau poblogaidd (llwybrau ceffylau neu gilffyrdd presennol) felly mae'n hollbwysig bod y PC yn ystyried adeiladu unrhyw welliannau neu ddatblygiadau i lwybrau yn y dyfodol i safonau cynaliadwy. Yn ogystal â bod yn barod i leihau ei faich cynnal a chadw yn y tymor hir - yn enwedig o ystyried y patrymau tywydd eithafol rydym yn eu profi oherwydd ein hinsawdd newidiol.

Mae cydweithio gweithredol gyda'r sector yn benodol wrth lunio Cytundeb Beicio Mynydd (gwirfoddol) yr Wyddfa. Mae gan PCE gysylltiadau sefydledig â'r sector a sefydliadau beicio cenedlaethol sy'n cynrychioli'r sector, sydd wedi bod yn llwyddiannus.

Os cyfyd problemau, bydd APCE yn gweithredu gyda rhanddeiliaid i gytuno ar atebion rheoli cynaliadwy os oes angen ac yn annog y defnydd o god ymddygiad y sector.

*O dan y ddeddfwriaeth bresennol, caniateir beiciau (waeth beth fo'u math) ar lwybrau ceffylau o dan Ddeddf Cefn Gwlad 1968. Fodd bynnag, os bydd newidiadau deddfwriaethol yn digwydd, er enghraifft, cyd-ddefnyddio rhai Hawliau Tramwy Cyhoeddus ychwanegol neu o fewn tir mynediad CGHT yn y blynyddoedd i ddod, bydd hyn yn ddiamau yn newid y math a'r graddau a'r defnydd a wneir ohonynt mewn rhai ardaloedd. Felly, bydd angen i'r PC fod yn barod ac addasu i newidiadau o'r fath o ystyried y bydd disgwyliadau defnyddwyr yn ddiamau yn cael eu codi.



E-feiciau

Mae e-feiciau'n tyfu'n gyflym mewn poblogrwydd ac yn syml, beiciau â chymorth modur yw'r rhain a rhaid pedalu'r rhan fwyaf ohonynt i actifadu'r cymorth modur. * Mae defnyddio beiciau o'r fath yn gofyn am reolau ychwanegol megis isafswm oed o 14 ac ni ellir eu cynorthwyo gan drydan/mecanwaith ar gyfer cyflymder mwy na 15mya.

Maent hefyd yn cael eu caniatáu ar unrhyw lwybrau yn yr un modd â beiciau arferol megis llwybrau ceffylau, llwybrau beicio, cilffyrdd, cilffyrdd cyfyngedig, ffyrdd di-ddosbarth, a ffyrdd.

Hyd yn oed mewn amgylchedd gwledig fel y PC, mae e-feiciau yn cynnig cyfleoedd unigryw i ni leihau ein hallyriadau carbon. Gallant hefyd fod o fudd i ddefnyddwyr eraill megis pobl sy'n llai abl i gael mynediad i gefn gwlad. Lle bo'n briodol, bydd y PC yn cefnogi eu defnydd cyfrifol yn enwedig pan ellir lleihau'r defnydd o geir rhwng cymunedau.

Bydd APCE yn cynnig darparu gwybodaeth a chyngor perthnasol i ddefnyddwyr ar y defnydd cyfreithlon o e-feiciau (yn seiliedig ar y meini prawf sy'n ofynnol dan Ddeddf Traffig Ffyrdd a Phriffyrdd). Yn sicr, wrth i e-feiciau ddod yn fwy fforddiadwy – yn enwedig beiciau Emountain, efallai y bydd angen bod yn rhagweithiol i atal unrhyw weithgareddau beicio mynydd oddi ar y llwybrau. Bydd y PC yn monitro'r gweithgaredd hwn yn y blynyddoedd i ddod i sicrhau mai dim ond y llwybrau hynny sydd ar gael yn gyfreithlon sy'n cael eu defnyddio a'u hyrwyddo, ac i annog pobl i beidio â gwneud gweithgareddau amhriodol.



Eryri Hygyrch

Mae 'Eryri hygyrch' yn chwarae rhan bwysig yn iechyd a lles pobl a bydd y PC a'i bartneriaid bob amser yn ceisio bod yn gynhwysol beth bynnag fo hil, oedran a gallu pobl gan gynnwys pobl anabl, pobl llai abl a grwpiau sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol.

Mae yna eisoes nifer o lwybrau pob gallu neu amldeffnydd sydd wedi'u datblygu'n llawn ar gael megis Lôn Gwyrfa, llwybr Mawddach, Dol Idris, Foel Ispri ac eraill sy'n boblogaidd. Fodd bynnag, bydd y PC a'i bartneriaid yn gweithio'n gyson i ddatblygu'r rhwydwaith hwn ymhellach ac uwchraddio eraill (yn enwedig y rhai sy'n cysylltu cymunedau) pan fo cyfleoedd newydd ac adnoddau digonol yn codi. Bydd y cyfan yn seiliedig ar yr athroniaeth 'opsiwn lleiaf cyfyngol'. Yn hytrach na bod ag ymagwedd ragnodol, bydd y PC yn gweithio i sicrhau bod gwybodaeth sy'n ymwneud â'r safleoedd hynny a'u rhinweddau ar gael yn rhwydd i alluogi defnyddwyr i wneud dewisiadau llwybr sy'n berthnasol i'w hanghenion.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda'r sector anabledau, y Fforymau Mynediad Lleol, yr Awdurdod, a rhanddeiliaid eraill i geisio eu cyngor a'u harweiniad ar brosiectau.

Bydd datblygiadau yn y dyfodol hefyd yn cynnwys mwy o addasiadau synhwyaidd mewn rhai meysydd i apelio at sbectwm ehangach o ddefnyddwyr fel pobl ddall neu bobl trwm eu clyw. Byddwn hefyd yn mynd ati i geisio ac ymgysylltu â'r grwpiau hynny sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol ac yn gweithio gydag asiantaethau cyhoeddus ac asiantaethau perthnasol amrywiol i hybu hyn.

Bydd gwybodaeth berthnasol ar gyfer pob gallu neu lwybrau hygyrch eraill yn cael ei diweddarau'n rheolaidd ar wefannau partneriaid ac apiau. Bydd y tudalennau hynny hefyd yn cynnwys y wybodaeth ddiweddaraf am lety anghenion arbennig, lleoliadau toiledau, maes parcio i bobl anabl a'r cyfleusterau 'ystafelloedd newid' agosaf.

Ar hyn o bryd mae'r PC hefyd yn darparu dau gerbyd math Trampler trydan ar gais a cherbyd bygi trydan pedair olwyn oddi ar y ffordd. Mae'r rhain wedi bod yn boblogaidd iawn gydag amrywiaeth eang o ddefnyddwyr gyda graddau amrywiol o anabledau a bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei gynnal a'i wella pan a ble mae adnoddau'n caniatáu.

Bydd y PC yn adolygu ac yn archwilio ei ddarpariaeth ddwywaith y flwyddyn. Bydd unrhyw newidiadau mewn perthynas â datblygiadau newydd neu rai wedi'u huwchraddio yn cael eu rhoi i'r cyhoedd cyn gynted ag y byddant ar gael.



© Hawlfraint y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

Chwaraeon dŵr

Mae gan Eryri arfordir hir ac mae'n frith o lynnoedd, aberoedd, afonydd a nentydd ac maent yn atyniad poblogaidd ar gyfer hamdden yn ogystal â dod â manteision iechyd a lles enfawr. Er bod gweithgareddau arfordirol wedi'u hen sefydlu, mae'r cyfleoedd ar gyfer gweithgareddau ar ddŵr mewndirol wedi'u cyfyngu i nifer cyfyngedig o leoliadau. Gwaethygir hyn gan y diffyg deddfwriaeth ffurfiol ac eglurder yn ymwneud â'r sector hamdden hwn sy'n arwain at fynediad i ddŵr yn digwydd mewn modd de facto sy'n anfoddfaol. Fodd bynnag, mae chwaraeon dŵr fel canŵio, hwylio, padlfyrddio, hwylyfyrddio, caiacio a nofio gwyllt yn dod yn fwyfwy poblogaidd gyda mwy o bobl yn cymryd rhan yn y gweithgareddau hyn yn rheolaidd. Mae'r PC a Fforymau Mynediad Lleol yn gwbl gefnogol o unrhyw newidiadau arfaethedig i ddeddfwriaeth a fyddai'n galluogi mynediad ychwanegol i ddyfroedd mewndirol mewn modd cyfrifol a rheoledig, ac nad yw'n niweidiol i reolaeth tir, seilwaith na bioamrywiaeth.

Tra bod rhai enghreifftiau ar gyfer mynediad i ddŵr mewndirol o fewn y PC megis Llyn Tegid, Canolfan Tryweryn - y Ganolfan Dŵr Gwyn Genedlaethol yn Fron Goch, Y Bala a'r trefniadau ar ran uchaf Conwy, Llyn Gwynant a chanol afon Glaslyn (trwy garedigrwydd y Ymddiriedolaeth Genedlaethol) - ychydig yw'r rhain ac er bod y PC wedi bod yn rhagweithiol yn y maes hwn mae'n awyddus i weithio gyda'r holl randdeiliaid, gan gynnwys defnyddwyr a thirfeddianwyr, i weld a oes modd datblygu trefniadau o'r fath yn ehangach lle cyfyd cyfleoedd. Fodd bynnag, bydd trefniadau o'r fath ond yn cael eu cefnogi gan ddefnyddio arfer gorau megis lefelau dŵr y cytunwyd arnynt, pwyntiau mynediad ac allanfeydd y cytunwyd arnynt, arwyddion priodol (i gynnwys canllawiau gwybodaeth ar unrhyw ddefnydd neu gyfyngiadau penodol o safleoedd), cyngor yn ymwneud â bioddiogelwch a chadwraeth, ac i gael darpariaeth parcio cyfyngedig lle bynnag y bo modd.



Os bydd newidiadau deddfwriaethol yn digwydd yn y dyfodol sy'n ehangu mynediad i ddŵr mewndirol yna bydd angen i'r PC fod yn barod ac yn rhagweithiol yn y sector hwn.

Mae cerdded ceunentydd, arforgampau a cheunentydd yn weithgareddau hunanreolus ac yn cael eu cynnal ar safleoedd adnabyddus. Mae'r PC wedi bod yn gwbl gefnogol i Godau Ymarfer y Grwpiau Siarter Amgylcheddol ar gyfer y gweithgareddau hyn er mwyn sicrhau nad yw rhinweddau arbennig y PC yn cael eu peryglu. Fodd bynnag, yn achos unrhyw anawsterau lleol bydd y PC yn gweithio gyda rhanddeiliaid eraill a chyrrff statudol i helpu i ddatrys unrhyw broblemau lle gallant godi. Ni fydd y Parc Cenedlaethol yn cefnogi'r gweithgareddau hyn os profir eu bod yn niweidiol i'n rhinweddau arbennig. Ni chefnogir gosod gosodiadau parhaol mewn afonydd a rhaedrau yn yr hyn a all fod yn ardaloedd dynodedig.

Ni fydd APCE yn cefnogi unrhyw weithgareddau chwaraeon dŵr modur ar wahân i weithgareddau sy'n ymwneud yn uniongyrchol â defnyddio cychod achub neu'r rhai lle mae trefniadau blaenorol yn bodoli.



Pysgota

Pysgota – mae pysgota yn weithgaredd hamdden pwysig yn Eryri, gyda gweithgaredd sylweddol ar yr arfordir a lle mae llawer o lynnoedd ac afonydd yn cael eu rheoli a'u stocio i ddarparu ar gyfer pysgotwyr, tra bod y cefndir yn cyfuno i ddarparu lleoliad o'r radd flaenaf.

Yn debyg i weithgareddau eraill, mae pysgota yn boblogaidd ymhlith trigolion ac ymwelwyr gyda chlybiau pysgota lleol, cymdeithasau a chymdeithasau sy'n ymwneud yn helaeth â rheoli'r sector. Oherwydd ei amgylchedd o ansawdd uchel, mae'r sector pysgota yn weithgar wrth wella cynefinoedd lleol ac mae cyhoeddiadau perthnasol yn amlygu pwysigrwydd gwarchod a gwella'r amgylchedd ar gyfer dyfodol y gamp. Mae hefyd rhai cyfleoedd i bysgota ar gyfer pobl anabl mewn gwahanol leoliadau o amgylch y PC, a byddwn yn gweithio gyda'r sector hwn i gynyddu'r capasiti hwn lle mae cyfleoedd yn codi. Bydd y PC yn parhau i gefnogi mentrau o'r fath a hyrwyddo'r wybodaeth hon ar ein gwefan.

Bydd PCE yn gweithio gyda'r gwahanol gymdeithasau pan a lle bo angen i sicrhau cynrychiolaeth deg a chytbwys o'u barn, ac i gyfryngu a datrys materion lleol os oes unrhyw fuddiannau sy'n gwrthdaro mewn perthynas â mynediad at ddŵr a all godi.

Os bydd newidiadau deddfwriaethol yn digwydd yn y dyfodol mewn perthynas â mynediad i ddyfroedd mewndirol, yna bydd y PC yn barod i gynorthwyo a chynnig cyngor i ddefnyddwyr a thirfeddianwyr ar sut i fwrw ymlaen â mentrau ac annog arfer gorau ar gyfer mynediad a defnydd a rennir lle bo angen yn seiliedig ar ein cynlluniau peilot mynediad at ddŵr presennol.



Rhedeg mynyddoedd

Mae Eryri yn cynnal nifer o rasys bryniau a mynyddoedd a gall buddion digwyddiadau a reolir yn dda fod yn llawer mwy nag unrhyw effeithiau negyddol. Mae llawer o'r gweithgareddau hyn yn digwydd ar hyd Hawliau Tramwy Cyhoeddus a thir mynediad agored. Er bod llawer llai o bobl yn cymryd rhan o gymharu â'r cyfartaledd dyddiol o gerddwyr mynydd, mae effeithiau posibl tebyg i'r rhai sy'n gysylltiedig â cherdded mynydd – yn enwedig o ran erydiad, y gofyniad am leoedd parcio ychwanegol ac aflonyddwch lleol i gymunedau lleol.

Bydd y PC yn cefnogi'r gweithgareddau hyn cyn belled â'n bod yn hyderus eu bod yn cael eu cynllunio ymhell ymlaen llaw, nad ydynt yn niweidio'r amgylchedd, ac nad ydynt yn amharu ar reolaeth tir neu gymunedau lleol a'u bod yn amlwg yn gynaliadwy. Dylai trefnwyr digwyddiadau mwy ddangos eu bod wedi cynnal trafodaethau digonol gyda pherchnogion tir a rhanddeiliaid eraill a'u bod yn cadw at y gofynion a'r cyngor sydd yng Nghanllaw Digwyddiadau'r PC, ac yn cadw at y codau ymddygiad llywodraethu cenedlaethol perthnasol. Yn ogystal, byddai'r PC yn disgwyl i drefnwyr gweithgareddau fod yn ymwybodol o unrhyw gyfyngiadau amgylcheddol, e.e. dylid osgoi safleoedd dynodedig penodol os cânt eu cynghori i wneud hynny. Bydd y PC a'i bartneriaid ond yn cefnogi ac yn gweithio gyda threfnwyr sy'n dangos cymhwysedd trefniadol yn gyson o fewn y sector gweithgaredd hwn, ac i sicrhau mai arfer da sydd flaenaf. Ni fydd y rhai sy'n methu â gwneud hynny yn cael eu cefnogi gan y PC.

Bydd y PC yn gweithio'n agos gyda'u cymheiriaid yng Nghynghorau Gwynedd a Chonwy, Cyfoeth Naturiol Cymru (lle bo angen) a rheolwyr tir eraill fel yr Ymddiriedolaeth Genedlaethol, Coed Cadw, a thirfeddianwyr preifat i sicrhau arfer gorau a chysondeb yn y sector hwn.



Cyfeiriannu

Mae cyfeiriannu yn weithgaredd rhedeg dygnwch sy'n seiliedig ar ddefnyddio map a chwmpawd i lywio cyfres o bwyntiau sefydlog. Mae gan y digwyddiadau hyn nifer o gyrsiau wedi'u gwasgaru dros ardal ehangach. Yn gyffredinol, mae'r gamp wedi'i threfnu'n dda ac yn defnyddio canllawiau a chodau ymddygiad a gydnabyddir yn genedlaethol. Byddai'r PC yn disgwyl i bob trefnydd gynllunio ymhell ymlaen llaw ac ymgynghori â rhanddeiliaid, gan gynnwys tîrfeddiawyr a chyrff statudol, i osgoi problemau neu anawsterau, yn enwedig unrhyw weithgareddau sy'n digwydd o fewn ardaloedd dynodedig.

Triathlonau

Mae triathlonau (a Quadrathlons a Duathlons) yn cyfuno gweithgareddau dygnwch awyr agored - nofio, rhedeg, a beicio (a chaiacio ar gyfer Quadrathlon) mewn pellteroedd rasio ffurfiol ar gyfer cystadleuaeth yn ogystal â phellteroedd ad hoc ar gyfer cymryd rhan. Mae'r rhain yn gynyddol boblogaidd gyda chystadleuwyr lleol a rhai o bell (yn enwedig nawr fel digwyddiad Olympaidd) ac maent yn denu niferoedd uchel o gystadleuwyr o bob oed, ac mae gan y mwyafrif o ddigwyddiadau o'r fath gystadleuwyr iau. Bydd y PC yn cefnogi'r digwyddiadau hynny pan fo trefnwyr yn gallu dangos arfer da ac wedi gwneud gwaith paratoi digonol (a hir). Oherwydd defnydd aml o ffyrdd cyhoeddus, ac amseroedd cychwyn gwasgaredig, pan fo angen mae'r PC yn gweithio'n agos gyda thimau digwyddiadau cynghorau Gwynedd a Chonwy i sicrhau bod y gofynion amrywiol yn cael eu bodloni ac nad yw materion megis cau ffyrdd neu lwybrau yn amharu ar gymunedau lleol na'r cyhoedd.



Digwyddiadau wedi'u trefnu

Oherwydd ei henw da, y dirwedd a'r amgylchedd o ansawdd uchel, mae Eryri'n cynnal nifer o ddigwyddiadau hamdden a rasys, ac mae ffigurau'n dangos bod nifer y digwyddiadau sy'n cael eu cynnal yn Eryri wedi cynyddu yn y blynyddoedd diwethaf.

Mae'r rhain yn disgyn i ddau gategori; **digwyddiadau elusennol** sydd o fudd i elusennau lleol a chenedlaethol ac sy'n ffurfio'r mwyafrif o weithgareddau o'r fath, ac yn ail, **digwyddiadau masnachol** y mae llai ohonynt ond gyda niferoedd uwch o gyfranogwyr ar gyfer unrhyw weithgaredd penodol ac sy'n fwy gweledol i'r sylwedydd achlysurol. Rydym yn cydnabod bod y rhan fwyaf o ddigwyddiadau wedi'u trefnu'n dda ac yn gallu darparu profiadau cadarnhaol ar gyfer pob math o iechyd a lles, tra eu bod hefyd o fudd i'r economi leol.

Mae mwyafrif y trefnwyr bellach yn gyfarwydd iawn â gofynion a chanllawiau'r PC ac Awdurdodau Lleol ar gyfer rheoli digwyddiadau llwyddiannus a chynaliadwy. Os ydynt: wedi'u cynllunio ymhell ymlaen llaw, mewn lleoliadau addas, wedi sicrhau ymgysylltu â rhanddeiliaid, yn hyrwyddo'r defnydd o ddulliau trafndiaeth cynaliadwy, â rheolaeth ddigonol ar sbwriel/gwastraff (gan gynnwys gwastraff organig), yn annog y defnydd o arwyddion adnabyddadwy a dwyieithog, wedi ystyried eu cyfrifoldebau am ddiogelwch yn gyffredinol a'u bod ar adegau addas o'r flwyddyn sy'n osgoi gwrthdaro â defnyddwyr eraill. Os gellir bodloni'r meini prawf hyn, yna gall digwyddiadau fod yn hynod lwyddiannus.

Mae'r PC hefyd yn mynd ati i annog trefnwyr i ystyried lledaenu'r gweithgareddau hyn dros dymor hirach i leddfu'r pwysau dros y `misoedd prysur` a thros y penwythnosau yn arbennig.

Gall digwyddiadau grŵp llai eraill fod yn llai amlwg fel Her Tri Chopa'r DU neu Her Tri Chopa Cymru – y mae llawer ohonynt yn ddigwyddiadau elusennol hefyd. Waeth beth fo'u maint, byddai'r PC bob amser yn ceisio sicrhwydd gan y trefnwyr digwyddiadau hyn eu bod wedi ystyried yr argymhellion yng Nghannllawiau Digwyddiadau'r PC ar gyfer rheoli digwyddiadau mewn modd llwyddiannus a chynaliadwy. Bydd y PC yn parhau i weithio gyda Phartneriaeth y Tri Chopa (yn cynnwys Parc Cenedlaethol Ardal y Llynnoedd, Partneriaeth Nevis a PC Eryri) a'r sefydliadau i sicrhau arfer gorau bob amser yn seiliedig ar ein canllawiau a'r Codau Ymddygiad a argymhellir gan y Sefydliad Codi Arian a'i ganllawiau penodol ar Heriau'r Tri Chopa, a hynny i sicrhau y gellir osgoi unrhyw effeithiau negyddol posibl o'u gweithgareddau. Bydd hyn yn cynnwys diogelwch, trafndiaeth gynaliadwy a rheoli gwastraff.



Fodd bynnag, yn achos arfer gwael parhaus profedig, ni fydd y PC yn cefnogi'r sefydliadau hynny sy'n methu neu na allant fodloni'r gofynion hynny.

O ystyried yr heriau a wynebwn yn arbennig ar Yr Wyddfa o ran nifer y digwyddiadau, bydd yn rhaid i unrhyw ddiwyddiadau **newydd** mwy o fwy na 250 o gyfranogwyr - elusennol neu fasnachol - a gynigir yn ystod oriau prysur ar Yr Wyddfa h.y., Mehefin - Medi ddangos yn glir y gallant gyflawni ein gofynion ar gyfer rheoli digwyddiadau yn dda ac nad ydynt yn gwrthdaro â digwyddiadau sefydledig. O Ionawr 2021 bydd gofyn i drefnwyr digwyddiadau o dros 50 o bobl gymryd rhan yn ein cynllun ymgeisio ar y cyd newydd - menter ar y cyd rhwng Cyngor Gwynedd a'r PC i'n galluogi i gael rhagor o wybodaeth am ddiwyddiadau sydd wedi'u cynllunio mewn unrhyw flwyddyn benodol.

Bydd APCE hefyd yn parhau i weithio'n agos gyda thimau Digwyddiadau Gwynedd a Chonwy, eu Grwpiau Cyngori Diogelwch (SAG), cymunedau lleol a rhanddeiliaid i sicrhau cyfathrebu da ac arfer gorau (a chynaliadwy).



Canolfannau Addysgol ac Awyr Agored

Mae gweithgareddau grŵp wedi'u trefnu yn amhrisiadwy o ran datblygu gwybodaeth a dealltwriaeth o'r PC tra'n cynnig cyfleoedd ar gyfer datblygiad personol a grŵp. Mae hyn yn bwysig i bobl iau drwy eu galluogi i ymgysylltu â'u hamgylchedd naturiol (diben sylfaenol y PC) tra'n bodloni anghenion llawer o rannau o'r Cwricwlwm Cenedlaethol.

Mae'r ardal yn cynnig amrywiaeth eang o gyfleoedd nid yn unig i bobl ifanc ond hefyd i oedolion sydd am feithrin hyfedredd mewn sgiliau awyr agored fel rhan o'u datblygiad personol, ac mae llawer o ganolfannau rhagoriaeth o ansawdd uchel mewn hyfforddiant awyr agored wedi'u lleoli yn Eryri. Mae'r PC yn ymdrechu i gynnal perthynas agos gyda'r canolfannau hyn ac mae hefyd yn gwbl gefnogol i fenter y Bartneriaeth Awyr Agored.

Mae cyfleoedd i ganolfannau ymestyn eu hapêl i farchnadoedd newydd ac annog cyfranogiad ehangach, yn enwedig y rhai o'r grwpiau anoddach eu cyrraedd neu sydd wedi'u hallgáu'n gymdeithasol a byddai'r PC yn annog ac yn cefnogi mentrau o'r fath.

Marchogaeth

Er bod gan Eryri 268km (171) o lwybrau a ddosberthir fel llwybrau ceffylau, nid ydynt yn ffurfio rhwydwaith parc cyfan. Marchogwyr unigol yw'r grŵp defnyddwyr mwyaf gyda rhai niferoedd bach o grwpiau trefniadol yn defnyddio'r cysylltiadau presennol lle bo modd. Dim ond un gweithredwr merlota masnachol sydd o fewn y PC ar hyn o bryd.

Ar hyn o bryd mae'r rhwydwaith o ansawdd isel ac yn dameidiog iawn a bydd y PC yn ceisio gweithio gyda'r grwpiau defnyddwyr cenedlaethol fel Cymdeithas Ceffylau Prydain (BHS), Ymddiriedolaeth Cilffyrdd a Llwybrau Ceffylau a grwpiau defnyddwyr lleol i nodi a gwella rhwydweithiau presennol a chreu cysylltiadau newydd mwy diogel gan ddefnyddio'r rhwydwaith llwybrau ceffylau presennol lle mae adnoddau'n caniatáu. Gallai hyn ysgogi twf mewn gweithgaredd marchogaeth ar gyfer unigolion neu grwpiau ar draws y PC. Yn achos unrhyw newidiadau deddfwriaethol yn y dyfodol a gynigir gan LIC ar gyfer mwy o lwybrau amldefnydd o fewn y rhwydwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus neu dir mynediad CGHT, mae'n rhaid i'r PC fod yn barod i fwrw ymlaen â hyn os darperir adnoddau digonol. Bydd y Parc Cenedlaethol hefyd yn sicrhau bod y safonau perthnasol yn cael eu bodloni lle bynnag y bo'n ymarferol.



Chwaraeon Awyr (di-fodur)

Defnyddir sawl lleoliad o fewn Eryri fel safleoedd lansio ar gyfer paragleidio a gleidio dwylo gyda'r rhan fwyaf o ddefnyddwyr yn aelodau o gymdeithasau neu glybiau trefniadol. Mae'r chwaraeon hyn yn hunanreolus gyda chlybiau wedi'u trefnu'n dda ac mae ganddynt drefniadau preifat eisoes gyda thirfeddianwyr. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw ddeddfwriaeth sy'n caniatáu paragleidio neu gleidio dwylo ar dir mynediad CGHT. Os gall newidiadau deddfwriaethol ddigwydd yn y dyfodol, yna bydd PCE yn barod i weithio gyda'r grwpiau hynny i hyrwyddo arfer gorau, helpu i hwyluso a chynghori ar y gweithgaredd hwn ac mewn modd nad yw'n amharu ar reolaeth tir neu weithgareddau amaethyddol trwy gydnabod a ffurfioli eu lleoliadau presennol.

Gweithgareddau Modur Oddi ar y Ffordd

Defnyddir ardaloedd o Eryri ar gyfer hamdden 4x4 oddi ar y ffordd a beiciau modur. Gall y ddau ddifyrrwch effeithio ar dawelwch, dinistrio cynefinoedd ac achosi erydiad. Yn bwysig, nid PCE yw'r awdurdod priffyrdd ac felly nid oes ganddo unrhyw ddyletswyddau i gynnal a chadw'r llwybrau hyn - mae'r ddyletswydd hon yn gorwedd gyda'r adrannau priffyrdd perthnasol o fewn Cynghorau Conwy a Gwynedd. Fodd bynnag, mae'r PC yn gweithio'n agos gyda'r awdurdodau hynny a rhanddeiliaid eraill i ddatrys problemau a gwrthdaro lle maent yn codi ac i sicrhau bod llwybrau o'r fath yn gynaliadwy.

Mae'n bwysig ystyried bod dau brif fater yn gysylltiedig â'r gweithgaredd.

Yn gyntaf, lle caniateir i ddefnyddwyr arfer eu hawliau cyfreithiol gan ddefnyddio'r rhwydwaith 'Ffyrdd Sirol Annosbarthedig (UCRs) o fewn y PC a lle mae'n bwysig i'r PC fod y llwybrau hyn yn parhau'n gynaliadwy.

Yn ddiweddar mae'r PC wedi bod yn gweithio'n agos gyda'r grwpiau defnyddwyr ffurfiol hynny - Cymdeithas Green Lane (GLASS), Cymdeithas Mynediad Tir a Hamdden (LARA), Grŵp Gwirfoddolwyr Green Lane Parc Eryri (PEGLVG) a'r Ffederasiwn Trail Riders (TRF) i gefnogi canllawiau arfer gorau fel yr argymhellir gan y grwpiau eu hunain. Mae'r PC hefyd yn gefnogol ac yn gwerthfawrogi ymdrechion hunangymorth y grwpiau ffurfiol o ran codi arian ar gyfer cynnal a chadw ac wrth hyrwyddo'r systemau un ffordd y maent wedi'u hargymell. Bydd PCE yn parhau i weithio gyda'r grwpiau hyn i sicrhau defnydd cyfrifol a chynaliadwy o'r llwybrau hyn.

Yn ail, mae yna ardaloedd lle mae 'gyrru anghyfreithlon oddi ar y ffordd' sylweddol lle nad yw defnyddwyr yn defnyddio unrhyw lwybrau hygyrch cyfreithiol cydnabyddedig. Mae'r gweithgaredd hwn wedi'i gyfyngu i'r rhai sy'n defnyddio beiciau modur a gall fod yn niweidiol iawn i dirweddau a nodweddion arbennig y Parc Cenedlaethol. Mae hon yn broblem gyson i'r PC ac awdurdodau lleol, ac rydym yn parhau i weithio gyda thirfeddianwyr, yr Heddlu, awdurdodau lleol, a rhanddeiliaid eraill fel Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC) ac yn ceisio cwtogi ar y gweithgaredd hwn lle bynnag y bo'n digwydd, yn enwedig lle mae Nodweddion Arbennig y PC dan fygythiad.



Dronau

Mae'r defnydd o dronau yn ehangu'n gyflym at ddibenion masnachol a'r rhai a ddefnyddir gan unigolion preifat. Fodd bynnag, mae angen cofrestrriad a thrwydded Awdurdod Hedfan Sifil (CAA) i'w defnyddio bellach ac mae eu gofynion ar gyfer y gweithgaredd hwn wedi'u gosod o fewn canllawiau llym. Bydd PCE bob amser yn ymdrechu i sicrhau nad yw'r gweithgareddau hyn yn dod yn broblematig neu wrthgymdeithasol eu natur ac y bydd rheolau'r CAA yn berthnasol.

Bydd y PC yn parhau i roi cyngor cyfredol perthnasol i ddefnyddwyr trwy ein platfformau cyfryngau cymdeithasol yn seiliedig ar ofynion y CAA ac yn cyfeirio at y ddolen *Drone Safe* cyfredol a'r Cod Dronau³.

Mae hefyd angen caniatâd gan CNC ar gyfer hedfan dros unrhyw warchodfa neu ardal gadwraeth ddynodedig megis Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA), Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) neu Warchodfeydd Natur Lleol a Chenedlaethol (GNLI/GNC).

Ni anogir defnyddio balwŷns a llusernau ar gyfer unrhyw weithgaredd oherwydd y peryglon cynhenid y maent yn eu hachosi i'r amgylchedd, coedwigaeth, cnydau, da byw ac i eiddo.

³ <https://www.caa.co.uk/Consumers/Unmanned-aircraft-and-drones/>
<https://dronesafe.uk/drone-code/>



Gwersylla Gwyllt

Ychydig o dir sydd gan y PC o fewn ei ffin ac mae gweryslla gwyllt yn weithgaredd y gel-
lir ei wneud dim ond trwy ganiatâd tîrfeddiannwr yn unrhyw le o fewn y PC (gan gynn-
wys unrhyw ardaloedd o 'dir mynediad'). O ganlyniad, ni all y PC roi caniatâd ar gy-
fer y gweithgaredd hwn ar dir pobl eraill ac o dan y rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol
(GDPR) ni allwn drosglwyddo manylion y tîrfeddiannwr heb ei ganiatâd penodol.

Yn dilyn yr anawsterau amrywiol a wynebwyd gan 'wersyllwyr anghyfreithlon' yn enwedig yn dilyn
codi'r cyfyngiadau clo Covid a arweiniodd yn anffodus at lawer iawn o arferion gwael megis sbwriel
a gwastraff, parcio gwael ar ochr y ffordd, tanau agored, a difrod i ardaloedd dynodedig. Yn dilyn
hynny mae'r PC wedi derbyn niferoedd uchel o gwynion gan dirfeddianwyr a'r cyhoedd.

Felly, byddai'r PC yn annog pobl i ddefnyddio meysydd gweryslla ffurfiol yn eu hardal o'u dewis
i'r diben hwn. Mae llawer o'r rhain ar draws y PC ac mae gan bob un ohonynt bresenoldeb ar-lein.
Dylai pobl hefyd drefnu ymlaen llaw i osgoi cael eu siomi.

Gweithgareddau eraill

Wrth baratoi'r ddogfen hon, mae'r Awdurdod wedi rhoi ystyriaeth ddyledus i nifer o weithgareddau
eraill, llai poblogaidd megis geogelcio ac ogofa yn Eryri.

Er eu bod yn wahanol, mae llawer o'r gweithgareddau hyn yn lleol iawn ac yn cael llai o effaith.
Fodd bynnag, bydd y PC yn monitro'r gweithgareddau hyn ac os bydd problemau lleol yn codi
bydd yn dod â'r rhanddeiliaid ynghyd ac yn ceisio datrys problemau. Disgwylir i bob gweithgaredd
o'r fath gael ei gyflawni mewn ffordd gyfrifol a chynaliadwy, ac sy'n cadw at y codau ymddygiad a
argymhellir ar gyfer eu gweithgaredd penodol.

Gwifrau zip a gweithgareddau dwysedd uchel eraill.

Mae'r rhan fwyaf o ganolfannau o'r math hwn naill ai y tu allan i ffin y Parc Cenedlaethol neu ar y
cyrion ac mae pob un yn defnyddio lleoliadau chwareli segur. Nid oes amheuaeth nad yw'r rhain
yn boblogaidd ond gellir eu hystyried yn amhriodol o fewn ein ffiniau i'r rhai sy'n ceisio mwynhad a
hamdden tawelach yn yr ystyr mwy traddodiadol. Fodd bynnag, rhaid cydnabod eu bod yn chwarae
rhan ganolog mewn darparu profiadau a gweithgareddau ychwanegol i ymwelwyr ar draws y Parc
Cenedlaethol, a'u bod yn lleddfu pwysau mewn meysydd craidd eraill ac maent hefyd yn yrwyr
economaidd pwysig.

Hamdden Diwylliannol ac Amgylcheddol

Mae'r penawdau canlynol wedi'u nodi fel gweithgareddau hamdden diwylliannol ac amgylcheddol allweddol sydd wedi'u hystyried wrth baratoi Nodau a Chamau Gweithredu'r Strategaeth. Mae pob un yn seiliedig ar Nodweddion Arbennig y Parc Cenedlaethol a'u cyd-ddibyniaeth. Yn gyffredinol, nid yw eu heffeithiau ar y Nodweddion Arbennig yn fwy neu'n llai uniongyrchol na'r rhai a briodolir i weithgareddau hamdden.

Teithiau bws a gyrru

Mae tirwedd a threftadaeth ddiwylliannol Eryri yn atyniad ar gyfer teithiau bws a gyrru. Mae'r teithiau hyn fel arfer yn dilyn llwybrau tebyg, gan gynnwys golygfeydd ac atyniadau mwyaf eiconig Eryri, ac maent yn darparu cyfleoedd economaidd i fusnesau lleol.

Er nad yw'r effaith ar Nodweddion Arbennig Eryri mor uniongyrchol â gweithgareddau eraill, mae tagfeydd a meysydd parcio anghyfreithlon yn effeithio'n fawr ar gymunedau a thirwedd lleol. Bydd APC yn ymdrechu i hyrwyddo'r defnydd o gludiant cyhoeddus parcio a theithio ac i leihau nifer cyffredinol y ceir yn yr ardal, yn ogystal â gweithredu argymhellion adolygiad parcio a thrafnidiaeth ar draws y Parc a gynhaliwyd gan Bartneriaeth Eryri.



Gwyllo bywyd gwylt

Mae Eryri yn gyrchfan boblogaidd trwy gydol y flwyddyn i wylwyr bywyd gwylt, yn enwedig gwylwyr adar, o ystyried yr amrywiaeth ecolegol sy'n ffynnu yn ei chynefinoedd amrywiol gan gynnwys ei ymylon arfordirol. Ac eithrio'r cronfeydd wrth gefn mwy, mae gweithgaredd o'r fath yn parhau heb ei reoli gan mai ychydig o safleoedd sydd wedi'u datblygu'n benodol i'r diben hwn. Fodd bynnag, mae rhai ardaloedd yn fwy sensitif nag eraill yn enwedig yn y tymor nythu adar a bydd y PC yn gweithio gyda rhanddeiliaid eraill i reoli unrhyw aflonyddwch i ardaloedd o bwysigrwydd mawr. Gellir cael gwybodaeth am y meysydd mwyaf diddorol megis GNG a SoDdGA gan y Swyddogion PCE perthnasol, CNC, Ymddiriedolaeth Bywyd Gwylt Gogledd Cymru, Coed Cadw a'r RSPB.

Mae sawl safle gwyllo adar penodol ar gyrion y PC sef gwarchodfa RSPB yn Llyn Efyrynwy, yr RSPB yng Nghonwy a safle RSPB Ynys Hir ger Machynlleth.



Safleoedd treftadaeth ac atyniadau ymweld

Ledled y Parc Cenedlaethol mae llawer o safleoedd o arwyddocâd diwylliannol, hanesyddol ac archeolegol; rhai ohonynt yn darparu cyfleusterau i ymwelwyr, tra bod eraill yn cynnwys llai o gyfleusterau. Mae'r safleoedd hyn yn darparu ffocws ar gyfer ymwelwyr ac yn cael eu rheoli'n dda i raddau helaeth gan leihau'r effeithiau ar eu Nodweddion Arbennig. Fodd bynnag, gall gorddatblygu arwain at effeithiau ar y dirwedd a phroblemau traffig lleol. Bydd y PC yn parhau i fonitro a gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid ar bob safle o'r fath o fewn ac yn gyfagos i ffin y PC ac yn darparu gwybodaeth ar gyfer y safleoedd mwyaf poblogaidd a diddorol ar ein gwefan lle bo angen.

Digwyddiadau a gwyliau

Mae nifer o ddigwyddiadau a gwyliau a gynhelir yn Eryri yn ymwneud yn uniongyrchol â'i threftadaeth ddiwylliannol a'i hamgylchedd, er enghraifft gwyliau celfyddydol, Eisteddfodau, gwyliau cerdded a sawl sioe sir/amaethyddol. Er bod y rhain yn cael eu rheoli'n dda gan drefnwyr, gall effeithiau lleol gynnwys tagfeydd traffig. Bydd y PC yn parhau i gefnogi gweithgareddau o'r fath os gallant ddangos yn glir eu bod yn drefnus ac yn gynaliadwy, a bydd yn parhau i weithio'n agos gyda thimau digwyddiadau Cyngor Gwynedd a Chonwy i sicrhau eu llwyddiant.

Astudio

Mae amlygrwydd Eryri wrth hybu ein gwybodaeth o fyd natur yn parhau hyd heddiw. Mae'r ardal yn boblogaidd gyda sbectrwem eang o grwpiau addysgol o blant ysgol i addysg ôl-raddedig. Yn bennaf, mae'r grwpiau hyn yn astudio effeithiau rhewlifoedd ar y dirwedd a'i fflora a'i ffawna ac mae sylw cynyddol yn cael ei roi i drafnidiaeth, amaethyddiaeth a materion economaidd cymdeithasol gan gynnwys effeithiau hamdden awyr agored. Mae mwyafrif y grwpiau dibreswyl yn aros yn un o'r canolfannau astudio niferus sydd wedi'u lleoli o amgylch y Parc Cenedlaethol. Bydd safleoedd a ddefnyddir yn helaeth, megis Cwm Idwal, bob amser yn gofyn am fesurau rheoli ychwanegol i ddarparu ar gyfer y nifer uwch o ymwelwyr o'r sector hwn, a bydd y Parc Cenedlaethol yn gweithio mewn partneriaeth â rhanddeiliaid eraill i sicrhau bod y safle hwn yn cael ei reoli'n gynaliadwy.

Mae unrhyw negyddion o'r fath fel arfer yn cael eu gorbwysu gan yr amrywiaeth eang o fuddion a ddaw yn eu sgil o ran bodloni gofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol ac elfennau hyfforddi penodol y sector awyr agored, gan ddarparu dealltwriaeth a mwynhad pellach o'r PC ac mae'n un o ddibenion allweddol y PC.



Celf a ffotograffiaeth

Mae tirweddau, cymunedau a bywyd gwylt Eryri yn parhau i roi ysbrydoliaeth i artistiaid a ffotograffwyr fel y mae wedi'i wneud ers cenedlaethau. Mae mynediad da i gefn gwlad yn meithrin yr enw da hwn ac yn cryfhau'r ddealltwriaeth o Nodweddion Arbennig y PC.

Bydd yr ardaloedd hynny o ddefnydd uchel megis y rhai sydd â diddordeb arbennig mewn awyrennau sy'n hedfan yn isel (er enghraifft y Mach Loop) yn cael eu monitro i sicrhau nad yw eu gweithgareddau'n niweidiol nac yn andwyol i rinweddau arbennig y Parc Cenedlaethol.

Awyr Dywyll

Parc Cenedlaethol Eryri yw'r ail ardal yng Nghymru i gael ei dynodi fel a Gwarchodfa Awyr Dywyll Ryngwladol. Dim ond deuddeg o'r gwarchodfeydd hyn sydd yn y byd, ac ar noson glir yn Eryri gallwch weld y Llwybr Llaethog, yr holl brif gytserau, nifylau (cymylau llachar o nwy a llwch), sêr gwib a chomedau. Mae'r PC yn cydweithio gyda chymunedau lleol a'r Awdurdodau Lleol perthnasol i gynnal ansawdd yr awyr dywyll sydd gennym yn Eryri, yn ogystal â gwella ansawdd profiad awyr y nos trwy reoli goleuo'n well ac annog busnesau a phreswylfeydd preifat i ddefnyddio goleuadau allanol priodol o gwmpas eu heiddo. Yn ogystal, rydym yn gobeithio darparu cyfleoedd i berchnogion busnesau lleol elwa ar y dynodiad hwn.

Mae nifer o safleoedd yn cael eu datblygu i alluogi pobl i fynd allan i weld awyr y nos o fewn y PC, gyda gwybodaeth ychwanegol a ddarperir ar wefan y PC trwy fenter Partneriaeth Awyr Dywyll.





Adran 3 – Gweithredu, Monitro ac Adolygu

Cyfranogiad rhanddeiliaid

Fel partner arweiniol, bydd yr Awdurdod yn cydlynu ac yn goruchwyllo cynnydd. Bydd yn gwneud hynny drwy fonitro cynnydd yn erbyn y Camau Gweithredu tra'n cynnig atebion lle mae'r cynnydd yn ddiffygiol; adroddir ar y monitro yn y diweddariadau blynyddol o Gynllun Dyn y PC. Bydd camau gweithredu allweddol hefyd yn cael eu cynnwys yn y Rhaglen Waith Gorfforaethol flynyddol sy'n nodi amcanion lles corfforaethol yr Awdurdod.

Ni ellir gweithredu'r strategaeth hon ar wahân; bydd gofyn i lawer o sefydliadau gydweithredu a helpu i gyflawni'r Nodau a'r Camau Gweithredu Strategol sydd wedi'u cynnwys yn y ddogfen.

Er mwyn cyflawni'r camau gweithredu a sefydlwyd yn y Strategaeth hon, rhaid i'r Awdurdod gydweithio â phartneriaid o'r sectorau cyhoeddus, preifat a gwirfoddol a bydd gweithio gyda phartneriaethau sefydledig sy'n ymwneud â mynediad i gefn gwlad, mentrau trafndiaeth gynaliadwy, twristiaeth a datblygu economaidd yn hollbwysig.

Mae partneriaethau allweddol eraill yn cynnwys tîrfeddianwyr, cynghorau cymuned lleol, ein hawdurdodau lleol priodol - Cyngor Sir Gwynedd a Chyngor Bwrdeistref Conwy, yn bennaf yn eu rolau priodol fel awdurdodau priffyrdd gyda chyfrifoldeb cyffredinol am gynhyrchu eu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy priodol. APCE yw'r awdurdod cyfrifol ar gyfer tir mynediad CGHT a bydd yn parhau i weithio gyda'n Fforymau Mynediad Lleol ar faterion mynediad a pholisïau ar draws y parc.



© Hawiirafrant y Goron Croeso Cymru
© Crown Copyright Visit Wales

Drwy wneud hynny, bydd Eryri a'r rhanbarth ehangach yn elwa o ddull cydlynol a strategol o ddatblygu a rheoli hamdden, gan ganiatáu ar gyfer twf priodol a chynaliadwy o fewn y sector. Bydd gweithio mewn partneriaeth hefyd yn gwella darpariaeth gwasanaeth ac yn rhoi mwy o werth am arian.

Mae'r sector hamdden yn Eryri yn elwa o sawl partneriaeth effeithiol, megis Fforymau Mynediad Lleol Gogledd a De Eryri, Partneriaeth Awyr Agored Gogledd Cymru, a Phartneriaeth Yr Wyddfa. Mae'r diwydiant hamdden awyr agored hefyd yn cael ei gynrychioli'n dda gan sefydliadau fel Eryri Bywiol. Cynrychiolir diddordebau diwylliannol trwy nifer o sefydliadau hanes lleol a diwylliannol, Cadw, a chymdeithasau masnach twristiaeth. Yn unol â hynny, ni ystyrir bod angen sefydlu fforwm neu bartneriaeth newydd ar hyn o bryd i roi'r camau gweithredu a sefydlwyd yn y strategaeth hon ar waith. Yn ogystal, mae Eryri yn cael ei gwasanaethu gan ddwy Bartneriaeth Twristiaeth a grwpiau twristiaeth eraill sydd â chysylltiadau uniongyrchol â llawer o'r nodau ac a all fod o gymorth i'w cyflawni.

Adolygu

Bydd y Strategaeth Hamdden yn cael ei hadolygu bob pum mlynedd; bydd yr adolygiad hwn yn dilyn diwygiadau a wnaed i Gynllun Rheolaeth y Parc Cenedlaethol a'r Adroddiad ar Gyflwr y Parc. Mae'r broses adolygu gylchol hon wedi'i chynllunio i sicrhau adolygiadau o'r Strategaeth a dogfennau perthnasol eraill yn y dyfodol. Trwy adolygu'r cynnwys bob pum mlynedd mae'r Awdurdod yn sicrhau y gall y Strategaeth fod yn hyblyg ac y gall ymateb i dueddiadau newydd a rhai sy'n dod i'r amlwg, yn ogystal â newidiadau cenedlaethol i ddeddfwriaeth a pholisi sy'n ymwneud â mynediad.

O ystyried bod y Strategaeth hon yn fan cychwyn, bydd diwygiadau yn y dyfodol yn elwa ar well tystiolaeth a chasglu data a fydd yn ei dro yn dylanwadu ar bolisiau'r dyfodol.

CYFARFOD	Pwyllgor Perfformiad ac Adnoddau
DYDDIAD	12fed Gorffennaf 2023
TEITL	ADRODDIAD BLYNYDDOL GWIRFODDOLI A LLES 2022
ADRODDIAD GAN	Swyddog Gwirfoddoli a Lles
PWRPAS	Cyflwyno yr adroddiad er mwyn diweddarau yr Awdurdod ar gynnydd yr Strategaeth Gwirfoddoli 2021 - 2026

1. CEFNDIR

Ym mis Ionawr 2020 cymeradwyodd Awdurdod y Parc Cenedlaethol y Strategaeth ar gyfer datblygu gwirfoddolwyr drost gyfnod 2021-2026 i'w mabwysiadu fel yr Strategaeth Wirfoddoli newydd ar gyfer y Parc Cenedlaethol gyda ffocws newydd ar lesiant. Mae hyn yn cyd-fynd ag awydd Llywodraeth Cymru i bobl gofleidio, ac elwa ar agweddau iechyd a lles cadarnhaol y gall Parciau Cenedlaethol eu darparu. Felly mae swyddogion wedi cynhyrchu adroddiad blynyddol i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r Awdurdod ar y cynnydd a wnaed o ran yr amcanion a amlinellir yn y strategaeth (atodiad 1).

Mae'r Strategaeth yn cyd-fynd â chanlyniadau A5 a B1 Cynllun Eryri, wrth adrodd yn ôl i'r Rheolwraig Partneriaerhau drwy'r Cynllun Gweithred yn chwarterol, sy'n ymwneud â dibenion a dyletswydd statudol yr Awdurdol Parc Cenedlaethol.

2. ADRODDIAD CYNNYDD

Dechreuodd y gwaith ar yr adroddiad atodol yn Ionawr 2023. Mae'r adroddiad blynyddol wedi'i rannu'n 5 rhan, sy'n ymdrin â throsolwg o ddatblygiadau mewn cyfleoedd gwirfoddoli sef:

- Cynllun gwirfoddoli Caru Eryri
- Wardeiniaid Gwirfoddol ac yr Cynllun Ceidwad Ifanc
- Digwyddiadau llesiant,
- Defnydd o'r tramper a gwaith hyrwyddo yr llwybrau Mynediad i Bawb
- Diweddariadau manwl ar Ddangosyddion Perfformiad o'r Strategaeth Wirfoddoli,
- Datblygu ar yr cyfleoedd ac digwyddiadau â sefydlwyd yn 2022 gyda engreiffiau o'r gwaith sydd wedi'i drefnu ar gyfer yr flwyddyn canlynol.

3. CAMAU NESAF

Mae'r adroddiad bellach mewn cyfnod lle ofynnir am farn yr aelodau a chroesawir adborth ar yr adroddiad i'w drafod yn y pwyllgor. Bydd unrhyw argymhelliad pellach gan y gweithgor yn cael ei weithredu yn yr adroddiad fel bo'r angen.

ARGYMELLION

I archwilio a thrafod yr adroddiad blynyddol.

I'r Aelodau:

1. Gymeradwyo cynnwys adroddiad blynyddol 2022 a chynghori ar unrhyw nodau ac amcanion newydd i'r Strategaeth ar gyfer datblygu gwirfoddolwyr 2021 -2026

Atodiad 1: Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Lles 2022

ADRODDIAD BLYNYDDOL GWIRFODDOLI A LLES 2022

EITEM RHIF 16 - ATODIAD 1





Adroddiad Blynyddol Gwirfoddoli a Lles

1 Gwirfoddoli

1.1	Caru Eryri
1.2	Wardeiniaid Gwirfoddol
1.3	Ceidwaid Ifanc
1.4	Gwirfoddolwyr Awyr Dywyll
1.5	Digwyddiadau Corfforaethol
1.6	Dug Caeredin/ Grwpiau Coleg
1.7	Yr Ysgwrn
1.8	Staff yn Gwirfoddoli

2 Lles

2.1	Teithiau Cerdded Meddylgarwch
2.2	Yoga Awyr Agored
2.3	Ysgol Goedwig
2.4	Cefnogi Ymwelwyr o'r Wcráin
2.5	Digwyddiadau Lles Staff

3 Tramper

3.1	Archebion a Lleoliadau
3.2	Gwaith Hyrwyddo

4 Diweddariad ar Ddangosyddion Perfformiad

5 Beth sydd i ddod yn 2023



1- Gwirfoddoli

1.1 - Caru Eryri

Ystadegau Allweddol 2022:

105 o ddiwrnodau yn Gofalu am Eryri

2640 o oriau gwirfoddoli

87 o wirfoddolwyr

Cyfanswm bagiau o sbwriel: 438

Cyfanswm pwysau: 970kg

Gwnaeth tîm Caru Eryri waith rheolaeth ymwelwyr pwysig ar hyd y llwybrau mwyaf poblogaidd gan roi cefnogaeth i'r adran Wardeinio ar y ddaear drwy gynghori'r cyhoedd a chadw'r llwybrau a meysydd parcio heb sbwriel. Roedd y llwybrau yn cynnwys Llwybr Llanberis, Llwybr Watkin, Rhyd Ddu a Llwybr Cwellyn, Llyn Dinas ac Aberglaslyn, Capel Curig, Ogwen a Llyn Tegid. Roedd shifftiau rheolaidd ar ddyddiau Gwener, Sadwrn a Sul ac y cynnal a chadw llwybrau ar ddyddiau Mercher.


Ymgyrchoedd Cenedlaethol: Yn ystod Gwanwyn Glân Cymru 2022, wedi ei drefnu mewn partneriaeth a Cadwch Gymru'n Daclus, daeth 18 o wirfoddolwyr i batrolio pedwar prif lwybr yr Wyddfa i'r copa i glirio'r mynydd cyn y tymor prysur. Casglwyd 106kg o sbwriel ar y diwrnod yma. Dyma'r diwrnod casglu sbwriel cyntaf y tymor. Y diwrnod casglu sbwriel olaf y tymor oedd y Real 3 Peaks Challenge a daeth 16 o wirfoddolwyr i gymryd rhan i gasglu 45kg o sbwriel oddi ar y mynydd.

Crëwyd cyfrifon cyfryngau cymdeithasol i brosiect Caru Eryri ar ddechrau 2022 i ddenu mwy o gyhoeddusrwydd i'r cynllun er mwyn cynyddu cyfleoedd recriwtio, ac i rannu negeseuon pwysig â'r cyhoedd. Roedd y negeseuon hyn yn rhoi pwyslais ar bwysigrwydd mynd a sbwriel gartref, y cod cefn gwlad, a rhagarchebu parcio a lle i aros. Y cyrhaeddiad mwyaf i'r negeseuon yma oedd 217 mil. Ar y dudalen Facebook cyfanswm nifer o bobl oedd wedi hoffi oedd 267, gyda chyrraeddiad mwyaf o 5.6 mil, Mae gan y dudalen Instagram 276 o ddilynwyr. Y dudalen Trydar yw'r lleiaf poblogaidd gyda chyfanswm o 37 o ddilynwyr.



Age & gender

*Graff o Facebook



Cynyddodd y prosiect ei gysylltiad ag arweinwyr mynydd lleol drwy ddefnyddio cyllideb y prosiect i gyflogi pum arweinydd profiadol i arwain grwpiau o wirfoddolwyr. Roedd yr arweinwyr mynydd yn cael eu blaenoriaethu dros staff prosiect i arwain grwpiau'r bartneriaeth eleni er mwyn cynyddu capasiti staff ar brosiectau gwirfoddoli eraill. Roedd hyn yn caniatáu mwy o gyfleoedd gwirfoddoli.


Cynigiwyd y cyfle i wirfoddolwyr gymryd rhan mewn cwrs cymorth cyntaf. Cynhaliwyd un cwrs yn y Bala ym mis Mai ac un ym Metws y Coed ym mis Gorffennaf. Cwblhaodd 17 o wirfoddolwyr y cwrs a bellach maent wedi cymhwyso mewn cymorth cyntaf.

Ar ddechrau'r tymor cynhaliwyd tri sesiwn Awyr Agored ar yr 2^{il} o Ebrill, 4^{ydd} o Fai a'r 9^{fed} o Fehefin. Dau yn Ogwen ac un ym Metws y Coed. Roedd y sesiynau yma'n cael eu cynnig i wirfoddolwyr newydd ac i wirfoddolwyr profiadol i'w diweddarau ar beth yr oedd y cynllun Caru Eryri, a beth i'w ddisgwyl wrth ddod allan i wirfoddoli gyda ni, tips ar ymgysylltu gyda'r cyhoedd a sut y mae'r Parc Cenedlaethol yn cael ei reoli a'r heriau y mae'n ei wynebu. Roedd y sesiynau yma'n cael eu cynnal gan Mike Raine ac roedd yn rhannu ei wybodaeth eang o rywogaethau a chynefinoedd arbennig gyda'r gwirfoddolwyr. Roedd yr hyfforddiant yma'n ddewisol a daeth 23 o wirfoddolwyr i gymryd rhan. Mae adnoddau hyfforddiant eraill ar gael i'r gwirfoddolwyr i'w gweld ar-lein ar Better Impact cyn iddynt fynychu shiftt Caru Eryri.

Adborth Gwirfoddolwyr Caru Eryri

Sut glywsoch chi am gynllun gwirfoddoli Caru Eryri? How did you hear about the Caru Eryri / Care for Snowdonia volunteer scheme?


Answered: 27 Skipped: 0



ANSWER CHOICES	RESPONSES
Wedi cymryd rhan yng nghynllun gwirfoddoli yn 2020/2021. Involved in the volunteer scheme in 2020/2021.	48.15% 13
Cyfryngau Cymdeithasol Social media	11.11% 3
Gwefan/ rhestr bostio Cymdeithas Eryri Snowdonia Society website/ mailing list	25.93% 7
Gwefan Parc Cenedlaethol Eryri National Park Authority website	3.70% 1
Ar lafar Word of mouth	3.70% 1
Poster Poster	3.70% 1
Arall (Nodwch os gwelwch yn dda) Other (please specify)	3.70% 1
TOTAL	27

Oedd y broses cofrestru'n hawdd? Was the sign-up process straightforward?

Answered: 27 Skipped: 0




ANSWER CHOICES	RESPONSES
Oedd Yes	85.19% 23
Nac oedd (rhowch wybod i ni pa rhan roedd yn anodd i chi) No (please let us know what you found difficult)	14.81% 4
Total Respondents: 27	

Adborth Gwirfoddolwyr Caru Eryri


Pa agwedd ar nodau Caru Eryri oedd bwysicaf i chi? Which aspect of Caru Eryri's aims were most important to you?

Answered: 27 Skipped: 0



A fydddech chi'n ystyried gwirfoddoli i Caru Eryri eto'r flwyddyn nesaf? Would you consider volunteering for Caru Eryri again next year?

Answered: 27 Skipped: 0



ANSWER CHOICES	RESPONSES
Byswn/Yes	96.30% 26
Na fyswn (pam ddim?)/No	3.70% 1
Total Respondents: 27	



I ddangos ein gwerthfawrogiad i'r gwirfoddolwyr, cynhaliwyd nifer o wahanol ddigwyddiadau yn arbennig ar eu cyfer, am ddim, roedd y rhain yn cynnwys:

5^{ed} o Hydref	Cyfeiriannu heibio'r llwybr gyda Mike Raine (mynychodd 5 o bobl)
6^{ed} o Hydref	taith o amgylch canolfan achub Mynydd (mynychodd 6 o bobl)
11^{eg} o Hydref	Taith a Sgwrs ar Ffyngau gyda Cynan Jones (mynychodd 8 o bobl)
17^{eg} o Hydref	Rhaeadrau, Coedlannau brodorol a Drylliad Awyren yng Ngogledd y Carneddau (mynychodd 4 o bobl)
20^{fed} o Hydref	Taith Gorffennol Diwydiannol yr Wyddfa gyda Keith Hulse (mynychodd 5 o bobl)
22^{ain} o Hydref	Taith yr Ysgwrn (mynychodd 3 o bobl)
23^{ain} o Hydref	Taith Natur yn Eryri gyda Mike Raine – Rhinog Fawr (mynychodd 8 o bobl)
28^{ain} o Hydref	Noson Ddathlu a Diolch Gofalu am Eryri (mynychodd 21 o bobl)

Ar y digwyddiad o ddiolch, noson o ddathlu yng Nghlwb Rygbi Bethesda, rhoddwyd mygiau o waith llaw oedd wedi eu gwneud yn arbennig ar gyfer yr achlysur a phecyn o gardiau chwarae ar y thema natur i'r gwirfoddolwyr.



1.2 - Wardeniaid Gwirfoddol

Mae Wardeiniaid Gwirfoddol yr Wyddfa wedi gwneud gwahaniaeth positif iawn unwaith eto yn nhermau patrolio'r llwybrau. Y tymor yma mae yna bresenoldeb warden wedi bod ar yr Wyddfa ar 77 o ddyddiau. Mae 36 o wardeiniaid gwirfoddol wedi gwirfoddoli ac wedi gwneud cyfanswm o 272 o shifftiau. Mae hyn yn gyfanswm o 1600+ o oriau gwirfoddol, gan lenwi tua 300 bag o sbwriel, ac wedi bod o gymorth i dros 3000 o bobl.

Yn 2022 am y tro cyntaf, cafodd wardeniaid gwirfoddol eu recriwtio i gynorthwyo'r wardeiniaid ar Gader Idris. Cafodd 11 o wirfoddolwyr eu recriwtio yn arbennig ar gyfer y rôl hon. Cwblhawyd cyfanswm o 35 shifft, sy'n gyfanswm o 220 o oriau gwirfoddoli.





1.3- Ceidwaid Ifanc

Gyda phenodiad Swyddog Pobl Ifanc newydd daeth dychweliad Cynllun Ceidwaid Ifanc. Cynhaliwyd 6 sesiwn ym 2022 oedd yn dilyn y drefn draddodiadol o dasg grŵp cadwraeth yn y bore ac yna gweithgareddau antur yn y prynhawn. Bu i 13 o geidwaid ifanc gymryd rhan yn y cynllun drwy ddysgu sgiliau newydd a gwybodaeth am y Parc Cenedlaethol ac adeiladu hyder yn yr awyr agored. Roedd y dasg cadwraeth yn cynnwys casglu sbwriel, rheolaeth coedwigoedd, a phlannu coed gydag amrywiaeth o weithgareddau fel dringo, ceufadu, a cherdded ceunentydd.

1.4 - Gwirfoddolwyr Awyr Dywyll

Yn dilyn llwyddiant recriwtio gwirfoddolwyr i helpu monitro'r awyr dywyll, gwahoddwyd y gwirfoddolwyr i gymryd rhan unwaith eto yn ystod y tymor awyr dywyll. Roedd nifer yn ei gweld yn anodd cymryd rhan eleni oherwydd tywydd garw, ond hefyd yr anghyfleustra o orfod teithio i'r pencadlys yn ystod oriau swyddfa i nôl yr SQM (Mesurydd Ansawdd yr Awyr). Cawsom, fodd bynnag cafwydd 2 ddarlleniad gan wirfoddolwr ifanc oedd wedi gwneud cais i astudio peirianeg awyrfod, a phrofodd y cyfle yma i fod o fudd i'w cais.

1.5 - Digwyddiadau Corfforaethol

Rydym yn aml yn cael ymholiadau gan fusnesau neu sefydliadau yn gofyn am gyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer eu tîm. Yn enwedig wedi'r strwythur newydd o weithio a phobl yn gweithio o gartref, mae hyn yn rhoi cyfle i sefydliadau i ddod â phawb at ei gilydd i roi hwb i moral a meithrin tîm, yn ogystal â gwneud rhywbeth da i'r amgylchedd. Mae'r tabl isod yn dangos y gwaith y mae grwpiau corfforaethol wedi bod ynghlwm â nhw yn ystod 2022.

Dyddiad	Cwmni	Nifer y Gwirfoddolwyr	Gweithgaredd	Lleoliad
22 Maw	Costain Consulting	17	Torri eithin	Anafon, Abergwyngregyn
23 Maw	Costain Consulting	18	Plannu coed (740 o goed)	Garnedd Wen, Conwy
30 Maw	Sykes	12	Plannu coed	Llechwedd Hen, Frongoch
23 Meh	Sykes	6	Rhododendron	Bryn Gwynant
2 Medi	Sykes	4	Torri Conwydd	Parc Mine
17 Tach	Finastra	11	Plannu Coed	Gwern Gof Isaf
01 Rhag	Finastra	8	Plannu Coed	Gwern Gof Isaf

1.6- Dug Caeredin/ Grwpiau Coleg

Rydym yn cadw perthynas dda gyda Rhyd y Creuau, Field Studies Council fel ein prif gyswllt ar gyfer cynnig cyfleoedd gwirfoddoli i grwpiau myfyrwyr Dug Caeredin. Yn ogystal â'r grŵp Addysg Chwaraeon ac Awyr Agored sydd yn rhan o goleg Llandrillo gyda hyd at 14 o fyfyrwyr ar y cwrs bob blwyddyn. Mae Coleg Myddleton, Dinbych hefyd yn mynychu dyddiau gwirfoddoli yn rheolaidd fel rhan o'u cwricwlwm. Mae'r myfyrwyr wedi bod yn gweithio ar safle mwynglawdd Parc, yng Nghoed Gwydir, yn helpu i dynnu'r coed conwydd fel bod coed cynhenid yn tyfu ac i warchod y cen prin sydd yn tyfu yno. Mae cynnydd mawr wedi digwydd ar y safle ac mae wedi bod yn ddefnyddiol iawn i gael safle lle mae grwpiau yn gallu dychwelyd i weld y gwelliant sydd o'u cyfraniad.





1.1 - Yr Ysgwrn

Cynhaliwyd ffair wirfoddoli yn yr Ysgwrn ar y 9fed o Ebrill. Diwrnod agored i annog pobl i alw heibio os oedd ganddynt ddi-ddordeb derbyn mwy o wybodaeth am gyfleoedd gwirfoddoli yma. Fodd bynnag, roedd hefyd yn gyfle da i'r gwirfoddolwyr profiadol ddychwelyd i gael dal i fyny wedi'r safle gau dros y gaeaf. Cyfrannodd 10 gwirfoddolwr i redeg yr Ysgwrn eleni drwy groesawu grwpiau, helpu yn y caffi, a rhoi taith o'r tŷ fferm.

1.6- Staff Volunteering

Gan fod staff yn cael 2 ddiwrnod llawn i wirfoddoli bob blwyddyn, cafodd y staff i gyd wahoddiad i gymryd rhan mewn 2 ddiwrnod gwirfoddoli yn arbennig i staff yn 2022. Roedd y digwyddiadau yn cynnwys diwrnod plannu coed yn Nhrawsfynydd ar y 27 o Ebrill (daeth 7 aelod o staff), a diwrnod cloddio arfau neolithig ar y Carneddau ar y 3ydd o Hydref (daeth 13 aelod o staff). Gwnaeth rhai aelodau staff gymryd rhan mewn monitro niferoedd ymwelwyr ar yr Wyddfa a chynnal arolwg ymwelwyr ym Metws y Coed, Llyn Tegid, Aberdyfi a Phen y Pass i waith ymchwil ar lonyddwch i Brifysgol Caerwynt.



1.7- Lles

Cafodd y rhaglen Dyddiau Llesiant eu ymestyn yn 2022 i gynnal mwy o ddigwyddiadau mewn nifer o leoliadau ar draws y Parc Cenedlaethol, Cafwyd sesiynau ysgol goedwig ychwanegol yng nghoedwigoedd y Parc Cenedlaethol fel bod plant yn cael eu cynnwys yn y rhaglen. Roedd y digwyddiadau i gyd am ddim a gellid archebu lle drwy'r wefan. Roeddynt yn cael eu hysbysebu yn y cylchlythyr, platfformau cyfryngau cymdeithasol a thrwy Beth am Symud Gogledd Cymru. Mae'r tablau isod yn dangos sut mae poblogrwydd y digwyddiadau yma wedi cynnal.



2.1 – Teithiau Cerdded Meddylgarwch

Cost ymarferwr meddylgarwch £700

Mai	Cwm Idwal	6 mynychwr
Mehefin	Craig y Ddinas	5 mynychwr
Gorffennaf	Llwybr Cynwch	10 mynychwr
Awst	Cwm Idwal	10 mynychwr
Medi	Taith Jiwbilî	9 mynychwr
Hydref	Bron Aber	8 archeb (canslo oherwydd tywydd garw)
Tachwedd	Betws y Coed	9 mynychwr
Rhagfyr	Beddgelert	12 mynychwr

2.2 – Yoga Awyr Agored

Cost hyfforddwr yoga £340

Mehefin	Llyn Mair	7 mynychwr
Gorffennaf	Traeth Harlech	15 mynychwr
Awst	Llyn Mair	10 mynychwr
Medi	Traeth Harlech	12 mynychwr

2.3 – Ysgol Goedwig

Cost sesiwn i gyflogi athrawon ysgol goedwig £625

Mai	Coed Bryn Berthynau, Capel Curig	6 mynychwr
Mehefin	Coed Hafod, Llanrwst	11 mynychwr
Gorffennaf	Coed Farchynys, Bontddu	15 mynychwr
Medi	Coed Llyn Mair, Maentwrog	9 mynychwr



2.4 – Cefnogi Ymwelwyr o'r Wcráin

Ar ddiwedd y flwyddyn buom yn gweithio gyda dau sefydliad sydd yn cefnogi ymwelwyr o'r Wcráin yng Ngogledd Cymru, sef Pobl i Bobl wedi eu lleoli ym Mangor a chydlynedd ailsefydlu i Gyngor Sir Conwy. Rydym wedi cynnal digwyddiad arbennig o groeso ym Mhlas Tan y Bwlch a theithiau cerdded misol yn y Parc Cenedlaethol yn arbennig ar gyfer y grŵp.



2.5 – Digwyddiadau Lles i Staff

Trefnwyd Taith Meddylgarwch arbennig i'r Tîm Ymgysylltu ddod at ei gilydd ym mis Mai. Byddai'n bleser trefnu digwyddiadau o'r fath i adrannau eraill yr Awdurdod.

3- Tramper

Gyda'r wefan newydd daeth system archebu ar-lein ar gyfer llogi'r tramper oedd yn gwneud y broses yn llawr mwy llyfn i'r cwsmer ac yn haws i'w reoli. Gall defnyddwyr wneud archeb i logi'r tramper ar gyfer unrhyw lwybr mynediad i bawb sydd wedi ei labelu'n addas i tramper ar y wefan.

3.1 – Llogi a Lleoliadau

Yn ogystal â'r archebion sydd yn y tabl, mae 1085 Adventures ym Meddgelert hefyd wedi derbyn dros 50 archebion i'r tramper, gyda thua 10 ohonynt yn ddefnyddwyr sy'n dychwelyd.



Dyddiad Llogi Tramper	Lleoliad
14 ^{eg} o Chwefror	Llwybr Mawddach
11 ^{eg} o Ebrill	Rhaeadr Fawr
13 ^{eg} o Ebrill	Llwybr Mawddach
14 ^{eg} o Ebrill	Llwybr y Mwynwyr
15 ^{fed} o Ebrill	Llwybr y Mwynwyr
21 ^{ain} o Ebrill	Llwybr Mawddach
3 ^{ydd} o Fai	Moelyci
6 ^{ed} o Fai	Llyn Mair
19 ^{eg} o Fai	Llwybr y Mwynwyr
21 ^{ain} o Fai	Rhaeadr Fawr
24 ^{an} o Fai	Lôn Gwyrfa
26 ^{ain} o Fai	Rhaeadr Fawr
31 ^{ain} o Fai	Llwybr y Mwynwyr
1 ^{af} o Fehefin	Llwybr y Mwynwyr
6 ^{ed} o Fehefin	Rhaeadr Fawr
18 ^{fed} o Fehefin	Llwybr Mawddach
24 ^{ain} o Fehefin	Llwybr y Mwynwyr
4 ^{ydd} o Orffennaf	Rhaeadr Fawr
8 ^{fed} o Orffennaf	Lôn Gwyrfa
11 ^{eg} o Orffennaf	Llwybr Mawddach
14 ^{eg} o Orffennaf	Llwybr y Mwynwyr
20 ^{fed} o Orffennaf	Rhaeadr Fawr
29 ^{ain} o Orffennaf	Lôn Gwyrfa
8 ^{fed} o Awst	Lôn Gwyrfa
18 ^{fed} o Awst	Lôn Gwyrfa
20 ^{fed} o Awst	Lôn Gwyrfa
22 ^{ain} o Awst	Llwybr Mawddach
25 ^{ain} o Awst	Rhaeadr Fawr
31 ^{ain} o Awst	Lôn Gwyrfa
31 ^{ain} o Awst	Llwybr Mawddach
2 ^{il} o Fedi	Lôn Gwyrfa
13 ^{eg} o Fedi	Lôn Gwyrfa
23 ^{ain} o Fedi	Llwybr Mawddach
26 ^{ain} o Fedi	Llwybr Mawddach
17 ^{eg} o Hydref	Lôn Gwyrfa



3.2 – Gwaith Hyrwyddol y Tramper

Roedd y Rali Ice Trike a gynhaliwyd yn y Bala yn gyfle perffaith i ddangos beth sydd gan Eryri ei gynnig i bobl sydd ag anghenion mynediad ychwanegol.

Darparodd yr Awdurdod eu cerbydau symudedd ar gyfer y digwyddiad oedd yn cynnwys y Trampers a beic newydd 4 olwyn sy'n addas ar gyfer pob math o dir tra hefyd yn hyrwyddo'r buddion a'r cyfleoedd sydd ar gael ar nifer o lwybrau mynediad i bawb ar draws y Parc Cenedlaethol.

Byddwn yn parhau i gydweithio'n agos gyda'r trefnwyr yn y dyfodol i godi ymwybyddiaeth a dangos y gefnogaeth sydd ar gael i bobl gydag anableddau i gael mynediad a mwynhau'r awyr agored.

Yn ystod yr hydref, bu i inni gomisiynu gwneuthurwr ffilmiau, Film Up High gan weithio ar greu cyfres o fideos hyrwyddol i godi ymwybyddiaeth am y llwybrau mynediad i bawb. Gellir gweld y ffilmiau drwy'r dolenni isod, y cyfrinair ar eu cyfer yw SNPA:

<https://vimeo.com/772061551>

<https://vimeo.com/772062731>

<https://vimeo.com/772064287>

<https://vimeo.com/772065899>

<https://vimeo.com/772067318>

<https://vimeo.com/772069303>

<https://vimeo.com/772071369>

<https://vimeo.com/772073295>

4 – Diweddariadau Dangosyddion Perfformiad

Tabl o'r Strategaeth Gwirfoddoli

Gweithred	Metrig	Sut y byddwn yn mesur	Pwy fydd yn casglu'r data a sut y bydd yn cael ei adrodd	Targed 2022	Canlyniad 2022	Targedau ac argymhellion 2023
Creu cynllun cyfleoedd a chefnogaeth sydd yn galluogi pobl ifanc, anabl, rhai sy'n cael eu hallgau'n gymdeithasol a rhai sydd yn cael eu tangynrychioli i wirfoddoli.	Nifer y gwirfoddolwyr (yn cynnwys ffigyrau penodol ar gyfer grwpiau targed)	System Better Impact ac adroddiadau o brosiectau	Swyddog Gwirfoddoli a LleS	Addasu'r ffurflen gais gwirfoddoli i gynnwys holiadur ar y categorïau hyn. <u>Nifer y gwirfoddolwyr:</u> Pobl ifanc: 10 Pobl sy'n cael eu hallgau'n gymdeithasol a'u tangynrychioli:10	<u>Nifer y gwirfoddolwyr:</u> Demograffig oedran gwirfoddoli: Plant (grwpiau ysgol): 132 Pobl ifanc (14-24): 87 25-50: 74 50+: 115 Nid oes data ar gael ar gyfer nodweddion gwarchodeig eraill	<u>Nifer y gwirfoddolwyr:</u> Pobl ifanc: 10 Pobl anabl: 10 Pobl sy'n cael eu hallgau'n gymdeithasol a thangynrychioli: 10
Penodi gwirfoddolwyr i rôl benodol a darparu hyfforddiant yn ogystal â digwyddiadau gwirfoddoli ar gyfer pobl sydd methu ymrwymo i weithgareddau rheolaidd.	Nifer y gwirfoddolwyr un- tro a rhai sy'n aml-wirfoddoli	Adroddiad ar shifftiau gwirfoddoli Caru Eryri o Better Impact	Swyddog Gwirfoddoli a Lles	Nifer y Gwirfoddolwyr Caru Eryri:80 Nifer y Wardeiniaid Gwirfoddol yr Wyddfa: 35	Nifer y Gwirfoddolwyr Caru Eryri:84 Nifer y Wardeiniaid Gwirfoddol yr Wyddfa: 35 Nifer y Wardeinaid Gwirfoddol Cader Idris: 11	Nifer y Gwirfoddolwyr Caru Eryri: 50 Nifer y Wardeiniaid Gwirfoddol yr Wyddfa: 50
Sefydlu rolau gwirfoddoli newydd yn ardaloedd eraill y PC ar wahân i ardal yr Wyddfa e.e. Wardeniaid Gwirfoddol De'r Parc. Recriwtio i ddechrau yn 2021	Nifer y dyddiau o wirfoddoli a gwirfoddolwyr fesul lleoliad daearegol eang	Wardeinaid gwirfoddol wedi eu recriwtio a derbyn hyfforddiant cyn i dymor 2022 ddechrau	Swyddog Gwirfoddoli a Lles a Phrif Wardeinaid.	Nifer o ddyddiau gwirfoddoli: Cader Idris: pob penwythnos a gwyl banc o Ebrill i Fedi Nifer y ceisiadau ar gyfer Warden Gwirfoddol y De 2022: 10	Cwblhawyd. Wardeiniaid Gwirfoddol Cader Idris Nifer o ddyddiau gwirfoddoli: 35 (202 oriau gwirfoddoli)	Cadw'r nifer o Wardeinaid Gwirfoddol Cader Idris

Ddatblygu mwy o grwpiau gwirfoddoli mewnol ar gyfer: Bioamrywiaeth, Awyr Dywyll, Prosiectau Cadwraeth (LIFE, Carneddau) a phrosiectau eraill yn y dyfodol	Nifer o ddyddiau gwirfoddoli fesul adran/prosiect	System Better Impact ac adroddiad gan y prosiectau	Swyddog Gwirfoddoli a Lles a staff prosiectau	Targed newydd: sesiynau garddio misol ym Mhlas Tan y Bwlch gyda thîm rheolaidd o 6-10 gwirfoddolwr. Nifer y gwirfoddolwyr Awyr Dywyll: 40 Nifer y dyddiau gwirfoddoli Bioamrywiaeth a Choedwigoedd: Nifer y dyddiau gwirfoddoli prosiect y Carneddau: Nifer y dyddiau gwirfoddoli Prosiect LIFE:	Nifer y gwirfoddolwyr Awyr Dywyll: 2 Nifer y dyddiau gwirfoddoli Rheolaeth Coedwigoedd: 8 Nifer y dyddiau gwirfoddoli cynnal a chadw llwybrau: 8 Nifer y dyddiau gwirfoddoli Prosiect y Carneddau: 48 Nifer y dyddiau gwirfoddoli prosiect LIFE: 2 Nifer y dyddiau gwirfoddoli Mawndiroedd:	Mae'r targed i gael sesiynau garddio ym Mhlas Tan y Blwch yn her barhaus. Parhau i gefnogi swyddogion i gydlynu cyfleoedd gwirfoddoli o ddiddordeb amrywiol.
Bydd prosiectau megis yr Ysgwrn yn dyblu'r nifer o wirfoddolwyr o 15 i 30 drwy gynnal ffeiriau gwirfoddoli a boreau coffi ar y safle i ledaenu'r gair, a hefyd yn hysbysebu rolau ar wefan Gwirfoddoli Cymru ac mewn papurau lleol.	Nifer o ddyddiau gwirfoddoli fesul adran/prosiect	Adroddiad gan staff yr Ysgwrn	Swyddog Gwirfoddoli a Lles & Rheolwr Treftadaeth Ddiwylliannol	Nifer y gwirfoddolwyr Yr Ysgwrn: 1-12 <i>Cynnal ffair wirfoddoli yn yr Ysgwrn ar y 9fed o Ebrill cyn i'r tymor ddechrau i helpu recriwio.</i>	Nifer gwirfoddolwyr Yr Ysgwrn:10	Parhau i recriwio gwirfoddolwyr drwy gynnal boreau coffi rheolaidd ar y safle a hysbysebu'r rôl yn fwy eang.
Parhau i gynnig Cynllun Ceidwad Ifanc i bobl ifanc rhwng 14-16 oed a darparu cefnogaeth a chynghor ar draws y sefydliad i alluogi swyddogion i drefnu a rheoli cyfleoedd gwirfoddoli. Bydd prosiectau megis yr Ysgwrn yn dyblu'r nifer o wirfoddolwyr o 15 i 30 drwy gynnal ffeiriau gwirfoddoli a boreau coffi ar y safle i ledaenu'r gair, a hefyd yn hysbysebu rolau ar wefan Gwirfoddoli Cymru ac mewn papurau lleol.	Nifer y gwirfoddolwyr a dyddiau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol.	Adroddiad gan y Swyddog Pobl Ifanc	Swyddog Gwirfoddoli a Lles, Warden Ardal, Swyddog Pobl Ifanc.	Bydd Swyddog Ieuentid yn ei swydd. Bydd 12 o geidwaid ifanc yn cael cynnig y cyfle i fod yn rhan o'r cynllun.	Nifer y Cediwaid Ifanc: 13 Nifer y dyddiau Ceidwaid Ifanc: 6	Parhau i gefnogi'r Swyddog Pobl Ifanc a darparu cyfleoedd gwirfoddoli amrywiol i'r Ceidwaid Ifanc.

Drwy hyrwyddo gwirfoddoli i staff ac aelodau byddwn yn trefnu 2 ddiwrnod gwirfoddoli i staff ac aelodau pob blwyddyn. Mae gan bob aelod o staff yr hawl i wirfoddoli hyd at 15 awr y flwyddyn i adrannau eraill o fewn yr Awdurdod.	Nifer y dyddiau gwirfoddoli staff	Adroddiad o nifer o ddyddiau gwirfoddoli staff	Swyddog Gwirfoddoli a Lles	Trefnu 2 ddigwyddiad gwirfoddoli yn arbennig i staff ac aelodau'r Parc Cenedlaethol i gymryd rhan.	Nifer y dyddiau gwirfoddoli staff: 2 Nifer y staff yn cymryd rhan: 20	Yn ogystal â threfnu dau ddiwrnod gwirfoddoli y flwyddyn, annog staff ac aelodau i gymryd rhan mewn cynlluniau gwirfoddoli fel Caru Eryri.
Datblygu ac annog gweithio gyda grwpiau corfforaethol noddedig ar brosiectau sydd yn gyfuddiannol. Mae gwirfoddoli corfforaethol yn faes gyda'r potensial o dwf sylweddol mewn gwirfoddoli ac ar gyfer cynhyrchu incwm. Bydd y cyllid yn ein caniatáu i ail fuddsoddi mewn gwirfoddoli gan y byddwn mewn gwell lle i ddarparu cyfarpar diogelu personol ac iwnniform i'n gwirfoddolwyr.	Nifer y gwirfoddolwyr yn cymryd rhan mewn dyddiau gwirfoddoli corfforaethol	Adroddiad o'r nifer o ddyddiau gwirfoddoli corfforaethol	Swyddog Gwirfoddoli a Lles	Nifer y gwirfoddolwyr corfforaethol: 80	Nifer y dyddiau gwirfoddoli corfforaethol: 7 Nifer y gwirfoddolwyr corfforaethol: 76 <i>Mae grwpiau corfforaethol yn gallu gwneud ymholiadau am ddiwrnod gwirfoddoli yn syth drwy'r wefan a rhoi rhoddion i gefnogi mentrau gwirfoddoli.</i>	.Nifer y gwirfoddolwyr corfforaethol: 80 Annog grwpiau mawr i dodd i wirfoddoli gyda ni am ddiwrnod i ymgymryd â gwaith cadwraeth sydd angen nifer o bobl.
Parhau i gydweithio gyda Cymdeithas Eryri, y Bartneriaeth Awyr Agored, ac eraill i annog mwy o wirfoddoli mewn cefnogaeth i bwrpasau'r Parc Cenedlaethol (a phartneriaid eraill fel sy'n briodol)	Adroddiad llafar ar gyflawni hyn fel rhan o'r adroddiad blynyddol		Swyddog Gwirfoddoli a Lles	<i>Parhau i gydweithio'n agos gyda'n partneriaid i ddarparu cyfleoedd gwirfoddoli ar draws y Parc Cenedlaethol.</i>	Mae gweithio mewn partneriaeth ar brosiect Caru Eryri yn annog perthynas dda gyda sefydliadau eraill sydd yn gweithio tuag at ganlyniadau tebyg.	Parhau'r gwaith yma, ac ehangu cyfleoedd gwirfoddoli yn ardaloedd De'r Parc drwy weithio gyda'r wardeniaid ardal a grwpiau lleol e.e. Coleg Meirion, Cwmni Nod Glas a Mantell Gwynedd
Sicrhau bod o leiaf dau ddiwrnod gwirfoddoli gyda Chymdeithas Eryri bob mis.	Nifer y dyddiau gwirfoddoli	Adroddiad gan Gymdeithas Eryri	Swyddog Gwirfoddoli a Lles	<i>Anelu i wneud o leiaf 6 diwrnod o wirfoddoli gyda Cymdeithas Eryri bob mis.</i>	Nifer y dyddiau gwirfoddoli: 15 Nifer y dyddiau Caru Eryri:105	Yn 2022, cynhaliwyd 10 diwrnod gwirfoddoli bob mis ar gyfartaledd mewn partneriaeth â Caru Eryri. <i>Mae gwaith yn parhau ar y targed yma ar gyfer 2023 gyda'r nod o gynnal 10 diwrnod gwaith y mis.</i>

Byddwn yn cydweithredu'n strategol gyda sefydliadau eraill sydd yn defnyddio gwirfoddolwyr cadwraeth yn Eryri er mwyn rhannu arfer dda, hyfforddiant ag ati.	Nifer y dyddiau gwirfoddoli	Adroddiad gan staff Cymdeithas Eryri	Swyddog Gwirfoddoli a Lles	Nifer y dyddiau gwirfoddoli gyda Cymdeithas Eryri	Nifer y dyddiau gwirfoddoli: 15 Nifer y dyddiau Caru Eryri: 105	Fel yr uchod, gydag ychwanegiad i roi mwy o sylw ar hyfforddiant yn enwedig i'r arweinydd gwirfoddoli i Caru Eryri.
Ceisio cyfleoedd gyda phartneriaid i gael dyddiau hyfforddiant achrededig i wella medrusrwydd gwirfoddolwyr.	Nifer o ddigwyddiadau hyfforddiant a'r nifer a hyfforddwyd	Adroddiad o Better Impact	Swyddog Gwirfoddoli a Lles	Nifer y digwyddiadau hyfforddiant: 12 Nifer o wirfoddolwyr a hyfforddwyd: 60	Nifer y digwyddiadau hyfforddiant: 6 Nifer o wirfoddolwyr a hyfforddwyd: 40 Yn cynnwys Hyfforddiant Cymorth Cyntaf a hyfforddiant Caru Eryri gan Mike Raine.	Parhau i gynnig cyrsiau cymorth cyntaf i wirfoddolwyr a cheisio am gyfleoedd eraill ar gyfer datblygiad pellach pan y bydd cyllideb yn caniatau.
Cynnig amrywiaeth o gyfleoedd gwirfoddoli ar draws y Parc Cenedlaethol- rhai am un diwrnod yn unig, ac eraill yn gofyn am fwy o ymrwymiad dros gyfnod o oriau bob mis gan wirfoddolwyr.	Nifer o wirfoddolwyr a dyddiau gwirfoddoli ar gyfer grwpiau targed penodol	Adroddiad o Better Impact	Swyddog Gwirfoddoli a Lles	Nifer o wirfoddolwyr: 150 Nifer o ddyddiau gwirfoddoli (shifftiau): 500	Nifer o wirfoddolwyr: 206 Nifer o ddyddiau gwirfoddoli: 485	Nifer o wirfoddolwyr: 250 Nifer o ddyddiau gwirfoddoli: 500
Cefnogi'r gwasanaeth Wardeinio yn eu defnydd o wirfoddolwyr	Nifer o ddyddiau gwirfoddoli fesul adran/prosiect a lleoliad daeryddol	Adroddiad ar oriau o SignUp	Swyddog Gwirfoddoli a Lles	Nifer o ddyddiau gwirfoddoli: Yr Wyddfa: 285 Cader Idris:110 <i>Cydweithio gyda'r gwasanaeth Wardeinio i gynnal dyddiau cynnal a chadw llwybrau fel rhan o gynllun Caru Eryri y tymor hwn.</i> <i>Bydd yn cynnwys 1 diwrnod cynnal a chadw llwybrau y mis.</i>	Nifer o ddyddiau gwirfoddoli: Yr Wyddfa: 272 (1600+ oriau gwirfoddol) Cader Idris: 35 (220 oriau gwirfoddol)	Parhau i gefnogi'r gwasanaeth Wardeinio yn eu defnydd o wirfoddolwyr drwy amserlennu dyddiau cynnal a chadw llwybrau rheolaidd yn ogystal â chynorthwyo gyda phrosiectau eraill fel yr angen. Wardeinaid i roi hyfforddiant ar Better Impact a shifftau Wardeinaid Gwirfoddol wdi eu hysbysebu ar y feddalwedd.
Wardeinaid Gwirfoddol i ymgymryd â mwy nag un rôl, os bosib yn cynorthwyo gyda gweithgareddau ymgysylltu fel arwain neu ôl farcio teithiau cerdded tywysiedig pan fo rhaglenni newydd mewn lle	Nifer o wirfoddolwyr fesul adran	Adroddiad o SignUp	Swyddog Gwirfoddoli a Lles	Nifer o Wardeinaid Gwirfoddol yr Wyddfa: 45 Nifer o Wardeinaid Gwirfoddol Cader Idris:10 Mae Wardeinaid Gwirfoddol yn dod yn arweinydd grŵp i wirfoddolwyr Caru Eryri.	Nifer o Wardeinaid Gwirfoddol yn arwain grwpiau gwirfoddol Caru Eryri: 3 Nifer o Wardeinaid Gwirfoddol yr Wyddfa: 35 Nifer o Wardeinaid Gwirfoddol Cader Idris: 11	Drwy ymgorffori Wardeinaid Gwirfoddol i Better Impact bydd yn eu hannog i gymryd rhan mewn cyfleoedd eraill.

Cynorthwyo gwirfoddolwyr hir-wasanaeth yn eu datblygiad personol fel cyflawni elfennau i'r Cymhwyster Safonau Cenedlaethol.	Nifer o ddigwyddiadau hyfforddiant a nifer a hyfforddwyd	Adroddiad o Better Impact	Swyddog Gwirfoddoli a Lles	Nifer y gwirfoddolwyr sydd wedi cwblhau hyfforddiant Caru Eryri: 80 Nifer y gwirfoddolwyr wedi cwblhau cwrs Cymorth Cyntaf: POB gwirfoddolwr Nid oes digon o arian yn y gyllideb i gynnig hyfforddiant Arweinydd Mynydd i wirfoddolwyr y tymor hwn.	Nifer o wirfoddolwyr wedi cwblhau hyfforddiant Caru Eryri: 24 Nifer o wirfoddolwyr wedi cwblhau cwrs Cymorth Cyntaf: 20 Ni gynigiwyd hyfforddiant Arweinydd Mynydd yn 2022.	Cadw mewn cysylltiad rheolaidd gyda gwirfoddolwyr hir wasanaeth i weld sut y gallwn gefnogi eu datblygiad personol. Nifer y gwirfoddolwyr wedi cwblhau cwrs Cymorth Cyntaf: 30
Defnyddio dulliau recriwtio effeithiol i sicrhau ein bod yn cyrraedd ystod eang o bobl. Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda Mantell Gwynedd, Cyngor gweithredu Gwirfoddol a grwpiau o ddiddordeb arbennig eraill.	Nifer y gwirfoddolwyr	Adroddiad o Better Impact	Swyddog Gwirfoddoli a Lles	Nifer y gwirfoddolwyr wedi cofrestru ar Better Impact: 450 Nifer o wirfoddolwyr uniongyrchol: 50	Nifer y gwirfoddolwyr wdi cofrestru ar Better Impact: 599 Mae'r holl wirfoddolwyr newydd bellach yn cofrestru'n uniongyrchol drwy Better Impact	Annog pob gwirfoddolwr sydd wedi cofrestru i gymryd rhan yn y cyfleoedd gwirfoddoli sydd ar gael.
Datblygu proses recriwtio a sefydlu cadarn. Bydd hyn yn cynnwys pecyn anwytho yn egluro pob agwedd o waith gwirfoddoli yn ogystal â chofrestru i'r cynllun Llysgenhadon.	Pecyn anwytho wedi ei ddatblygu. Mae gwirfoddolwr newydd a rhai sydd wedi eu sefydlu 'n barod wedi cael pecyn anwytho.	Adroddiad o Better Impact	Swyddog Gwirfoddoli a Lles	<i>Ar wefan newydd y Parc Cenedlaethol, bydd gwirfoddolwyr yn cael eu harwain yn syth i Better Impact. Bydd hefyd blwch ymholiadau ar gyfer unigolion, colegau a grwpiau corfforaethol.</i>	<i>Blwch ymholiadau ar wirfoddoli ar gael ar ywefan. Gwirfoddolwyr yn cael eu harwain i gofrestru i wirfoddoli dyddiau gwaith ar Better Impact. Pecynnau gwybodaeth yn cael eu hanfon i wirfoddolwyr gyda swyddi penodol.</i>	<i>Annog gwirfoddolwyr i weithio tuag at fod yn Lysgenhadon aur.</i>
Marchnata ein cyfleoedd gwirfoddoli drwy ddefnyddio'r dulliau canlynol: rhestru'r cyfleoedd sydd ar gael ar wefan Gwirfoddoli Cymru ac mewn canolfannau gwirfoddoli; cymryd mantais o ddigwyddiadau cyhoeddus i ennyn diddordeb i'r cyfleoedd gwirfoddoli; sefydlu tudalen 'cysylltu' ar y wefan newydd, gan roi gwybodaeth ar wirfoddoli gyda'r Awdurdod; rhannu lluniau o weithgareddau gwirfoddoli.	Nifer o wirfoddolwyr a dyddiau gwirfoddoli. Tudalen gwirfoddoli wedi ei sefydlu ar y wefan newydd.		Swyddog Gwirfoddoli a Lles	Parhau i ddefnyddio yr un dulliau recriwtio	Mynychu ffeiriau gwirfoddoli Mantell Gwynedd yn rheolaidd i hyrwyddo'r cyfleoedd gwirfoddoli yn y Parc Cenedlaethol. Canmol gwaith ein gwirfoddolwyr ar ein cyfryngau cymdeithasol	Parhau i ddefnyddio'r un dulliau recriwtio.

<p>Parhau i gynnwys diweddariadau rheolaidd a gwybodaeth ar wirfoddoli mewn erthyglau/ atodiadau mewn cyhoeddiadau ac adroddiadau, datganiadau i'r wasg, erthyglau yn dathlu a diolch i wirfoddolwyr, hysbysiadau a gwaith print mewn canolfannau gwybodaeth ac ati.</p>	<p>Nifer y gwirfoddolwr a dyddiau gwirfoddoli i grwpiau targed penodol</p>		<p>Swyddog Gwirfoddoli a Lles</p>	<p>Parhau i ddathlu ein gwirfoddolwyr anhygoel.</p>	<p>Gwerthfawrogiad o'n gwirfoddolwyr yn cael ei ddangos drwy gynnal digwyddiadau diolch ar ddiwedd y tymor ac mewn cyhoeddiadau.</p>	<p>Ethol 7 gwirfoddolwr i gymryd rhan yn yr Wythnos Gwirfoddoli ym mis Mehefin,</p>
<p>Rydym ar hyn o bryd yn defnyddio SignUp i gydlynu'r cyfleoedd gwirfoddoli i Wardeiniaid Gwirfoddol yr Wyddfa. Rydym wedi cyflwyno system rheoli gwirfoddoli ar-lein o'r enw Better Impact i'n gwirfoddolwyr Caru Eryri. Os yw hyn yn gweithio'n llwyddiannus drwy'r tymor byddwn yn edrych ar ddefnyddio'r feddalwedd i gydlynu cyfleoedd gwirfoddoli ar gyfer yr holl brosiectau gwirfoddoli yn y Parc Cenedlaethol.</p>	<p>System reoli gwirfoddolwyr newydd ewdei ei sefydlu. System reoli gwirfoddoli yn cael ei ddefnyddio i fesur ac adrodd ar ddangosyddion perfformiad</p>	<p>Adroddiad o feddalwedd Better Impact a system Sign Up</p>	<p>Swyddog Gwirfoddoli a Lles</p>	<p>Parhau i ddefnyddio'r feddalwedd Rheoli Gwirfoddoli</p>	<p>Parhaodd y Wardeiniaid Gwirfoddol i ddefnyddio SignUp yn 2022. Roedd pob digwyddiad gwirfoddoli arall yn cael ei gydlynu drwy Better Impact.</p>	<p>Wardeinaid Gwirfoddol yn cyfuno i ddefnyddio Better Impact yn 2023.</p>

5 – Beth sydd i ddod yn 2023

- Wardeiniaid Gwirfoddol yn cyfuno i ddefnyddio Better Impact
- Caru Eryri yn dechrau'r tymor gyda Gwanwyn Glân Cymru ac yn gorffen yn gyda'r real 3 Peaks Challenge.
- Gwaith cadwraeth ar draws y Parc Cenedlaethol gyda Chymdeithas Eryri.
- Cefnogi Cwmni Nod Glas i sefydlu grŵp gwirfoddoli yn Ninas Mawddwy.
- Teithiau Cerdded Meddylgarwch ar y dydd Sadwrn cyntaf o bob mis.
- Yoga awyr agored 2 waith y mis yn ystod yr haf.
- Ysgol Goedwig yn ystod gwyliau ysgol.
- Sesiynau Coed Actif gyda Coed Lleol yng nghoedwigoedd y Parc Cenedlaethol.
- Cerdded a Gwehyddu
- Taith y mis gyda Warden
- Sesiynau gwirfoddoli misol gyda grwpiau ieuenctid Gwynedd
- Teithiau cerdded misol gyda Pobl i Bobl

Teithiau Cerdded Meddwlgarwch Guided Mindful Walks

Ymunwch gyda ni ar ein teithiau cerdded meddwlgarwch o gwmpas Parc Cenedlaethol Eryri gyda'r arweinydd Davy Greenough. Wrth fwynhau taith gerdded gymhedrol, byddwn yn cerdded fel grŵp gan fwynhau'r amgylchedd naturiol a bydd amser am seibiant rheolaidd gyda chyfnodau myfyrdod byr.

Join our guided mindful walk around Snowdonia National Park with qualified guide Davy Greenough. Enjoying a moderate walk, we walk as a group enjoying the natural environment and there will be regular stops with short, guided meditations along the way.



Archebwch i
drwy sganio'r QR
To book your
place scan the QR

Dydd Sadwrn
cyntaf pob mis
First Saturday of
every month



AWDURDDO PARC CENEDLAETHOL ERYRI
ERYRI NATIONAL PARK AUTHORITY

eryri.llyw.cymru


Ymunwch â ni y tymor hwn i
BLANNU COED
ym Mharc Cenedlaethol Eryri

Join us this season to
PLANT TREES
in Eryri National Park



COFRESTRWCH HEDDIW / SIGN UP TODAY







Mae Awdurdod Parc Cenedlaethol yn eich gwahodd i

Gerdded a Gwehyddu

The Eryri National Park Authority invites you to

Walking and Weaving

AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
ERYRI NATIONAL PARK AUTHORITY

eryri.llyw.cymru

Taith Gerdded y Mis gyda Warden Warden's Walk of the Month



Ionawr 28 / January 28
De / South

Chwefror 11 / February 11
Gogledd / North

Mawrth 18 / March 18
De / South

Ebrill 14 / April 14
Gogledd / North

Mai 20 / May 20
De / South

Mehefin 7 / June 7
Gogledd / North

Gorffennaf 21 / July 21
De / South

Awst 9 / August 9
Gogledd / North

Medi 16 / September 16
De / South

Hydref 21 / October 21
Gogledd / North

Tachwedd / November 16
De / South

Rhagfyr 2 / December 2
Gogledd / North



Archebwch eich lle ar ein wefan
Reserve your place on our website



AWDURDOD PARC CENEDLAETHOL ERYRI
ERYRI NATIONAL PARK AUTHORITY

eryri.llyw.cymru



YMUNWCH Â'R TÎM

i helpu warchod
Eryri haf yma

JOIN THE TEAM

to help care for
Snowdonia this summer

- Diwrnodau hel sbwriel cyson pob Dydd Gwener, Sadwrn a Sul
- Gwaith cynnal a chadw llwybro
- Arolygon sbwriel
- Hyfforddiant awyr agored gyda Mike Raine
- Teithiau cerdded gyda arweinydd mynydd
- Regular litter picks every Friday, Saturday and Sunday
- Footpath maintenance days
- Litter surveys
- Outdoor training with Mike Raine
- Mountain walks with mountain leaders

COFRESTRWCH HEDDIW / SIGN UP TODAY



YMUNWCH A'R TÎM

I HELPU I OFALU AM LWYBRAU
CERDDED DINAS MAWDDWY

JOIN THE TEAM

TO HELP CARE FOR FOOTPATHS
AT DINAS MAWDDWY



- Diwrnodau gwirfoddoli Cadwraeth a chynnal a chadw llwybrau
- Cyfarfod ffrindiau newydd, ymarfer corff a boddhad o wybod eich bod yn gwneud rhywbeth i helpu.
- Footpath Maintenance and Conservation volunteer days
- Meeting new friends, exercise and the satisfaction of knowing that you're doing something to help.

COFRESTRWCH HEDDIW / SIGN UP TODAY




Ioga Awyr Agored Outdoor Yoga



Ymunwch â ni ar draeth Harlech a Llyn Mair, am sesiwn 2 awr yoga gyda Tracey Jocelyn. Bydd y sesiwn yma'n addas ar gyfer dechreuwyr a rhai mwy profiadol. Os yw'r tywydd yn braf, beth am orffen y sesiwn wrth nofio?

Join us on the beautifully scenic Harlech Beach and Llyn Mair, for a 2 hour yoga session with Tracey Jocelyn. This session is suitable for beginners and experienced yogis alike. If the weather is fine, why not follow it with a swim?

Mawrth / Tuesday - 06/06/23 - Llyn Mair	 <p>Am ragor o wybodaeth sgwrielwch y côd QR gyda chamera eich ffôn clyfar. For more information scan the QR code with your smartphone camera.</p>
Dydd Sul / Sunday - 25/06/23 - Traeth Harlech Beach	
Dydd Mawrth / Tuesday - 04/07/23 - Traeth Harlech Beach	
Dydd Sul / Sunday - 30/07/23 - Llyn Mair	
Dydd Mawrth / Tuesday - 08/08/23 - Llyn Mair	
Dydd Sul / Sunday - 27/08/23 - Traeth Harlech Beach	

Bydd y sesiynau yn dechrau am 10:00 ac yn gorffen am 12:00
The sessions will start at 10:00 and finish at 12:00



eryri.llyw.cymru

**UN BAG
GWAHANIAETH
MAWR**

**ONE BAG
BIG
DIFFERENCE**

#GwanwynGlânCymru
#SpringCleanCymru



caru
cymru

Ymunwch â Gwanwyn Glân Cymru
17 Mawrth - 2 Ebrill 2023
Join Spring Clean Cymru
17 March - 2 April 2023

Gwanwyn Glân Cymru Spring Clean Cymru

Ymunwch ag ymgyrch Gwanwyn Glân Cymru wrth i ni reoli sbwriel a darparu gwybodaeth ac arweiniad i ymwelwyr.

Join the Spring Clean Cymru campaign as we manage litter levels and provide information and guidance to visitors.

Y bwriad yw casglu sbwriel oddi ar Yr Wyddfa cyn i'r tymor prysur ddechrau. Gan gerdded 4 o'r llwybrau byddwn yn anelu i gyrraedd y copa ar y diwrnod hwn!

The aim is to collect litter off Yr Wyddfa before the busy season starts. Patrolling 4 of the main routes we will be aiming to reach the summit on this day!



Dyddiad / Date:
02/04/2023
Hyd / Duration:
9:00 - 16:00

Lefel ffitrwydd: **Heriol**
Fitness level: **Demanding**



eryri.llyw.cymru



**BWRDD RHEOLI PLAS TAN Y BWLCH
DYDD MERCHER 22 MAWRTH 2023**

	<p><u>Yn bresennol:</u></p> <p>Aelodau: Ms. Tracey Evans Mr. Tim Jones (Cadeirydd) Cyng. Meryl Roberts Mr. Emyr Williams Mr. Iwan Jones</p> <p>Yn bresennol: Cyng. Annwen Hughes (ex-officio) Cyng. Edgar Owen (ex-officio)</p> <p>Swyddogion: Mr. Dafydd Edwards, Ms. Nia Murray, Mr. David Williams, Mrs. Anwen Gaffey.</p> <p>Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod y cyfarfod yn cael ei gofnodi i gynorthwyo i wirio'r cofnodion.</p>
1.	<p>Ymddiheuriadau</p> <p>Ms. Zara Roberts</p>
2.	<p>Datgan Budd</p> <p>Ni ddatganwyd unrhyw Fudd Personol mewn perthynas ag unrhyw eitem.</p>
3.	<p>Cofnodion</p> <p>Derbyniwyd Cofnodion cyfarfod Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch a gynhaliwyd ar y 8 Chwefror 2023, ac arwyddodd y Cadeirydd hwy fel cofnod cywir.</p> <p>Mewn ymateb i gwestiwn, cadarnhaodd swyddogion fod Red Bull bellach wedi setlo gyda'r Awdurdod. Yn codi wedi hynny, rhoddwyd manylion y camymddwyn i'r Aelodau a dywedodd y Prif Weithredwr ei fod wedi hysbysu Red Bull bod y wasg wedi sylwi ar y digwyddiad.</p>
4.	<p>Ystyried y datblygiadau diweddaraf o ran diddordeb Hochtief mewn defnyddio rhai o gyfleusterau Plas Tan y Bwlch</p> <p>Cyflwynwyd - Cyflwynodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol yr adroddiad i'w ystyried fel rhan o'r argymhelliad cyffredinol i'r Awdurdod ar ddyfodol Plas Tan y Bwlch.</p> <p>Adroddwyd - Dywedodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol fod Hochtief wedi cadarnhau na fyddent yn bwrw ymlaen ag adnewyddu'r Anecs ond roedd ganddynt ddiddordeb o hyd mewn cadw 11 ystafell ar sail gwely a brecwast ar gyfradd o £65-00 y</p>

	<p>person (o ddydd Llun i Ddydd Gwener). Byddai hyn ar ffurf bloc-archeb yn y prif dŷ rhwng Mehefin a Hydref. Dywedodd Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Corfforaethol fod Plas Tan y Bwlch eisoes yn brysur am dair o'r wythnosau yn ystod mis Mehefin, am un wythnos ym mis Gorffennaf ac un wythnos ym mis Medi, ac er mwyn bodloni gofynion Hochtief, byddai'n rhaid i Blas Tan y Bwlch ganslo un busnes arall yn ystod y cyfnod hwn.</p> <p>PENDERFYNWYD</p> <p>1. gofyn i'r Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ddiolch i Hochtief am eu diddordeb a chynghori nad oedd yr Awdurdod yn gallu gwella ar ei gynnig presennol.</p> <p>2. cynghori y byddai Plas Tan y Bwlch yn hapus i weithio gyda Hochtief yn ystod adegau pan fo ystafelloedd ar gael.</p>
5.	<p>Safle / Adeiladu Opsiynau'r Dyfodol</p>
	<p>Cyflwynwyd – Cyflwynodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo ei adroddiad a oedd yn amlinellu'r prif opsiynau mewn perthynas â dyfodol yr adeilad a'r safle o'i amgylch.</p> <p>Adroddwyd – Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaeth Eiddo gefndir i'r Aelodau a'r opsiynau ar gyfer cynnal a chadw'r adeilad yn y tymor byr ac ystyriaethau ar gyfer ei ddyfodol tymor hir.</p> <p>Yn codi wedi hynny, trafododd yr Aelodau a'r swyddogion y canlynol yn fanwl:-</p> <ul style="list-style-type: none"> - amcangyfrif o gost net cynnal a chadw'r adeilad (fel yr amlinellwyd ym mharagraff 2.5 yr adroddiad). - yr ardrethi busnes presennol ac opsiynau ar gyfer y dyfodol. Nododd yr aelodau y gallai cost cynnal a chadw'r adeilad godi ym mlwyddyn dau heb fantais rhyddhad ardrethi busnes. - bydd cost bresennol cynnal a chadw Plas Tan y Bwlch yn cynyddu ymhellach yn 2023/24 oherwydd y cynnydd yng nghost cyfleustodau, y cynnydd mewn prisiau bwyd / cynnyrch, setliad cyflog ac ati. - roedd dau dendr ar gyfer ailadeiladu'r bwtres a'r parapet bellach dan ystyriaeth gyda gwahaniaeth amlwg rhwng y prisiau. Roedd y Rheolwr Eiddo ar hyn o bryd yn aros am gadarnhad bod arian wrth gefn wedi'i gynnwys yn y dyfynbris isaf. Dywedwyd wrth yr Aelodau y byddai angen gwneud y gwaith adfer diogelwch yr adeilad, waeth sut fydd yr Awdurdod yn penderfynu symud ymlaen, a chan fod Plas Tan y Bwlch yn Adeilad Rhestredig Gradd II*, bydd angen caniatâd adeilad rhestredig i adnewyddu'r gwaith carreg ar ben y parapet. Cadarnhaodd y Rheolwr Eiddo y byddai gwarged incwm meysydd parcio ar gael i ailgyflenwi'r Gronfa Rheoli Asedau Wrth Gefn. - mewn ymateb i gwestiwn, dywedodd y Rheolwr Eiddo fod yr adroddiad cyflwr wedi amcangyfrif y gost o gynnal a chadw'r tŷ a'r eiddo sy'n cwmpasu'r adeilad dros y 10 mlynedd nesaf. Seiliwyd yr amcangyfrif ar ffigurau oedd bellach bron yn ddwy flwydd oed ac nid oedd yn cynnwys y gost o osod lifft newydd, uwchraddio'r system wresogi, ac ail-wynebu'r ffin a ffyrdd mynediad (para. 4.3 yr adroddiad). Cadarnhaodd y Rheolwr Eiddo fod gan berchnogion y cabanau lesau hir iawn, a bod yr Awdurdod yn parhau i fod yn gyfrifol am y dreifiau a'r tir o amgylch y cabanau gwyliau. Roedd y gost ychwanegol hefyd i osod seiffon yn Llyn Mair, a oedd yn cael ei hystyried yn gronfa ddŵr risg uchel oherwydd y risg seilwaith i'r A487 (para. 4.4 yr adroddiad). - dywedodd y Prif Weithredwr y dylid dilyn canllawiau clir heddiw ac yng ngoleuni yr her chwyddiannol sy'n wynebu'r Awdurdod ar hyn o bryd, y dyfodol hirdymor Plas Tan y Bwlch yn cael ei gynnwys fel rhan o'r penderfyniadau anodd niferus

	<p>y bydd yn rhaid i'r Awdurdod eu gwneud.</p> <ul style="list-style-type: none"> - Cytunodd yr Aelodau fod angen mwy o wybodaeth, ar ffurf adroddiad opsiynau gyda chostau, cyn y gallai'r Bwrdd Rheoli gyflwyno unrhyw argymhellion ar ddyfodol hirdymor Plas Tan y Bwlch i'r Awdurdod. Dylid cynnwys hefyd opsiynau ar gyfer cynnal cyflwr mewnol y tŷ a lleihau dirywiad pellach, megis parhau i alw cyfarfodydd yr Awdurdod ym Mhlas Tan y Bwlch. - Cytunodd yr Aelodau fel rhan o'r asesiad bod angen ateb pam y dylai'r Awdurdod barhau i reoli'r ased, a hefyd gwerthuso a oedd gweithgareddau presennol Plas Tan y Bwlch yn cyflawni pwrpasau'r Parc Cenedlaethol. - argymhellodd y Prif Swyddog Cyllid y dylid cadw tystiolaeth ar ffurf papur o'r broses er mwyn cofnodi sut mae'r Bwrdd yn dod i'w gasgliad. <p>PENDERFYNWYD</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. galw cyfarfod pellach o Fwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch pan fyddai swyddogion yn barod i gyflwyno eu hadroddiad ar opsiynau ar gyfer y dyfodol. 2. trefnu cyfarfod arbennig o'r Awdurdod ym mis Mai 2023 i ystyried argymhellion Bwrdd Rheoli Plas Tan y Bwlch ar ddyfodol tymor hir Plas Tan y Bwlch.
--	---

Daeth y cyfarfod i ben am 12.55